# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 10 Hydref 2012**
**Wednesday, 10 October 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

25 Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

48 Pwynt o Drefn
Point of Order

48 Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Lygredd ym Mornant Porth Tywyn
The Petitions Committee's Report on Pollution of the Burry Inlet

65 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Economi
Welsh Conservatives Debate: The Economy

95 Dadl Plaid Cymru: Rheilffyrdd
Plaid Cymru Debate: Railways

120 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

139 Dadl Fer:Yr Achos dros Gadw'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru
Short Debate: The Case for Retaining the Agricultural Wages Board in Wales


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
## Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

### Polisi Caffael

### Procurement Policy

***1. Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi caffael Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0163(FIN)*

***1. Gwyn R. Price:*** *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's procurement policy. OAQ(4)0163(FIN)*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** Our policy is to maximise the value of the £4.3 billion-worth of annual procurement expenditure across Wales. I have welcomed the recommendations of the McClelland review and I will publish my procurement policy statement this autumn.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Ein polisi yw gwneud y mwyaf o werth y £4.3 biliwn o wariant caffael blynyddol ledled Cymru. Rwyf wedi croesawu argymhellion adolygiad McClelland a byddaf yn cyhoeddi fy natganiad polisi caffael yn yr hydref.

**Gwyn R. Price:** The Home-grown Talent programme, which trains people for a career in procurement, is a fantastic initiative. What plans do you have to extend that programme?

**Gwyn R. Price:** Mae'r rhaglen Defnyddio Doniau Cymru, sy'n hyfforddi pobl ar gyfer gyrfa ym myd caffael, yn fenter wych. Pa gynlluniau sydd gennych i ymestyn y rhaglen?

**Jane Hutt:** This is an important programme, which was highly recommended in the McClelland report. We have secured funding from the European social fund to recruit and train 22 young people over a three-year period, but we are also supporting a further 33 people to be professionally trained and have provided more than 265 places on training courses over the summer months.

**Jane Hutt:** Mae hon yn rhaglen bwysig, a chafodd gymeradwyaeth hael yn adroddiad McClelland. Rydym wedi sicrhau arian gan gronfa gymdeithasol Ewrop i recriwtio a hyfforddi 22 o bobl ifanc dros gyfnod o dair blynedd, ond rydym hefyd yn cefnogi 33 o bobl eraill i gael hyfforddiant proffesiynol ac wedi darparu mwy na 265 o leoedd ar gyrsiau hyfforddiant dros fisoedd yr haf.

**Paul Davies:** A recommendation by the Federation of Small Businesses following one of its surveys is to promote streamlined and standardised pre-qualification questionnaires with further effort made to ensure that simplified processes are in place for smaller procurements below EU thresholds. That would increase the uptake of the supplier qualification information database. Could the Minister tell us what steps the Welsh Government is currently taking to increase the uptake of the supplier qualification information database among

**Paul Davies:** Argymhelliad gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn dilyn un o'i arolygon yw hyrwyddo holiaduron cyn-gymhwyso syml a safonol gydag ymdrech bellach i sicrhau bod prosesau symlach ar waith ar gyfer caffael llai sydd o dan drothwyon yr UE. Byddai hynny'n cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym ba gamau y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n eu cymryd i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau

Wales's 64 public sector buying organisations?

cyflenwyr ymysg y 64 sefydliad sy'n prynu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I thank the Welsh Conservatives' finance spokesperson for that question. The actions called for by the FSB form part of our Welsh Government work. That includes work on SQuID and fair payment in construction contracts, and the measurement of outcomes are being addressed. Furthermore, it is important to note that the FSB is part of our economic impact group, which is now looking at the national procurement service project.

**Jane Hutt:** Diolch i lefarydd cyllid y Ceidwadwyr Cymreig am y cwestiwn hwnnw. Mae'r camau gweithredu y gelwir amdanynt gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn rhan o waith Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwaith ar SQuID a thâl teg mewn contractau adeiladu, ac rydym yn mynd i'r afael â mesur canlyniadau. Ar ben hynny, mae'n bwysig nodi bod y Ffederasiwn Busnesau Bach yn rhan o'n grŵp effaith economaidd, sydd wrthi'n edrych ar y prosiect gwasanaeth caffael cenedlaethol.

**Paul Davies:** I am grateful to the Minister for that answer. As a member of the cross-party group on construction, I have heard how bidding for public procurement contracts can be burdensome and costly for many small businesses and that larger companies have greater resources to bid for contracts, resources that small and medium-sized enterprises lack. Could you tell us whether the Welsh Government is looking at a mandatory adoption of a supplier qualification information database or a similar system across the Welsh public sector, which would remove this inconsistency, as called for by ConstructionSkills Wales?

**Paul Davies:** Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Fel aelod o'r grŵp trawsbleidiol ar adeiladu, rwyf wedi clywed sut y gall gwneud cais am gontractau caffael cyhoeddus fod yn feichus a chostus i lawer o fusnesau bach a bod gan gwmnïau mwy o faint fwy o adnoddau i gynnig am gontractau, adnoddau nad oes gan fentrau bach a chanolig eu maint. A allwch ddweud wrthym a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr neu system debyg yn orfodol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, a fyddai'n dileu'r anghysondeb hwn, fel y gofynnodd Sgiliau Adeiladu Cymru amdano?

**Jane Hutt:** As you know, we welcomed all of the findings of the McClelland review and, in terms of embracing key commitments, the programme for Government's commitment to community benefits and the use of SQuID forms a part of our consideration of the procurement policy statement that I will make in a few weeks' time.

**Jane Hutt:** Fel y gwyddoch, croesawom holl ganfyddiadau adolygiad McClelland, ac, o ran croesawu'r prif ymrwymiadau, mae ymrwymiad y rhaglen lywodraethu i fuddion cymunedol a'r defnydd o SQuID yn ffurfio rhan o'r broses o ystyried y datganiad polisi caffael y byddaf yn ei wneud ymhen ychydig wythnosau.

It is important to recognise that we have worked closely with the construction sector and have held a number of events, most recently in north Wales, where we had a positive response from SMEs attending and engaging in our policy procurement discussions.

Mae'n bwysig cydnabod ein bod wedi gweithio'n agos gyda'r sector adeiladu ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau, yn fwyaf diweddar yng ngogledd Cymru, lle y cawsom ymateb cadarnhaol gan fusnesau bach a chanolig yn mynychu ac yn cymryd rhan yn ein trafodaethau polisi caffael.

**Leanne Wood:** It is positive to see procurement policy being given such a priority by all parties in the Chamber. Using our purchasing power to boost the economy has been part of Plaid Cymru's agenda for

**Leanne Wood:** Mae'n gadarnhaol gweld polisi caffael yn cael gymaint o flaenoriaeth gan bob plaid yn y Siambr. Mae defnyddio ein pŵer prynu i roi hwb i'r economi wedi bod ar agenda Plaid Cymru ers degawdau.

many decades.

One of the McClelland recommendations is to review the mission and structure of Value Wales in order to align that with the need for policy implementation. In your answer to a previous question, you said that you welcome all the recommendations of the McClelland review. Can you tell us whether you will be delivering on that specific recommendation?

Un o argymhellion McClelland yw adolygu cenhadaeth a strwythur Gwerth Cymru er mwyn alinio hynny gyda'r angen am weithredu polisi. Yn eich ateb i'r cwestiwn blaenorol, dywedoch eich bod yn croesawu holl argymhellion adolygiad McClelland. Allwch ddweud wrthym a fyddwch yn gweithredu'r argymhelliad penodol hwnnw?

**Jane Hutt:** I have indicated that I will shortly publish a procurement policy statement that will reflect the McClelland policy review. However, as you will see from his review, John McClelland focuses and comments on the outstanding work of Value Wales, as well as the work that the Welsh Government has taken forward over the past six years to improve procurement outcomes across the public sector in Wales.

**Jane Hutt:** Rwyf wedi nodi y byddaf yn cyhoeddi datganiad polisi caffael yn fuan a fydd yn adlewyrchu adolygiad polisi McClelland. Fodd bynnag, fel y gwelwch o'i adolygiad, mae John McClelland yn canolbwyntio, ac yn rhoi sylwadau ar, waith rhagorol Gwerth Cymru, yn ogystal â gwaith Llywodraeth Cymru sydd wedi mynd rhagddo dros y chwe blynedd diwethaf i wella canlyniadau caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Hybu Cydraddoldeb

## Promoting Equalities

***2. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer hybu cydraddoldeb yng Nghymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0158(FIN)*

***2. Mohammad Asghar:*** *Will the Minister outline her priorities for promoting equalities in Wales over the next six months. OAQ(4)0158(FIN)*

***5. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer cydraddoldeb dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0157(FIN)*

***5. Rebecca Evans:*** *Will the Minister outline her priorities for equalities over the next six months. OAQ(4)0157(FIN)*

**Jane Hutt:** Our equality priorities are set out in chapter 8 of the programme for government. In April this year, I launched the strategic equality plan, which will help us to deliver a positive difference to the people of Wales.

**Jane Hutt:** Mae ein blaenoriaethau cydraddoldeb wedi'u nodi ym mhennod 8 o'r rhaglen lywodraethu. Ym mis Ebrill eleni, lansiais y cynllun cydraddoldeb strategol, a fydd yn ein helpu i sicrhau gwahaniaeth cadarnhaol i bobl Cymru.

**Mohammad Asghar:** Age Cymru has highlighted the vital role that independent advocacy services play in supporting people who have been, or are being, abused. Older people in Wales need the support that independent advocates provide, to ensure that their voices are heard in the social care system. According to Age Cymru research, there is only one paid advocate per 17,000 older people in Wales. Will the Minister give a firm commitment to supporting and developing advocacy services for older people in Wales?

**Mohammad Asghar:** Mae Age Cymru wedi tynnu sylw at y rôl hanfodol y mae gwasanaethau eirioli annibynnol yn ei chwarae o ran cefnogi pobl sydd wedi cael, neu yn cael, eu cam-drin. Mae pobl hŷn yng Nghymru angen y cymorth y mae eiriolwyr annibynnol yn ei ddarparu, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y system gofal cymdeithasol. Yn ôl ymchwil Age Cymru, dim ond un eiriolwr cyflogedig sydd i bob 17,000 o bobl hŷn yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog roi ymrwymiad cadarn i gefnogi a datblygu gwasanaethau eirioli ar

gyfer pobl hŷn yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I thank Mohammad Asghar for that question. We work closely with Age Cymru, and it is feeding into not only the social services Bill, which addresses issues of advocacy, but our strategic equality plan.

**Jane Hutt:** Diolch i Mohammad Asghar am y cwestiwn hwnnw. Rydym yn gweithio'n agos gydag Age Cymru, ac mae hynny'n cyfrannu at y Bil gwasanaethau cymdeithasol, sy'n mynd i'r afael ag eiriolaeth, yn ogystal â'n cynllun cydraddoldeb strategol.

**Rebecca Evans:** Yesterday, the First Minister said that this Government's greatest achievement to date was Jobs Growth Wales. How are you ensuring that disabled young people benefit from this flagship scheme?

**Rebecca Evans:** Ddoe, dywedodd y Prif Weinidog mai camp fwyaf y Llywodraeth hyd yma oedd Twf Swyddi Cymru. Sut ydych yn sicrhau bod pobl ifanc anabl yn elwa ar y cynllun blaenllaw hwn?

**Jane Hutt:** This is an important opportunity to update Members on this scheme. I thank Rebecca Evans for her question on the work that we are doing through Jobs Growth Wales. Indeed, 500 of the 4,000 opportunities that are being created each year are targeted at people who need additional support to help them into employment. That includes appropriate help for disabled people, among others.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn gyfle pwysig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y cynllun. Diolch i Rebecca Evans am ei chwestiwn ar ein gwaith gyda Thwf Swyddi Cymru. Yn wir, mae 500 o'r 4,000 o gyfleoedd sy'n cael eu creu bob blwyddyn wedi'u targedu at bobl sydd angen cymorth ychwanegol i'w helpu i gael gwaith. Mae hynny'n cynnwys cymorth priodol ar gyfer pobl anabl, ymhlith eraill.

**Lindsay Whittle:** The Party of Wales believes that every family, from all walks of life, should be able to experience the full range of cultural activities that Wales has to offer, and boy do we have a lot to offer. Can you please ensure that every Government-revenue-funded arts organisation in Wales has a scheme to ensure access to cultural activities for all low-income families in Wales?

**Lindsay Whittle:** Mae Plaid Cymru'n credu y dylai pob teulu, o bob cefndir, allu profi'r ystod lawn o weithgareddau diwylliannol sydd gan Gymru i'w gynnig, ac mae gennym lawer iawn i'w gynnig. A allwch chi sicrhau bod gan bob sefydliad celfyddydau sy'n derbyn cyllid refeniw gan y Llywodraeth yng Nghymru gynllun i sicrhau mynediad at weithgareddau diwylliannol i'r holl deuluoedd incwm isel yng Nghymru?

**Jane Hutt:** That is a matter for the Minister for Housing, Regeneration and Heritage. However, like all Ministers, he has engaged in an equality impact assessment of his budget, which addresses those important issues in terms of cultural access across Wales, particularly for our more disadvantaged communities and areas.

**Jane Hutt:** Mae hynny'n fater i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth. Fodd bynnag, fel pob Gweinidog, mae wedi gwneud asesiad effaith cydraddoldeb o'i gyllideb, sy'n delio â'r materion pwysig o ran mynediad diwylliannol ledled Cymru, yn enwedig ar gyfer ein cymunedau ac ardaloedd mwy difreintiedig.

**Aled Roberts:** I am sure that you will acknowledge, Minister, that many reports have outlined that deaf children are adversely affected as far as attainment is concerned by poor acoustics in schools. I acknowledge that the Government has made it a condition of the twenty-first century schools programme that pre-completion acoustic testing is

**Aled Roberts:** Rwy'n siŵr y byddwch yn cydnabod, Weinidog, bod llawer o adroddiadau wedi nodi bod acwsteg wael mewn ysgolion yn cael effaith andwyol ar gyrhaeddiad plant byddar. Rwy'n cydnabod bod y Llywodraeth wedi gwneud profion acwsteg yn amod ar gyfer y rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, mae

outlined. However, I have evidence that suggests that councils are still not undertaking those tests in many instances. Are you able to make it a condition of the final release of the grant that pre-completion testing is seen by officials?

gennyf dystiolaeth sy'n awgrymu bod cynghorau yn dal i beidio â chynnal y profion hynny mewn llawer o achosion. A allwch greu amod ar gyfer rhyddhau'r grant terfynol bod swyddogion yn gweld y profion cyn cwblhau?

**Jane Hutt:** This is an important issue. I share the Minister for Education and Skills' determination to ensure that those pre-conditions, in terms of improving and having the best-quality acoustics in schools, are addressed. I will discuss with him the opportunities to enforce that.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn fater pwysig. Cytunaf â phenderfyniad y Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod y cyn-amodau hynny, o ran gwella a chael yr acwsteg o ansawdd orau mewn ysgolion, yn cael sylw. Byddaf yn trafod gydag ef y cyfleoedd i orfodi hynny.

**Janet Finch-Saunders:** Chwarae Teg has expressed concerns at the severe lack of gender-disaggregated data that is available in key policy areas, such as business, skills and transport. This in turn inhibits analysis of the impact of Welsh Government decisions on women, and blocks the ability of the Government to ensure proper gender mainstreaming in all policy areas. How are you working to address this data deficit, and what will you do to improve gender-disaggregated data collection in these areas?

**Janet Finch-Saunders:** Mae Chwarae Teg wedi mynegi pryderon am y diffyg difrifol o ddata sydd wedi'u dadgyfuno ar sail rhyw sydd ar gael mewn meysydd polisi allweddol, fel busnes, sgiliau a thrafnidiaeth. Mae hyn, yn ei dro, yn llesteirio dadansoddi effaith penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar fenywod, ac yn rhwystro'r Llywodraeth rhag sicrhau bod rhywedd yn cael ei brif ffrydio'n briodol ym mhob maes polisi. Sut ydych yn gweithio i fynd i'r afael â'r diffyg data hwn, a beth fyddwch yn ei wneud i wella casglu data sydd wedi'u dadgyfuno ar sail rhyw yn y meysydd hyn?

**Jane Hutt:** I am aware that Janet Finch-Saunders is a member of the Communities, Equality and Local Government Committee, where I was scrutinised this morning about the equality impact assessment. I clearly showed at that meeting the data sources for the evidence that we have in terms of gender statistics, which inform our budget making, and I am grateful to Chwarae Teg for raising this issue, as it is key to ensuring that we address equality and gender issues, particularly in terms of our budgetary arrangements.

**Jane Hutt:** Rwy'n ymwybodol bod Janet Finch-Saunders yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, a fu'n craffu ar fy ngwaith y bore yma am yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Dangosais yn glir yn y cyfarfod hwnnw'r ffynonellau data sydd gennym fel tystiolaeth o ran ystadegau rhyw, sy'n ein llywio wrth lunio'r gyllideb, ac rwy'n ddiolchgar i Chwarae Teg am godi'r mater hwn, gan ei fod yn allweddol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a rhyw, yn enwedig o ran ein trefniadau cyllidebol.

**Christine Chapman:** Minister, many women in Wales are still unaware of the opportunities to serve on public bodies and current figures show that women make up just 36% of public appointments. Unfortunately, there continues to be the perception that boards and trusts are closed shops or politically biased, and I very much welcome the Presiding Officer's series of events on women in public life, which I know

**Christine Chapman:** Weinidog, mae llawer o fenywod yng Nghymru yn dal i beidio â bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd i wasanaethu ar gyrff cyhoeddus ac mae ffigurau cyfredol yn dangos bod menywod ond yn cyfrif am 36% o benodiadau cyhoeddus. Yn anffodus, mae'r canfyddiad bod byrddau ac ymddiriedolaethau yn sefydliadau caeedig neu â thuedd wleidyddol yn parhau, ac rwy'n croesawu'n fawr iawn

are discussing ways in which some of these barriers can be broken down. What assurances can you give that the Welsh Government will continue to back efforts to increase female participation in public bodies?

gyfres y Llywydd o ddigwyddiadau ar fenywod mewn bywyd cyhoeddus. Gwn eu bod yn trafod sut y gellir dileu rhai o'r rhwystrau hyn. Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ymdrechion i gynyddu cyfranogiad merched mewn cyrff cyhoeddus?

**Jane Hutt:** This is a key commitment in the programme for government, as the Member for Cynon Valley is aware, in terms of our equality objectives, and I have recently written to all Ministers to draw their attention to work that is taking place across the Welsh Government to identify and increase the number of women's appointments to public bodies in Wales. I also look forward to taking part in a conference that the Presiding Officer is organising on this issue in November. We are looking particularly at the positive work undertaken by Sport Wales in terms of its recent appointments process, which has dramatically increased the number of women appointed to its board.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn ymrwymiad allweddol yn y rhaglen lywodraethu, fel y gŵyr yr Aelod dros Gwm Cynon, o ran ein hamcanion cydraddoldeb, ac rwyf wedi ysgrifennu yn ddiweddar at yr holl Weinidogion i dynnu eu sylw at waith sy'n digwydd ar draws Llywodraeth Cymru i nodi a chynyddu nifer y menywod sy'n cael eu penodi i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn cynhadledd sy'n cael ei threfnu gan y Llywydd ym mis Tachwedd. Rydym yn edrych yn benodol ar waith cadarnhaol Chwaraeon Cymru o ran ei broses penodiadau diweddar, sydd wedi cynyddu'n sylweddol y nifer o ferched sydd wedi'u penodi ar ei fwrdd.

**Bethan Jenkins:** Minister, you will remember when I questioned you on 21 March this year on how the performance of the equality, diversity and inclusion unit is assessed, that you stressed that there was no practical link between that unit and the former equality policy unit. If that is the case, and if there is no link, as you told this Chamber, can you explain why your Government is refusing to release documents on this unit to my office on the grounds that it would impact on the auditor general's report into the Welsh Government's handling of the All Wales Ethnic Minority Association? Is this new unit also under investigation?

**Bethan Jenkins:** Weinidog, byddwch yn cofio i mi eich holi ar 21 Mawrth eleni sut mae perfformiad yr uned cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei asesu, ac fe wnaethoch bwysleisio nad oedd unrhyw gyswllt ymarferol rhwng yr uned a'r uned polisi cydraddoldeb blaenorol. Os yw hynny'n wir, ac os nad oes cysylltiad, fel y dywedoch yn y Siambr, a allwch egluro pam mae eich Llywodraeth yn gwrthod rhyddhau dogfennau ar yr uned hon i fy swyddfa ar y sail y byddai'n effeithio ar adroddiad yr archwilydd cyffredinol i sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru ddelio â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan? A yw'r uned newydd hefyd yn cael ei hymchwilio?

**Jane Hutt:** It would not be appropriate to respond to that question. The Permanent Secretary may wish to deal with it. Certainly, in terms of the current role and delivery of the equality, diversity and inclusion unit, for which I am responsible, I believe that it is delivering to the expectations that I have as the Minister with responsibility for equalities.

**Jane Hutt:** Ni fyddai'n briodol i mi ymateb i'r cwestiwn hwnnw. Efallai bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn dymuno delio ag ef. Yn sicr, o ran rôl a darpariaeth bresennol yr uned cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yr wyf yn gyfrifol amdani, credaf ei bod yn darparu yn unol â'r disgwyliadau sydd gennyf fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb.

**Kenneth Skates:** Minister, a recent piece of research by Ernst and Young found that two

**Kenneth Skates:** Weinidog, mae ymchwil diweddar gan Ernst a Young wedi darganfod

thirds of working age women believe that they face multiple barriers in the workplace. The research identified four key barriers to career progression, including a lack of role models and experience. What efforts are you making to ensure that the Welsh Government policy tackles all the barriers holding back women in the workplace, and what steps are you taking to ensure that women are supported at every stage of their career?

fod dwy ran o dair o ferched oedran gweithio o'r farn eu bod yn wynebu rhwystrau lluosog yn y gweithle. Daeth yr ymchwil o hyd i bedwar prif rwystr i ddilyniant gyrfa, gan gynnwys diffyg esiampl a phrofiad. Pa ymdrechion ydych chi'n eu gwneud i sicrhau bod polisi Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r holl rwystrau sy'n dal menywod yn ôl yn y gweithle, a pha gamau ydych yn eu cymryd i sicrhau bod merched yn cael eu cefnogi ar bob cam o'u gyrfa?

**Jane Hutt:** I responded in part to this question earlier with regard to the important role we can play in promoting women to public appointments. With regard to women into employment, I pay tribute to the work of Chwarae Teg in this respect in promoting and advancing the role of women in the workforce. Clearly, it is part of our strategic equality plan to address some of the barriers, for example relating to childcare, and the doubling of Flying Start places in disadvantaged areas is a key part of that progress.

**Jane Hutt:** Ymatebais yn rhannol i'r cwestiwn hwn yn gynharach o ran y rôl bwysig y gallwn ei chwarae wrth hyrwyddo merched i benodiadau cyhoeddus. O ran menywod mewn cyflogaeth, talaf deyrnged i waith Chwarae Teg yn hyn o beth o ran hyrwyddo a chynyddu rôl menywod yn y gweithlu. Yn amlwg, mae'n rhan o'n cynllun cydraddoldeb strategol i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau, er enghraifft, yn ymwneud â gofal plant, ac mae dyblu nifer y llefydd yn Dechrau'n Deg mewn ardaloedd difreintiedig yn rhan allweddol o'r cynnydd hwnnw.

**Pwerau Bethyca**

**Borrowing Powers**

***3. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafodaethau Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU ynghylch pwerau benthyca. OAQ(4)0162(FIN)*

***3. Mick Antoniw:*** *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's discussions with the UK Government regarding borrowing powers. OAQ(4)0162(FIN)*

**Jane Hutt:** We believe that the Welsh Government should be able to borrow to fund capital investment. We have been making the case in our talks with the UK Government to enable these powers to be used effectively for the benefit of the economy.

**Jane Hutt:** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru allu benthyca i ariannu buddsoddiadau cyfalaf. Rydym wedi bod yn gwneud yr achos yn ein trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i alluogi defnyddio'r pwerau hyn yn effeithiol er budd yr economi.

**Mick Antoniw:** I have put on record my welcoming—as have others—of the hard work that has been done in this area in view of its importance. What is a matter of concern among backbenchers is that if we are given those borrowing powers, there must be a programme of implementation for the benefit of Wales, the creation of jobs and employment. Would you be able to make a statement on that?

**Mick Antoniw:** Rwyf wedi dweud ar goedd fy mod yn croesawu—fel y gwnaeth eraill—y gwaith caled sydd wedi cael ei wneud yn y maes hwn, o ystyried ei bwysigrwydd. Y pryder ymysg aelodau'r meinciau cefn yw, os cawn y pwerau benthyca, y bydd rhaid cael rhaglen weithredu er budd Cymru, ac i greu swyddi a chyflogaeth. A fyddech yn gallu gwneud datganiad am hynny?

**Jane Hutt:** I thank the Member for Pontypridd for that question. It is crucial that not only do we gain those borrowing powers,

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am y cwestiwn hwnnw. Mae'n hanfodol ein bod yn cael y pwerau benthyca hynny, ond

but that we are ready in terms of our intentions, particularly with the Wales infrastructure investment plan, to progress them in terms of economic projects because that will create jobs. My announcement last week of an additional £175 million will create 3,000 jobs, but we can progress that with plans for new roads, public transport, flood defences and information technology, as we progress with borrowing powers.

hefyd ein bod yn barod o ran ein bwriadau, yn enwedig gyda chynllun buddsoddi seilwaith Cymru, i'w symud ymlaen fel prosiectau economaidd, oherwydd bydd hynny'n creu swyddi. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais £175 miliwn ychwanegol a fydd yn creu 3,000 o swyddi, ond gallwn symud hynny ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer ffyrdd newydd, trafnidiaeth gyhoeddus, amddiffyn rhag llifogydd a thechnoleg gwybodaeth, wrth inni fwrw ymlaen â phwerau benthyca.

1.45 p.m.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** If borrowing powers were to come, there would be responsibility for repaying or servicing that borrowing; it is not an open-ended commitment. How confident are you, as Minister for Finance, that the Welsh Government will have the ability to use one side of the coin, namely to invest to develop the economy, as well as the other, to service and pay off some of that borrowing, going forward, with the financial settlements with which you have had to juggle over the years?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Os cawn bwerau benthyca, byddai cyfrifoldeb am ad-dalu neu wasanaethu'r benthyciadau; nid ymrwymiad penagored mohono. Pa mor hyderus ydych chi, fel y Gweinidog Cyllid, y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio un ochr o'r geiniog, sef buddsoddi i ddatblygu'r economi, yn ogystal â'r llall, sef gwasanaethu a thalu yn ôl rhywfaint o'r benthyciad, wrth fynd ymlaen, o gofio'r setliadau ariannol yr ydych wedi gorfod gweithio â hwy dros y blynyddoedd?

**Jane Hutt:** That is a very important question from the leader of the opposition. We recognise that the UK Government has a legitimate interest in being able to manage the fiscal position of the UK as a whole. This is about how we progress with discussions to ensure that we can borrow, in agreement with the UK Government. It will include issues around borrowing limits. The UK Government has set the Scottish Government an annual borrowing limit and we need to progress, as we are doing, with the UK Government, these issues carefully.

**Jane Hutt:** Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig iawn gan arweinydd yr wrthblaid. Rydym yn cydnabod bod gan Lywodraeth y DU fuddiant dilys o ran rheoli sefyllfa ariannol y DU yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn ymwneud â sut gallwn fwrw ymlaen gyda'r trafodaethau i sicrhau ein bod yn gallu benthyca, mewn cytundeb â Llywodraeth y DU. Bydd yn cynnwys materion yn ymwneud â therfynau benthyca. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod terfyn benthyca blynyddol i Lywodraeth yr Alban, ac mae angen inni symud ymlaen, fel yr ydym yn ei wneud, gyda Llywodraeth y DU, gyda'r materion hyn yn ofalus.

**Alun Ffred Jones:** Mae Plaid Cymru wedi pledio'r achos dros gael pwerau benthyg ers blynyddoedd, pan nad oedd llawer o frwdfrydedd ar y meinciau cyfagos. Os daw'r cytundeb, a fyddech yn cytuno bod yn rhaid i'r pwerau benthyg hynny fod ar lefel sy'n mynd i wneud gwahaniaeth, a bod angen hyblygrwydd o fewn y rheolau hynny i alluogi'r Llywodraeth i fenthyca o lle bynnag y mae'n fwyaf manteisiol i wneud hynny?

**Alun Ffred Jones:** Plaid Cymru has pleaded the case for borrowing powers for years, when there was not much enthusiasm on nearby benches. If agreement is reached, would you agree that those borrowing powers would have to be set at a level that would make a difference, and that there should be flexibility within the rules so as to enable the Government to borrow from wherever it is most beneficial to do so?

**Jane Hutt:** Indeed. Alun Ffred Jones knows that this is inevitably—and rightly—a matter for discussion with the UK Government. I have mentioned the case for ensuring that we have flexibility in terms of our annual borrowing limit, for example. The Holtham commission suggested an overall borrowing limit of around £2 billion, for example, in the second part of Gerry Holtham's review. Any limits or possible conditions on borrowing would be something that we would discuss with the UK Government, in terms of a constructive agreement. However, we need to look at the most appropriate sources of borrowing and we have had good, valuable advice from the Holtham commission on taking our discussions forward.

**Jane Hutt:** Yn wir. Gŵyr Alun Ffred Jones ei bod yn anochel ond yn gywir mai mater i'w drafod gyda Llywodraeth y DU yw hwn. Rwyf wedi sôn am yr achos dros sicrhau bod gennym hyblygrwydd o ran ein terfyn benthyca blynyddol, er enghraifft. Awgrymodd comisiwn Holtham derfyn benthyca cyffredinol o tua £2 biliwn, er enghraifft, yn ail ran o adolygiad Gerry Holtham. Byddai unrhyw gyfyngiadau neu amodau posibl ar fenthyca yn rhywbeth y byddem yn eu trafod gyda Llywodraeth y DU, o ran creu cytundeb adeiladol. Fodd bynnag, mae angen i ni edrych ar y ffynonellau mwyaf priodol o fenthyca ac rydym wedi cael cyngor da a gwerthfawr gan gomisiwn Holtham ar ddatblygu ein trafodaethau.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***4. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0160(FIN)*

***4. Paul Davies:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for the next twelve months. OAQ(4)0160(FIN)*

**Jane Hutt:** I reaffirmed the Government's priorities in the budget plans that I published last week. We are committed to supporting growth and jobs in Wales, safeguarding and improving front-line services.

**Jane Hutt:** Fe wnes ail-gadarnhau blaenoriaethau'r Llywodraeth yn y cynlluniau cyllideb a gyhoeddais yr wythnos ddiwethaf. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi twf a swyddi yng Nghymru, a diogelu a gwella gwasanaethau rheng flaen.

**Paul Davies:** I am sure that one of the Minister for Finance's priorities is to ensure that sufficient funds are invested in the delivery of broadband, which will improve the Welsh economy. Could the Minister confirm that the recent draft budget will commit to this and that funds will be prioritised towards the delivery of broadband in notspots rather than just to the delivery of superfast broadband?

**Paul Davies:** Rwy'n siŵr mai un o flaenoriaethu'r Gweinidog Cyllid yw sicrhau bod digon o arian yn cael ei fuddsoddi i ddarparu band eang, a fydd yn gwella economi Cymru. A all y Gweinidog gadarnhau y bydd y gyllideb ddrafft ddiweddar yn ymrwymo i hyn ac y bydd arian yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer darparu band eang mewn mannau gwan yn hytrach na chyflwyno band eang cyflym iawn yn unig?

**Jane Hutt:** Importantly, as I said last week in my draft budget statement, we are investing a further £10 million in next generation broadband for Wales. That is part of a £425 million programme. We are aiming for 96% homes and businesses to have access to fibre-based broadband by 2015; clearly addressing the concerns raised.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig nodi, fel y dywedais yr wythnos ddiwethaf yn natganiad y gyllideb ddrafft, ein bod yn buddsoddi £10 miliwn mewn band eang y genhedlaeth nesaf i Gymru. Mae hynny'n rhan o raglen £425 miliwn. Rydym yn anelu at sicrhau bod gan 96% o gartrefi a busnesau fynediad at fand eang ffibr erbyn 2015; gan fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

**Jocelyn Davies:** Your infrastructure

**Jocelyn Davies:** Mae eich cynllun buddsoddi

investment plan identifies seven high-level investment priorities, including the development of Cardiff Airport. What has the Welsh Government done to demonstrate that the airport is one of its top priorities?

seilwaith yn nodi saith blaenoriaeth buddsoddi lefel uchel, gan gynnwys datblygu Maes Awyr Caerdydd. Beth mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i ddangos bod y maes awyr yn un o'i brif flaenoriaethau?

**Jane Hutt:** The First Minister is chairing a Cardiff Airport taskforce, which demonstrates the priority that we give to the development of the airport.

**Jane Hutt:** Mae'r Prif Weinidog yn cadeirio tasglu Maes Awyr Caerdydd, sy'n dangos ein bod yn blaenoriaethu datblygiad y maes awyr.

**Tâl Rhanbarthol**

**Regional Pay**

***6. Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau posibl cyflwyno tâl rhanbarthol yng Nghymru. OAQ(4)0164(FIN)*

***6. Gwyn R. Price:*** *Will the Minister make a statement on the possible consequences of the introduction of regional pay in Wales. OAQ(4)0164(FIN)*

**Jane Hutt:** The introduction of regional or 'local market-facing' pay in the public sector in Wales would be damaging both to the Welsh economy and to Welsh public services.

**Jane Hutt:** Byddai cyflwyno tâl rhanbarthol neu dâl marchnad leol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn niweidiol i economi Cymru ac i wasanaethau cyhoeddus Cymru.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. Minister, Labour councils across Wales, including my own in Caerphilly, are introducing a living wage. At the same time, the Conservative Government seems determined to continue its record of damaging the Welsh economy and Welsh communities, and harming businesses in Wales. Do you share my concerns?

**Gwyn R. Price:** Diolch am eich ateb. Weinidog, mae cynghorau Llafur ledled Cymru, gan gynnwys fy nghyngor i yng Nghaerffili, yn cyflwyno cyflog byw. Ar yr un pryd, ymddengys fod y Llywodraeth Geidwadol yn benderfynol o barhau â'i record o ddifrodi economi a chymunedau Cymru a niweidio busnesau yng Nghymru. A ydych yn rhannu fy mhryderon?

**Jane Hutt:** I join the Member for Islwyn in congratulating Caerphilly County Borough Council, for example, for implementing a living wage for its workforce. Following the statement made by Carl Sargeant in May, it is a clear policy of this Government to support lower-paid staff, because we know that fair pay can not only help productivity and morale but support good health and family life. It was good to see a Welsh Liberal Democrat Member of Parliament, Roger Williams, saying at the Liberal Democrats' conference that local pay would leave parts of the UK with the prospect of a talent drain as the

**Jane Hutt:** Ymunaf â'r Aelod dros Islwyn i longyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, er enghraifft, am weithredu cyflog byw ar gyfer ei weithlu. Yn dilyn datganiad Carl Sargeant ym mis Mai, polisi y Llywodraeth hon yw cefnogi staff ar gyflog is, oherwydd gwyddom y gall cyflog teg helpu cynhyrchiant a morál yn ogystal â chynorthwyo iechyd a bywyd teuluol da. Roedd yn dda gweld un o Aelodau Seneddol Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Roger Williams, yn dweud yng nghynadledd y Democratiaid Rhyddfrydol y byddai tâl lleol yn gadael rhannau o'r DU gyda'r posibilrwydd o golli pob talent wrth i'r

'best public sector workers leave for richer pastures'.

gweithwyr sector cyhoeddus gorau adael am borfeydd brasach.

We have cross-party agreement that regional

Mae gennym gytundeb trawsbleidiol nad yw

pay, and local market-facing pay, is not right for us, and I hope that the Welsh Conservatives will stand up to their Prime Minister on this matter.

tâl rhanbarthol, a thâl y farchnad leol, yn iawn i ni. Rwy'n gobeithio y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn dangos eu hochr i'w Prif Weinidog ar y mater hwn.

**Paul Davies:** As you know, Minister, I have made it clear in the last 12 months that we, on this side of the Chamber, are also against the idea of introducing regional pay. We all accept that we must grow the private sector in Wales, but that should not be done by squeezing wages in the public sector. However, given that there is a gap between public and private sector pay rates, which you acknowledged in your statement earlier this year, could you tell us what role the Welsh Government will play in closing that gap?

**Paul Davies:** Fel y gwyddoch, Weinidog, rwyf wedi ei gwneud yn glir yn ystod y 12 mis diwethaf ein bod, ar yr ochr hon i'r Siambr, hefyd yn erbyn y syniad o gyflwyno tâl rhanbarthol. Rydym oll yn derbyn bod rhaid i ni dyfu'r sector preifat yng Nghymru, ond ni ddylid gwneud hynny drwy wasgu cyflogau yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, o ystyried bod bwlch rhwng cyfraddau cyflog yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, y gwnaethoch gydnabod yn eich datganiad yn gynharach eleni, a allech ddweud wrthym ba rôl y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chwarae o ran cau'r bwlch hwnnw?

**Jane Hutt:** It is about ensuring that we boost the private sector, and that is the clear intention and direction of the work of the Welsh Government in terms of our commitment and support for business, enterprise, technology and science.

**Jane Hutt:** Mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn rhoi hwb i'r sector preifat. Dyna fwriad a chyfeiriad clir gwaith Llywodraeth Cymru o ran ein hymrwymiad a'n cymorth ar gyfer busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth.

**Simon Thomas:** Weinidog, mae ymchwil gan Blaid Cymru wedi dangos bod tâl rhanbarthol eisoes yn bodoli yng Nghymru. Os edrychwch ar sefyllfa athrawon cyflenwi, er enghraifft, mae athro cyflenwi yn Abertawe yn cael ei dalu rhyw £15 y dydd yn llai nag athro cyflenwi yng Nghaerdydd, er bod yr asiantaethau sy'n cyflogi'r athrawon hyn yn codi'r un swm ar awdurdodau lleol. Mae rhywun, felly, yn gwneud elw ar dâl rhanbarthol rhywle yn y system addysg yng Nghymru. Byddai Plaid Cymru yn dod â hyn i ben. Pa gamau mae eich Llywodraeth chi yn eu cymryd i sicrhau bod yr ymgais hon i gyflwyno tâl rhanbarthol yn dod i ben?

**Simon Thomas:** Minister, research undertaken by Plaid Cymru shows that there is already regional pay in Wales. If you look at the situation with regard to supply teachers, for example, you will see that a supply teacher in Swansea is paid some £15 per day less than a supply teacher in Cardiff, even though the agencies that employ the teachers charge local authorities the same amount. Someone is, therefore, profiting from regional pay somewhere in the education system in Wales. Plaid Cymru would end this practice. What steps is your Government taking to ensure that this attempt to introduce regional pay is brought to an end?

**Jane Hutt:** All teachers, including supply teachers, directly employed by a local authority or maintained school are paid in accordance with the 'School Teachers' Pay and Conditions Document'. However, the Welsh Government recognises the situation facing supply teachers and the use of agencies. We are working collaboratively with Cardiff Council to address this issue and to ensure that these matters, which are not

**Jane Hutt:** Mae pob athro, gan gynnwys athrawon cyflenwi, a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdod lleol neu ysgol a gynhelir yn cael eu talu yn unol â 'Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol'. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sefyllfa sy'n wynebu athrawon cyflenwi a'r defnydd o asiantaethau. Rydym yn gweithio ar y cyd â Chyngor Caerdydd i fynd i'r afael â'r mater hwn ac i sicrhau bod y

devolved, are addressed appropriately.

materion hyn, nad ydynt wedi'u datganoli, yn cael sylw priodol.

**Aled Roberts:** Minister, you referred to the Liberal Democrats' objections to regional pay. Can you assure us that your Government will oppose discussions within the Labour Party regarding a regional cap on benefits?

**Aled Roberts:** Weinidog, cyfeirioch at wrthwynebiadau'r Democratiaid Rhyddfrydol i dâl rhanbarthol. A allwch ein sicrhau y bydd eich Llywodraeth yn gwrthwynebu trafodaethau o fewn y Blaid Lafur ynghylch cap rhanbarthol ar fudd-daliadau?

**Jane Hutt:** We have made that clear. The First Minister was able to make that clear in response to questions yesterday—no to regional pay and no to regional caps on benefits.

**Jane Hutt:** Rydym wedi gwneud hynny'n glir. Roedd y Prif Weinidog yn glir wrth ymateb i gwestiynau ddoe—na i dâl rhanbarthol ac na i gap rhanbarthol ar fudd-daliadau.

### Ariannu drwy Gynyddrannau Treth

### Tax Increment Financing

***7. Kirsty Williams:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chyd-aelodau yn y Cabinet am gyflwyno ariannu drwy gynyddrannau treth yng Nghymru. OAQ(4)0165(FIN)*

***7. Kirsty Williams:*** *What discussions has the Minister had with Cabinet colleagues about the introduction of tax increment financing in Wales. OAQ(4)0165(FIN)*

***10. William Powell:*** *Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud gydag ariannu drwy gynyddrannau treth ers i'r Gweinidog ymrwymo i edrych ar hyn yn 2011. OAQ(4)0166(FIN)*

***10. William Powell:*** *What progress has been made with tax increment financing since the Minister committed to looking at it in 2011. OAQ(4)0166(FIN)*

**Jane Hutt:** I regularly discuss a range of matters with Cabinet colleagues, including innovative mechanisms for financing investment. I made a statement on tax increment financing in my recent response to the Finance Committee report on borrowing powers and innovative approaches to capital funding.

**Jane Hutt:** Rwy'n trafod ystod o faterion gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet yn rheolaidd, gan gynnwys dulliau arloesol ar gyfer cyllido buddsoddiadau. Gwneuthum ddatganiad ar ariannu drwy gynyddrannau treth yn fy ymateb diweddar i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar bwerau benthyca a dulliau arloesol o gyllid cyfalaf.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Thank you for that answer, Minister. As part of your discussions with Ministers, have you considered whether the tax increment financing model would be financially sustainable for regeneration projects in rural Wales? Such projects are likely to be smaller and the returns lower each year. If tax increment financing is not suitable for developments in rural Wales, what innovative plans do you have to ensure that regeneration projects in rural Wales go ahead?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Diolch am yr ateb, Weinidog. Fel rhan o'ch trafodaethau gyda Gweinidogion, a ydych wedi ystyried a fyddai'r model ariannu drwy gynyddrannau treth yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer prosiectau adfywio yng Nghymru wledig? Mae prosiectau o'r fath yn debygol o fod yn llai ac mae'r enillion yn gostwng bob blwyddyn. Os na fydd ariannu drwy gynyddrannau treth yn addas ar gyfer datblygiadau yng nghefn gwlad Cymru, pa gynlluniau arloesol sydd gennych i sicrhau bod prosiectau adfywio yng Nghymru wledig yn mynd yn eu blaen?

**Jane Hutt:** As I have said, tax increment financing is an option, among a range of innovative finance solutions. The business rates task and finish group recommended that we monitor progress regarding the implementation of tax increment financing in England and Scotland, which I intend to do. We will look at issues relating to rural areas. However, I would say that, at this stage, we believe that the local government borrowing initiative, which we are taking forward, is benefitting rural areas. For example, Powys is getting £4.7 million in highways improvements this year. Clearly, we will look at tax increment finance and the opportunities available.

**Jane Hutt:** Fel y dywedais, mae ariannu drwy gynyddrannau treth yn opsiwn, ymysg nifer o ddatrysiadau cyllid arloesol. Argymhellodd y grŵp gorchwyl a gorffen ar drethi busnes ein bod yn monitro y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran ariannu drwy gynyddrannau treth yn Lloegr a'r Alban, yr wyf yn bwriadu ei wneud. Byddwn yn edrych ar faterion yn ymwneud ag ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, byddwn yn dweud, ar hyn o bryd, ein bod yn credu bod y fenter benthyca llywodraeth leol, yr ydym yn bwrw ymlaen â hi, o fudd i ardaloedd gwledig. Er enghraifft, mae Powys yn cael £4.7 miliwn mewn gwelliannau priffyrdd eleni. Yn amlwg, byddwn yn edrych ar ariannu drwy gynyddrannau treth a'r cyfleoedd sydd ar gael.

**William Powell:** Minister, staying with this theme, we have seen from the United States of America over recent decades that TIF has proved to be of significant benefit, enabling developments for which it would, otherwise, have been very difficult to attract finance. With that in mind, could you please outline any discussions that you or your officials have had with colleagues regarding the potential for TIF to be integrated with the enterprise zone approach, particularly in mid and west Wales—I am thinking, in particular, of the Haven area—to ensure that we are able to maximise the potential?

**William Powell:** Weinidog, gan aros gyda'r thema hon, rydym wedi gweld yn yr Unol Daleithiau o America yn ystod y degawdau diweddar fod ariannu cynyddiad treth wedi profi i fod o fudd sylweddol, gan alluogi datblygiadau y byddai, fel arall, wedi bod yn anodd iawn i ddenu cyllid ar eu cyfer. Gyda hynny mewn golwg, a fyddech cystal ag amlinellu unrhyw drafodaethau yr ydych chi neu eich swyddogion wedi'u cael gyda chydweithwyr ynghylch y potensial i integreiddio ariannu cynyddiad treth â'r dull ardaloedd menter, yn arbennig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru—rwy'n meddwl yn benodol am ardal Daugleddau—o sicrhau ein bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar y potensial?

**Jane Hutt:** Yes, following up on the question from Kirsty Williams on this point, we know that the option is available for use by local authorities in Wales. They, like us, are looking at ways in which we can learn lessons and progress this, in particular in response to the business rates task and finish group. However, I am sure that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science will be aware of how this can also link to the enterprise zone strategy.

**Jane Hutt:** Gallaf, yn dilyn cwestiwn Kirsty Williams ar y pwynt hwn, gwyddom fod yr opsiwn ar gael i'w ddefnyddio gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Maent hwy, fel ni, yn edrych ar ffyrdd y gallwn ddysgu gwersi a datblygu hyn, yn enwedig mewn ymateb i'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ardrethi busnes. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ymwybodol o sut y gall hyn hefyd gysylltu â'r strategaeth ardaloedd menter.

**William Graham:** In June of last year, Edwina Hart mentioned, very prudently, in respect of TIF, that we have to understand the detail. Two options were given—an open structure that lets councils invest and take on

**William Graham:** Ym mis Mehefin y llynedd, soniodd Edwina Hart, yn ddoeth, o ran ariannu cynyddiad treth, bod rhaid inni ddeall y manylion. Rhoddwyd dau opsiwn—strwythur agored sy'n caniatáu i gynghorau

the risks, or an option with stronger government control that guarantees revenue and disregards the levy or reset processes. Which one does the Government favour?

fuddsoddi a chymryd risgiau, neu opsiwn â rheolaeth gryfach lywodraethol sy'n gwarantu refeniw ac yn diystyru'r prosesau ardoll neu ailosod. Pa un y mae'r Llywodraeth yn ffafrio?

**Jane Hutt:** Clearly, we are looking at impact of TIF and its use in England and Scotland, and we will, of course, address that if we decide to advise local authorities to take this forward.

**Jane Hutt:** Yn amlwg, rydym yn edrych ar effaith ariannu cynyddiad treth a'i ddefnydd yn Lloegr a'r Alban, a byddwn, wrth gwrs, yn mynd i'r afael â hynny os byddwn yn penderfynu cynghori awdurdodau lleol i symud hyn ymlaen.

**Russell George:** Minister, accepting the recommendations made by the Finance Committee in its report on borrowing powers and innovative approaches to capital funding, what early evaluations have you concluded from current projects in other parts of the UK regarding the value for money aspect of TIF, and have you identified any potential Welsh pilot schemes that could use TIF in the near future?

**Russell George:** Weinidog, gan dderbyn yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad ar bwerau benthyca a dulliau arloesol o gyllid cyfalaf, pa werthusiadau cynnar ydych wedi dod i'r casgliad yn eu cylch o ran prosiectau presennol mewn rhannau eraill o'r DU ynghylch gwerth am arian ariannu cynyddiad treth, ac a ydych wedi canfod unrhyw gynlluniau peilot posibl yng Nghymru a allai ddefnyddio ariannu cynyddiad treth yn y dyfodol agos?

**Jane Hutt:** As I said, tax incremental financing has not been discounted. In response to the former question, we need to look at whether it provides robust value for money and whether it offers better economic outcomes than homegrown solutions, such as the local government borrowing initiative, which I have already mentioned.

**Jane Hutt:** Fel y dywedais, nid yw ariannu cynyddiad treth wedi cael ei ddiystyru. Mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol, dywedais fod angen i ni edrych a yw'n cynnig gwerth cadarn am arian ac a yw'n cynnig canlyniadau economaidd gwell na datrysiadau cartref, fel y fenter benthyca llywodraeth leol, yr wyf eisoes wedi'i chrybwyll.

**Gweinidogion y Trysorlys**

**Treasury Ministers**

***8. Julie Morgan:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chyfarfodydd diweddaraf gyda Gweinidogion yn Nhrysorlys Ei Mawrhydi. OAQ(4)0167(FIN)*

***8. Julie Morgan:*** *Will the Minister make a statement about her latest meetings with Ministers at HM Treasury. OAQ(4)0167(FIN)*

**Jane Hutt:** I meet regularly with Treasury Ministers to discuss a range of financial issues affecting Wales.

**Jane Hutt:** Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda Gweinidogion y Trysorlys i drafod ystod o faterion ariannol sy'n effeithio ar Gymru.

**Julie Morgan:** Thank you, Minister, for that reply. Were you able to discuss any new ways of financing the much needed infrastructure projects that we have already heard about today? I am not referring to the discredited private finance initiative, but any other models of public-private partnership or type of model that would produce the money

**Julie Morgan:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. A oeddech yn gallu trafod unrhyw ffyrdd newydd o ariannu'r prosiectau seilwaith sydd mawr eu hangen yr ydym eisoes wedi clywed amdanynt heddiw? Nid wyf yn cyfeirio at y fenter cyllid preifat anfri, ond unrhyw fodelau eraill o bartneriaeth gyhoeddus a phreifat neu unrhyw fath o fodel

that is needed so much for capital projects.

a fyddai'n cynhyrchu'r arian sydd gymaint ei angen ar brosiectau cyfalaf.

**Jane Hutt:** Not only do I discuss approaches to infrastructure investment with UK Government Ministers and the Treasury, I also do so with Ministers in Scotland and the Scottish Government. We exchange information about best practice and we look at and develop those innovative financial solutions. With a 45% cut in our capital grant by the UK Government, this is essential. Last week, in London, I was able to present the Wales infrastructure investment plan to investors at the Institute of Chartered Accountants in England and Wales, and they felt that we had taken the right route forward by not using the discredited PFI, and looking, instead, at innovative solutions, such as the local government borrowing initiative.

**Jane Hutt:** Rwy'n trafod dulliau buddsoddi isadeiledd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a'r Trysorlys yn ogystal â Gweinidogion yn yr Alban a Llywodraeth yr Alban. Rydym yn cyfnewid gwybodaeth am arfer gorau ac yn edrych ar ddatblygu datrysiadau ariannol arloesol. Gyda thoriad o 45% yn ein grant cyfalaf gan Lywodraeth y DU, mae hyn yn hanfodol. Yr wythnos diwethaf, yn Llundain, cyflwynais gynllun buddsoddi seilwaith Cymru i fuddsoddwyr yn Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, ac roeddent yn teimlo ein bod wedi cymryd y llwybr cywir trwy beidio â defnyddio'r fenter cyllid preifat anfri, gan edrych, yn hytrach, ar ddatrysiadau arloesol, megis y fenter benthyca llywodraeth leol.

**Mark Isherwood:** Will you bring us up to date on your discussions with the Treasury on the scrapping of the housing revenue account subsidy scheme, which ended in England in April? In particular, will you update us on the amount of net additional funding that you would anticipate Welsh local authorities receiving? We understand that the gross figure will be about £70 million but that the net figure is likely to be substantially less.

**Mark Isherwood:** A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni hyd yn hyn ar eich trafodaethau gyda'r Trysorlys ar gael gawred ar gynllun cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, a ddaeth i ben yn Lloegr ym mis Ebrill? Yn benodol, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar faint o arian net ychwanegol y byddech yn disgwyl i awdurdodau lleol Cymru ei dderbyn? Deallwn y bydd y ffigur gros tua £70 miliwn, ond bod y ffigwr net yn debygol o fod yn sylweddol llai.

**Jane Hutt:** I know that the Minister for housing would like to update Members as soon as these negotiations on the HRAS settlement have concluded.

**Jane Hutt:** Gwn fod y Gweinidog tai am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau cyn gynted ag y bydd y trafodaethau hyn ar y setliad ar gymhorthdal y cyfrif refeniw tai wedi dod i ben.

2.00 p.m.

**Llyr Huws Gruffydd:** Yr wyf yn nodi â diddordeb eich ateb blaenorol i Julie Morgan. O ran yr opsiynau yr ydych wedi eu trafod â'r Trysorlys o safbwynt modelau eraill, a ydyw'r model o gwmni buddsoddiad cyfalaf diddifidend, tebyg i Adeiladu dros Gymru, yn un o'r opsiynau hynny yr ydych wedi eu hystyried?

**Llyr Huws Gruffydd:** I note with interest your previous answer to Julie Morgan's question. On the options that you have discussed with the Treasury in terms of alternative models, is the model of a non-dividend capital investment company, similar to Build4Wales, one of those options that you have considered?

**Jane Hutt:** Certainly. Discussions are ongoing about the kind of not-for-profit, non-dividend investment vehicle that we may choose to develop. Gerry Holtham is advising

**Jane Hutt:** Yn sicr. Mae trafodaethau yn parhau am y math o gerbyd buddsoddi dielw a di-ddifidend y byddwn o bosibl yn dewis ei ddatblygu. Mae Gerry Holtham yn ein

us on this. It is something where we are learning lessons from Scotland, in particular, in terms of the way forward.

cynghori ar hyn. Mae'n rhywbeth lle rydym yn dysgu gwersi o'r Alban, yn arbennig, o ran y ffordd ymlaen.

**Buddsoddi Cyfalaf**

**Capital Investment**

***9. Peter Black:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae modelau ariannol newydd yn cael eu defnyddio i roi hwb i fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. OAQ(4)0159(FIN)*

***9. Peter Black:*** *Will the Minister make a statement on how new financial models are being used to boost capital investment by the Welsh Government. OAQ(4)0159(FIN)*

**Jane Hutt:** I provided an update on initiatives to supplement traditional capital funding with innovative finance in my response to the Finance Committee's inquiry into borrowing powers. These initiatives will generate more than £1 billion-worth of capital investment in Wales between now and 2020.

**Jane Hutt:** Rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau i ychwanegu at gyllid cyfalaf traddodiadol gyda chyllid arloesol yn fy ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i bwerau benthyca. Bydd y mentrau hyn yn cynhyrchu mwy na £1 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf yng Nghymru rhwng nawr a 2020.

**Peter Black:** Returning to tax increment financing, you will know that the UK Government made an announcement in July, which is now over three months ago, on how that will be used in England. When I questioned you on 10 July, you said that you were still looking at that particular model. Today, once more, you are still looking at that particular model. Can we have an indication as to when exactly you will be doing something about this?

**Peter Black:** Gan ddychwelyd at ariannu drwy gynyddrannau treth, byddwch yn gwybod bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ym mis Gorffennaf, sydd bellach dros dri mis yn ôl, sut y bydd hynny'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr. Pan gawsoch eich holi gennyf ar 10 Gorffennaf, dywedasoch eich bod yn dal i edrych ar y model penodol hwnnw. Heddiw, unwaith eto, rydych yn parhau i edrych ar y model penodol hwnnw. A allwn gael syniad o ran pryd yn union y byddwch yn gwneud rhywbeth am hyn?

**Jane Hutt:** I did make the point in full, I believe, in response to the two questions and supplementary questions about this. We are looking at this. It is clear; it is linked to our consideration of the business rates review, and we believe that the progress that we are making on other innovative vehicles is taking us forward. Not just the local government housing borrowing initiative, but the housing bond, for example, and the Welsh housing partnership are at the forefront at this stage of our action on this matter.

**Jane Hutt:** Gwneuthum y pwynt yn llawn, rwy'n credu, mewn ymateb i ddau gwestiwn a chwestiynau atodol ynglŷn â hyn. Rydym yn edrych ar y mater hwn. Mae'n amlwg; mae'n gysylltiedig â'n hystyriaeth o'r adolygiad ardrethi busnes, ac rydym yn credu bod y cynnydd yr ydym yn ei wneud ar gerbydau arloesol eraill yn mynd â ni ymlaen. Nid yn unig menter benthyca llywodraeth leol ar gyfer tai, ond mae'r bond tai, er enghraifft, a phartneriaeth tai Cymru ar flaen y gad yn ystod y cyfnod hwn o'n gwaith ar y mater hwn.

**Peter Black:** A number of English cities benefit from the investment and the regeneration that this particular model is bringing to them, while areas in Wales are still waiting for your decision. Can you give an indication as to when an announcement will be made on this model?

**Peter Black:** Mae nifer o ddinasoedd yn Lloegr yn cael budd o'r buddsoddiad a'r adfywio y mae'r model penodol yn dod iddynt, tra bod ardaloedd yng Nghymru yn dal i aros am eich penderfyniad. A allwch roi syniad o ran pryd y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud ar y model hwn?

**Jane Hutt:** I think that this is work in progress, and we will report in due course. I am sure that Peter Black would agree that the innovative way that the Ministers for business and housing have taken forward the Ely Bridge Development Company on the Ely Mill site is an example of working with a local authority, and of how we can develop a new model of delivery with 750 housing units, half of which are affordable as a result.

**Jane Hutt:** Credaf fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, a byddwn yn adrodd arno, maes o law. Rwy'n siŵr y byddai Peter Black yn cytuno bod y ffordd arloesol y mae'r Gweinidogion ar gyfer busnes a thai wedi datblygu'r Ely Bridge Development Company ar safle melin Trelái yn enghraifft o weithio gydag awdurdod lleol, ac o sut y gallwn ddatblygu model newydd o ddarparu gyda 750 o unedau tai, hanner ohonynt yn dai fforddiadwy, o ganlyniad i hynny.

**Byron Davies:** You will be up to speed, of course, on the new UK Government-funded bank to help small and medium-sized businesses, which aims to attract private sector funding so that, when fully operational, it could support up to £10 billion of new and additional business lending. What discussions have you and your department had with the UK Government to maximise the potential and access for Welsh firms? Will you outline your vision for engaging with the bank and outline how the Labour Government in Wales plans to dovetail into this arrangement?

**Byron Davies:** Byddwch wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf, wrth gwrs, am y banc newydd a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i helpu busnesau bach a chanolig eu maint, sy'n anelu at ddenu arian sector preifat er mwyn iddo allu cefnogi hyd at £10 biliwn o fenthyca newydd ac ychwanegol i fusnesau pan fydd yn llawn weithredol. Pa drafodaethau ydych chi a'ch adran wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU i wneud y gorau o'r potensial a sicrhau mynediad i gwmnïau o Gymru? A wnewch chi amlinellu eich gweledigaeth ar gyfer ymgysylltu â'r banc ac amlinellu sut y mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn bwriadu asio â'r trefniant hwn?

**Jane Hutt:** This is a matter for the Minister for business, but discussions and negotiations with the UK Government are ongoing.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn fater i'r Gweinidog dros fusnes, ond mae trafodaethau â Llywodraeth y DU yn mynd rhagddynt.

**Elin Jones:** Can you confirm whether there is a moratorium on health capital projects until consultations on NHS reconfigurations are complete? If not, can you explain why the Minister for health has written to me to say that she is unable to progress the submitted strategic outline case for the Cylch Caron project in Tregaron, in my constituency, until Hywel Dda health board's consultation is complete, when this project is not even the subject of a formal question in that consultation and is a local authority-led project?

**Elin Jones:** A allwch gadarnhau a oes moratoriwm ar brosiectau cyfalaf iechyd nes y bydd ymgynghoriadau ar ad-drefnu'r GIG wedi'u cwblhau? Os na allwch, a allwch egluro pam mae'r Gweinidog dros iechyd wedi ysgrifennu ataf i ddweud na all symud ymlaen â'r cynlluniau strategol amlinellol a gyflwynwyd ar gyfer prosiect Cylch Caron yn Nhregaron, yn fy etholaeth i, nes y bydd ymgynghoriad bwrdd iechyd Hywel Dda wedi ei gwblhau, pan nad yw'r prosiect hwn hyd yn oed yn destun cwestiwn ffurfiol yn yr ymgynghoriad hwnnw ac mae'n brosiect o dan arweiniad yr awdurdod lleol?

**Jane Hutt:** I believe that my announcements last week of extra capital investment in the health service quite clearly shows our commitment to progressing and bringing forward capital programmes across Wales and in areas where reconfiguration plans are

**Jane Hutt:** Credaf fod fy nghyhoeddiadau'r wythnos diwethaf ynghylch buddsoddiad cyfalaf ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd yn dangos yn glir ein hymrwymiad i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni cyfalaf ledled Cymru ac mewn ardaloedd lle mae

being considered. I am sure that the Minister for health would want to answer that key point in terms of local authority engagement.

cynlluniau ad-drefnu yn cael eu hystyried. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog dros iechyd am ateb y pwynt allweddol hwnnw o ran ymgysylltu ag awdurdod lleol.

**Mynediad at Wasanaethau**

**Access to Services**

***11. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydraddoldeb mynediad at wasanaethau yng Nghymru. OAQ(4)0161(FIN)*

***11. Paul Davies:*** *Will the Minister make a statement on the equality of access to services in Wales. OAQ(4)0161(FIN)*

**Jane Hutt:** Objective 6 in the Welsh Government's strategic equality plan puts the needs of service users at the heart of delivery in key public services.

**Jane Hutt:** Mae amcan 6 yng nghynllun cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru yn rhoi anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth galon y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus allweddol.

**Paul Davies:** You may or may not be aware, Minister, that HSBC has decided to close its branch in St Davids in my constituency. While I understand that all branches must be commercially viable, I remain concerned about the effect that this closure will have on the local community, particularly elderly people who have no access to the internet and those with mobility problems. I appreciate that this is not directly in your control, Minister, but what specific action is the Welsh Government taking to ensure that vulnerable groups, such as the elderly in more rural locations, have equality of access to essential services such as these?

**Paul Davies:** Mae'n bosibl y byddwch yn ymwybodol, Weinidog, neu efallai ddim, fod HSBC wedi penderfynu cau ei gangen yn Nhyddewi yn fy etholaeth i. Er fy mod yn deall bod rhaid i bob cangen fod yn fasnachol hyfyw, rwy'n parhau i fod yn bryderus am yr effaith y bydd cau'r gangen hon yn ei chael ar y gymuned leol, yn enwedig pobl oedrannus nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd a'r rhai sydd â phroblemau symudedd. Rwy'n gwerthfawrogi nad yw'r mater hwn yn uniongyrchol o dan eich rheolaeth, Weinidog, ond pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod grwpiau sy'n agored i niwed, fel yr henoed mewn ardaloedd mwy gwledig, yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau hanfodol fel y rhain?

**Jane Hutt:** The work undertaken by my officials on Communities 2.0 in terms of access to digital inclusion is key to this in terms of tackling that financial exclusion. Our public sector equality duties for Wales are underpinned by the equality objectives. In terms of the impact of the closure of that particular branch and changes that are forthcoming in the ways in which people expect to access universal credit from the UK Government, this will have a major detrimental impact on your constituents.

**Jane Hutt:** Mae'r gwaith a wnaed gan fy swyddogion ar gynllun Cymunedau 2.0 o ran mynediad at gynhwysiant digidol yn allweddol i'r mater hwn o ran mynd i'r afael â'r allgau ariannol hwn. Mae ein dyletswyddau cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hategu gan yr amcanion cydraddoldeb. O ran effaith cau'r gangen arbennig honno a'r newidiadau arfaethedig yn y ffyrdd y mae pobl yn disgwyl cael mynediad at gredyd cynhwysol gan Lywodraeth y DU, bydd y pethau hynny'n cael effaith niweidiol sylweddol ar eich etholwyr.

**Lindsay Whittle:** Minister, the Party of Wales remains committed to ensuring that health services are provided as close to

**Lindsay Whittle:** Weinidog, mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mor

people and their communities as possible to ensure a healthier Wales. However, one of the main results of the reconfiguration of the health services will be the loss of health services at a community level. Do you accept, with your equalities portfolio hat on, that by centralising health services, many of our most vulnerable people, and particularly older people, will not have the same ease of access to services that they have at present?

agos â phosibl i bobl a'u cymunedau er mwyn sicrhau Cymru iachach. Fodd bynnag, un o brif ganlyniadau ad-drefnu'r gwasanaethau iechyd fydd colli gwasanaethau iechyd ar lefel gymunedol. A ydych yn derbyn, gan wisgo eich het portffolio cydraddoldeb, wrth ganoli gwasanaethau iechyd, na fydd llawer o'n pobl fwyaf agored i niwed, yn enwedig pobl hŷn, yn cael yr un mynediad at wasanaethau ag sydd ganddynt ar hyn o bryd?

**Jane Hutt:** The major impacts of some of the innovative schemes that have been taken forward, such as the Gwent frailty project in your region, which is funded by the Welsh Government through invest-to-save, mean that people are being enabled to access services in the community, rather than depend on hospital bed use. Innovation is about enhancing community and primary care use.

**Jane Hutt:** Mae effeithiau sylweddol rhai o'r cynlluniau arloesol sydd wedi cael eu datblygu, fel prosiect eiddilwch Gwent yn eich rhanbarth chi, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r fenter buddsoddi i arbed, yn golygu bod pobl yn cael eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau yn y gymuned, yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddio gwelyau ysbyty. Mae arloesi'n golygu gwella'r defnydd a wneir o ofal yn y gymuned a gofal sylfaenol.

### Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

### Wales Infrastructure Investment Plan

***12. Joyce Watson:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. OAQ(4)0168(FIN)*

***12. Joyce Watson:*** *Will the Minister make a statement on the Wales Infrastructure Investment Plan. OAQ(4)0168(FIN)*

**Jane Hutt:** The Wales infrastructure investment plan, which I published in May, demonstrates the Government's commitment to sustainable economic prosperity. It sets out how we will invest around £15 billion in infrastructure over the next decade to boost growth and jobs and to improve public services.

**Jane Hutt:** Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, a gyhoeddais ym mis Mai, yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i ffyniant economaidd cynaliadwy. Mae'n nodi sut y byddwn yn buddsoddi tua £15 biliwn mewn seilwaith dros y degawd nesaf i hybu twf a swyddi ac i wella gwasanaethau cyhoeddus.

**Joyce Watson:** Thank you very much for that answer. Studies show that for every pound spent on construction, we get £2.84 back in economic activity. Therefore, we need to make sure that Wales gets the maximum benefit from that cashback. What is the Government doing to help Welsh business to secure construction and infrastructure contracts and sub-contracts?

**Joyce Watson:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw. Mae astudiaethau'n dangos am bob punt a gaiff ei gwario ar adeiladu, rydym yn cael £2.84 yn ôl mewn gweithgarwch economaidd. Felly, mae angen inni sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf posibl o'r arian yr ydym yn ei gael yn ôl. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i helpu busnesau Cymru i sicrhau contractau ac is-gontractau adeiladu a seilwaith?

**Jane Hutt:** The importance of boosting investment infrastructure is proven in terms of growth and jobs. There have been strong messages today to the UK Government in terms of its failure to boost growth and jobs

**Jane Hutt:** Mae pwysigrwydd hybu buddsoddiad mewn seilwaith wedi'i brofi mewn perthynas â thyfiant a swyddi. Cafwyd negeseuon cryf heddiw i Lywodraeth y DU o ran ei methiant i hybu twf a swyddi trwy

through infrastructure investment. Last week, I announced a further £10 million in vital flood and coastal defence improvements, which will have that impact. The procurement process is key to this issue in terms of delivering community benefits.

fuddsoddi mewn seilwaith. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais £10 miliwn mewn gwelliannau hanfodol i amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, a fydd yn cael yr effaith honno. Mae'r broses gaffael yn allweddol i'r mater hwn o ran sicrhau manteision cymunedol.

**Andrew R.T. Davies:** You have talked of significant sums of money, Minister for Finance—£15 billion—but just spending the money is no prerequisite to getting an advantage for the Welsh economy. What criteria are used by you, as Minister for Finance and the Government as a whole, when assessing projects, to know that you are getting good value for money and that we are getting more money back than we are spending on the projects in which we seek to invest?

**Andrew R.T. Davies:** Rydych wedi sôn am symiau sylweddol o arian, Weinidog Cyllid—£15 biliwn—ond nid yw gwario'r arian hwnnw yn unig yn rhagofyniad i sicrhau mantais ar gyfer economi Cymru. Pa feini prawf a ddefnyddir gennych, fel Gweinidog Cyllid, a'r Llywodraeth gyfan, wrth asesu prosiectau, i wybod eich bod yn cael gwerth da am arian a'n bod yn cael mwy o arian yn ôl nag yr ydym yn ei wario ar y prosiectau yr ydym am fuddsoddi ynddynt?

**Jane Hutt:** We have developed the community benefits tool to measure the impact of the community benefits procurement policy. The investment results and statistics are positive, and show that 78% was spent in Wales in 13 completed projects recently. It is not just about procurement policy; it is also about the business case and robust planning in project management.

**Jane Hutt:** Rydym wedi datblygu'r dull manteision cymunedol i fesur effaith y polisi caffael manteision cymunedol. Mae canlyniadau ac ystadegau'r buddsoddiad yn gadarnhaol, ac yn dangos y cafodd 78% ei wario yng Nghymru ar 13 o brosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar. Nid y polisi caffael yw'r unig ganolbwynt; mae hefyd yn ymwneud â'r achos busnes a chynllunio cadarn wrth reoli prosiect.

**Simon Thomas:** Weinidog, cadarnhaodd y Prif Weinidog ddoe, ac yr ydych chi wedi dweud heddiw, eich bod fel Llywodraeth yn edrych ar gerbyd buddsoddi tebyg i syniad Plaid Cymru, *Build4Wales*. Mae Plaid Cymru wastad yn croesawu pechadur edifeiriol. Serch hynny, a wnewch chi gadarnhau y bydd y dulliau rydych yn edrych arnynt yn ailgylchu elw er mwyn buddsoddi ymhellach yn economi Cymru? Mae hynny'n hanfodol o ran y dulliau newydd hyn.

**Simon Thomas:** Minister, yesterday the First Minister confirmed, and you have said today, that you, as a Government, are looking at an investment vehicle similar to Plaid Cymru's concept, Build4Wales. Plaid Cymru always welcomes a repentant sinner. Despite that, will you confirm that the methods that you are looking at will recycle profit in order to invest further in the Welsh economy? That is crucially important in these new methods.

**Jane Hutt:** I am glad that Simon Thomas and Plaid Cymru welcome the Welsh Government's move to create what I have described as 'infrastructure Wales'. As the First Minister said, we are on the same page here, and we are very glad that we have the benefit of Gerry Holtham's expertise, which I know you all value. He is now looking across the board, including at the Scottish model, to take us forward. An announcement will be made shortly.

**Jane Hutt:** Rwy'n falch bod Simon Thomas a Phlaid Cymru yn croesawu cynnig Llywodraeth Cymru i greu'r hyn a ddisgrifiais fel 'seilwaith Cymru'. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, rydym ar yr un dudalen yma, ac rydym yn falch iawn ein bod yn manteisio ar arbenigedd Gerry Holtham, yr wyf yn gwybod eich bod i gyd yn ei werthfawrogi. Mae'n awr yn edrych ar y darlun cyffredinol, gan gynnwys model yr Alban, i fynd â ni ymlaen. Bydd cyhoeddiad

yn cael ei wneud yn fuan.

**Effeithlonrwydd ac Arloesedd Ariannol**

***13. David Melding:*** *Pa fesurau sydd ar waith i hybu effeithlonrwydd ac arloesedd ariannol yn Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0156(FIN)*

**Financial Efficiency and Innovation**

***13. David Melding:*** *What measures are in place to promote financial efficiency and innovation in the Welsh Government. OAQ(4)0156(FIN)*

**Jane Hutt:** Reducing budgets makes it more important than ever that we secure value for money from every pound we spend.

**Jane Hutt:** Mae lleihau cyllidebau yn ei gwneud yn fwy pwysig nag erioed ein bod yn sicrhau gwerth am arian o bob punt a wariwn.

**David Melding:** That is a sentiment I certainly agree with, Minister. Do you agree that, as a general approach, it is better to examine whole programmes of work rather than to impose flat efficiency savings across all departments? How are you taking forward that work to ensure that public programmes remain useful and productive?

**David Melding:** Rwy’n sicr yn cytuno â’r teimlad hwnnw, Weinidog. A ydych yn cytuno, fel dull cyffredinol, ei bod yn well archwilio rhaglenni gwaith cyfan yn hytrach na gorfodi arbedion effeithlonrwydd gwastad ar draws yr holl adrannau? Sut ydych yn dwyn y gwaith hwnnw yn ei flaen i sicrhau bod rhaglenni cyhoeddus yn parhau i fod yn ddefnyddiol ac yn gynhyrchiol?

**Jane Hutt:** That is vital in monitoring and evaluating the impact of our work as part of the programme for government. However, I would also say to the Member, to David Melding, that the equality impact assessment has provided a very useful source of documentation on how Ministers are addressing these issues and evaluating their budgetary priorities.

**Jane Hutt:** Mae hynny’n hanfodol wrth fonitro a gwerthuso effaith ein gwaith fel rhan o’r rhaglen lywodraethu. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn dweud wrth David Melding, yr Aelod, fod yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb wedi darparu ffynhonnell ddefnyddiol iawn o ddogfennaeth ar sut y mae Gweinidogion yn mynd i’r afael â’r materion hyn ac yn gwerthuso eu blaenoriaethau cyllidebol.

**Credyd Cynhwysol**

***14. Mark Drakeford:*** *Sut y bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn effeithio ar faterion cydraddoldeb yng Nghymru. OAQ(4)0169(FIN)*

**Universal Credit**

***14. Mark Drakeford:*** *What impact will the introduction of Universal Credit have on equality issues in Wales. OAQ(4)0169(FIN)*

**Jane Hutt:** The Welsh Government is concerned about the adverse impact of welfare reform on equalities in Wales, including the implementation of the universal credit, with a digital-by-default application, paid monthly in arrears to one member of a household.

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am effaith andwyol diwygio lles ar gydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys gweithredu’r credyd cynhwysol, gyda chais digidol di-ofyn, a delir yn fisol mewn ôl-daliadau i un aelod o aelwyd.

**Mark Drakeford:** Minister, can you recall anything more disgraceful than the cheer that went around the Conservative party conference earlier this week at the announcement that a further £10 billion is to be robbed from the pockets of some of the

**Mark Drakeford:** Weinidog, a allwch gofio unrhyw beth mwy gwarthus na’r floedd o lawenydd a aeth o amgylch cynhadledd y blaid Geidwadol yn gynharach yr wythnos hon yn dilyn y cyhoeddiad bod £10 biliwn yn mynd i gael ei ddwyn o bocedi rhai o

neediest families in the land? Is it any wonder that ‘women and children first’ is such a well-recognised slogan of the Chancellor of the Exchequer’s approach to cuts in welfare benefits? Have you had a chance to consider the most recent analysis of universal credit, which suggests that the treatment of second earners within it will have a deleterious impact on women earners in Wales?

deuluoedd mwyaf anghenus y wlad? A yw’n unrhyw syndod bod ‘menywod a phlant yn gyntaf’ yn slogan mor adnabyddus yng nghyswllt agwedd Canghellor y Trysorlys at doriadau mewn budd-daliadau lles? A ydych wedi cael cyfle i ystyried y dadansoddiad diweddaraf o gredyd cynhwysol, sy’n awgrymu y bydd y driniaeth o ail enillwyr ynddo yn cael effaith niweidiol ar enillwyr benywaidd yng Nghymru?

**Jane Hutt:** Indeed. In fact, I benefited from a speech by Victoria Winckler from the Bevan Foundation recently at the Equality 2020 conference. She said that she thinks that these so-called welfare reforms are a significant threat to the progress made towards equality in the past 30 years. On that point about second earners, she also said that studies of how families manage their money suggest that women often do not have equal access to family cash, are likely to bear the brunt of shortfalls in income and that the switch to monthly payments from fortnightly payments will have a major impact. Of course, the whole scheme is designed to encourage one-earner households. That is coupled with the squeeze on women’s employment and the cuts in welfare reform that are already on the statute book. You will see the impact of those in the equality impact assessment I published on Monday.

**Jane Hutt:** Yn wir. Cefais gyfle i elwa o glywed araith gan Victoria Winckler o Sefydliad Bevan yn ddiweddar yng nghynhadledd Cydraddoldeb 2020. Dywedodd ei bod yn credu bod y diwygiadau lles, fel y’u gelwir, yn fygythiad sylweddol i’r cynnydd a wnaed at gydraddoldeb yn y 30 mlynedd diwethaf. Ar y pwynt am ail enillwyr, dywedodd hefyd fod astudiaethau ynghylch sut mae teuluoedd yn rheoli eu harian yn awgrymu nad yw menywod yn aml yn cael mynediad cyfartal at arian parod teulu, eu bod yn debygol o ysgwyddo baich diffygion mewn incwm a bod y newid o daliadau bob pythefnos i daliadau misol yn mynd i gael effaith fawr. Wrth gwrs, mae’r cynllun cyfan wedi’i gynllunio i annog cartrefi sydd ag un enillydd. Mae hynny’n cyd-fynd â’r wasgfa ar gyflogaeth menywod a’r toriadau mewn diwygiadau lles sydd eisoes ar y llyfr statud. Byddwch yn gweld effaith y rheini yn yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a gyhoeddwyd gennyf ddydd Llun.

**Mark Isherwood:** In fact, 2.8 million people will be better off under universal credit. Universal credit—[*Interruption*.] Universal credit will lift around 900,000 children and adults out of poverty. Those are the independently established facts. What engagement has the Welsh Government had with the UK Government on the design of the universal credit, with regard to which the UK Government has pledged that claimants who are not yet ready to budget for themselves on a monthly basis—something you referred to—will be protected and assisted onto the new system?

**Mark Isherwood:** Mewn gwirionedd, bydd 2.8 miliwn o bobl yn well eu byd o dan gredyd cynhwysol. Bydd credyd cynhwysol—[*Torri ar draws*.] Bydd credyd cynhwysol yn codi oddeutu 900,000 o blant ac oedolion allan o dlodi. Mae’r ffeithiau hynny’n rhai a sefydlwyd yn annibynnol. Pa gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi’i chael â Llywodraeth y DU ar ddyluniad y credyd cynhwysol, pan mae Llywodraeth y DU wedi addo y bydd hawlwyr nad ydynt yn barod eto i bennu cyllideb ar eu cyfer eu hunain ar sail misol—rhywbeth yr ydych wedi cyfeirio ato—yn cael eu diogelu a’u cynorthwyo i ymuno â’r system newydd?

**Jane Hutt:** Clearly, Ministers have been engaged with UK Government Ministers, raising their concerns about these issues and

**Jane Hutt:** Yn amlwg, mae Gweinidogion wedi bod mewn cysylltiad â Gweinidogion Llywodraeth y DU, gan fynegi eu pryderon

their impact. We need go no further than the Institute for Fiscal Studies—and, again, I refer you to the equality impact assessment—which makes clear the negative impact these welfare reforms are going to have, and in particular the impact on equality of the changes in social security payments. In terms of the impact on women—lone parents are predominantly women—disabled people, people from ethnic minority groups and young people, I share Mark Drakeford's disgust and horror at the announcement of further cuts to welfare benefits of £10 billion. I hope very much that the coalition partners, the Liberal Democrats, stand up to the Tory right on this matter.

am y materion hyn a'u heffaith. Mae angen inni fynd ymhellach na'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid—ac, unwaith eto, fe'ch cyfeiriaf at yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb—sy'n dangos yn glir yr effaith negyddol y mae'r diwygiadau lles hyn yn mynd i'w cael, ac yn enwedig yr effaith ar gydraddoldeb a ddaw yn sgil y newidiadau i daliadau nawdd cymdeithasol. O ran yr effaith ar fenywod—menywod sy'n rhieni unigol yn bennaf—pobl anabl, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc, rwy'n rhannu ffieidd-dod ac arswyd Mark Drakeford ynghylch y cyhoeddiad o doriadau pellach o £10 biliwn i fudd-daliadau lles. Rwy'n gobeithio'n fawr fod y partneriaid yn y glymblaid, y Democratiaid Rhyddfrydol, yn sefyll i fyny i asgell dde'r Torïaid ar y mater hwn.

2.15 p.m.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
## Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

**The Presiding Officer:** I am glad that the Minister is well enough to be with us today.

**Y Llywydd:** Rwy'n falch bod y Gweinidog yn ddigon iach i ymuno â ni heddiw.

### Blaenoriaethau Economaidd

### Economic Priorities

***1. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau economaidd ar gyfer Canol De Cymru. OAQ(4)0165(BET)*

***1. Andrew R.T. Davies:*** *Will the Minister make a statement on her economic priorities for South Wales Central. OAQ(4)0165(BET)*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** My priorities are set out in the programme for government.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Mae fy mlaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you, Minister, for that answer. On 10 July, I asked the First Minister about the £40 million that your department had spent creating the small and medium-sized enterprises fund in Wales. Regrettably, some three months later, despite the First Minister saying that he would write to me with information about the businesses that have benefited in South Wales Central, I have not had any response. Are you in a position today to say how effective the fund has been in South Wales Central and how many businesses have benefitted from it? Could you maybe prod the First Minister to

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Ar 10 Gorffennaf, gofynnais i'r Prif Weinidog am y £40 miliwn y mae eich adran wedi'i wario yn creu'r gronfa mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Yn anffodus, rhyw dri mis yn ddiweddarach, er bod y Prif Weinidog wedi dweud y byddai'n ysgrifennu ataf gyda gwybodaeth am y busnesau sydd wedi elwa yng Nghanol De Cymru, nid wyf wedi cael unrhyw ymateb ganddo. A ydych mewn sefyllfa heddiw i ddweud pa mor effeithiol y mae'r gronfa wedi bod yng Nghanol De Cymru a faint o fusnesau sydd wedi elwa

write to me with the answer that he promised me on 10 July?

ohono? A allech efallai atgoffa'r Prif Weinidog i ysgrifennu ataf gyda'r ateb yr addawodd i mi ar 10 Gorffennaf?

**Edwina Hart:** As far as I am aware, we have invested just over £1 million into three businesses, with the fourth expected to draw some more money down from that specific fund. Certainly, in light of your interest, I will write a letter to Members about what is happening in all the funds, if that would be helpful.

**Edwina Hart:** Cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, rydym wedi buddsoddi ychydig dros £1 miliwn mewn tri busnes, a disgwylir i'r pedwerydd dynnu mwy o arian o'r gronfa benodol honno. Yn sicr, yng ngoleuni eich diddordeb, byddaf yn ysgrifennu llythyr at yr Aelodau am yr hyn sy'n digwydd yn yr holl gronfeydd, pe bai hynny o gymorth.

**Christine Chapman:** Minister, before the recess, I asked how we could boost co-operation between the business and academic sectors, and how we could ensure a fair geographic spread of such links. I was delighted to see the outcomes of one such collaboration between Mountain Ash-based Flexicare Medical Limited and Professor Judith Hall of Cardiff University, who have come together to develop the Hall Lock to prevent wrong-route injections, which is potentially of global economic and health significance. Will you join me, Minister, in congratulating both parties? Will you ensure that the development of similar links is made an economic priority through the region and across Wales?

**Christine Chapman:** Weinidog, cyn y toriad, gofynnais sut y gallem roi hwb i gydweithrediad rhwng y sector busnes a'r sector academaidd, a sut y gallem sicrhau bod cysylltiadau o'r fath yn cael eu lledaenu'n ddaearyddol mewn modd teg. Roeddwn wrth fy modd i weld canlyniadau un cydweithrediad o'r fath rhwng Flexicare Medical Limited yn Aberpennar a'r Athro Judith Hall o Brifysgol Caerdydd, sydd wedi dod at ei gilydd i ddatblygu'r Hall Lock er mwyn atal pigiadau drwy'r llwybr anghywir, a allai fod o arwyddocâd byd-eang yn economaidd ac o ran iechyd. A wnewch chi ymuno â mi, Weinidog, i longyfarch y rhai a oedd yn gyfrifol? A wnewch chi sicrhau bod y gwaith o ddatblygu cysylltiadau tebyg yn cael ei wneud yn flaenoriaeth economaidd trwy'r rhanbarth a ledled Cymru?

**Edwina Hart:** Naturally, I am pleased to join you in congratulating both parties, as I am sure that the Assembly Chamber and all Members will, as well. It is important that we encourage collaboration between Welsh higher education and businesses. Our science strategy also promotes collaboration between us and the education sector.

**Edwina Hart:** Yn naturiol, mae'n bleser gennyf ymuno â chi i longyfarch y ddwy ochr, ac rwy'n siŵr bod Siambr y Cynulliad a'r holl Aelodau am wneud hynny, hefyd. Mae'n bwysig ein bod yn annog cydweithredu rhwng addysg uwch a busnesau yng Nghymru. Mae ein strategaeth wyddoniaeth hefyd yn hyrwyddo cydweithio rhyngom a'r sector addysg.

**Leanne Wood:** Minister, I have just had sight of a press release issued by Unison Cymru today, which say that it is appalled at Cardiff Council's decision to introduce a new structure, which will cost £1.1 million and also to outsource information technology, human resources and payroll services. Unison calls that privatisation in all but name. Plaid Cymru agrees that the privatisation of public services is not in the best interests of either local economies or public sector workers. Unison has called on the newly Labour-

**Leanne Wood:** Weinidog, rwyf newydd gael golwg ar ddatganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Unsain Cymru heddiw, sy'n dweud ei fod wedi ei ddychryn gan benderfyniad Cyngor Caerdydd i gyflwyno strwythur newydd, a fydd yn costio £1.1 miliwn, a hefyd i allanoli gwasanaethau technoleg gwybodaeth, adnoddau dynol, a'r gyflogres. Mae Unsain yn galw hynny'n breifateiddio, i bob pwrpas. Mae Plaid Cymru'n cytuno nad yw preifateiddio gwasanaethau cyhoeddus o fudd gorau naill ai i economïau lleol na

controlled Cardiff Council to work with trades unions to ensure that good public sector jobs and services remain where they belong: in the public sector. Plaid Cymru says 'no' to the privatisation of public services, and we support Unison's call to Cardiff Council. Do you?

gweithwyr y sector cyhoeddus. Mae Unsain wedi galw ar Gyngor Caerdydd, sydd o dan reolaeth Lafur ac sydd newydd ei ethol, i weithio gydag undebau llafur i sicrhau bod swyddi a gwasanaethau da yn y sector cyhoeddus yn aros yn y lle y maent yn perthyn: yn y sector cyhoeddus. Mae Plaid Cymru'n dweud 'na' i breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym yn cefnogi galwad Unsain ar Gyngor Caerdydd. A ydych chi?

**Edwina Hart:** I have not had the opportunity to see Unison's press release. As far as I am aware, this may have been an historic decision taken before the Labour administration came to power. My colleague, the Minister for local government, has obviously heard the contribution, and if you allow us to investigate, one of us will write to you.

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael cyfle i weld datganiad i'r wasg Unsain. Cyn belled ag y gwn i, gallai hyn fod wedi bod yn benderfyniad hanesyddol a gymerwyd cyn i'r weinyddiaeth Lafur ddod i rym. Mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros lywodraeth leol, yn amlwg wedi clywed y cyfraniad, ac os byddwch yn caniatáu i ni ymchwilio iddo, bydd un ohonom yn ysgrifennu atoch.

### Helpu Busnesau Bach

### Helping Small Businesses

***2. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i helpu busnesau bach yng Nghymru. OAQ(4)0178(BET)*

***2. Julie Morgan:*** *What plans does the Minister have to help small businesses in Wales. OAQ(4)0178(BET)*

**Edwina Hart:** Thank you for your question. Small businesses are the heart and soul, in many ways, of the Welsh economy, and it is important that we do as much as we can to encourage them. The programme for government sets out my priorities for helping them.

**Edwina Hart:** Diolch am eich cwestiwn. Mewn sawl ffordd, busnesau bach yw calon ac enaid economi Cymru, ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud cymaint â phosibl i'w hannog. Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi fy mlaenoriaethau i'w helpu.

**Julie Morgan:** I thank the Minister for that reply. Does the Minister have any plans to increase the capital available to Finance Wales, possibly via the newly announced UK business bank that is being set up? Will she offer to share the experience of Finance Wales over the past 12 years now that the UK Government is setting up a similar body?

**Julie Morgan:** Diolchaf i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gynyddu'r cyfalaf sydd ar gael i Cyllid Cymru, o bosibl trwy fanc busnes newydd y DU y cyhoeddwyd y bydd yn cael ei sefydlu? A fydd hi'n cynnig rhannu profiad Cyllid Cymru dros y 12 mlynedd diwethaf gan fod Llywodraeth y DU bellach yn sefydlu corff tebyg?

**Edwina Hart:** Finance Wales is currently managing more than £220 million of funding provided by us to help it to support businesses. In the next few weeks, I will be discussing with Finance Wales the current performance of those funds, and I would be happy to update Members on any lessons that it may have learned in the past few years.

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd, mae Cyllid Cymru yn rheoli mwy na £220 miliwn o gyllid a ddarperir gennym i'w helpu i gefnogi busnesau. Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddaf yn trafod â Chyllid Cymru berfformiad presennol y cronfeydd hynny, a byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am unrhyw wersi y

With regard to the business bank, we await the detail on that from the UK Government.

gallai fod wedi eu dysgu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ran y banc busnes, rydym yn aros am y manylion ynghylch hynny gan Lywodraeth y DU.

**Byron Davies:** I was interested in the first part of your answer to the Member for Cardiff North, Minister. I raised a key issue on support for small and medium-sized businesses in Wales with the First Minister yesterday, who was less than forthcoming with the Government's plans, policies or, indeed, anything that you had delivered. I suggested that Welsh indigenous businesses have got so fed up with Government inaction in Wales that they are moving across the border to England. Perhaps you could be somewhat more forthcoming with a Wales-related response.

**Byron Davies:** Roedd gennyf ddiddordeb yn rhan gyntaf eich ateb i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd, Weinidog. Codais fater allweddol ar gymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru gyda'r Prif Weinidog ddoe, a oedd yn eithaf amharod i drafod cynlluniau neu bolisïau'r Llywodraeth, neu, yn wir, unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarparu. Awgrymais fod busnesau cynhenid Cymru wedi cael cymaint o lond bol o ddiffyg gweithredu'r Llywodraeth yng Nghymru nes eu bod yn symud dros y ffin i Loegr. Efallai y gallech fod ychydig yn fwy parod i roi ymateb sy'n gysylltiedig â Chymru.

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to a question?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych ar fin gofyn cwestiwn?

**Byron Davies:** Yes. As I said yesterday, to my surprise, it is apparently much easier to access funding for an English company moving into Wales than for a Welsh firm looking to expand. Would you care to comment on that, please?

**Byron Davies:** Ydw. Fel y dywedais ddoe, er syndod imi, mae'n debyg ei bod yn llawer haws cael mynediad at gyllid ar gyfer cwmni o Loegr sy'n symud i Gymru nag y mae i gwmni o Gymru sydd am ehangu. A fyddech yn dymuno gwneud sylwadau ar hynny, os gwelwch yn dda?

**Edwina Hart:** I would like some evidence to back up the assertion that you have made in the Chamber, but I would be more than happy then to investigate it fully if such an issue is drawn to my attention. There are issues to do with what the banks lend to businesses, but I can tell you that, as far as we are concerned, we have set up a £40 million Wales SME fund and a £6 million microbusinesses fund, and we are putting Government money where it needs to go to help businesses to be successful in Wales.

**Edwina Hart:** Hoffwn gael rhywfaint o dystiolaeth i gefnogi'r honiad yr ydych wedi'i wneud yn y Siambr, ond byddwn yn fwy na hapus wedyn i ymchwilio iddo'n llawn os oes mater o'r fath yn cael ei ddwyn i'm sylw. Mae yna faterion yn ymwneud â'r hyn y mae'r banciau'n ei fenthyca i fusnesau, ond gallaf ddweud wrthych, cyn belled ag yr ydym ni yn y cwestiwn, rydym wedi sefydlu cronfa gwerth £40 miliwn ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru a chronfa gwerth £6 miliwn ar gyfer microfusnesau, ac rydym yn rhoi arian y Llywodraeth lle mae angen iddo fynd i helpu busnesau i fod yn llwyddiannus yng Nghymru.

**Byron Davies:** Thank you for that. Given your answer and your confidence that your Government is doing everything possible in Wales to boost the private sector and support SMEs, can you outline how many private sector businesses have received investment

**Byron Davies:** Diolch i chi am hynny. O ystyried eich ateb a'ch hyder bod eich Llywodraeth yn gwneud popeth posibl yng Nghymru i roi hwb i'r sector preifat a chefnogi busnesau bach a chanolig eu maint, a allwch amlinellu faint o fusnesau yn y

from the regeneration investment fund for Wales? Can you tell us how you see the future of that?

sector preifat sydd wedi cael buddsoddiad gan gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio? A allwch ddweud wrthym sut rydych yn gweld dyfodol hynny?

**Edwina Hart:** In my response to Andrew R.T. Davies, I said that I would look at all funds that we have been involved in with my portfolio to give him an indication of the numbers of jobs protected and the level of investment made. I might not be able to go into detail on some elements because of commercial confidentiality, but I will certainly pick up the further point that you made on this.

**Edwina Hart:** Yn fy ymateb i Andrew R.T. Davies, dywedais y byddwn yn edrych ar yr holl gronfeydd yr ydym wedi bod yn gysylltiedig â nhw yn fy mhortffolio i roi syniad iddo o niferoedd y swyddi a ddiogelwyd a lefel y buddsoddiad a wnaed. Efallai na fyddaf yn gallu mynd i fanylder ar rai elfennau oherwydd cyfrinachedd masnachol, ond byddaf yn sicr yn codi'r pwynt arall a wnaethoch ar y mater hwn.

**Alun Ffred Jones:** Mae gan adroddiad yr Athro Brian Morgan ar drethi busnes nifer o argymhellion a fyddai o fudd mawr i fusnesau bychan. A ydych yn bwriadu ehangu'r cynllun cymorth trethi busnes yn y dyfodol a phryd y byddwch yn dod ag argymhellion gerbron y Cynulliad?

**Alun Ffred Jones:** Professor Brian Morgan's report on business rates makes several recommendations that would be of benefit to small businesses. Do you intend to expand the business rate relief scheme in future, and when will you be bringing recommendations to the Assembly?

**Edwina Hart:** Professor Brian Morgan's report has engendered a lot of interest. As a result, he has had to go out for further discussions, and we are receiving further submissions from various areas about what more we should do as a Government. I will make a formal response to the Chamber in due course.

**Edwina Hart:** Mae adroddiad yr Athro Brian Morgan wedi ennyn llawer o ddiddordeb. O ganlyniad, bu'n rhaid iddo gynnal trafodaethau pellach, ac rydym yn cael cyflwyniadau pellach o ardaloedd amrywiol am beth arall y dylem ei wneud fel Llywodraeth. Byddaf yn ymateb yn ffurfiol i'r Siambr maes o law.

**Alun Ffred Jones:** Un mater arall sy'n broblemus i fusnesau bychan yw'r broses o ailbrisio gwerth ardrethol busnesau. Mae rhai busnesau, yn enwedig yn y sector twristiaeth, yn cael eu hasesu ar eu helw potensial, ond nid yw hynny'n wir am y rhan fwyaf o fusnesau. Oni ddylai pob trefn felly fod yn gyson? Os yw elw potensial yn llinyn mesur i un busnes, oni ddylai hynny fod yn wir am bob un busnes?

**Alun Ffred Jones:** Another issue that is problematic for small businesses is the revaluation process for businesses' rateable value. Some businesses, especially in the tourism sector, are assessed based on their potential profit, but that is not true for the majority of businesses. Should there not be consistency in all such arrangements? If potential profit is a yardstick for one business, should it not be for all businesses?

**Edwina Hart:** You raise some interesting points about revaluation and what we need to do. I am currently discussing this and will discuss it further with Professor Brian Morgan, because I might wish to make a statement in this regard in the autumn.

**Edwina Hart:** Rydych yn codi rhai pwyntiau diddorol am ailbrisio a'r hyn sydd angen inni ei wneud. Rwy'n trafod hyn a byddaf yn ei drafod ymhellach â'r Athro Brian Morgan, oherwydd mae'n bosibl y byddaf yn dymuno gwneud datganiad ar y mater hwn yn yr hydref.

**Aled Roberts:** Minister, I am sure that there is cross-party support for Jobs Growth Wales, but many small businesses are suggesting that

**Aled Roberts:** Weinidog, rwy'n siŵr bod cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer Twf Swyddi Cymru, ond mae llawer o fusnesau

there is conflict between the criteria for Jobs Growth Wales and the work programme. Have you had any discussions with the UK Government regarding the mismatch between certain elements of the two programmes?

bach yn awgrymu nad oes gwrthdaro rhwng y meini prawf ar gyfer Twf Swyddi Cymru a'r rhaglen waith. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y diffyg cyfatebiaeth rhwng rhai elfennau o'r ddwy raglen?

**Edwina Hart:** I will certainly pick up the point now that you have raised the matter with me.

**Edwina Hart:** Byddaf yn sicr yn codi'r pwynt yn awr eich bod wedi codi'r mater gyda mi.

**Ardal Fenter Caerdydd**

**Cardiff Enterprise Zone**

***3. Jenny Rathbone:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ardal Fenter Caerdydd. OAQ(4)0173(BET)*

***3. Jenny Rathbone:*** *Will the Minister provide an update on progress on the Cardiff Enterprise Zone. OAQ(4)0173(BET)*

**Edwina Hart:** All enterprise zone boards have submitted their blueprints for the development of each enterprise zone, which I am currently considering.

**Edwina Hart:** Mae pob bwrdd ardal fenter wedi cyflwyno eu glasbrintiau ar gyfer datblygu pob ardal fenter, ac rwyf wrthi'n eu hystyried.

**Jenny Rathbone:** People in my constituency are anxiously awaiting the development of a new bus station adjacent to and north of the railway station. What part does an integrated bus and railway transport system play in the success of the enterprise zone?

**Jenny Rathbone:** Mae pobl yn fy etholaeth i yn disgwyl yn eiddgar am y gwaith o ddatblygu gorsaf bws newydd ger yr orsaf reilffordd ac i'r gogledd ohoni. Pa ran mae system drafnidiaeth bws a rheilffordd integredig yn chwarae yn llwyddiant yr ardal fenter?

**Edwina Hart:** Better integrated bus and rail services, coupled with improved pedestrian movement, are seen as a major goal for the strategic development of the area and the attraction of new business investment and job creation. My colleague, Carl Sargeant, the Minister for transport, and I are having regular discussions about how we can deal with matters to do with transport arising in the enterprise zones.

**Edwina Hart:** Mae gwasanaethau bws a rheilffordd integredig well, ynghyd â gallu cerddwyr i symud yn well, yn cael eu gweld fel nod pwysig ar gyfer datblygiad strategol yr ardal ac i ddenu buddsoddiad newydd gan fusnesau a chreu swyddi. Mae fy nghydweithiwr, Carl Sargeant, y Gweinidog dros drafnidiaeth, a minnau yn cael trafodaethau rheolaidd ar sut y gallwn fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thrafnidiaeth sy'n codi yn yr ardaloedd menter.

**Andrew R.T. Davies:** Last week, we had the sad news that the AA was going to relocate 400 jobs out of Cardiff city centre, and you have kindly kept Members informed of that situation. Regrettably, we have lost the bid for the green investment bank. We have had the plans for the central business district, and Cardiff has been identified as an enterprise zone, yet we are still losing jobs from the centre of Cardiff to areas with the same economic footprint, such as Newcastle in the north-east of England. It does not seem as

**Andrew R.T. Davies:** Yr wythnos diwethaf, cawsom y newyddion trist bod yr AA yn mynd i symud 400 o swyddi o ganol dinas Caerdydd, ac rydych wedi bod yn garedig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y sefyllfa honno. Yn anffodus, methiant oedd ein cais ar gyfer y banc buddsoddi gwyrdd. Rydym wedi cael y cynlluniau ar gyfer yr ardal busnes canolog, ac mae Caerdydd wedi cael ei nodi fel ardal fenter, ac eto rydym yn parhau i golli swyddi o ganol Caerdydd i'r ardaloedd sydd â'r un ôl

though these proposals are coming forward at the rate of knots that we would like to see. What confidence can my constituents in Cardiff have that these are being progressed with the council and that we will start to see some tangible results on the ground?

troed economaidd, fel Newcastle yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Nid yw'n ymddangos bod y cynigion hyn yn cael eu cyflwyno ar y raddfa y byddem yn hoffi ei gweld. Pa hyder all fy etholwyr i yng Nghaerdydd ei gael bod y cynigion hyn yn cael eu datblygu gyda'r cyngor ac y byddwn yn dechrau gweld rhai canlyniadau cadarn ar lawr gwlad?

**Edwina Hart:** We have got the final plans in from the Cardiff enterprise zone board about how we intend to deal with the enterprise zone in Cardiff, and we are having regular discussions with the local authority over what it sees as its aims for the enterprise zone and its periphery. I very much hope that I will be able to come to the Chamber with a full statement on the development of these zones within the next few weeks.

**Edwina Hart:** Rydym wedi cael y cynlluniau terfynol gan fwrdd ardal fenter Caerdydd o ran sut rydym yn bwriadu delio â'r ardal fenter yng Nghaerdydd, ac rydym yn cael trafodaethau rheolaidd â'r awdurdod lleol am yr hyn y mae'n gweld fel ei nodau ar gyfer yr ardal fenter a'i hymylon. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddaf yn gallu dod i'r Siambr â datganiad llawn ar ddatblygiad y parthau hyn o fewn yr wythnosau nesaf.

In addition, even though jobs are going because of the national circumstances of companies, jobs are still coming in.

Hefyd, er bod swyddi'n mynd oherwydd amgylchiadau cenedlaethol cwmnïau, mae swyddi'n parhau i ddod i mewn.

**Leanne Wood:** Cardiff Council under the previous administration worked closely with the Welsh Government to make the best use of the enterprise zone in developing plans for the Cardiff business district, but we now hear that the new Labour administration has placed those plans under review. How confident are you that the business district will go ahead in the Cardiff enterprise zone?

**Leanne Wood:** O dan y weinyddiaeth flaenorol, gweithiodd Cyngor Caerdydd yn agos gyda Llywodraeth Cymru i wneud y defnydd gorau o'r ardal fenter i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ardal fusnes Caerdydd, ond rydym yn awr yn clywed bod y weinyddiaeth Lafur newydd wedi penderfynu adolygu'r cynlluniau hynny. Pa mor hyderus ydych y bydd yr ardal fusnes yn mynd yn ei blaen yn ardal fenter Caerdydd?

**Edwina Hart:** I am confident that my enterprise zone will go ahead, and that is my responsibility. We need to make it quite clear that enterprise zones are run by the Welsh Government. They take priority in our investment, and local authorities are duty-bound to work in partnership with us to deliver what we require, which is jobs.

**Edwina Hart:** Rwy'n hyderus y bydd fy ardal fenter yn mynd yn ei blaen, a dyna fy nghyfrifoldeb i. Mae angen inni wneud yn hollol glir bod ardaloedd menter yn cael eu rhedeg gan Lywodraeth Cymru. Maent yn cymryd blaenoriaeth yn ein buddsoddiad, ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth â ni i sicrhau'r hyn sydd ei angen arnom, sef swyddi.

**Eluned Parrott:** Thank you, Minister, for those answers. Obviously, the creation of the central business district, with office space and a convention centre, could have been a real boost to the enterprise zone in Cardiff. Minister, your review of the failure to secure the green investment bank quoted a lack of grade-A office space as a critical factor. In scrapping these plans, Russell Goodway of

**Eluned Parrott:** Diolch i chi, Weinidog, am yr atebion hynny. Yn amlwg, gallai creu'r ardal fusnes ganolog, gyda swyddfeydd a chanolfan gynhadleddau, fod wedi bod yn hwb gwirioneddol i'r ardal fenter yng Nghaerdydd. Weinidog, soniodd eich adolygiad o'r methiant i sicrhau'r banc buddsoddi gwyrdd am ddiffyg swyddfeydd gradd-A fel ffactor allweddol. Wrth gael

Cardiff Council stated that there was already enough office space, but either there is, or there is not. Who is right, you or Russell Goodway?

gwared ar y cynlluniau hyn, dywedodd Russell Goodway o Gyngor Caerdydd fod yna eisoes ddigon o swyddfeydd, ond mae hynny naill ai'n gywir neu'n anghywir. Pwy sy'n iawn, chi neu Russell Goodway?

**Edwina Hart:** I have asked the enterprise board to look at this. A good standard of office accommodation is a priority. If I may, I will refer to the feedback that we had on our bid for the green investment bank. There were issues to do with the recruitment and retention of staff as part of that, and one reason we did not stand a chance with that project was the finance transactions ecosystem brought in Frankfurt, which we and 20 other areas were not eligible for.

**Edwina Hart:** Rwyf wedi gofyn i'r bwrdd menter edrych ar hyn. Mae safon dda o swyddfeydd yn flaenoriaeth. Os caf, rwyf am gyfeirio at yr adborth a gawsom ar ein cais ar gyfer y banc buddsoddi gwyrdd. Roedd materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff fel rhan o hynny, ac un rheswm nad oedd gennym lawer o siawns o fod yn llwyddiannus gyda'r prosiect hwnnw oedd yr ecosystem trafodion ariannol a ddaeth â Frankfurt i mewn, ond nad oeddem ni na 20 o ardaloedd eraill yn gymwys ar ei gyfer.

Let me make it absolutely clear that we do require good-quality office space. That is an issue, and it is something that is requested when we speak to companies in London that might considering relocating.

Gadewch imi ei gwneud yn gwbl glir fod angen swyddfeydd o ansawdd da arnom. Mae hynny'n broblem, ac mae'n rhywbeth y gofynnir amdano pan fyddwn yn siarad â chwmnïau yn Llundain a allai fod yn ystyried adleoli.

**Y Diwydiant Amaethyddol**

**The Agriculture Industry**

***4. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau ei hadran ar gyfer y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. OAQ(4)0171(BET)*

***4. Lord Elis-Thomas:*** *Will the Minister make a statement on her department's priorities for the agricultural industry in Wales. OAQ(4)0171(BET)*

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Fy mhrif flaenoriaeth ar hyn o bryd yw ei gynnal ac ennill ar ran ffermwyr Cymru yn ystod y trafodaethau am y polisi amaethyddol cyffredin.

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** My main priority at this time is to support it and to win on behalf of Welsh farmers during the negotiations on the common agricultural policy.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Efallai nad yw'n ymwybodol o hyn ond nid wyf yn siopa yn aml yn Sainsbury's, ond ar ymweliad diweddar â Sainsbury's yn Wrecsam, cefais y pleser o brynu cig oen o Gymru ac arno logo Hybu Cig Cymru a chyfeiriad at gynllun penodol i gefnogi ffermwyr ifanc. Hoffwn lyngyfarch Hybu Cig Cymru ar yr arweiniad hwn a gofyn i'r Dirprwy Weinidog pa arweiniad tebyg sydd ganddo ymhellach i sicrhau, o ystyried sefyllfa bresennol y farchnad cig oen, fod cig oen Cymru yn parhau i fod yn gystadleuol yng Nghymru ac yn fyd-eang?

**Lord Elis-Thomas:** Perhaps he is unaware of the fact that I do not shop very often in Sainsbury's, but on a recent visit to Sainsbury's in Wrexham, I had the pleasure of purchasing Welsh lamb that featured the logo of Hybu Cig Cymru and a reference to a specific scheme to support young farmers. I want to congratulate Hybu Cig Cymru on this lead that it has shown and I ask the Deputy Minister what further he can do to ensure, given the current position of the lamb industry, that Welsh lamb continues to be competitive in Wales and on a global level?

**Alun Davies:** Rwy’n cytuno â’r pwyntiau y mae Dafydd Elis-Thomas wedi’u gwneud. Mae Hybu Cig Cymru wedi dangos arweinyddiaeth glir i’r sector ac wedi bod yn llwyddiannus wrth hybu’r sector a’i ddatblygu. Byddwch yn ymwybodol fy mod i newydd fod ym Milan yn yr Eidal gyda Hybu Cig Cymru i hybu’r farchnad o Gymru yno, a byddaf yn teithio i Baris gyda’r corff hwnnw ymhen rhai wythnosau i hybu allforion cig oen o Gymru.

**Alun Davies:** I agree with the points that Dafydd Elis-Thomas has made. Hybu Cig Cymru has shown clear leadership in the sector and has been successful in promoting and developing the sector. You will be aware that I have just returned from Milan in Italy with Hybu Cig Cymru to promote the Welsh lamb market out there, and I will be travelling to Paris with that organisation in a few weeks’ time to promote Welsh lamb exports.

Rwy’n ymwybodol bod archfarchnadoedd drwy Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig wedi bod yn hybu cig oen o Gymru, a chredaf fod y gwaith a wnaed i’w weld yn glir yn y cynnydd yn yr allforion. Byddwn yn parhau i gefnogi Hybu Cig Cymru yn ei waith.

I am aware that supermarkets throughout Wales and the rest of the UK have been promoting Welsh lamb, and I believe that the work that has been carried out is clear for all to see in the increase in exports. We will continue to support Hybu Cig Cymru’s work.

**Russell George:** We have seen in the news this week that harvest yields in the UK have been significantly damaged by the poor weather conditions, and the weather patterns that we have experienced over the past few years will be with us for the foreseeable future, as Atlantic warming continues. What discussions have you had with the farming unions, and with colleagues in the Department for Environment, Food and Rural Affairs and the other devolved administrations regarding the future development of agronomy in the UK, and how we can best use that technology to mitigate the effects of climate change on our food supplies?

**Russell George:** Rydym wedi gweld yn y newyddion yr wythnos hon fod cynhaeafau yn y DU wedi cael eu difrodi yn sylweddol gan y tywydd gwael, a bydd y patrymau tywydd yr ydym wedi eu profi dros y blynyddoedd diwethaf gyda ni am y dyfodol rhagweladwy, wrth i gynhesu’r Iwerydd barhau. Pa drafodaethau ydych wedi’u cael â’r undebau ffermio, cydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a’r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch datblygu agronomeg yn y DU yn y dyfodol, a sut y gallwn ddefnyddio’r dechnoleg honno yn y ffordd orau i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ein cyflenwadau bwyd?

**Alun Davies:** We hold a number of conversations with the farming unions and others, and with ministerial teams from all parts of the United Kingdom on a regular basis. The current situation is a cause for real concern, in respect of the short-term issues about food pricing and food scarcity at present. However, our overriding concern at the moment, as I said in my initial reply to Dafydd Elis-Thomas, is to ensure that we have an overall financial framework over the next seven years that will sustain food production in an environmentally friendly way for farmers throughout Wales, the UK and the rest of the European Union.

**Alun Davies:** Rydym yn cynnal nifer o sgyrsiau â’r undebau ffermio ac eraill, a chyda thimau gweinidogol o bob rhan o’r Deyrnas Unedig, yn rheolaidd. Mae’r sefyllfa bresennol yn destun pryder gwirioneddol, o ran y materion tymor byr yn ymwneud â phrisiau bwyd a phrinder bwyd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ein prif bryder ar hyn o bryd, fel y dywedais yn fy ateb cychwynnol i Dafydd Elis-Thomas, yw sicrhau bod gennym fframwaith ariannol cyffredinol dros y saith mlynedd nesaf a fydd yn cynnal cynhyrchu bwyd mewn ffordd eco-gyfeillgar i ffermwyr ledled Cymru, y DU a gweddill yr Undeb Ewropeaidd.

2.30 p.m.

**Adolygu Ardrethi Busnes**

*5. **Mick Antoniw:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adroddiad diweddar, Adolygu Ardrethi Busnes Cymru: Cymell Twf. OAQ(4)0169(BET)*

**Edwina Hart:** I refer you to my recent letter dated 26 September, in which I state that I will be making a full response shortly.

**Mick Antoniw:** I had the great pleasure of Professor Brian Morgan's company recently when he visited small businesses in Pontypridd to discuss their issues. Two of the issues raised were the lack of a relationship between business rates and the turnover of businesses, and the competition from out-of-town retailing. Could you give a statement on the timetable for the next stage of the review and consultation on that review?

**Edwina Hart:** I am aware of the concerns of business and I am tremendously interested in Professor Morgan's report. There has been particular interest from people in town centres, which have been a priority, as outlined by my colleague Huw Lewis and the Enterprise and Business Committee in its report. During the next few weeks, I will meet with Professor Brian Morgan and I will then make a statement on all of the recommendations to the Chamber.

**Janet Finch-Saunders:** The review makes several recommendations relating to the charity retail sector, including the suggestion to limit the business rate relief to 50% of those larger charity shops trading in new goods. The British Heart Foundation is one of several charities that have responded to Professor Brian Morgan's call for evidence with submissions. Some have now raised concerns that they are not too convinced that their representations have been acknowledged in the body of the report in terms of his response. Will you acknowledge these representations and do you intend to undertake a full and open consultation with the charity retail sector, as per recommendation 15 of this review?

**Business Rates Review**

*5. **Mick Antoniw:** Will the Minister make a statement on the recent Business Rates Wales Review: Incentivising Growth. OAQ(4)0169(BET)*

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy llythyr diweddar dyddiedig 26 Medi, lle rwy'n datgan y byddaf yn rhoi ymateb llawn cyn bo hir.

**Mick Antoniw:** Cefais bleser mawr gwmni yr Athro Brian Morgan yn ddiweddar pan ymwelodd â busnesau bach ym Mhontypridd i drafod eu problemau. Dau o'r materion a godwyd oedd y diffyg perthynas rhwng ardrethi busnes a throsiant busnesau, a'r gystadleuaeth gan gwmnïau manwerthu y tu allan i'r dref. A allech roi datganiad ar yr amserlen ar gyfer cam nesaf yr adolygiad a'r ymgynghoriad ar yr adolygiad hwnnw?

**Edwina Hart:** Rwy'n ymwybodol o bryderon busnesau ac mae gennyf ddiddordeb aruthrol yn adroddiad yr Athro Morgan. Cafwyd diddordeb arbennig gan bobl yng nghanol trefi, sydd wedi bod yn flaenoriaeth, fel yr amlinellwyd gan fy nghydweithiwr, Huw Lewis ac adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, byddaf yn cyfarfod â'r Athro Brian Morgan ac yna byddaf yn gwneud datganiad ar bob un o'r argymhellion i'r Siambr.

**Janet Finch-Saunders:** Mae'r adolygiad yn gwneud sawl argymhelliad yn ymwneud â'r sector manwerthu elusennol, gan gynnwys yr awgrym i gyfyngu ar y rhyddhad ardrethi busnes i 50% ar gyfer y siopau elusennol mwyaf hynny sy'n masnachu mewn nwyddau newydd. Mae Sefydliad Prydeinig y Galon yn un o sawl elusen sydd wedi ymateb i alwad yr Athro Brian Morgan am dystiolaeth gyda chyflwyniadau. Mae rhai nawr wedi codi pryderon nad ydynt yn argyhoeddedig bod eu sylwadau wedi cael eu cydnabod yng nghorff yr adroddiad o ran ei ymateb. A wnewch chi gydnabod y sylwadau hyn ac a ydych yn bwriadu cynnal ymgynghoriad llawn ac agored gyda'r sector manwerthu elusennol, yn unol ag argymhelliad 15 o'r adolygiad hwn?

**Edwina Hart:** As I indicated, I will respond to the recommendations in due course. I am well aware of the further representations that have been made to Professor Morgan from the charitable sector. However, I am sure that you will all be interested to know that we have also had representations from other retailers, which made the point to us that they are also running businesses and are paying staff wages and so on. So, there is a balance to be struck here, but I can assure you that this will be a transparent process.

**Edwina Hart:** Fel yr awgrymais, byddaf yn ymateb i'r argymhellion maes o law. Rwy'n ymwybodol o'r sylwadau pellach a wnaed i'r Athro Morgan gan y sector elusennol. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd gennych ddiddordeb gwybod ein bod hefyd wedi cael sylwadau gan fanwerthwyr eraill, a oedd yn nodi eu bod hefyd yn rhedeg busnesau ac yn talu cyflogau staff ac yn y blaen. Felly, mae angen sicrhau cydbwysedd yma, ond gallaf eich sicrhau y bydd hon yn broses dryloyw.

**Llyr Huws Gruffydd:** Yn Ebrill 2010, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gynllun rhyddhad trethi busnes i'r sector ynni adnewyddadwy, gan gynnig hyd at 100% o ostyngiad er mwyn hybu'r sector honno. Rwy'n teimlo, o glywed eich atebion blaenorol, na wnewch chi ddweud eich bod chi'n barod i fabwysiadu argymhelliad yr Athro Brian Morgan tan i chi wneud cyhoeddiad yn ddiweddarach efallai, ond a allwch chi ddweud wrthyf a fuasech chi'n gweld gwerth mewn ystyried mabwysiadu rhywbeth tebyg yng Nghymru?

**Llyr Huws Gruffydd:** In April 2012, the Scottish Government announced a business rate relief scheme for the renewable energy sector, which offers a reduction of up to 100% in order to promote that sector. I feel that perhaps, having heard your previous answers, you will not be saying that you are willing to adopt Professor Brian Morgan's recommendation until you make an announcement later on, but can you tell me whether you would see value in adopting such an approach in Wales?

**Edwina Hart:** Yes, my colleague who has responsibilities for these issues, John Griffiths, smiled when he saw that recommendation in Professor Morgan's report, so there are ongoing discussions on that on which I will advise Assembly Members when I respond in full to the recommendations.

**Edwina Hart:** Byddwn. Gwenodd John Griffiths, fy nghydweithiwr sydd â chyfrifoldebau dros y materion hyn, pan welodd yr argymhelliad hwnnw yn adroddiad yr Athro Morgan, felly mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hynny a byddaf yn cynghori Aelodau'r Cynulliad ar hynny pan fyddaf yn ymateb yn llawn i'r argymhellion.

**Peter Black:** We all look forward to your response to the review. You will also know that there is pressure from the small business sector to extend the existing rate relief scheme and yet there is no money in the forthcoming budget to pay for that. Will you look at that in particular? What money is in the budget to implement the recommendations that you are prepared to accept?

**Peter Black:** Rydym i gyd yn edrych ymlaen at eich ymateb i'r adolygiad. Byddwch hefyd yn gwybod bod pwysau gan y sector busnesau bach i ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi presennol ac eto nid oes unrhyw arian yn y gyllideb sydd ar y gweill i dalu am hynny. A wnewch chi edrych ar hynny yn benodol? Pa arian sydd yn y gyllideb i weithredu'r argymhellion rydych yn barod i'w derbyn?

**Edwina Hart:** There will be budgetary considerations to Professor Brian Morgan's recommendations if any or all are accepted, and there will be ongoing discussions with the Minister for Finance in that regard.

**Edwina Hart:** Bydd ystyriaethau cyllidebol i argymhellion yr Athro Brian Morgan os caiff rhai neu bob un ohonynt eu derbyn, a bydd trafodaethau parhaus â'r Gweinidog Cyllid yn hynny o beth.

**Y Diwydiant Ymwelwyr**

***6. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion y Llywodraeth i hybu'r diwydiant ymwelwyr. OAQ(4)0179(BET)*

**Edwina Hart:** The programme for government sets out our proposals to boost tourism across Wales.

**Alun Ffred Jones:** O ganlyniad i'r haf gwlyb, mae nifer o fusnesau ac atyniadau yn y maes ymwelwyr a thwristiaeth wedi cael cyfnod heriol iawn. Un cam ymarferol i geisio helpu fyddai rhoi gwell arwyddion at yr atyniadau hyn ar ein ffyrdd a'n traffyrdd. A wnewch chi, ar y cyd â'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth, ddiwygio'r rheolau presennol a pha bryd y cawn ni glywed am hynny?

**Edwina Hart:** As you raise that issue with me, I will certainly discuss it with my colleague the Minister for transport and report back to the Assembly.

**Rebecca Evans:** In his statement on the flooding in Ceredigion earlier this year, the Minister for Local Government and Communities said that Visit Wales would be contacting tourism businesses in the area to see what kind of support could be offered to them over the summer. Could you provide us with an update on those discussions and on the support that was offered?

**Edwina Hart:** My officials and I have met with several tourism businesses in Ceredigion that were hit by floods. I also met with the leader of Ceredigion County Council to discuss the impact of the floods in the area. I have also had the opportunity to visit other businesses. I visited Cambrian Printers in Aberystwyth with Elin Jones to look at the impact on business there. The clear message from business was that they needed marketing support to get their message across that mid Wales is open for business. We will work with the tourism industry on this. For example, we have worked with Ceredigion council on an e-mail campaign, and we are working with partners in mid Wales on a co-ordinated public relations and social media programme.

**The Tourism Industry**

***6. Alun Ffred Jones:*** *Will the Minister make a statement on the Government's efforts to promote the tourism industry. OAQ(4)0179(BET)*

**Edwina Hart:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein cynigion i hybu twristiaeth ledled Cymru.

**Alun Ffred Jones:** Due to this year's wet summer, a number of businesses and attractions in the tourism and visitor sector have faced a very challenging time. One practical step to assist them would be to provide better signposting to such attractions on our roads and motorways. Will you, along with the Minister with responsibility for transport, revise the current regulations and when will we be informed about that?

**Edwina Hart:** Gan eich bod wedi codi'r mater hwnnw gyda mi, byddaf yn sicr yn ei drafod â'm cydweithiwr y Gweinidog trafnidiaeth, ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad.

**Rebecca Evans:** Yn ei ddatganiad ar y llifogydd yng Ngheredigion yn gynharach eleni, dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y byddai Croeso Cymru yn cysylltu â busnesau twristiaeth yn yr ardal i weld pa fath o gymorth y gellir ei gynnig iddynt dros yr haf. A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y trafodaethau hynny ac ar y cymorth a gynigiwyd?

**Edwina Hart:** Mae fy swyddogion a mi wedi cwrdd â nifer o fusnesau twristiaeth yng Ngheredigion a gafodd eu heffeithio gan lifogydd. Cyfarfûm ag arweinydd Cyngor Sir Ceredigion i drafod effaith y llifogydd yn yr ardal. Rwyf hefyd wedi cael cyfle i ymweld â busnesau eraill. Ymwelais â Cambrian Printers yn Aberystwyth gydag Elin Jones i edrych ar yr effaith ar fusnes yno. Y neges glir gan fusnesau oedd bod angen cymorth marchnata arnynt i gyfleu eu neges bod y canolbarth ar agor i fusnes. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant twristiaeth ar hyn. Er enghraifft, rydym wedi gweithio gyda chyngor Ceredigion ar ymgyrch e-bost, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y canolbarth ar gysylltiadau cyhoeddus cydlynol a rhaglen cyfryngau cymdeithasol.

**Darren Millar:** One part of the tourism industry that is more resilient to poor weather is faith tourism, because people visit churches, chapels and faith trails for all sorts of different reasons other than the weather. Could you provide us with an update on the faith tourism action plan, which I know you have been promoting as Minister?

**Darren Millar:** Un rhan o'r diwydiant twristiaeth sy'n fwy abl i wrthsefyll tywydd gwael yw twristiaeth ffydd, gan fod pobl yn ymweld ag eglwysi, capeli a llwybrau ffydd am bob math o wahanol resymau heblaw'r tywydd. A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y cynllun gweithredu twristiaeth ffydd, y gwn eich bod wedi bod yn ei hyrwyddo fel Gweinidog?

**Edwina Hart:** I do not have the details of the work that we have undertaken in this area, but I would be happy to put a note out.

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf fanylion ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud yn y maes hwn, ond rwy'n fwy na pharod i anfon nodyn.

**Mewnfuddsoddi**

**Inward Investment**

***7. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fewnfuddsoddi yng Nghymru. OAQ(4)0172(BET)*

***7. Eluned Parrott:*** *Will the Minister make a statement on inward investment in Wales. OAQ(4)0172(BET)*

**Edwina Hart:** Following a meeting of the council for economic renewal on 24 September, the First Minister and I outlined the action that we are taking to boost Wales's exports further, and to attract more investment into Wales by overseas-owned companies.

**Edwina Hart:** Yn dilyn cyfarfod o gyngor adnewyddu'r economi ar 24 Medi, gwnaeth y Prif Weinidog a mi amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd i hybu allforion Cymru ymhellach, ac i ddenu mwy o fuddsoddiad i Gymru drwy gwmnïau tramor.

**Eluned Parrott:** I was pleased to see the First Minister opening the Renishaw factory in Miskin. I wish to congratulate the Welsh Government on securing that inward investment, albeit only from England. However, overseas trade missions are critical in attracting investment from further away. I understand that you asked the First Minister for permission to attend a trade fair in the United States, which was due to be held in September, but that, in the event, you did not attend. Can you tell us why that was?

**Eluned Parrott:** Roeddwn yn falch o weld y Prif Weinidog yn agor ffatri Renishaw ym Meisgyn. Hoffwn longyfarch Llywodraeth Cymru ar sicrhau'r buddsoddiad hwnnw o'r tu allan, er mai dim ond o Loegr y daw. Fodd bynnag, mae teithiau masnach dramor yn hanfodol o ran denu buddsoddiad o ymhellach i ffwrdd. Deallaf eich bod wedi gofyn i'r Prif Weinidog am ganiatâd i fynd i ffair fasnach yn yr Unol Daleithiau, a oedd fod i gael ei chynnal ym mis Medi, ond nad oeddech yn bresennol yn y digwyddiad. A allwch ddweud wrthym pam?

**Edwina Hart:** I assess everything that comes in. We receive invitations, and there are issues of whether we might go on trade missions. Sometimes, they do not materialise in the way that is necessary—there is no deal to close, or it is not judged important, in that it is better for companies to go. Those are the bases on which decisions are made. I understand that the Confederation of British Industry fully defended my position in the *Western Mail*, because it believes that

**Edwina Hart:** Rwy'n asesu popeth sy'n dod i mewn. Rydym yn derbyn gwahoddiadau, ac mae materion yn codi ynghylch a allem fynd ar deithiau masnach. Weithiau, nid ydynt yn troi allan i fod yn angenrheidiol—nid oes cytundeb sydd angen ei gwblhau, neu ni chaiff ei farnu'n bwysig, o ran ei fod yn well i gwmnïau fynd. Dyna'r sail y gwneir penderfyniadau arno. Deallaf fod Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi amddiffyn fy safwbynt yn llawn yn y

important use should be made of Ministers' time, as appropriate.

*Western Mail,* gan ei fod yn credu y dylid gwneud defnydd pwysig o amser Gweinidogion, fel y bo'n briodol.

**Eluned Parrott:** I agree that finding the right balance is critical. However, the information that I have stated that, in the 18 months that you have been our Minister for business, you have not attended a single overseas trade mission, but that, by contrast, the First Minister has been on five, over the same period. I guess that it is a question of balance. However, this is your portfolio and you have the specialist expertise. When will you take a lead on this important area of your work?

**Eluned Parrott:** Cytunaf fod dod o hyd i'r cydbwysedd cywir yn hanfodol. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth rwyf wedi'i nodi sy'n dweud yn ystod y 18 mis yr ydych wedi bod yn Weinidog busnes, nad ydych wedi mynychu'r un daith fasnach dramor, ond, ar y llaw arall, mae'r Prif Weinidog wedi bod ar bum taith, dros yr un cyfnod. Mae'n debyg mai mater o gydbwysedd ydyw. Fodd bynnag, eich portffolio chi yw hwn a chi sydd â'r arbenigedd arbenigol. Pryd fyddwch yn cymryd yr awenau ar y maes pwysig hwn o'ch gwaith?

**Edwina Hart:** It is a responsibility across Government.

**Edwina Hart:** Mae'n gyfrifoldeb ar draws y Llywodraeth.

**Dwyrain De Cymru**

**South Wales East**

***8. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer Dwyrain De Cymru. OAQ(4)0174(BET)*

***8. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for South Wales East. OAQ(4)0174(BET)*

**Edwina Hart:** My priorities are as set out in the programme for government.

**Edwina Hart:** Mae fy mlaenoriaethau i'w gweld yn y rhaglen lywodraethu.

**Jocelyn Davies:** Thank you, Minister; that was very informative. [*Laughter.*] You will be aware of the devastating arson attack on the Real Crisps factory in Crumlin. Many local people, including a family member, fear losing their jobs if the factory does not reopen. Can you provide an update on any discussions that you have been having with the owners?

**Jocelyn Davies:** Diolch, Weinidog; roedd hwnnw'n ateb llawn gwybodaeth. [*Chwerthin*.] Byddwch yn ymwybodol o'r ymosodiad bwriadol dinistriol i losgi ffatri Real Crisps yng Nghrymlyn. Mae llawer o bobl leol, gan gynnwys aelod o'm teulu i, yn ofni colli eu swyddi os na fydd y ffatri yn ailagor. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi eu cael â'r perchnogion?

**Edwina Hart:** My officials have had detailed discussions with the owners. We want the best possible outcome from this, which is obviously to retain jobs in the area. However, some of those discussions will be commercially confidential.

**Edwina Hart:** Mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau manwl â'r perchnogion. Rydym am gael y canlyniad gorau posibl o hyn, sef, yn amlwg, cadw swyddi yn yr ardal. Fodd bynnag, bydd rhai o'r trafodaethau yn fasnachol gyfrinachol.

**Mohammad Asghar:** One barrier faced by small businesses that are trying to expand in South Wales East is access to credit. The Welsh Government has acknowledged that there is a problem with bank financing, through its provision of small and medium-sized enterprise and microbusiness loan funds

**Mohammad Asghar:** Un rhwystr y mae busnesau bach sy'n ceisio ehangu yn Nwyrain De Cymru yn ei wynebu yw cael gafael ar gredyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod problem o ran ariannu gan fanciau, drwy ei darpariaeth, drwy Gyllid Cymru, o gronfeydd benthyciadau i fusnesau

via Finance Wales. To date, the SME investment fund has invested only £1 million out of a possible £40 million, giving just three businesses a loan. What is the Minister doing to raise awareness and to actively promote these funding packages to businesses in Wales, and especially in South Wales East?

bach a chanolig eu maint a microfusnesau. Hyd yma, mae'r gronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolig ond wedi buddsoddi £1 miliwn o'r £40 miliwn posibl, gan roi benthyciad i dri busnes yn unig. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r pecynnau ariannu hyn i fusnesau yng Nghymru, ac yn enwedig yn Nwyrain De Cymru?

**Edwina Hart:** We must actively promote these packages across the board; that is an important point, and we are constantly reviewing our dialogue as regards what we are there to offer. Decisions on lending lie with Finance Wales, which looks carefully at business plans, as do the commercial banks. I believe that we are making progress, but it is important that we look at how we advertise what is available.

**Edwina Hart:** Mae'n rhaid i ni fynd ati i hyrwyddo'r pecynnau hyn drwyddi draw; mae hynny'n bwynt pwysig, ac rydym yn adolygu ein deialog yn gyson o ran yr hyn yr ydym yn ei gynnig. Cyllid Cymru sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar fenthyca, sy'n edrych yn ofalus ar gynlluniau busnes, fel y mae'r banciau masnachol yn ei wneud. Credaf ein bod yn gwneud cynnydd, ond mae'n bwysig ein bod yn edrych ar sut rydym yn hysbysebu'r hyn sydd ar gael.

**Cychwyn Busnesau Newydd**

**Business Start-ups**

***9. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i hybu cychwyn busnesau newydd. OAQ(4)0167(BET)*

***9. David Melding:*** *Will the Minister outline measures the Government is taking to encourage business startups. OAQ(4)0167(BET)*

**Edwina Hart:** We have a dedicated business start-up unit and a high potential starts service in place to encourage business start-ups here in Wales. I also have a network of business entrepreneurship champions to promote entrepreneurship and business start-up.

**Edwina Hart:** Mae gennym uned bwrpasol ar gyfer busnesau newydd a gwasanaethau dechrau i fusnesau â photensial uchel er mwyn annog busnesau i ddechrau yma yng Nghymru. Mae gennyf hefyd rwydwaith o hyrwyddwyr entrepreneuriaeth busnes i hyrwyddo entrepreneuriaeth a dechrau busnesau.

**David Melding:** Minister, I give you and your department two cheers for the business start-up website. It uses, very innovatively, mentors and good practice to show people who are interested in starting a business how they may take the first practical steps. In general, the website is aimed at getting people through the initial bureaucratic tangle. Do you agree that such information needs to be invested in because the quality that we can provide there can often be key to whether or not people take that vital first step?

**David Melding:** Weinidog, rwy'n rhoi dwy seren i chi a'ch adran am y wefan dechrau busnes. Mae'n defnyddio mentoriaid ac arfer da, mewn ffordd arloesol iawn, i ddangos i bobl sydd â diddordeb mewn dechrau busnes sut y gallant gymryd y camau cyntaf ymarferol. Yn gyffredinol, mae'r wefan wedi'i hanelu at gael pobl drwy'r dryswch biwrocrataidd cychwynnol. A ydych yn cytuno bod angen buddsoddi mewn gwybodaeth o'r fath oherwydd gall yr ansawdd y gallwn ei ddarparu yno yn aml fod yn allweddol o ran a fydd pobl yn cymryd y cam cyntaf hanfodol hwnnw?

**Edwina Hart:** I will pass on your compliments to my officials about the work

**Edwina Hart:** Byddaf yn anfon eich canmoliaeth ymlaen at fy swyddogion am y

that has been done in this area. I totally concur with your comments.

gwaith a wnaed yn y maes hwn. Cytunaf yn llwyr â'ch sylwadau.

**Lindsay Whittle:** Minister, the Party of Wales believes that credit unions and other community finance models could be an enormous help in providing capital to business start-ups in every community in Wales. This, in turn, could boost the credit union movement all over Wales, as well as providing a flexible, local solution to the problem of financing small start-ups and business expansions. Will you look at ways in which credit unions and other community finance models could be used to assist small businesses, particularly start-ups?

**Lindsay Whittle:** Weinidog, mae Plaid Cymru yn credu y gallai undebau credyd a modelau cyllid cymunedol eraill fod yn help mawr o ran darparu cyfalaf i fusnesau sy'n dechrau ym mhob cymuned yng Nghymru. Gallai hyn, yn ei dro, roi hwb i'r mudiad undebau credyd ledled Cymru, yn ogystal â chynnig ateb lleol hyblyg i'r broblem o ariannu busnesau bach sy'n dechrau a busnesau sy'n ehangu. A fyddwch yn edrych ar ffyrdd y gellid defnyddio undebau credyd a modelau cyllid cymunedol eraill i helpu busnesau bach, yn enwedig y rhai sy'n dechrau?

**Edwina Hart:** We are already looking at some of the issues that you raise, and I will report back to Plenary in due course.

**Edwina Hart:** Rydym eisoes yn edrych ar rai o'r materion rydych yn eu codi, a byddaf yn adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn maes o law.

**Maes Awyr Caerdydd**

**Cardiff Airport**

***10. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu ac i hyrwyddo maes awyr Cymru Caerdydd. OAQ(4)0168(BET)*

***10. Mick Antoniw:*** *Will the Minister outline the work being undertaken to develop and promote Cardiff Wales airport. OAQ(4)0168(BET)*

**Edwina Hart:** The First Minister recently announced details of the good progress that is being made to develop and promote Cardiff Airport.

**Edwina Hart:** Cyhoeddodd y Prif Weinidog yn ddiweddar fanylion am y cynnydd da a wneir i ddatblygu a hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd.

**Mick Antoniw:** I welcome very much the work that is being done in respect of the promotion of the airport. When it comes to considering the future, does the Minister agree with me that the examples of Manchester and Newcastle, where there is a significant local and public sector interest, are certainly options to consider, bearing in mind the economic importance of the airport to Wales?

**Mick Antoniw:** Croesawaf y gwaith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo'r maes awyr yn fawr iawn. Pan ddaw'n amser i ystyried y dyfodol, a yw'r Gweinidog yn cytuno â mi bod enghreifftiau Manceinion a Newcastle, lle mae diddordeb sylweddol yn lleol ac ymysg y sector cyhoeddus, yn sicr yn opsiynau i'w hystyried, gan gofio pwysigrwydd economaidd y maes awyr i Gymru?

**Edwina Hart:** The airport taskforce, which the First Minister has established, is looking at all areas where we can make improvements and help boost performance, looking at how to develop and promote Cardiff Airport in terms of the passenger experience and flights. Even today, I understand from a press report, although I have not confirmed it yet formally with the airport, that Lufthansa is launching flights to

**Edwina Hart:** Mae tasglu'r maes awyr, y mae'r Prif Weinidog wedi'i sefydlu, yn edrych ar bob maes lle y gallwn wneud gwelliannau a helpu i hybu perfformiad, gan edrych ar sut i ddatblygu a hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd o ran profiad y teithwyr a'r teithiau awyren eu hunain. Hyd yn oed heddiw, deallaf ar ôl darllen adroddiad yn y wasg, er nad wyf wedi cadarnhau hynny'n ffurfiol â'r maes awyr eto, fod Lufthansa yn

Cardiff, which is good news for links to the continent. We must ensure that we have effective measures between Government and the airport to ensure that we maximise the potential of the airport.

lansio teithiau i Gaerdydd, sy’n newyddion da o ran cysylltiadau â’r cyfandir. Rhaid i ni sicrhau bod gennym fesurau effeithiol rhwng y Llywodraeth a’r maes awyr i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o botensial y maes awyr.

**Byron Davies:** You have answered some of the points that I was going to make, Minister. However, since the First Minister has assumed responsibility for Cardiff Airport, will you outline what long-term support for the airport you have discussed with the First Minister, what your department has been doing in the interim to support the airport, and how you and your department are dovetailing policy into the current action group, which frankly, to date, seems to operate covertly?

**Byron Davies:** Rydych wedi ateb rhai o’r pwyntiau yr oeddwn am eu gwneud, Weinidog. Fodd bynnag, gan fod y Prif Weinidog wedi cymryd cyfrifoldeb dros Faes Awyr Caerdydd, a wnewch chi amlinellu pa gymorth hirdymor ar gyfer y maes awyr yr ydych wedi eu trafod â’r Prif Weinidog, beth mae’ch adran wedi’i wneud yn y cyfamser i helpu’r maes awyr, a sut rydych chi a’ch adran yn plethu polisi i’r grŵp gweithredu presennol, sydd, a dweud y gwir, yn ymddangos hyd yn hyn fel petai’n gweithredu’n gudd?

**Edwina Hart:** I do not think that we are an arm of the US Government acting covertly in any way, like one of these things you see on Sky television. The taskforce has been established and it involves a group of independent people that is undertaking work and getting to grips with some of the issues. My own department has been very good in the support it has given to the airport. We have seconded a member of staff to the airport to work closely with it, and we are working on route development and on the fabric of the airport and all those issues. However, we must never look away from the fact that the airport is run by a private company.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn credu ein bod yn asiantaeth o Lywodraeth yr Unol Daleithiau sy’n gweithredu’n gudd mewn unrhyw ffordd, fel un o’r pethau hyn a welwch ar deledu Sky. Mae’r tasglu wedi’i sefydlu ac mae’n cynnwys grŵp o bobl annibynnol sy’n ymgymryd â’r gwaith ac yn mynd i’r afael â rhai o’r materion. Mae fy adran wedi bod yn dda iawn o ran y cymorth y mae wedi’i roi i’r maes awyr. Mae aelod o’m staff wedi mynd ar secondiad i’r maes awyr i weithio’n agos gydag ef, ac rydym yn gweithio ar ddatblygu llwybrau ac ar wneuthuriad y maes awyr a’r holl faterion hynny. Fodd bynnag, ni ddylem byth anghofio’r ffaith bod y maes awyr yn cael ei redeg gan gwmni preifat.

**Simon Thomas:** Nonetheless, Minister, if you take a flight from Cardiff Airport to Barcelona, you will be struck by the busyness and investment in Barcelona airport as compared with Cardiff Airport. Barcelona airport is publicly owned, publicly managed and a public investment for the nation—the Spanish nation, in fact; there is a little bit of controversy about the role of Catalonia and all that. [*Laughter*.] Nevertheless, is there not a lesson here for Cardiff Airport and is it not time for this Government, or public authorities in Wales to work together, to consider taking a stake, as Plaid Cymru—the Party of Wales has called for, in our international airport in order to ensure its long-term future and success?

**Simon Thomas:** Er hynny, Weinidog, os ydych yn hedfan o Faes Awyr Caerdydd i Barcelona, cewch eich taro gan y prysurdeb a’r buddsoddiad ym maes awyr Barcelona o gymharu â Maes Awyr Caerdydd. Mae maes awyr Barcelona yn eiddo cyhoeddus, a chaiff ei reoli’n gyhoeddus ac mae’n fuddsoddiad i’r genedl—cenedl Sbaen, mewn gwirionedd; mae ychydig o ddadlau ynghylch rôl Catalonia a hynny i gyd. [*Chwerthin*.] Serch hynny, onid oes gwers yma i Faes Awyr Caerdydd ac onid yw’n bryd i’r Llywodraeth hon, neu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gydweithio, i ystyried cymryd cyfran, fel y mae Plaid Cymru wedi galw amdano, yn ein maes awyr rhyngwladol er mwyn sicrhau ei ddyfodol a’i lwyddiant

hirdymor?

**Edwina Hart:** If only devolution had happened much earlier and we could have been part and parcel of the decision to sell off the airport in the first place. Hindsight is a wonderful thing in this regard. We are obviously looking at the issues now and working with the current owners of the airport, and we will continue to do so I note your point, and will refer the First Minister to your comments in the record.

**Edwina Hart:** Petai datganoli ond wedi digwydd llawer yn gynharach gallem fod wedi bod yn rhan annatod o'r penderfyniad i werthu'r maes awyr yn y lle cyntaf. Mae ôl-ddoethinebu yn rhywbeth gwych yn hyn o beth. Rydym yn amlwg yn edrych ar y materion hyn yn awr ac yn gweithio gyda pherchnogion presennol y maes awyr, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Nodaf eich pwynt, a byddaf yn cyfeirio'r Prif Weinidog at eich sylwadau yn y cofnod.

2.45 p.m.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***11. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau ei hadran ar gyfer 2012-13. OAQ(4)0170(BET)*

***11. Lord Elis-Thomas:*** *Will the Minister make a statement on her department's priorities for 2012-13. OAQ(4)0170(BET)*

**Edwina Hart:** I am afraid that I am not going to enlighten you either, because my priorities are for jobs and growth, as set out in the programme for government.

**Edwina Hart:** Mae arnaf ofn nad wyf yn mynd i'ch goleuo chi ychwaith, oherwydd fy mlaenoriaethau yw swyddi a thwf, fel y nodir yn y rhaglen lywodraethu.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Ond bydd y Gweinidog yn sylweddoli bod sicrhau swyddi a chynnal yr economi yn Eryri yn ddibynnol iawn ar ei pholisi o ddatblygu'r parth menter. Carwn wybod a oes gan y Gweinidog rywbeth pellach y gall ei ddatgan ynglŷn â dyfodol parth menter Eryri.

**Lord Elis-Thomas:** However, the Minister will be aware that securing jobs and maintaining the economy in Snowdonia is dependent upon her policy of developing the enterprise zone there. I would like to know whether the Minister has anything further that she can tell us about the future of the Snowdonia enterprise zone.

**Edwina Hart:** I did take the opportunity during recess of visiting the enterprise zone once again. We have now had the business proposals in from the enterprise zone board, which we are currently assessing, and I will be making a full statement on how we are taking that work forward. It is absolutely essential, in terms of Snowdonia, that early decisions are also made in respect of Ynys Môn and the nuclear issue there, because of the issue around jobs links, industry and what is appropriate. That is essential for the future. We look forward to the relevant Government departments making early decisions on that, and we continue to press them to do so.

**Edwina Hart:** Achubais ar y cyfle yn ystod y toriad i ymweld â'r ardal fenter unwaith eto. Mae cynigion busnes wedi dod i law gan y bwrdd ardaloedd menter, yr ydym wrthi'n eu hasesu, a byddaf yn gwneud datganiad llawn ar sut rydym yn datblygu'r gwaith hwnnw. Mae'n gwbl hanfodol, o ran Eryri, bod penderfyniadau cynnar yn cael eu gwneud hefyd o ran Ynys Môn a'r mater niwclear yno, oherwydd y mater yn ymwneud â chysylltiadau swyddi, y diwydiant a beth sy'n briodol. Mae hynny'n hanfodol ar gyfer y dyfodol. Edrychwn ymlaen at weld yr adrannau perthnasol yn y Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau cynnar ar hynny, ac rydym yn parhau i bwyso arnynt i wneud hynny.

**Angela Burns:** I know that one of your

**Angela Burns:** Gwn mai un o'ch

priorities is the energy industry. Last night, one of the key issues that came out of the meeting of the cross-party group on energy was the confusion about what will happen when the single environment agency is formed—what is going to be devolved, what will stay within your department, what will go into the Minister for Environment and Sustainable Development's department, and what discussions there have been between your Government and the UK Government on all the new tariffs that are coming out on renewables. I just wonder if you could provide us with an update, even if it is a written one.

blaenoriaethau yw'r diwydiant ynni. Neithiwr, un o'r materion allweddol a gododd o gyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar ynni oedd y dryswch ynghylch beth fydd yn digwydd pan fydd yr asiantaeth amgylchedd unigol yn cael ei ffurfio—beth fydd yn cael ei ddatganoli, beth fydd yn aros o fewn eich adran chi, beth fydd yn mynd at adran Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, a pha drafodaethau a gafwyd rhwng eich Llywodraeth chi a Llywodraeth y DU ar yr holl dariffau newydd sy'n cael eu codi ar ynni adnewyddadwy. Tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, hyd yn oed os yw'n ysgrifenedig.

**Edwina Hart:** I can see my colleague John Griffiths listening to your question. John and I have had discussions about the new body that will take over, and he is very much aware of the discussions within the industry, and some of the concerns that have been expressed. I will ask him to look at your contribution to see whether there is anything that we can add that would usefully assist you as a Member.

**Edwina Hart:** Gallaf weld fy nghydweithiwr John Griffiths yn gwrando ar eich cwestiwn. Cafodd John a mi drafodaethau am y corff newydd a fydd yn disodli'r gweddill, ac mae'n ymwybodol iawn o'r trafodaethau o fewn y diwydiant, a rhai o'r pryderon a fynegwyd. Byddaf yn gofyn iddo edrych ar eich cyfraniad i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei ychwanegu a fyddai o ddefnydd i chi fel Aelod.

### Ardaloedd Twf Lleol Powys

### Powys Local Growth Zones

***12. Kirsty Williams:*** *Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd Ardaloedd Twf Lleol Powys yn weithredol. OAQ(4)0166(BET)*

***12. Kirsty Williams:*** *When does the Minister expect Powys Local Growth Zones to become operational. OAQ(4)0166(BET)*

**Edwina Hart:** Over the summer, I have been considering the recommendations of the Powys local growth zones report, receiving further comments from colleagues and external partners, as well as the public. As I said in my letter to Assembly Members at the end of September, I will be making a further statement shortly, because there are over 40 recommendations in the report.

**Edwina Hart:** Dros yr haf, rwyf wedi bod yn ystyried argymhellion adroddiad ardaloedd twf lleol Powys, a chael sylwadau pellach gan gydweithwyr a phartneriaid allanol, yn ogystal â'r cyhoedd. Fel y dywedais yn fy llythyr at Aelodau'r Cynulliad ddiwedd mis Medi, byddaf yn gwneud datganiad pellach yn fuan, gan fod dros 40 o argymhellion yn yr adroddiad.

**Kirsty Williams:** Those of us who live in Powys were heartened by your acceptance of the principle of local growth zones there, and the report of the group chaired by Justin Baird-Murray did include many innovative examples of how we can breathe new life into Brecon and Radnorshire's market towns. Those people in Llandrindod Wells who very much want to see the principle of a convention town being taken forward would be grateful to know when you will make a final decision on whether that plan is to go

**Kirsty Williams:** Mae'r rheini ohonom sy'n byw ym Mhowys wedi ein calonogi gan y ffaith eich bod yn derbyn egwyddor ardaloedd twf lleol yno, ac roedd adroddiad y grŵp dan gadeiryddiaeth Justin Baird-Murray yn cynnwys enghreifftiau arloesol o sut y gallwn roi bywyd newydd i Aberhonddu a threfi marchnad Sir Faesyfed. Byddai'r bobl hynny yn Llandrindod sy'n awyddus iawn i weld yr egwyddor o dref gonfensiynol yn cael ei datblygu yn ddiolchgar o gael gwybod pryd y byddwch yn gwneud penderfyniad

ahead.

terfynol o ran p'un a yw'r cynllun hwnnw yn mynd yn ei flaen.

**Edwina Hart:** We are working quite quickly on this. Discussions are being finalised on the possible establishment of a pilot group in Llandrindod Wells to look at the respective issues there. I am also looking at a hyper-local pilot scheme, which is being taken forward by my officials. It looks quite exciting, and we are in the last few weeks of arranging the details on that, so the statement on these initiatives will be available in full at the end of October.

**Edwina Hart:** Rydym yn gweithio'n eithaf cyflym ar hyn. Mae trafodaethau yn cael eu cwblhau ar y posibilrwydd o sefydlu grŵp peilot yn Llandrindod i edrych ar y materion priodol yno. Rwyf hefyd yn edrych ar gynllun peilot tra lleol, sy'n cael ei ddatblygu gan fy swyddogion. Mae'n edrych yn eithaf cyffrous, ac rydym yng nghanol yr wythnosau olaf o drefnu'r manylion ar hynny, felly bydd y datganiad ar y mentrau hyn ar gael yn llawn ddiwedd mis Hydref.

**Russell George:** Thank you for your update letter over the summer on enterprise zones, especially in regard to growth zones in Powys. As you can imagine, the economy of Powys is in desperate need for the project to be released as quickly as possible. I appreciate your previous answers. When do you think businesses on the ground will be able to see a plan in action? When do you envisage that to be?

**Russell George:** Diolch am eich llythyr dros yr haf yn rhoi'r diweddaraf am ardaloedd menter, yn enwedig o ran yr ardaloedd twf ym Mhowys. Fel y gallwch ddychmygu, mae angen dybryd ar yr economi ym Mhowys i gychwyn y prosiect cyn gynted ag y bo modd. Rwy'n gwerthfawrogi eich atebion blaenorol. Pryd ydych yn meddwl y bydd busnesau go iawn yn gallu gweld cynllun ar waith? Pryd ydych yn rhagweld hynny?

**Edwina Hart:** When I make my response to all the recommendations on how to take it forward, it will be up to everyone locally to get involved and to do what we can to make what comes out of the Powys local growth zone report a reality for the people of Powys and their businesses.

**Edwina Hart:** Pan fyddaf yn gwneud fy ymateb i'r holl argymhellion o ran sut i fwrw ymlaen â hwy, bydd pawb yn lleol yn gyfrifol am gymryd rhan a gwneud yr hyn y gallwn er mwyn gwireddu'r hyn a ddaw o'r adroddiad ar ardal twf lleol Powys i bobl Powys a'u busnesau.

**Simon Thomas:** Un o'r argymhellion a gafodd dipyn o groeso ym Mhowys oedd yr un ynglŷn â symleiddio rheolau cynllunio, gan ei fod yn ymwneud nid yn unig â'r cyngor sir, ond â'r parc cenedlaethol hefyd. A ydych yn delio â'r argymhelliad hwnnw ar wahân, ynteu a yw'n ddibynnol ar yr adolygiad cynllunio y mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn ei gynnal ar hyn o bryd? A oes modd i bobl Powys weld rhywbeth yn fwy cloi ar y mater hwn?

**Simon Thomas:** One of the recommendations welcomed in Powys was the one on simplifying planning rules, because it relates not only to the county council, but also to the national park. Are you dealing with that recommendation separately, or is it dependent on the planning review that the Minister for Environment and Sustainable Development is currently conducting? Could the people of Powys see something more swiftly in this area?

**Edwina Hart:** Obviously, it is a matter that I am discussing with my colleague John Griffiths. He is well aware of the recommendation that was made in the report. I think that he is also aware of some of the comments that individuals put on the website about planning. I know that he is fully apprised after our discussion about the issues

**Edwina Hart:** Yn amlwg, mae'n fater yr wyf yn ei drafod â'm cydweithiwr John Griffiths. Mae'n ymwybodol iawn o'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad. Rwy'n credu ei fod hefyd yn ymwybodol o rai o'r sylwadau y mae unigolion yn eu rhoi ar y wefan am gynllunio. Gwn ei fod wedi cael ei hysbysu'n llawn ar ôl ein trafodaeth am y materion sy'n

around that.

ymwneud â hynny.

**Cefnogi Economi Cymru**

**Supporting the Welsh Economy**

***13. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi economi Cymru. OAQ(4)0177(BET)*

***13. Sandy Mewies:*** *Will the Minster make a statement on work going on to support the Welsh economy. OAQ(4)0177(BET)*

**Edwina Hart:** We are supporting the Welsh economy currently by focusing on providing immediate assistance to businesses through access to finance, trying to reduce other barriers and investing for a longer term through the key sectors, enterprise zones, broadband and the science policy.

**Edwina Hart:** Rydym yn cefnogi economi Cymru ar hyn o bryd drwy ganolbwyntio ar ddarparu cymorth uniongyrchol i fusnesau drwy fynediad at gyllid, gan geisio lleihau rhwystrau eraill a buddsoddi am gyfnod hwy drwy'r sectorau allweddol, ardaloedd menter, band eang a'r polisi gwyddoniaeth.

**Sandy Mewies:** The seven enterprise zones that are now set up will offer new growth opportunities for business across Wales, including in Flintshire. However, it was disappointing when you reported in the summer that the UK Government was intending to restrict the amount of assistance that we can offer to businesses wanting to invest in Wales. Potential investors will want to know what Wales can offer them. What progress is being made in this area? It is essential that the work that the Welsh Government is doing to offer the skills and support that will produce job opportunities is not hindered by others.

**Sandy Mewies:** Bydd y saith ardal fenter sydd wrthi'n cael eu sefydlu yn cynnig cyfleoedd twf newydd i fusnes ledled Cymru, gan gynnwys yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, roedd yn siomedig pan wnaethoch adrodd yn yr haf fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyfyngu ar faint o gymorth y gallwn ei gynnig i fusnesau sy'n dymuno buddsoddi yng Nghymru. Bydd buddsoddwyr posibl am wybod beth y gall Cymru ei gynnig iddynt. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud yn y maes hwn? Mae'n hanfodol nad yw'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynnig sgiliau a chymorth i greu cyfleoedd gwaith yn cael ei lesteirio gan eraill.

**Edwina Hart:** We must recognise that good progress is being made in the development of the enterprise zones. The private sector boards have certainly hit the ground running. Having the private sector take the lead in this has been of enormous benefit. However, at the end of the day, there are still issues with the Treasury. Some of these changes have a huge impact, particularly in Wales, where there is a disproportionately large impact due to our tier 1 status, which Members will understand. We have been in contact with the Treasury—as have the Scots—and we are hopeful to get a resolution in correspondence over the next few weeks.

**Edwina Hart:** Rhaid inni gydnabod bod cynnydd da yn cael ei wneud wrth ddatblygu'r ardaloedd menter. Mae byrddau'r sector preifat yn sicr wedi bwrw ati gyda'u gwaith. Mae cael y sector preifat i gymryd yr awenau yn hyn wedi bod o fudd aruthrol. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae problemau o hyd gyda'r Trysorlys. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn cael effaith anferth, yn enwedig yng Nghymru, lle ceir effaith anghymesur o fawr oherwydd ein statws haen 1, y bydd Aelodau yn deall. Rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r Trysorlys—yn yr un modd â'r Albanwyr—ac rydym yn gobeithio cael penderfyniad mewn gohebiaeth dros yr wythnosau nesaf.

**Paul Davies:** I very much welcome that the Welsh Government has decided to create an enterprise zone in Pembrokeshire, which will boost the local economy. However, it is important that momentum is not lost and that the implementation of these zones begins to

**Paul Davies:** Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu creu ardal fenter yn Sir Benfro, a fydd yn rhoi hwb i'r economi leol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw momentwm yn cael ei golli a bod y gwaith o weithredu'r ardaloedd hyn yn

take shape. Given that others have asked about their own enterprise zones, will the Minister update us on the development of the Haven waterway enterprise zone in my constituency?

dechrau cymryd siâp. O gofio bod eraill wedi gofyn am eu hardaloedd menter eu hunain, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith o ddatblygu ardal fenter dyfrffordd y Daugleddau yn fy etholaeth i?

**Edwina Hart:** The Haven waterway was in the second wave of enterprise zones. I can assure you that the chair has quickly got to grips with the situation in the Haven. We have received development proposals from the Haven board for us to take a look at. There are some key issues for the board, for example in terms of enhanced information and communications technology connectivity; the broadband and mobile network has been identified as a priority within that area. There are infrastructure issues around transport, which I am discussing with my colleague the Minister with responsibility for transport. There are issues around the energy installations around Milford Haven and there are also issues about the spin-off benefits for hotels and the wider tourism industry. All of those issues are contained in the board's proposals to me, which I am considering and on which I will be making announcements in the next few weeks.

**Edwina Hart:** Roedd ardal dyfrffordd y Daugleddau yn rhan o ail don o'r ardaloedd menter. Gallaf eich sicrhau bod y cadeirydd wedi mynd i'r afael yn gyflym â'r sefyllfa yn yr ardal. Mae cynigion datblygu wedi dod i law gan fwrdd y Daugleddau i ni edrych arnynt. Mae rhai materion allweddol i'w hystyried gan y bwrdd, er enghraifft o ran gwybodaeth fanwl a chysylltedd technoleg cyfathrebu; nodwyd rhwydwaith band eang a symudol yn flaenoriaeth yn yr ardal honno. Ceir materion seilwaith yn ymwneud â thrafnidiaeth, yr wyf yn eu trafod â'm cydweithiwr, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth. Mae materion yn ymwneud â gosodiadau ynni o amgylch Aberdaugleddau ac mae hefyd faterion ynghylch y sgîl fanteision i westai a'r diwydiant twristiaeth ehangach. Mae pob un o'r materion hynny wedi'u cynnwys yng nghynigion y bwrdd i mi, yr wyf yn eu hystyried ac y byddaf yn gwneud cyhoeddiadau arnynt yn ystod yr wythnosau nesaf.

### Hyrwyddo Twf Economaidd

### Promoting Economic Growth

***14. William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo twf economaidd yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0175(BET)*

***14. William Graham:** Will the Minister outline the Welsh Government's policies to promote economic growth in South Wales East. OAQ(4)0175(BET)*

**Edwina Hart:** We are promoting economic growth in all parts of Wales by investing in infrastructure, skills, innovation and improving the business environment.

**Edwina Hart:** Rydym yn hyrwyddo twf economaidd ym mhob rhan o Gymru drwy fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, arloesi a gwella'r amgylchedd busnes.

**William Graham:** I thank the Minister for her reply. The Minister will be fully aware of the impact of the arson attack on the Real Crisps factory at Crumlin. Could she confirm that her officials have met with representatives of the company? What assistance can be offered to support and facilitate the return to production and employment as soon as possible?

**William Graham:** Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Bydd y Gweinidog yn gwbl ymwybodol o effaith yr ymosodiad llosgi bwriadol ar ffatri Real Crisps yng Nghrymlyn. A allai gadarnhau bod ei swyddogion wedi cwrdd â chynrychiolwyr y cwmni? Pa gymorth gellir ei gynnig i helpu a hwyluso'r ffatri i gynhyrchu eto a dod â chyflogaeth yn ôl cyn gynted ag y bo modd?

**Edwina Hart:** Yes, we have had discussions

**Edwina Hart:** Ydym, rydym wedi cael

of this nature. I will be happy to update Members on any progress on this particular issue.

trafodaethau o’r math hwn. Rwy’n fwy na pharod i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar unrhyw gynnydd ar y mater penodol hwn.

**Sefydlu Ardaloedd Menter**

**Establishing Enterprise Zones**

***15. William Powell:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefydlu Ardaloedd Menter yng Nghymru. OAQ(4)0176(BET)*

***15. William Powell:*** *Will the Minister make a statement on the establishment of Enterprise Zones in Wales. OAQ(4)0176(BET)*

**Edwina Hart:** I refer you to my letter of 26 September to all Assembly Members.

**Edwina Hart:** Fe’ch cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 26 Medi at holl Aelodau’r Cynulliad.

**William Powell:** Thank you for that answer, Minister. I am particularly interested in what procedures are in place to monitor the governance of enterprise zones and what safeguards there are, should a particular enterprise zone fail to deliver. Can you envisage circumstances under which you would intervene directly in such a zone?

**William Powell:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yma mha weithdrefnau sydd ar waith i fonitro’r gwaith o lywodraethu ardaloedd menter a pha fesurau diogelwch sydd yno, pe byddai ardal fenter benodol yn methu â chyflawni ei gwaith? A allwch chi ragweld amgylchiadau lle y byddech yn gorfod ymyrryd yn uniongyrchol mewn ardal o’r fath?

**Edwina Hart:** The zones are now moving from the interim governance arrangement to a more permanent governance arrangement, so your comments are quite opportune. In terms of governance, they are closely following the sector panel task and finish approach. As a result, you can intervene if you feel that things are not going well. I will certainly give some further consideration to the issues that you raise around governance and try to provide clarity to Members on it.

**Edwina Hart:** Mae’r ardaloedd bellach yn symud o’r trefniant llywodraethu dros dro i drefniant llywodraethu mwy parhaol, felly mae eich sylwadau yn eithaf amserol. O ran llywodraethu, maent yn dilyn dull gorchwyl a gorffen y sector panel yn agos. O ganlyniad, gallwch ymyrryd os ydych yn teimlo nad yw pethau’n mynd yn dda. Byddaf yn sicr yn ystyried ymhellach y materion a godir gennych ynghylch llywodraethu ac yn ceisio ei egluro i Aelodau.

**Mark Isherwood:** Given the recommendation in the city regions report that the Mersey Dee Alliance should be strengthened to be a regional strategic body with powers to deliver jobs and prosperity in north-east Wales, what role do you envisage the Deeside enterprise zone playing in that? How can we ensure a positive message to neutralise the scaremongering that we have seen in the past, which has misrepresented the Mersey Dee Alliance as an attempt to colonise the region?

**Mark Isherwood:** O ystyried yr argymhelliad yn yr adroddiad ar ddinas-ranbarthau a oedd yn dweud y dylid cryfhau Cynghrair Mersi Dyfrdwy i fod yn gorff strategol rhanbarthol sydd â phwerau i ddarparu swyddi a ffyniant yng ngogledd-ddwyrain Cymru, pa rôl yr ydych yn rhagweld y bydd ardal fenter Glannau Dyfrdwy yn ei chwarae yn hynny? Sut y gallwn sicrhau neges gadarnhaol i niwtraleiddio’r rhai sy’n codi bwganod yn y gorffennol, sydd wedi camgynrychioli Cynghrair Mersi Dyfrdwy fel ymgais i wladychu’r rhanbarth?

**Edwina Hart:** I am very pleased with the

**Edwina Hart:** Rwy’n falch iawn o’r

report. I do not want to pre-empt what I might say about the city regions report, but it is useful for us in Government in terms of developing policy. It is important to recognise those strategic links across our border in terms of businesses in north Wales. I hope that the report has done some good in drawing some of the strands together.

adroddiad. Nid wyf am achub y blaen ar yr hyn y gallai ei ddweud am yr adroddiad ar ddinas ranbarthau, ond mae'n ddefnyddiol i ni yn y Llywodraeth o ran datblygu polisi. Mae'n bwysig cydnabod y cysylltiadau strategol hynny dros y ffin o ran busnesau yn y gogledd. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad wedi gwneud rhywfaint o ddaioni wrth lunio rhai o'r llinynnau at ei gilydd.

## Pwynt o Drefn
## Point of Order

**Eluned Parrott:** Point of order. In answer to the leader of Plaid Cymru, who asked about the new management structure at Cardiff Council and the outsourcing of jobs, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science stated that the decision to outsource was taken by the previous administration. I believe that statement to be factually inaccurate. I checked with the leader of that administration, and I was given to understand that the course of events was as follows: the Welsh Government asked councils in Wales to work together to deliver economies of scale in support services, that Cardiff Council joined a consortium of 10 councils to explore the issue— [*Interruption*.]

**Eluned Parrott:** Pwynt o drefn. Mewn ateb i arweinydd Plaid Cymru, a ofynnodd am y strwythur rheoli newydd yng Nghyngor Caerdydd a rhoi swyddi allanol ar gontract, nododd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth fod y penderfyniad i roi swyddi ar gontract wedi ei wneud gan y weinyddiaeth flaenorol. Credaf fod y datganiad yn ffeithiol anghywir. Holais arweinydd y weinyddiaeth, ac roeddwn ar ddeall bod y digwyddiadau fel a ganlyn: gofynnodd Llywodraeth Cymru i gynghorau yng Nghymru weithio gyda'i gilydd i gyflawni arbedion mewn gwasanaethau cymorth, ymunodd Cyngor Caerdydd â chonsortiwm o 10 cyngor i archwilio'r mater—*[Torri ar draws.]*

**The Presiding Officer:** Order. I think that I am chairing this meeting. It is helpful to have advice, but will you bring your point to a close, please?

**Y Llywydd:** Trefn. Rwy'n credu mai fi sy'n cadeirio'r cyfarfod. Mae'n ddefnyddiol cael cyngor, ond a wnewch chi orffen eich pwynt, os gwelwch yn dda?

**Eluned Parrott:** Of course. Cardiff Council, at that time, made no decision to outsource jobs. It is a matter of public record that the plan to expand senior management was taken by the current administration.

**Eluned Parrott:** Wrth gwrs. Ni wnaeth Cyngor Caerdydd, ar y pryd, unrhyw benderfyniad i roi'r swyddi ar gontract. Mae'n fater o gofnod cyhoeddus bod y cynllun i ymestyn yr uwch reolwyr wedi'i wneud gan y weinyddiaeth bresennol.

**Edwina Hart:** I am more than happy to respond. I think I said that I thought that that was the case; I was not sure. I am happy to be corrected on the record. I always try to answer questions in the Chamber to the level of my understanding.

**Edwina Hart:** Rwy'n fwy na pharod i ymateb. Rwy'n credu i mi ddweud mai dyna oeddwn i'n feddwl oedd yr achos; nid oeddwn yn siŵr. Rwy'n hapus i gael fy nghywiro ar y cofnod. Rwyf bob amser yn ceisio ateb cwestiynau yn y Siambr hyd eithaf fy nealltwriaeth.

## Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Lygredd ym Mornant Porth Tywyn
## The Petitions Committee's Report on Pollution of the Burry Inlet

*Cynnig NDM5057 William Powell*

*Motion NDM5057 William Powell*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddeiseb P-03-238: Llygredd ym Mornant Porth Tywyn, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2012.*

*Notes the report of the Petitions Committee on Petition P-03-238: Pollution of the Burry Inlet, which was laid in the Table Office on 16 July 2012.*

**William Powell:** I move the motion.

**William Powell:** Cynigiaf y cynnig.

As Chair of the Petitions Committee, it is a particular pleasure to open this important Plenary debate on the committee's report on a petition calling for a public inquiry into the pollution of Burry inlet, which is also in my region of Mid and West Wales.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, mae'n bleser i mi agor y ddadl bwysig hon yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y pwyllgor ar ddeiseb yn galw am ymchwiliad cyhoeddus i lygredd yng nghilfach Porth Tywyn, sydd hefyd yn fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru.

The petitions process, which was established in 2007, continues to thrive and grow. The committee continues to be kept busy with a wide range of petitions covering all aspects of the Assembly's devolved powers. It gives the public a clear voice in the Assembly. In many ways, it is democracy in action.

Mae'r broses ddeisebau, a sefydlwyd yn 2007, yn parhau i ffynnu a thyfu. Mae'r pwyllgor yn parhau i fod yn brysur gydag ystod eang o ddeisebau sy'n cwmpasu pob agwedd ar bwerau datganoledig y Cynulliad. Mae'n rhoi llais cyhoeddus a chlir yn y Cynulliad. Mewn sawl ffordd, mae'n ddemocratiaeth ar waith.

I thank the petitioners who brought the issue of cockle mortality to our attention. They have tenaciously pursued this issue for many years. We understand their frustrations at trying to establish what has caused the mass cockle mortalities that have had such a devastating effect on their traditional industry. We would also like to thank the agencies involved in this issue—the Environment Agency Wales, Dŵr Cymru Welsh Water and Carmarthenshire County Council—for assisting the committee in its consideration of the issue, and, indeed, the European Commission's Directorate-General for the Environment for its intense interest in these matters.

Diolchaf i'r deisebwyr a ddaeth â'r mater am farwolaethau cocos i'n sylw. Maent wedi mynd ar drywydd y mater hwn yn ddiflino am flynyddoedd lawer. Rydym yn deall eu rhwystredigaethau wrth geisio canfod beth sydd wedi achosi'r marwolaethau cocos torfol sydd wedi cael effaith mor ddinistriol ar eu diwydiant traddodiadol. Hoffem hefyd ddiolch i'r asiantaethau sydd wedi cymryd rhan yn y mater hwn—Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Dŵr Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin—am helpu'r pwyllgor i ystyried y mater, ac, yn wir, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd dros yr Amgylchedd am ei diddordeb brwd yn y materion hyn.

I will give some background to the issue before talking in more detail about the petition and our recommendations. There is a long tradition of cockle harvesting in Carmarthen bay. However, since 2002, there have been annual mass cockle mortalities. This has had a huge impact on the cockle industry. Cocklers told us on our site visit that they now have to rely on a mere 12 weeks' work a year. The cocklers feel that

Rwyf am roi rhywfaint o gefndir i'r mater cyn siarad yn fanylach am y ddeiseb a'n hargymhellion. Mae yna draddodiad hir o gynaeafu cocos ym mae Caerfyrddin. Fodd bynnag, ers 2002, mae nifer sylweddol o gocos yn marw'n flynyddol. Mae hyn wedi cael effaith enfawr ar y diwydiant cocos. Ar ein hymweliad â'r safle, dywedodd casglwyr cocos wrthym eu bod bellach yn gorfod dibynnu ar ddim ond 12 wythnos o waith y

the mortalities have increased since a number of incidents with sewage spilling into the local rivers that feed into the Carmarthen bay area. Those spills resulted in a legal case being brought against Dŵr Cymru, which was fined £20,000. We are also aware that the cocklers have lodged a complaint with the European Commission.

flwyddyn. Mae'r casglwyr cocos yn teimlo bod y marwolaethau wedi cynyddu ers nifer o ddigwyddiadau yn ymwneud â charthion yn gorlifo i mewn i'r afonydd lleol sy'n bwydo i mewn i ardal bae Caerfyrddin. Arweiniodd y gorlifo at ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn Dŵr Cymru, a gafodd ddirwy o £20,000. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y casglwyr cocos wedi cyflwyno cwyn i'r Comisiwn Ewropeaidd.

In 2009, Environment Agency Wales, on the instruction of the Welsh Government, commissioned an investigation into the cockle mortalities. While this study did not focus on the sewage spills, pollution was considered. The Institute of Estuarine and Coastal Studies published its report in January. The report stated that

Yn 2009, comisiynodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, ar gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, ymchwiliad i'r marwolaethau cocos. Er nad oedd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar garthion yn gorlifo, cafodd llygredd ei ystyried. Cyhoeddodd yr Athrofa Astudiaethau Aberol ac Arfordirol ei adroddiad ym mis Ionawr. Nododd yr adroddiad

'there is no evidence that pollution in the water or sediment is related to the mortalities'.

nad oes tystiolaeth bod llygredd yn y dŵr neu waddod yn gysylltiedig â'r marwolaethau.

After careful consideration of this issue over a period of time, including a visit to Burry inlet, a meeting with the petitioners, and, at a later date, a meeting with representatives of the Environment Agency and Welsh Water, we came to a number of recommendations. In light of both the court case and the institute's report, we feel that it is unlikely that a public inquiry could significantly add to our understanding of the issue of cockle mortality. While not supporting the call of the petition for a public inquiry, we do strongly support the petitioners' wish that this issue is treated as a matter of priority. This is directly impacting on people's livelihoods and we need to understand if there is anything that can be done to lessen that impact.

Ar ôl ystyried y mater yn ofalus dros gyfnod o amser, gan gynnwys ymweliad â chilfach Porth Tywyn, cyfarfod â'r deisebwyr, ac, yn ddiweddarach, cyfarfod â chynrychiolwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru, daethom i nifer o argymhellion. Yn sgîl y ddau achos llys ac adroddiad yr athrofa, rydym yn teimlo ei bod yn annhebygol y gallai ymchwiliad cyhoeddus ychwanegu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o'r mater o farwolaethau cocos. Er nad ydym yn cefnogi galwad y ddeiseb am ymchwiliad cyhoeddus, rydym yn cefnogi'n gryf ddymuniad y deisebwyr bod y mater hwn yn cael ei drin fel mater o flaenoriaeth. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar fywoliaeth pobl ac mae angen i ni wybod os y gellir gwneud unrhyw beth i leihau'r effaith honno.

3.00 p.m.

We made six recommendations to the Welsh Government, and I am pleased that five have been accepted. The positive response from the Government indicates that all the agencies involved are taking steps to reduce the likelihood of sewage spills into the bay and to improve understanding of why mass cockle mortalities continue.

Gwnaethom chwe argymhelliad i Lywodraeth Cymru, ac rwy'n falch fod pump wedi'u derbyn. Mae'r ymateb cadarnhaol gan y Llywodraeth yn dangos bod yr holl asiantaethau sy'n rhan o hyn yn cymryd camau i leihau'r posibilrwydd o golli carthion i mewn i'r bae ac i wella dealltwriaeth o pam fod cymaint o gocos yn parhau i farw.

In recommendation 1, we called for the Welsh Government to prioritise the need for improvements to the sewerage system in Llanelli. We welcome the commitment in the Government's response that the programme for improvements, which will include 173 individual projects, will be scheduled for completion by 2025. More importantly, we are pleased that each improvement phase has been established with the aim of delivering the greatest benefits early on in the programme.

Yn argymhelliad 1, roeddem yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r angen i wella'r system garthffosiaeth yn Llanelli. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn ymateb y Llywodraeth y bwriedir i'r rhaglen o welliannau, a fydd yn cynnwys 173 o brosiectau unigol, gael ei chwblhau erbyn 2025. Yn bwysicach, rydym yn falch bod pob cam gwella wedi cael ei greu gyda'r nod o gyflwyno'r mwyaf o fudd yn gynnar yn y rhaglen.

Recommendation 2 called for short-term solutions to be put in place while the infrastructure work is being carried out. While welcoming the work that will remove 25% of surface water within the next two years, I ask the Minister for more information on what is being done in the immediate short term to mitigate the pressure on the sewerage system in Llanelli.

Roedd argymhelliad 2 yn galw am atebion tymor byr i gael eu rhoi ar waith tra bod y gwaith seilwaith yn cael ei wneud. Tra'n croesawu'r gwaith a fydd yn dileu 25% o'r dŵr wyneb yn y ddwy flynedd nesaf, gofynnaf i'r Gweinidog am fwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud yn y dyfodol agos i liniaru'r pwysau ar y system garthffosiaeth yn Llanelli.

In recommendation 4, we called for the Welsh Government to work with other agencies to build on the research already undertaken. The experiences and observations of the cocklers should be considered an integral part of this work. We are pleased to see that a cockle working group has been established that will hopefully help to ensure that the cocklers' knowledge will inform future work. I would welcome an update from the Minister on the consultation held in August with the cocklers on the proposed management plan.

Yn argymhelliad 4, galwn ar Lywodraeth Cymru i gydweithio ag asiantaethau eraill i ddatblygu'r ymchwil a wnaed eisoes. Dylai profiadau a sylwadau'r casglwyr cocos gael eu hystyried fel rhan annatod o'r gwaith hwn. Rydym yn falch o weld bod gweithgor cocos wedi ei sefydlu a fydd, gobeithio, yn helpu i sicrhau y bydd gwybodaeth y casglwyr cocos yn llywio gwaith yn y dyfodol. Byddwn yn croesawu diweddariad gan y Gweinidog ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Awst gyda'r casglwyr cocos ar y cynllun rheoli arfaethedig.

**Simon Thomas:** I am grateful to the Chair of the committee for giving way. I welcome his report and the response, on the whole, of the Minister, particularly on the need to separate drainage water from sewage water, which is a problem in the town of Llanelli as well as something that is possibly affecting the cockle beds. Is he content with the response from the Government on that issue of separating these two issues of drainage and sewage, because that seems to be at the heart of the problem that we are facing here?

**Simon Thomas:** Rwyf yn ddiolchgar i Gadeirydd y pwyllgor am ildio. Rwyf yn croesawu ei adroddiad ac ymateb y Gweinidog, ar y cyfan, yn enwedig ar yr angen i wahanu dŵr draenio a dŵr carthion, sy'n broblem yn nhref Llanelli yn ogystal â bod yn rhywbeth sydd o bosibl yn effeithio ar y gwelyau cocos. A yw'n fodlon gydag ymateb y Llywodraeth ar wahanu dŵr draenio a dŵr carthion, oherwydd ymddengys mai hynny sydd wrth wraidd y broblem rydym yn ei wynebu yn y fan hyn?

**William Powell:** I am grateful to Simon Thomas for that intervention. I believe that significant work has been done in that area, but I would welcome further comments and clarification from the Minister in response to

**William Powell:** Rwyf yn ddiolchgar i Simon Thomas am yr ymyriad hwnnw. Credaf fod gwaith sylweddol wedi cael ei wneud yn hynny o beth, ond byddwn yn croesawu sylwadau ac eglurhad pellach gan y

that particular issue so as to be able to comment more fully.

Gweinidog mewn ymateb i'r mater penodol hwnnw er mwyn gallu gwneud sylwadau llawnach.

While the Minister accepts recommendation 5, which called for all water quality test results to be published, I would welcome more information on when further data will be made publicly available. The open availability of data is essential to increase transparency and to reduce the suspicion that is still out there, which the cocklers still harbour, that there is a problem with the water quality testing regime.

Er bod y Gweinidog yn derbyn argymhelliad 5, sy'n galw am gyhoeddi holl ganlyniadau'r profion ansawdd dŵr, byddwn yn croesawu rhagor o wybodaeth am pryd y bydd mwy o ddata ar gael i'r cyhoedd. Mae'r ffaith bod data ar gael yn agored yn hanfodol er mwyn cynyddu tryloywder ac i leihau'r amheuaeth sy'n dal i fodoli ymysg y casglwyr cocos fod problem gyda'r drefn profi ansawdd dŵr.

Our final recommendation called for the Government to offer support to those affected by the devastating decline of the cockle industry in the Burry inlet. This recommendation was rejected. While we welcome the support provided by the Welsh Government, such as the funding of the institute's investigations into the issue of cockle mortality, this does not mitigate the financial and broader impacts that the mass mortalities have had. That is to be regretted.

Roedd ein hargymhelliad olaf yn galw i'r Llywodraeth gynnig cymorth i'r rhai a gafodd eu heffeithio gan ddirywiad trychinebus y diwydiant cocos yng nghilfach Tywyn. Cafodd yr argymhelliad hwn ei wrthod. Er ein bod yn croesawu'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, megis ariannu ymchwiliadau'r sefydliad i farwolaethau cocos, nid yw hyn yn lliniaru'r effeithiau ariannol ac ehangach a gafodd y marwolaethau hyn. Mae hynny'n drueni.

Overall, we welcome the Welsh Government's response. We are pleased that a programme of work to improve the sewerage system in Llanelli is being implemented. We are also pleased that further investigations are being undertaken to help improve understanding of the causes of mass cockle mortality. These greater efforts are being made by the Environment Agency, and we should acknowledge those today, while urging it to engage further and more intensely with the cockling community.

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru. Rydym yn falch bod rhaglen o waith i wella'r system garthffosiaeth yn Llanelli yn cael ei gweithredu. Rydym hefyd yn falch bod rhagor o ymchwiliadau yn cael eu cynnal i helpu i ddeall yn well pam fod gymaint o gocos yn marw. Mae'r ymdrechion ychwanegol hyn yn cael eu gwneud gan Asiantaeth yr Amgylchedd, a dylem eu cydnabod heddiw, tra'n ei hannog i ymgysylltu ymhellach ac yn fwy dwys gyda'r gymuned cocos.

I would like to close by, once again, thanking the petitioners for bringing this issue to our attention, and helping us to gain an understanding of the issues involved. We hope that our report and today's debate can play a part in finding a long-term solution.

Hoffwn gloi drwy ddiolch, unwaith eto, i'r deisebwyr am ddod â'r mater hwn i'n sylw, ac i'n helpu i ddeall y materion dan sylw. Rydym yn gobeithio y gall ein hadroddiad a dadl heddiw fod yn rhan o'r gwaith o ddod o hyd i ateb tymor hir.

**Russell George:** As a member of the Petitions Committee, I am pleased to have the opportunity to speak briefly in this debate. I also echo the thanks that the Chair, my colleague William Powell, has given to all those who were involved in the production of

**Russell George:** Fel aelod o'r Pwyllgor Deisebau, rwyf yn falch o'r cyfle i siarad yn fyr yn y ddadl hon. Ategaf hefyd y diolch a roddodd y Cadeirydd, fy nghyd-Aelod William Powell, i bawb a fu'n ymwneud â chynhyrchu'r adroddiad hwn. Hoffwn hefyd

this report. I would also particularly like to thank the petitioners involved, for their work with us and with the previous committee, as they continue with their commitment to protect their environment and their way of life. As we know, and as I have certainly come to realise, the understanding of complex ecosystems often relies on not only professional scientists conducting methodological research within a given environment, but local knowledge and the expertise of those living and working in the environment. That is why I can understand that there will be a degree of disappointment locally that the committee has not agreed to support the call for a public inquiry into sewage pollution at the inlet. However, cockle gatherers who work there are still convinced that the persistent ongoing pollution is the main cause of the cockle mortality that has had a devastating impact on their industry.

ddiolch yn arbennig i'r deisebwyr dan sylw, am eu gwaith gyda ni a'r pwyllgor blaenorol, wrth iddynt barhau â'u hymrwymiad i warchod eu hamgylchedd a'u ffordd o fyw. Fel y gwyddom, ac fel y deuthum i fy hun i sylweddoli, mae deall ecosystemau cymhleth yn aml nid yn unig yn dibynnu ar wyddonwyr proffesiynol yn cynnal ymchwil fethodolegol o fewn amgylchedd penodol, ond hefyd ar wybodaeth leol ac arbenigedd y rhai sy'n byw a gweithio yn yr amgylchedd. Dyna pam y gallaf ddeall y bydd rhywfaint o siom yn lleol nad yw'r pwyllgor wedi cytuno i gefnogi'r alwad am ymchwiliad cyhoeddus i lygredd carthion yn y gilfach. Fodd bynnag, mae casglwyr cocos sy'n gweithio yno o'r farn o hyd mai'r llygredd parhaus a chyson yw'r prif reswm dros y marwolaethau cocos sydd wedi cael effaith andwyol ar eu diwydiant.

While the current scientific evidence for the interim study concludes that sewage is not to blame, it would be remiss of us not to keep the issue under review and high on the agenda of the associated organisations. This will be particularly true as we go through the process of significant organisational change. I would be interested to hear from the Minister how he will do this as the new natural resource body is created.

Er bod y dystiolaeth wyddonol ar hyn o bryd yn yr astudiaeth interim yn dod i'r casgliad nad carthion sydd ar fai, byddem yn esgeulus i beidio â chadw'r mater dan sylw ac yn uchel ar agenda'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â hyn. Bydd hyn yn arbennig o wir wrth i ni fynd drwy broses o newid sefydliadol sylweddol. Byddai gennyf ddiddordeb clywed gan y Gweinidog sut y bydd yn gwneud hyn wrth i'r corff adnoddau naturiol newydd gael ei greu.

I felt that the recommendations made by the committee were pertinent and robust, and I welcome the Welsh Government's acceptance of the majority of those recommendations. However, I feel that it is unfortunate that it could not agree to recommendation 6. While I appreciate the funds that the Welsh Government has put forward for the scientific investigation, I felt that offering this support would have been a fair step to try to mitigate the loss of the industry to the many hundreds of cocklers who work in the estuary and those whose lives and livelihoods have been affected considerably over the last decade.

Roeddwn yn teimlo bod yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn berthnasol a chadarn, a chroesawaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion hynny. Fodd bynnag, teimlaf ei bod yn anffodus na allai gytuno i argymhelliad 6. Er fy mod yn gwerthfawrogi'r arian a roddodd Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad gwyddonol, teimlaf y byddai cynnig y gefnogaeth wedi bod yn gam teg i geisio lliniaru problemau colli'r diwydiant i'r cannoedd lawer o gasglwyr cocos sy'n gweithio yn yr aber a rhai y cafodd eu bywydau a bywoliaethau eu heffeithio'n sylweddol arnynt dros y degawd diwethaf.

Dŵr Cymru obviously has a crucial role to play, and I am pleased that the Government is putting a strong emphasis on its actions and

Yn amlwg, mae gan Dŵr Cymru rôl hanfodol i'w chwarae, ac rwyf yn falch bod y Llywodraeth yn rhoi pwyslais cryf ar ei

will be willing to monitor those actions in future. I believe that the report is another step in the ongoing effort to re-establish the Burry inlet cockle fishery as a sustainable and viable industry for the people who fish there.

gamau ac y bydd yn barod i fonitro'r camau hynny yn y dyfodol. Credaf fod yr adroddiad yn gam arall yn yr ymdrech barhaus i ail-sefydlu pysgodfa cocos cilfach Porth Tywyn fel diwydiant cynaliadwy a dichonadwy i'r bobl sy'n pysgota yno.

**Bethan Jenkins:** I would like to join the Chair of the Petitions Committee in thanking everyone involved with the petition and its deliberation by our committee. I think that I should give credit to the Welsh Government for its involvement in trying to get to the bottom of the problems associated with the cockle beds in the Burry inlet. As it rightly says in its response, it has funded an investigation into cockle mortality and, as we can see from the five recommendations that it has accepted, it has worked with Dŵr Cymru to find solutions to sewerage problems there. However, I cannot pretend to be anything other than dismayed at the fact that the Welsh Government has decided to reject recommendation 6, which would offer comparable levels of support to the Burry Port cockle industry, as it does to the other areas that have suffered the loss of a major employer. As our report says,

**Bethan Jenkins:** Hoffwn ymuno â Chadeirydd y Pwyllgor Deisebau i ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â'r ddeiseb a'r gwaith o'i thrafod gan ein pwyllgor. Rwy'n credu y dylwn ganmol Llywodraeth Cymru am fod yn rhan o geisio mynd at wraidd y problemau sy'n gysylltiedig â'r gwelyau cocos yng nghilfach Porth Tywyn. Fel y dywed yn iawn yn ei ymateb, mae wedi ariannu ymchwiliad i farwolaethau cocos ac, fel y gwelwn o'r pum argymhelliad a dderbyniodd, mae wedi gweithio gyda Dŵr Cymru i ddod o hyd i atebion i'r problemau carthffosiaeth yno. Fodd bynnag, dim ond siom pur rwyf yn teimlo am y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gwrthod argymhelliad 6, a fyddai'n cynnig lefelau tebyg o gefnogaeth i ddiwydiant cocos Porth Tywyn, fel ag y gwnaiff i'r ardaloedd eraill sydd wedi colli prif gyflogwr. Fel y dywed ein hadroddiad,

'regardless of the cause of the mass cockle mortalities, the result is that cocklers in the area are now struggling to make a living.'

'waeth beth yw achos y marwolaethau cocos di-rif, y canlyniad yw bod casglwyr cocos yn yr ardal bellach yn cael trafferth gwneud bywoliaeth.'

That is the bare outcome; the fundamental point that we should not lose sight of in all of this. By means of offering a solution, the committee has asked the Welsh Government to work to regenerate the Burry Port area. In its rejection of the recommendation, the Welsh Government states that, alongside funding the two-year Environment Agency and University of Hull investigation into cockle mortality, the Welsh Government and the Environment Agency effectively subsidise the current licence holders as the annual costs of management are not recovered by the income generated from the licence fee. However, I think that this misses the point. As we have heard, a once-thriving cockle industry in Carmarthenshire is now a shadow of its former self, with cockle pickers having to rely on 12 weeks' work each year. Thomas Haydn Hughes, chairman of the Burry Inlet Hand Gatherers Association,

Dyna'r canlyniad plaen; y pwynt sylfaenol na ddylem golli golwg arno yn hyn i gyd. Er mwyn cynnig ateb, mae'r pwyllgor wedi gofyn i Lywodraeth Cymru weithio i adfywio ardal Porth Tywyn. Wrth wrthod yr argymhelliad, dywed Llywodraeth Cymru ei bod, ochr yn ochr ag ariannu ymchwiliad dwy flynedd Asiantaeth yr Amgylchedd a Phrifysgol Hull i farwolaethau cocos, mae Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, i bob pwrpas, yn rhoi cymhorthdal i'r deiliaid trwydded presennol gan nad yw'r costau rheoli blynyddol yn cael eu hadennill gan yr incwm a gynhyrchir o ffi y drwydded. Fodd bynnag, credaf fod hyn yn methu'r pwynt. Fel y clywsom, mae diwydiant cocos a fu unwaith yn llewyrchus yn Sir Gaerfyrddin bellach yn gysgod o'r hyn a fu, gyda chasglwyr cocos yn gorfod dibynnu ar 12 wythnos o waith bob blwyddyn. Mae Thomas Haydn Hughes,

claims to have personally lost around £500,000 through cockle mortality in the last decade. If it is accepted that what has happened to the cocklers is not of their own doing, why is it not accepted that the role of the Government here is to step in and assist, in the same way that help is given to an area where a factory closes or regeneration projects are prioritised in former industrial areas?

cadeirydd Cymdeithas Casglwyr â Llaw Cilfach Porth Tywyn, yn honni iddo'n bersonol golli tua £500,000 drwy farwolaethau cocos yn y degawd diwethaf. Os caiff ei dderbyn nad bai y casglwyr cocos yw'r hyn a ddigwyddodd iddynt, pam nad yw'n derbyn mai rôl y Llywodraeth yma yw camu i mewn a chynorthwyo, yn yr un ffordd ag y rhoddir cymorth i ardal lle mae ffatri'n cau neu brosiectau adfywio yn cael eu blaenoriaethu mewn hen ardaloedd diwydiannol?

I am struggling a little bit with the Welsh Government's logic here. If the logic is not evident, then it is not difficult to arrive at the conclusion that the Welsh Government's decision not to provide assistance or prioritise regeneration is a wholly financial one, particularly as that would make its entire response cost-neutral. What message does that give to the cocklers in this area?

Rwy'n cael ychydig o drafferth deall rhesymeg Llywodraeth Cymru yma. Os nad yw'r rhesymeg yn amlwg, yna mae'n anodd osgoi'r casgliad bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â darparu cymorth neu flaenoriaethu adfywio yn un cwbl ariannol, yn enwedig gan y byddai hynny'n gwneud ei ymateb cyfan yn niwtral o ran cost. Pa neges mae hynny'n ei rhoi i'r casglwyr cocos yn yr ardal hon?

However, it is worse than that, unfortunately. Carmarthenshire County Council has recently said that the investigation has halted development and regeneration along the Llanelli coastline. It has directly led to the loss of much-needed jobs and investment in the town and surrounding area. The north Wales coast was designated a regeneration area in 2008, with £20 million allocated to implement the action for its regeneration for the first time in three years. It was chosen for regeneration due to the erosion of the tourism industry in that area, and rightly so.

Fodd bynnag, mae'n waeth na hynny, yn anffodus. Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ddiweddar fod yr ymchwiliad wedi atal datblygu ac adfywio ar hyd arfordir Llanelli. Mae wedi arwain yn uniongyrchol at golli llawer o swyddi a buddsoddiad dirfawr ei angen yn y dref a'r ardal gyfagos. Cafodd arfordir gogledd Cymru ei ddynodi'n ardal adfywio yn 2008, a dyrannwyd £20 miliwn i weithredu'r camau ar gyfer ei adfywio am y tro cyntaf mewn tair blynedd. Fe'i dewiswyd ar gyfer adfywio oherwydd dirywiad y diwydiant twristiaeth yn yr ardal honno, a da o beth hynny.

In Scotland, Dumfries and Galloway Council have used a themed-town approach to rural regeneration, aimed at small towns in rural communities. Themes include Scotland's national book town for Wigtown, artists' town for Kirkcudbright and food town for Castle Douglas. The Wigtown project was core funded through European programmes as three separate projects at 50% of eligible costs. Dumfries and Galloway Council has also recently announced the allocation of axis 4 European fisheries funding to its fishing communities. A diverse range of projects are eligible to apply, including projects to provide skills training and to enhance environmental training for local people,

Yn yr Alban, mae Cyngor Dumfries a Galloway wedi defnyddio trefi thematig fel modd o adfywio cefn gwlad, wedi ei anelu at drefi bach mewn cymunedau gwledig. Mae'r themâu yn cynnwys tref lyfrau genedlaethol yr Alban yn Wigtown, tref artistiaid yn Kirkcudbrigh a thref bwyd yn Castle Douglas. Mae'r prosiect yn Wigtown wedi derbyn arian craidd drwy raglenni Ewropeaidd fel tri phrosiect gwahanol am 50% o'r costau cymwys. Mae Cyngor Dumfries a Galloway hefyd yn ddiweddar wedi cyhoeddi dyraniad echel 4 o gyllid pysgodfeydd Ewropeaidd i'w gymunedau pysgota. Mae amryw o brosiectau yn gymwys i wneud cais, gan gynnwys

community renewal projects and projects to improve tourism services to attract more visitors. Beneficiaries will also include micro, small and medium-sized enterprises, third sector and public sector organisations. Therefore, I ask the Minister to rethink this decision on recommendation 6 and to look for ways to find funding to get regeneration under way around the Burry inlet, for all those who bothered to come to speak to us as a Petitions Committee and to provide us with valuable evidence. Diolch yn fawr.

prosiectau i ddarparu hyfforddiant sgiliau a gwella hyfforddiant amgylcheddol i bobl leol, prosiectau adnewyddu cymunedol a phrosiectau i wella gwasanaethau twristiaeth i ddenu mwy o ymwelwyr. Bydd y rhai sy'n manteisio yn sgîl hyn hefyd yn cynnwys mentrau micro, bach a chanolig eu maint, y trydydd sector a sefydliadau sector cyhoeddus. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog ailystyried y penderfyniad hwn ar argymhelliad 6, a chwilio am ffyrdd o ddod o hyd i arian i roi cychwyn ar adfywio o amgylch cilfach Porth Tywyn, er budd pawb a drafferthodd ddod i siarad â ni fel Pwyllgor Deisebau a rhoi tystiolaeth werthfawr i ni. Diolch yn fawr.

**Joyce Watson:** One of the difficulties with the pollution of the Burry inlet is the number of organisations involved. You might have thought that that would be an advantage. However, some of the Members in this Chamber have small children, and I would ask them to consider their experience. Some, like me, have grandchildren. Whatever stage of life has been attained, one eternal truth has to be learnt: no children's party is complete without a game of pass the parcel. At the higher level of politics, this game is played at a sophisticated level. It is called 'passing the buck' or 'taking the blame'.

**Joyce Watson:** Un o'r anawsterau gyda llygredd yng nghilfach Porth Tywyn yw'r nifer o sefydliadau sy'n rhan o'r broses. Gallech dybio y byddai hynny'n fantais. Fodd bynnag, mae gan rai o'r Aelodau yn y Siambr hon blant bach, a byddwn yn gofyn iddynt ystyried eu profiad. Mae gan rai, fel fi, wyrion. Pa bynnag gyfnod mewn bywyd a gyrhaeddwyd, mae'n rhaid dysgu un gwirionedd tragwyddol: does yr un parti i blant yn gyflawn heb gêm o basio'r parsel. Ar lefel uwch o wleidyddiaeth, caiff y gêm hon ei chwarae ar lefel soffistigedig. Fe'i gelwir yn 'pasio'r baich' neu 'gymryd y bai'.

In the case of the pollution of the Burry inlet, we have three agencies intimately involved. There is Environment Agency Wales, Dŵr Cymru or Welsh Water and Carmarthenshire County Council. They all have their expertise, interests and theories. This is where devolution and the Welsh Government should be crucial. Ultimately, the decision lies not with the competing agencies, not with scientists at Whitehall and not with the mandarins of the European Union, but with the Welsh Government itself. I say this because one of the petitioners' calls was for a public inquiry. I feel that to be understandable. It seems that it would be the most objective solution. However, who can doubt the objectivity of Environment Agency Wales, Dŵr Cymru or Carmarthenshire County Council? The great American journalist, H.L. Mencken, wrote:

Yn achos y llygredd yng nghilfach Porth Tywyn, mae tair asiantaeth yn ymwneud yn agos â hyn, sef Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Dŵr Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae ganddynt i gyd eu harbenigedd, eu diddordebau a'u damcaniaethau. Dyma lle y dylai datganoli a Llywodraeth Cymru fod yn hanfodol. Yn y pen draw, mae'r penderfyniad yn gorwedd nid gyda'r asiantaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, nid gyda'r gwyddonwyr yn Whitehall na mandariniaid yr Undeb Ewropeaidd, ond gyda Llywodraeth Cymru ei hun. Dywedaf hyn oherwydd mai un o alwadau'r deisebwyr oedd am ymchwiliad cyhoeddus. Mae hynny'n ddealladwy. Ymddengys mai dyna fyddai'r ateb mwyaf gwrthrychol. Fodd bynnag, pwy all amau gwrthrychedd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Dŵr Cymru neu Gyngor Sir Caerfyrddin? Ysgrifennodd y newyddiadurwr Americanaidd o fri, H.L. Mencken:

'For every complex problem, there is an answer that is clear, simple and wrong.'

'Ar gyfer pob problem gymhleth, mae ateb clir, syml ac anghywir.'

We have all had the experience, while canvassing, of meeting the person who knows the answer to the most difficult problem known to humanity. However seemingly complicated the problem, the answer is spellbindingly obvious and the surprise is that no-one seems to have come up with the answer before. This, I have to say, is the case with the pollution of the Burry Port inlet.

Cawsom i gyd y profiad, tra'n canfasio, o gwrdd â'r person sy'n gwybod yr ateb i'r broblem anoddaf sy'n hysbys i ddynoliaeth. Waeth pa mor gymhleth mae'r broblem yn ymddangos, mae'r ateb yn chwerthinllyd o amlwg a'r syndod yw nad yw'n ymddangos bod unrhyw un wedi dod o hyd i'r ateb o'r blaen. Mae hyn, rhaid dweud, yn wir yn achos y llygredd yng ngilfach Porth Tywyn.

In 2009, Environment Agency Wales commissioned a study, carried out by the Institute of Estuarine and Coastal Studies at Hull University. Also involved were Swansea University, the Centre for Environment, Fisheries and Aquaculture Science—better known as Cefas—Bangor University, the Countryside Council for Wales, the School of Law at Swansea University and the National Oceanography Centre, Southampton. Dŵr Cymru Welsh Water has had its operations in the area scrutinised in court <u>and, in April 2011, was fined £20,000</u>

Yn 2009, comisiynodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru astudiaeth a gynhaliwyd gan y Sefydliad Aberoedd ac Astudiaethau Arfordirol ym Mhrifysgol Hull. Yn rhan o hyn hefyd oedd Prifysgol Abertawe, Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu—yn fwy adnabyddus fel Cefas—Prifysgol Bangor, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe a'r Ganolfan Eigioneg Genedlaethol, Southampton. Craffwyd ar weithrediadau Dŵr Cymru yn yr ardal yn y llys <u>ac, ym mis Ebrill 2011, cafodd ddirwy o £20,000</u>

**Joyce Watson continues:** <u>and, in April 2011, was fined £20,000</u> for discharging sewage into the sea. The courts' considerations of the issue are a matter of public report. The evidence has piled up. What is needed is a decision. In a democracy, that is the role of the Government. In post-devolution Wales, that body is the Welsh Government.

**Joyce Watson yn parhau:** <u>ac, ym mis Ebrill 2011, cafodd ddirwy o £20,000</u> am ollwng carthion i mewn i'r môr. Mae ystyriaethau'r llysoedd o'r mater i'w gweld mewn adroddiad cyhoeddus. Mae'r dystiolaeth wedi pentyrru. Yr hyn sydd ei angen yw penderfyniad. Mewn democratiaeth, dyna yw rôl y Llywodraeth. Yng Nghymru ôl-ddatganoledig, y corff hwnnw yw Llywodraeth Cymru.

3.15 p.m.

We tend to think of the environment as being separate from people, but that is wrong, and it is especially wrong in respect of the Burry port inlet. As the report states,

Rydym yn tueddu i feddwl am yr amgylchedd fel rhywbeth sydd ar wahân i bobl, ond mae hynny'n anghywir, ac mae'n arbennig o anghywir o ran cilfach Porth Tywyn. Fel y dywed yr adroddiad,

'regardless of the cause of the mass cockle mortalities, the result is that cocklers in the area are now struggling to make a living.'

'waeth beth yw achos y marwolaethau cocos di-rif, y canlyniad yw bod casglwyr cocos yn yr ardal bellach yn cael trafferth gwneud bywoliaeth.'

I am very glad, therefore, that the sixth recommendation states,

Rwyf yn falch, felly, bod y chweched argymhelliad yn dweud,

‘The Committee recommends that the Welsh Government offers a similar level of support to those affected by the decline of the Burry Port cockle industry as it does to other areas who have suffered the loss of a major employer.’

‘Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig lefel gyffelyb o gefnogaeth i’r rhai y mae’r dirywiad yn niwydiant cocos Porth Tywyn wedi ei effeithio arnynt ag y mae’n ei gynnig i ardaloedd eraill sydd wedi dioddef yn sgil colli cyflogwr mawr.’

This is a difficult and complex issue. Those who have provided the evidence have done so with diligence and care. As a committee, we have presented the evidence as clearly as possible. It is now time for the Welsh Government to act with the decisiveness that those who live and work in the Burry port inlet expect and, I feel, deserve.

Mae hwn yn fater anodd a chymhleth. Mae’r rhai sydd wedi darparu’r dystiolaeth wedi gwneud hynny yn ddiwyd a gofalus. Fel pwyllgor, rydym wedi cyflwyno’r dystiolaeth mor glir ag y bo modd. Mae’n bryd yn awr i Lywodraeth Cymru weithredu gyda’r pendantrwydd y mae’r rhai sy’n byw ac yn gweithio yn nghilfach Porth Tywyn yn ei ddisgwyl ac, rwyf yn teimlo, yn ei haeddu.

**Peter Black:** I also thank the Petitions Committee for its report. I think that the recommendations are succinct and set out the actions that need to be taken in this regard. This is a cross-border issue. A number of cocklers based in Gower will be affected by the impact of this pollution. I welcome the fact that Welsh Water is committed to investing in the sewerage systems of towns surrounding the Burry inlet, particularly those on Gower, such as Gowerton. However, there is an urgent need for them to get on and do this work. Clearly, the longer it takes to implement this sewage improvement system, the more we will have these sorts of spills and issues arising. I do not blame the cocklers for blaming those spills for the impact on their livelihood. There must be some sort of impact there, which needs to be taken into account.

**Peter Black:** Rwyf hefyd yn diolch i’r Pwyllgor Deisebau am ei adroddiad. Credaf fod yr argymhellion yn gryno ac yn nodi’r camau sydd angen eu cymryd yn hyn o beth. Mae hwn yn fater traws-ffiniol. Bydd nifer o gasglwyr cocos yn y Gŵyr yn cael eu heffeithio gan effaith y llygredd hwn. Croesawaf y ffaith bod Dŵr Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi yn systemau carthffosiaeth y trefi sydd o amgylch cilfach Porth Tywyn, yn enwedig y rhai ar Benrhyn Gŵyr, megis Tre-gŵyr. Fodd bynnag, mae angen brys iddynt fwrw ymlaen â’r gwaith hwn. Yn amlwg, po hiraf mae’n ei gymryd i gyflwyno’r system gwella carthion, y mwyaf y byddwn yn cael y mathau hyn o arllwysiadau a phroblemau. Nid wyf yn rhoi’r bai ar y casglwyr cocos am feio’r gollyngiadau hynny am yr effaith ar eu bywoliaeth. Mae’n rhaid bod hynny’n cael rhyw fath o effaith, sydd angen ei ystyried.

I am quite concerned by the fact that the Welsh Government is not prepared to accept the final recommendation of the committee, namely that it treats this industry with a similar level of support to those affected as it would any other major employer. This may well be a small industry in comparison to Corus, say, or some of the bigger industries in Cardiff or other bigger towns, but it is a major employer in the area. When the cocklers are not able to carry out their work, it has a huge impact on their livelihood and on the area’s economy. I hope that the Government will revisit this because, clearly,

Rwyf yn bryderus iawn am y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn argymhelliad olaf y pwyllgor, sef ei bod yn trin y diwydiant hwn gyda lefel debyg o gefnogaeth i’r rhai yr effeithir arnynt fel ag y byddai unrhyw gyflogwr mawr arall. Efallai mai diwydiant bach yw hwn o’i gymharu â Corus, dyweder, neu rai o’r diwydiannau mwy yng Nghaerdydd neu drefi mawr eraill, ond mae’n un o brif gyflogwyr yr ardal. Pan na fydd casglwyr cocos yn gallu gwneud eu gwaith, mae’n cael effaith enfawr ar eu bywoliaeth ac ar economi’r ardal. Gobeithio y bydd y Llywodraeth yn edrych eto ar hyn

given the scale of the industry, such a spill or closing down the ability to harvest cockles will have an impact on the cocklers' livelihood and on the economy. The Welsh Government needs to revisit this recommendation and think again about the level of support that it is prepared to offer. I noted that, in its response, it has listed a number of things that it already does for the industry, but I think that that has been proven to be inadequate in light of the impact on the cocklers and the loss of their livelihood. Therefore, I hope that the Minister will reconsider the response to that particular recommendation.

**Byron Davies:** I also welcome this report by the Petitions Committee and the opportunity to speak to it. As someone who was brought up on Gower, I probably saw the cockle industry at its very best, years ago. However, I can tell the Chamber that the industry and supporting communities on the north side of Gower are very much hurt as a result of this pollution.

This is an important industry in South Wales West, and one that has the potential to thrive. If you read the report by Dr Eric Edwards for the Sea Fish Industry Authority, published as far back as 1986, you can get an appreciation of the industry's potential. It has huge potential, but it has been frittered away by the poor performance of the neighbouring sewage systems, in my view, and that is also highlighted in the recommendations. That poor performance coupled with pollution from the lack of drainage capacity in the Llanelli and Burry port area are a blight on the important tourism sector.

I was, and continue to be, disappointed in the Environment Agency's inconclusive report. I want you to imagine for a second that we were talking about another part of the agricultural sector. Imagine if millions of other fish or animal form had been found dead at a lucrative breeding ground. There would have been uproar and a compensation package for the industry, which is why I very much welcome recommendation 6.

It is common belief by local cockle pickers that pollution from nearby sewage works is to

oherwydd, yn amlwg, o ystyried maint y diwydiant, gallai arllwysiad o'r fath neu rwystro'r gallu i gynaeafu cocos gael effaith ar fywoliaeth y casglwyr cocos ac ar yr economi. Mae angen i Lywodraeth Cymru ailedrych ar yr argymhelliad hwn a meddwl eto am faint o gymorth y mae'n barod i'w gynnig. Nodais ei fod yn ei ymateb wedi rhestru nifer o bethau y mae eisoes yn ei wneud i'r diwydiant, ond rwyf yn meddwl bod hynny wedi cael ei brofi yn annigonol yng ngoleuni'r effaith ar y casglwyr cocos a cholli eu bywoliaeth. Felly, gobeithio y gwnaiff y Gweinidog ailystyried yr ymateb i'r argymhelliad penodol hwnnw.

**Byron Davies:** Rwyf hefyd yn croesawu'r adroddiad hwn gan y Pwyllgor Deisebau a'r cyfle i siarad amdano. Fel rhywun a fagwyd ar Benrhyn Gŵyr, mae'n debyg i mi weld y diwydiant cocos ar ei orau, flynyddoedd yn ôl. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrth y Siambr fod y diwydiant a'r cymunedau sy'n ei gefnogi ar ochr ogleddol Gŵyr wedi cael cryn ergyd o ganlyniad i'r llygredd hwn.

Mae hwn yn ddiwydiant pwysig yng Ngorllewin De Cymru, ac yn un sydd â'r potensial i ffynnu. Pe baech yn darllen yr adroddiad gan Dr Eric Edwards ar gyfer Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr, a gyhoeddwyd mor bell yn ôl ag 1986, gallwch werthfawrogi potensial y diwydiant. Mae ganddo botensial enfawr, ond cafodd ei wastraffu gan berfformiad gwael y systemau carthion cyfagos, yn fy marn i, sydd hefyd yn cael sylw yn yr argymhellion. Mae'r perfformiad gwael hwnnw ynghyd â llygredd oherwydd diffyg draenio yn ardal Llanelli a Phorth Tywyn yn aflwydd ar y sector twristiaeth pwysig.

Roeddwn, ac rwy'n parhau i fod, yn siomedig yn adroddiad amhendant Asiantaeth yr Amgylchedd. Rwyf am i chi ddychmygu am eiliad ein bod yn siarad am ran arall o'r sector amaethyddol. Dychmygwch pe bai miliynau o bysgod neu fathau eraill o anifeiliaid wedi eu canfod yn farw mewn llecyn bridio proffidiol. Byddai wedi creu cynnwrf a phecyn iawndal i'r diwydiant, a dyna pam rwyf yn croesawu argymhelliad 6.

Mae'n gred gyffredin gan gasglwyr cocos lleol mai llygredd o waith carthffosiaeth

blame, although water company chiefs dispute the claim, as we have heard, and the Environment Agency cannot find any conclusive proof. It has not been unusual to find about 6,000 tonnes of cockles, worth in the region of £7 million, being wiped out at Burry inlet. We are talking about potentially huge sums for the local economy, as well as the environmental angle.

gerllaw sydd ar fai, er bod penaethiaid cwmnïau dŵr yn anghydweld, fel y clywsom, ac ni all Asiantaeth yr Amgylchedd ddod o hyd i unrhyw brawf pendant. Ni fu'n anarferol dod o hyd i tua 6,000 tunnell o gocos, gwerth tua £7 miliwn, yn cael eu dileu ym Mhorth Tywyn. Rydym yn sôn am symiau enfawr o bosibl i'r economi leol, yn ogystal â'r agwedd amgylcheddol.

I very much welcome the recommendations in this report, particularly recommendations 4 and 5. I hope to see definitive action on pollution in the Burry inlet, not only because of the implications for cockle breeding, but also because it is the right thing to do. With regular waste quality test results published, the community can see the problem for itself.

Rwy'n croesawu argymhellion yr adroddiad hwn yn fawr, yn arbennig argymhellion 4 a 5. Rwy'n gobeithio gweld gweithredu pendant ar lygredd ym Mhorth Tywyn, nid yn unig oherwydd y goblygiadau ar gyfer bridio cocos, ond hefyd oherwydd mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Gyda chanlyniadau profion ansawdd gwastraff yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd, gall y gymuned weld y broblem dros ei hun.

I commend this report and I thank the committee very much for taking this important issue forward, and for listening to the communities around Burry inlet.

Cymeradwyaf yr adroddiad hwn a diolch i'r pwyllgor yn fawr am fwrw ymlaen â'r mater pwysig hwn, ac am wrando ar y cymunedau o amgylch cilfach Porth Tywyn.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I will begin by thanking the committee for its work and report, and the committee Chair and Members for their contributions today.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Dechreuaf drwy ddiolch i'r pwyllgor am ei waith a'i adroddiad, ac i Gadeirydd y pwyllgor a'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw.

The Burry inlet has a rich history of shellfish harvesting and processing, which is of great importance to the local economy, as a number of Members have rightly mentioned. That is why, in 2008, the Welsh Government requested an investigation into cockle mortality, led by Environment Agency Wales. The final report, published earlier this year, concluded that no single, clear cause of the mortalities has been identified and there is no evidence to show that pollution in the water is a cause of mortalities. In fact, the nutrient and organic conditions in the Burry inlet are producing good growth of young cockles. Those are the clear findings of the report, so when Members mention the concern in the area about the cause of the mortalities, they must bear in mind that we commissioned that report, it has been delivered, and those are its essential findings.

Mae gan gilfach Porth Tywyn hanes cyfoethog o gynaeafu a phrosesu pysgod cregyn, sydd o bwys mawr i'r economi leol, fel y dywedodd nifer o Aelodau yn gywir. Dyna pam, yn 2008, y gofynnodd Llywodraeth Cymru am ymchwiliad i farwolaethau cocos, wedi ei arwain gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Daeth yr adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, i'r casgliad nad oes unrhyw achos clir am y marwolaethau wedi cael ei nodi ac nad oes tystiolaeth i ddangos bod llygredd yn y dŵr yn achosi marwolaethau. Yn wir, mae'r amodau maetholion ac organig ym Mhorth Tywyn yn cynhyrchu tyfiant da o gocos ifanc. Dyna ganfyddiadau clir yr adroddiad, felly pan fydd Aelodau'n sôn am y pryder yn yr ardal am achos y marwolaethau, mae'n rhaid iddynt gadw mewn cof ein bod wedi comisiynu'r adroddiad hwnnw, ei fo wedi'i gyhoeddi, a dyna yw ei ganfyddiadau hanfodol.

The report has not been able to identify a single contributory cause, but it has highlighted a number of areas for further investigation. Following consideration of these, the Environment Agency, as managers of this fishery, undertook a review of its management arrangements. That review closed on 27 September 2012, and the responses are currently being considered. That answers a point raised in this debate.

Nid yw'r adroddiad wedi gallu nodi un ffactor unigol a gyfrannodd, ond gwnaeth amlygu nifer o feysydd i'w hymchwilio ymhellach. Yn dilyn ystyriaeth o'r rhain, cynhaliodd Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rheolwyr y bysgodfa hon, adolygiad o'i threfniadau rheoli. Daeth yr adolygiad hwnnw i ben ar 27 Medi 2012, ac mae'r ymatebion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae hynny'n ateb pwynt a godwyd yn ystod y ddadl hon.

The Petitions Committee's report recommends that the Welsh Government offer support to those affected by the decline in the Burry inlet cockle industry, and those concerns have featured large in a number of Members' contributions. I want to make it clear that the provision of financial support by Government to individual businesses is governed by strict state aid rules, and support of this nature is ineligible under the European fisheries fund 2007-13, which is the mechanism available for fisheries support. That is clearly the position and I have therefore rejected recommendation 6. However, as I mentioned earlier, we have invested a significant amount of money in investigating the causes of the cockle mortalities, and we continue to work closely with the Environment Agency to ensure that cockle picking in the Burry inlet continues to be a viable business.

Mae adroddiad y Pwyllgor Deisebau yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y dirywiad yn y diwydiant cocos yng nghilfach Porth Tywyn, ac mae'r pryderon hynny wedi cael cryn sylw mewn nifer o gyfraniadau gan Aelodau. Rwyf am ei gwneud yn glir bod cymorth ariannol gan y Llywodraeth i fusnesau unigol yn cael ei lywodraethu gan reolau cymorth gwladwriaethol llym, ac mae cefnogaeth o'r natur hwn yn anghymwys o dan y gronfa pysgodfeydd Ewropeaidd 2007-13, sef y mecanwaith sydd ar gael i gefnogi pysgodfeydd. Dyna'n amlwg yw'r sefyllfa ac rwyf felly wedi gwrthod argymhelliad 6. Fodd bynnag, fel y soniais yn gynharach, rydym wedi buddsoddi swm sylweddol o arian i ymchwilio i'r rhesymau dros farwolaethau cocos, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn sicrhau bod casglu cocos yng nghilfach Porth Tywyn yn parhau i fod yn fusnes hyfyw.

We know through the Environment Agency's monitoring work that the water quality in the estuary is compliant with European directives for the mandatory shellfish waters standard. Dŵr Cymru/Welsh Water's assets discharging to the inlet are regulated to strict criteria, but there are still a number of spill events from the sewerage network. Again, they have been mentioned by a number of Members, including William Powell and Simon Thomas. I agree and we recognise that Llanelli and Gowerton networks are under strain. That is largely due to excessive surface water entering the sewerage network, new developments using the network, and possible misconnections. All this results in a higher number of spills from overflows within the catchment, and limits the ability of the networks to handle additional flows

Rydym yn gwybod drwy waith monitro Asiantaeth yr Amgylchedd bod ansawdd y dŵr yn yr aber yn cydymffurfio â chyfarwyddebau Ewropeaidd ar gyfer y safon dyfroedd pysgod cregyn gorfodol. Mae gollwng asedau Dŵr Cymru i'r gilfach yn cael eu rheoleiddio yn ôl meini prawf llym, ond mae dal nifer o orlifiadau o'r rhwydwaith carthffosiaeth. Unwaith eto, cawsant eu crybwyll gan nifer o Aelodau, gan gynnwys William Powell a Simon Thomas. Rwy'n cytuno ac rydym yn cydnabod bod rhwydweithiau Llanelli a Thre-gŵyr o dan straen. Mae hynny i'w briodoli'n bennaf i ormod o ddŵr wyneb yn mynd i mewn i'r rhwydwaith carthffosiaeth, datblygiadau newydd yn defnyddio'r rhwydwaith, a chamgysylltiadau posibl. Mae hyn i gyd yn arwain at fwy o golledion o orlifiadau yn y

proposed by new development.

dalgylch, ac mae'n cyfyngu ar allu'r rhwydweithiau i drin llif ychwanegol a gynigir gan y datblygiad newydd.

That is why the Welsh Government has been clear with Dŵr Cymru/Welsh Water and the Environment Agency that it expects sustainable solutions to be put in place to ensure that the sewerage network around the Burry inlet is adequate to meet current and future demands. I also expect that all environmental obligations will be met so that water quality in the Burry inlet is safeguarded for the future. Dŵr Cymru has proposed a detailed programme of work to ensure that both the Llanelli and Gowerton catchments have sewerage infrastructure that meets present and future demands. This programme will directly address recommendations 1 and 3 in the committee's report.

Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir gyda Dŵr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd ei bod yn disgwyl i atebion cynaliadwy gael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y rhwydwaith carthffosiaeth o amgylch cilfach Porth Tywyn yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r dyfodol. Rwyf hefyd yn disgwyl y bydd yr holl rwymedigaethau amgylcheddol yn cael eu bodloni fel bod ansawdd y dŵr ym Mhorth Tywyn yn cael ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol. Mae Dŵr Cymru wedi cynnig rhaglen fanwl o waith i sicrhau bod dalgylchoedd Llanelli a Thregŵyr yn cael seilwaith carthffosiaeth sy'n bodloni gofynion y presennol a'r dyfodol. Bydd y rhaglen yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag argymhellion 1 a 3 yn adroddiad y pwyllgor.

The programme consists of 181 individual projects and represents a major investment. It will be delivered in phases. It is designed to deliver a sewerage network in both catchments that can provide for current and future development. The main focus is on retrofitting sustainable drainage systems to remove large amounts of surface water. There will also be some non-infrastructure improvements. I agree very much with Peter Black's points about the urgency of this. That is why I am very pleased to say that work on the programme has already started and will be delivered in three phases, the first to be completed by 2015 and the third by 2025. As William Powell mentioned earlier, there is a commitment to ensure that the most important works are front-loaded in this work.

Mae'r rhaglen yn cynnwys 181 o brosiectau unigol ac mae'n cynrychioli buddsoddiad sylweddol. Bydd yn cael ei chyflwyno fesul cam. Ei bwriad yw darparu rhwydwaith carthffosiaeth yn y ddau ddalgylch sy'n gallu darparu ar gyfer datblygu presennol ac yn y dyfodol. Mae'r prif ffocws ar ôl-ffitio systemau draenio cynaliadwy i gael gwared ar symiau mawr o ddŵr wyneb. Bydd hefyd rai gwelliannau nad ydynt yn ymwneud â'r seilwaith. Cytunaf yn llwyr â phwyntiau Peter Black bod angen gwneud hyn ar frys. Dyna pam rwyf yn falch iawn o ddweud bod y gwaith ar y rhaglen wedi dechrau eisoes ac y bydd yn cael ei gyflwyno mewn tri cham, y cyntaf i gael ei gwblhau erbyn 2015 a'r trydydd erbyn 2025. Fel y soniodd William Powell yn gynharach, mae ymrwymiad i sicrhau bod y gwaith pwysicaf yn cael y flaenoriaeth fwyaf yn y gwaith hwn.

Each phase has been established with the aim of delivering the greatest benefits of surface water removals early in the programme. To remove the surface water, Dŵr Cymru will use a number of sustainable drainage system techniques suitable for high-density areas such as Llanelli. They have drawn on experience from similar successful schemes across Europe and will ensure that the solutions are tailored to meet the specific requirements of each area.

Mae pob cam wedi ei fwriadu er mwyn cael y fantais fwyaf o symud dŵr wyneb yn gynnar yn y rhaglen. I gael gwared ar y dŵr wyneb, bydd Dŵr Cymru yn defnyddio nifer o dechnegau system ddraenio cynaliadwy sy'n addas i ardaloedd dwysedd uchel fel Llanelli. Maent wedi tynnu ar brofiad o gynlluniau llwyddiannus tebyg ar draws Ewrop a bydd yn sicrhau bod yr atebion yn cael eu teilwra i fodloni gofynion penodol pob ardal.

Tackling surface water at source will contribute to flood-risk management, as well, by naturally reducing the flow and therefore slowing down the impact on local watercourses. Therefore, it will be of wide benefit to local areas. The drainage features are also expected to provide benefits for improved water quality as well as green areas that will encourage wildlife and provide further amenity value to the surrounding community. I am very confident that the community will see the wide-ranging benefits of this work. I am confident that this programme of work that Dŵr Cymru/Welsh Water has in place will deliver benefits via the sewerage infrastructure and wider benefits within the community. I encourage support for this programme from all parties concerned.

Bydd mynd i'r afael â dŵr wyneb yn y ffynhonnell yn cyfrannu at reoli risg llifogydd hefyd, drwy leihau'r llif yn naturiol ac felly arafu yr effaith ar gyrsiau dŵr lleol. Felly, bydd o fudd eang i ardaloedd lleol. Disgwylir hefyd i'r nodweddion draenio fod o fantais i well ansawdd dŵr yn ogystal ag ardaloedd gwyrdd a fydd yn annog bywyd gwyllt ac yn darparu gwerth amwynder pellach i'r gymuned o amgylch. Rwyf yn ffyddiog iawn y bydd y gymuned yn gweld manteision pellgyrhaeddol y gwaith hwn. Rwy'n hyderus y bydd y rhaglen waith sydd gan Dŵr Cymru yn ei lle yn cyflwyno buddion drwy gyfrwng y seilwaith carthffosiaeth a manteision ehangach o fewn y gymuned. Rwy'n annog cefnogaeth i'r rhaglen hon gan bawb dan sylw.

As a Welsh Government, we appreciate the local concern that remains about these issues, and we will continue to work with the community in moving matters forward.

Fel Llywodraeth Cymru, rydym yn gwerthfawrogi'r pryder lleol sy'n dal i fodoli am y materion hyn, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r gymuned wrth symud pethau yn eu blaen.

**William Powell:** I thank colleagues on the Petitions Committee and the wider Assembly for all their contributions to this important debate. I also thank the Minister for his response on behalf of the Government.

**William Powell:** Diolch i gydweithwyr ar y Pwyllgor Deisebau a'r Cynulliad ehangach am eu holl gyfraniadau i'r ddadl bwysig hon. Diolch hefyd i'r Gweinidog am ei ymateb ar ran y Llywodraeth.

Russell George reminded us of the work done by previous committee members, and I thank them, some of whom are currently present in the Chamber and some of whom are no longer Assembly Members, for the energy that they committed to this. Russell George also spoke about the importance of the natural resources body for Wales in the future monitoring of this area, which is an important point. Bethan Jenkins made a passionate plea on behalf of the cocklers, talking about the devastating effect on their livelihood. She also made an appeal for a more innovative approach to regeneration schemes and made reference to some examples of good practice. Joyce Watson rightly reminded us of the complexities and difficulties that come with a multi-agency approach, as well of the fact that, sometimes, answers are not as simple as they might appear. I am grateful also to Peter Black for his contribution, pointing out the wider impacts in the Gower_and the wider Swansea bay area, and I join other colleagues

Cawsom ein hatgoffa gan Russell George am y gwaith a wnaed gan aelodau blaenorol y pwyllgor, a diolchaf iddynt hwy, y mae rhai ohonynt yn bresennol ar hyn o bryd yn y Siambr a rhai ohonynt nad ydynt bellach yn Aelodau Cynulliad, am yr egni a roesant i hyn. Soniodd Russell George hefyd am bwysigrwydd y corff adnoddau naturiol ar gyfer Cymru o ran monitro'r maes hwn yn y dyfodol, sy'n bwynt pwysig. Gwnaeth Bethan Jenkins ble angerddol ar ran y casglwyr cocos, gan sôn am yr effaith ddinistriol ar eu bywoliaeth. Roedd hefyd yn gwneud apêl am ddull mwy arloesol at gynlluniau adfywio a chyfeiriodd at rai enghreifftiau o arfer da. Roedd Joyce Watson yn iawn i'n hatgoffa o'r cymhlethdodau a'r anawsterau a ddaw yn sgîl dull aml-asiantaeth, yn ogystal â'r ffaith nad yw atebion weithiau mor syml ag maent yn ymddangos. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Peter Black am ei gyfraniad, a thynnodd sylw at yr effeithiau ehangach yn y Gŵyr_ac ardal

in making a plea for a rethink on recommendation 6. The Minister has given us some context on that, which I will come to in a moment, but it is a matter of disappointment to many.

ehangach bae Abertawe, ac ymunaf â chydweithwyr eraill i wneud ple i ailystyried argymhelliad 6. Mae'r Gweinidog wedi rhoi rhywfaint o gyd-destun i hynny, a byddaf yn dod at hynny mewn munud, ond mae'n fater o siom i lawer.

3.30 p.m.

It was good to hear Byron Davies recalling childhood memories of happier times for the cockling sector. That is a matter of particular importance to him and his own story as well as to the cocklers of the Carmarthen and Swansea bay areas. He also referenced the tourism impact that is so important and that we should not forget. In addition to that, he made a potentially valid comparison with certain agricultural disasters and the impact that they have as well as the support structure that is put in place for those.

Roedd yn dda clywed Byron Davies yn dwyn i gof atgofion plentyndod hapusach am amseroedd gwell i'r sector cocos. Mae hynny'n arbennig o bwysig iddo ef a'i stori yn ogystal ag i gasglwyr cocos o ardaloedd bae Caerfyrddin ac Abertawe. Cyfeiriodd hefyd at yr effaith ar dwristiaeth sydd mor bwysig ac na ddylem ei anghofio. Yn ogystal â hynny, gwnaeth gymhariaeth ddilys â thrychinebau amaethyddol penodol a'r effaith a gânt, yn ogystal â'r strwythur cefnogi sy'n cael ei roi ar waith ar eu cyfer.

The Minister, in his response, gave us chapter and verse on a number of the initiatives that are taking place and some useful reassurance on the timescale and the frontloading of the measures that are being put in place to address this. He also explained the restrictions and difficulties around state aids that had influenced the Government in its decision—the decision that we nevertheless regret and feel should merit further attention because of the impact that the cocklers continue to suffer.

Yn ei ymateb, manylodd y Gweinidog ar nifer o'r mentrau sydd ar waith a rhoddodd sicrwydd defnyddiol ar yr amserlen a'r flaenoriaeth a roddir i'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn. Eglurodd hefyd am y cyfyngiadau a'r anawsterau o ran cymorth gwladwriaethol a oedd wedi dylanwadu ar benderfyniad y Llywodraeth—penderfyniad yr ydym, serch hynny, yn anghytuno ag ef ac yn teimlo y dylai gael sylw pellach oherwydd yr effaith y mae'r casglwyr cocos yn parhau i ddioddef.

In conclusion, I hope that today's debate and the report that we have worked on will make a contribution in this area. I would also like to thank our absent colleague, Keith Davies, for his keen interest in these matters and his presence at the site visit, which was facilitated by councillor Bill Thomas, and by Rhys Williams, who was also influential in organising that meeting and making it such an important part of our evidence gathering.

I gloi, rwyf yn gobeithio y bydd dadl heddiw a'r adroddiad y buom yn gweithio arno yn cyfrannu at y maes hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i'n cydweithiwr absennol, Keith Davies, am ei ddiddordeb brwd yn y materion hyn a'i bresenoldeb yn yr ymweliad â'r safle a hwyluswyd gan y cynghorydd Bill Thomas, a Rhys Williams, a oedd hefyd yn ddylanwadol wrth drefnu'r cyfarfod hwnnw, a'i wneud yn rhan mor bwysig o'n gwaith o gasglu tystiolaeth.

I also wish to thank Abigail Philips, former clerk to the Petitions Committee, and Naomi Stocks, who has now returned to that role, and the wider team for all of their work and support in making possible our work. I hope that, together, we can make a contribution to improving the lot of the cockle pickers in their search for a renaissance in their

Hoffwn hefyd ddiolch i Abigail Philips, cyn glerc i'r Pwyllgor Deisebau, a Naomi Stocks, sydd bellach wedi dychwelyd i'r rôl hwnnw, a'r tîm ehangach am eu holl waith a chefnogaeth i wneud ein gwaith yn bosibl. Rwyf yn gobeithio, gyda'n gilydd, y gallwn wneud cyfraniad i wella bywyd y casglwyr cocos yn eu gwaith o chwilio am adfywiad yn

industry.

eu diwydiant.

**The Presiding Officer:** The proposal is to note the Petitions Committee report. Does anyone object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau. A oes unrhyw un sy'n gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.33 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.33 p.m.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Yr Economi
### The Economy

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Jane Hutt, gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Jane Hutt, amendment 3 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.

*Cynnig NDM5058 William Graham*

*Motion NDM5058 William Graham*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i ysgogi'r economi, uwchraddio'r seilwaith a chreu swyddi yng Nghymru.*

*1. Welcomes steps taken by the UK Government to stimulate the economy, upgrade infrastructure and create jobs in Wales.*

*2. Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi i dyfu economi Cymru.*

*2. Regrets that the Welsh Government has failed to utilise the tools at its disposal to grow the Welsh economy.*

*3. Yn annog Llywodraeth Cymru i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ffyniant i bobl Cymru.*

*3. Encourages the Welsh Government to work constructively with the UK Government to deliver prosperity for the people of Wales.*

**Byron Davies:** I move the motion.

**Byron Davies:** Cynigiaf y cynnig.

It gives me great pleasure to lead this debate today on behalf of the Welsh Conservatives. This morning, our Prime Minister outlined in his speech to the Conservative faithful how Britain can deliver. I and my colleagues in the Welsh Conservatives firmly believe that with firm leadership and firm strategy, there is no doubt that Wales can also work and

Mae'n bleser mawr i mi arwain y ddadl hon heddiw ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Y bore yma, amlinellodd ein Prif Weinidog yn ei araith i ffyddloniaid y Ceidwadwyr sut y gall Prydain gyflawni. Rwyf i a fy nghydweithwyr yn y Ceidwadwyr Cymreig yn credu'n gryf, o gael arweinyddiaeth gadarn a strategaeth gadarn, y gall Cymru

deliver.

hefyd weithio a chyflawni.

Wales can work and should be offered every chance. If only this Labour Government here would engage constructively with our UK colleagues to maximise the potential of the massive investment that the Conservative-led UK Government is making in Wales. This morning, I took part in a cross-party rail group, where we discussed the huge potential for the south Wales economy with the investment of electrification. The Swansea to London upgrade is worth over £1 billion while the south Wales local lines are worth £350 million. This type of investment in infrastructure speaks louder than words. Conservatives are putting their money where their mouths are, unlike the Government here, which overspends on infrastructure to the tune of almost £1 billion. You cannot spin on that because the Wales Audit Office told us that—it is a fact. You are wasting the Welsh people's hopes and aspirations with dogma and tribal politics.

Gall Cymru weithio a dylid cynnig bob cyfle iddi wneud hynny. Pe bai'r Lywodraeth Lafur yma ond yn ymgysylltu'n adeiladol gyda'n cydweithwyr yn y DU i fanteisio i'r eithaf ar botensial y buddsoddiad anferth y mae Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr yn ei wneud yng Nghymru. Y bore yma, cymerais ran mewn grŵp trawsbleidiol ar reilffyrdd, lle buom yn trafod y potensial aruthrol i economi de Cymru gyda'r buddsoddiad i drydaneiddio. Mae uwchraddio'r llinell rhwng Abertawe a Llundain werth dros £1 biliwn tra bod y buddsoddiad yn llinellau lleol de Cymru werth £350 miliwn. Mae'r math hwn o fuddsoddiad mewn seilwaith yn dweud llawer. Mae'r Ceidwadwyr yn rhoi eu harian ar waith yn lle siarad amdano, yn wahanol i'r Llywodraeth hon, sydd wedi gorwario bron £1 biliwn ar seilwaith. Ni allwch roi sbin ar hynny oherwydd Swyddfa Archwilio Cymru ddywedodd hynny wrthym—mae'n ffaith. Rydych yn gwastraffu gobeithion a dyheadau pobl Cymru gyda dogma a gwleidyddiaeth lwythol.

Wales can work and with the Welsh Conservatives it would. We only have to look at the announcement of the Chancellor of the Exchequer this week—he gave us a radical change to employment law with a voluntary three-way deal that presents a new owner-employee contract, allowing business owners to award shares worth up to £50,000 to their staff in return for the employee giving up certain employment rights. That is about empowerment and ownership. The Government would then charge no capital gains tax on the profit you made from your shares—owners, workers, and the taxman all in it together. Alongside this in England, there will now be a clear entire economic strategy, which is an enterprise strategy, emphasising again that Conservatives are in government for people who aspire. His comments outlined that wealth creation should not be penalised in favour of indulging in the lazy politics of envy, which is all too apparent, I am afraid, in this institution.

Gall Cymru weithio a byddai'n gwneud hynny gyda'r Ceidwadwyr Cymreig. Nid oes ond raid i ni edrych ar gyhoeddiad Canghellor y Trysorlys yr wythnos hon—cyflwynodd newid radical i gyfraith cyflogaeth gyda bargen wirfoddol dair ffordd sy'n cyflwyno contract newydd rhwng perchnogion a gweithwyr, gan ganiatáu i berchnogion busnes roi cyfranddaliadau gwerth hyd at £50,000 i'w staff yn gyfnewid am weithiwr yn rhoi'r gorau i rai hawliau cyflogaeth. Mae a wnelo hynny â grymuso a pherchnogaeth. Ni fyddai'r Llywodraeth wedyn yn codi unrhyw dreth enillion cyfalaf ar yr elw a wnaethoch o'ch cyfranddaliadau—byddai cyd-ddealltwriaeth rhwng y perchnogion, y gweithwyr a'r dyn treth. Ochr yn ochr â hyn yn Lloegr, bydd yn awr strategaeth economaidd glir a chyfan, sef strategaeth menter, sy'n pwysleisio unwaith eto bod y Ceidwadwyr mewn llywodraeth i bobl uchelgeisiol. Dywedodd yn ei sylwadau na ddylid cosbi creu cyfoeth o blaid ymfoddhau mewn gwleidyddiaeth o genfigen ddiog, sydd yn amlwg iawn, mae arnaf ofn, yn y sefydliad hwn.

This economic strategy shines when compared with the attitude of Ministers in this Government. Your ambitions for enterprise zones in Wales are, frankly, quite hazy. Your manufacturing strategy—

Mae'r strategaeth economaidd hon yn disgleirio o'i gymharu ag agwedd Gweinidogion yn y Llywodraeth hon. Mae eich uchelgais chi ar gyfer ardaloedd menter yng Nghymru yn eithaf niwlog, a bod yn onest. Mae eich strategaeth gweithgynhyrchu—

**David Rees:** Will you take an intervention?

**David Rees:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Byron Davies:** Yes, certainly.

**Byron Davies:** Gwnaf, yn sicr.

**David Rees:** You mentioned the economic strategy. Do you agree that, in fact, your Government's manufacturing strategy of increasing carbon taxes and energy prices, and now rail freight charges on companies, is damaging industry in Wales, not benefitting it?

**David Rees:** Gwnaethoch sôn am y strategaeth economaidd. A ydych yn cytuno bod strategaeth gweithgynhyrchu eich Llywodraeth chi o gynyddu trethi carbon a phrisiau ynni, ac yn awr godi taliadau cludo nwyddau rheilffordd ar gwmnïau, mewn gwirionedd yn niweidio diwydiant yng Nghymru, ac nid yn ei helpu?

**Byron Davies:** No, I do not, frankly, in short.

**Byron Davies:** Nag wyf, a dweud y gwir, yn gryno.

Therefore, as I was saying, as a Government, your manufacturing strategy is still lacking, and, in terms of investment in the private sector, many of your arm's-length bodies, such as the regeneration investment fund for Wales, simply are not lending, and indeed have not lent. Wales can work, but only within a strong United Kingdom that is free of envy and tribal borders; best practice should be embraced regardless of which side of the border it emerges from.

Felly, fel roeddwn yn ei ddweud, fel Llywodraeth, mae eich strategaeth gweithgynhyrchu yn dal yn ddiffygiol, ac, o ran buddsoddi yn y sector preifat, nid yw llawer o'ch cyrff hyd braich, megis y gronfa buddsoddi mewn adfywio ar gyfer Cymru, yn benthyg arian, nac wedi gwneud hynny. Gall Cymru weithio, ond dim ond o fewn Teyrnas Unedig gref sy'n rhydd o ffiniau eiddigedd a llwythol; dylid arddel arfer da waeth ba ochr i'r ffin y mae'n ymddangos.

Before moving on to the amendments and our response to them, I wish to touch on the respect agenda. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science sadly encompasses all that is wrong with this agenda in Wales. It takes a long-running campaign by the Welsh Conservatives, and the media, to get the Minister to hold token-gesture meetings with her counterparts in the UK Government. The Minister's greatest achievement in her opening months in relation to her responsibility for business was to go on record with her regrets about the capitalist system, trying to take the Labour Government's enterprise strategy back to Karl Marx and Engels. That is simply not good enough. Wales can work, but not with issues like these being emphasised at

Cyn symud ymlaen at y gwelliannau a'n hymateb iddynt, hoffwn gyfeirio at yr agenda parch. Yn anffodus, mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn cwmpasu popeth sy'n bod ar yr agenda hon yng Nghymru. Mae'n cymryd ymgyrch hir gan y Ceidwadwyr Cymreig, a'r cyfryngau, i gael y Gweinidog i gynnal cyfarfodydd tocenistaidd gyda'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Camp fwyaf y Gweinidog yn ei misoedd cyntaf o ran ei chyfrifoldeb am fusnes oedd sôn ar goedd am ei hedifeirwch am y system gyfalafol, gan geisio mynd â strategaeth menter y Llywodraeth Lafur yn ôl i Karl Marx ac Engels. Nid yw hynny'n ddigon da. Gall Cymru weithio, ond nid pan fo materion fel hyn yn cael eu pwysleisio ar lefel y

Government level.

Llywodraeth.

Finally, I turn to the amendments. We will vote against amendment 1, which is a churlish amendment that seeks to delete 'welcomes' and replace it with 'notes'. This amendment just demonstrates the depth of guilt you must feel in that it again takes a Conservative-led Government to invest in Wales's infrastructure. We are also against amendment 2; you are shirking your responsibilities, much as you have since the first day of this Assembly, which has been for far too long in my view. We will abstain on amendment 3, not because we do not have a view on it but because we do not believe that it is right to prejudice the Silk commission. As has previously been stated, we will not rule anything in or out at this point. Interestingly, the Silk commission again proves how the Welsh Conservatives are not afraid of embarrassing the Government by leading on devolution. Our Secretary of State promised a commission, and we got one. As Dr Kim Howells said of his Labour Government, constitutional issues raised very difficult questions, so the Labour Government stayed away from them. We support amendments 4, 5 and 6.

Yn olaf, trof at y gwelliannau. Byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 1, sy'n welliant pigog sy'n ceisio dileu 'yn croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le. Mae'r gwelliant hwn yn dangos pa mor euog y mae'n rhaid ichi deimlo mai Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr, unwaith eto, sy'n buddsoddi yn seilwaith Cymru. Rydym hefyd yn erbyn gwelliant 2; rydych yn osgoi eich cyfrifoldebau, fel ag y gwnaethoch i raddau helaeth ers diwrnod cyntaf y Cynulliad hwn, sydd wedi bod yn gyfnod llawer rhy hir yn fy marn i. Byddwn yn ymatal ar welliant 3, nid oherwydd nad oes gennym farn arno, ond oherwydd nad ydym yn credu ei bod yn iawn mynegi barn cyn y gwnaiff comisiwn Silk. Fel y dywedwyd o'r blaen, ni fyddwn yn diystyru unrhyw beth ar hyn o bryd. Yn ddiddorol, mae comisiwn Silk unwaith eto yn profi nad yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn ofni creu embaras i'r Llywodraeth drwy arwain ar ddatganoli. Gwnaeth ein Hysgrifennydd Gwladol addo comisiwn, a chawsom un. Fel y dywedodd Dr Kim Howells am ei Lywodraeth Lafur, mae materion cyfansoddiadol yn codi cwestiynau anodd iawn, felly cadwodd y Llywodraeth Lafur draw ohonynt. Rydym yn cefnogi gwelliannau 4, 5 a 6.

In closing, our motion wants to help you, as a Government, to focus your mind on what really matters. As Bill Clinton famously said, 'It's the economy, stupid'. I will leave you with that thought, in the hope that we will see some positive action, and not just rhetoric, from the Welsh Government.

Wrth gloi, mae ein cynnig yn awyddus i'ch helpu, fel Llywodraeth, i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig. I ddyfynnu geiriau enwog, Bill Clinton, '*It's the economy, stupid'*. Fe'ch gadawaf gyda hynny, yn y gobaith y byddwn yn gweld rhywfaint o weithredu cadarnhaol, ac nid dim ond rhethreg gan Lywodraeth Cymru.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Amendment 1—Jane Hutt*

*Ym mhwynt 1, dileu 'croesawu'r' a rhoi 'nodi'r' yn ei le.*

*In point 1, delete 'welcomes' and replace with 'notes'.*

*Gwelliant 2—Jane Hutt*

*Amendment 2—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2.*

*Delete point 2.*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I move amendments 1 and 2 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 3—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn annog Llywodraeth Cymru i geisio pwerau benthyca gwirioneddol ac i greu cwmni hyd braich, nad yw'n talu difidend, i ariannu prosiectau cyfalaf newydd.*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliant 3 yn enw Jocelyn Davies.

Mae thema'r gwelliant hwn yn un cyfarwydd i bawb yn y Siambr, ac mae cryn gyd-weld ar draws y Siambr hefyd, erbyn hyn, ar y ddau fater, sef hawliau benthyca a ffynhonnell o arian preifat i gwmni di-elw er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf yn y sector cyhoeddus. Mae'n ddrwg gennyf glywed y bydd y Torïaid, sydd wedi dangos rhyw fath o gefnogaeth i'r syniadau hyn yn y gorffennol, yn ymatal rhag pleidleisio ar y gwelliant hwn, ar y sail nad ydynt eisiau rhagfarnu trafodaethau sy'n digwydd mewn lleoedd eraill. Mae arnaf ofn fod gan y Torïaid obsesiwn â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr—nid fy mod yn anghytuno â'r hyn y maent yn ei nodi yn eu cynnig. Wrth gwrs, fe ddylai fod cydweithio rhwng y ddwy Lywodraeth—mae hynny'n hanfodol—ond mae gwrthod pleidleisio o blaid rhywbeth sy'n cynnig gwelliannau i Gymru yn fy rhyfeddu yn fawr.

The outcome for public spending is bleak. We know of the coalition Government's plans, and indeed, from statements made in the Labour Party conference, it would seem that it would not reverse the cuts that have already been made. In a sobering report to the WLGA last week, it is estimated that spending per head in local authorities in Wales is already 8.5% lower than it was in 2009-10. That is a loss of a third of the gains made in the previous nine years. By 2016-17, a further reduction of 9% is on the board, and, unless vigorous growth returns to the economy, that loss could even reach 20% by 2020. That is the scale of the challenge. The background to all this is stagnant take-home pay, high unemployment figures—if you take the International Labour Organisation figures especially, and, indeed, the Centre for Economic and Business Research Ltd projects that the percentage will remain

*Amendment 3—Jocelyn Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Encourages the Welsh Government to seek meaningful borrowing powers and to create a non-dividend-paying arm's length company to fund new capital projects.*

**Alun Ffred Jones:** I move amendment 3 in the name of Jocelyn Davies.

The theme of this amendment will be familiar to everyone in the Chamber, and there is, by now, some agreement across the Chamber on the two issues of borrowing powers and a source of private funding for a not-for-profit company to fund capital projects in the public sector. I am sorry to hear that the Tories, who have shown some support for these ideas in the past, will abstain on this amendment on the basis that they would not want to prejudice ongoing negotiations elsewhere. I am afraid that the Tories have an obsession with what happens in England—not that I disagree with what they have to say in their motion. Of course, there should be collaboration between the two Governments—that is crucially important—but I find it astonishing that they would refuse to vote in favour of something that could bring real benefits to Wales.

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus yn llwm. Gwyddom am gynlluniau y Llywodraeth glymblaid, ac, yn wir, o'r datganiadau a wnaed yn nghynhadledd y Blaid Lafur, mae'n ymddangos na fyddai'n gwyrdroi'r toriadau sydd eisoes wedi eu gwneud. Mewn adroddiad sobreiddiol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos diwethaf, amcangyfrifir bod gwariant y pen mewn awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes 8.5% yn is nag yr oedd yn 2009-10. Mae hynny'n colli traean o'r enillion a wnaed yn ystod y naw blynedd flaenorol. Erbyn 2016-17, mae gostyngiad pellach o 9% ar y gweill, ac oni bai bod tyfiant egnïol yn dychwelyd i'r economi, gallai'r golled honno hyd yn oed gyrraedd 20% erbyn 2020. Dyna faint yr her. Y cefndir i hyn oll yw cyflogau llonydd, ffigurau diweithdra uchel—os ydych yn cymryd ffigurau y Sefydliad Llafur

above 9% in Wales up to 2016—a fourfold increase among those under 24 who are on jobseeker's allowance, and 50,000 young people in Wales not in work. That is why we in the Party of Wales have argued, and have been proved right I believe, that a further financial stimulus via capital projects is the best short and medium-term response to a sluggish economy. It is one of the few tools in the bag at the moment.

Rhyngwladol yn arbennig, ac, yn wir, mae'r Ganolfan Ymchwil Economaidd a Busnes Cyf yn rhagweld y bydd y canran yn parhau yn uwch na 9% yng Nghymru hyd at 2016—cynnydd o bedair gwaith ymysg y rhai dan 24 sydd ar lwfans ceisio gwaith, a 50,000 o bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn gwaith. Dyna pam rydym ym Mhlaid Cymru wedi dadlau, a thybiaf y cawsom ein profi'n iawn, mai ysgogiad ariannol pellach drwy brosiectau cyfalaf yw'r ymateb gorau yn y tymor byr a chanolig i economi swrth. Mae'n un o'r ychydig arfau sydd gennym ar hyn o bryd.

**Antoinette Sandbach:** Do you agree that the capital stimulus provided by the electrification of the railway lines, and not only that, but broadband and mobile improvement, will put £57 million into the economy, plus the £1 billion that Byron Davies referred to, in terms of infrastructure investment in Wales, and that that will improve the situation here?

**Antoinette Sandbach:** A ydych yn cytuno y bydd yr ysgogiad cyfalaf a ddaw yn sgîl trydaneiddio'r rheilffyrdd, yn ogystal â gwella technoleg band eang a symudol, yn rhoi £57 miliwn i'r economi, yn ogystal â'r £1 biliwn y cyfeiriodd Byron Davies ato, o ran buddsoddi yn y seilwaith yng Nghymru, ac y bydd hynny'n gwella'r sefyllfa yma?

**Alun Ffred Jones:** Indeed, and I acknowledged the fact that I agreed with the statements and proposals that you have made; I accept that entirely.

**Alun Ffred Jones:** Yn wir, ac rwyf wedi cydnabod y ffaith fy mod yn cytuno â'r datganiadau a'r cynigion a wnaethpwyd gennych chi; rwyf yn derbyn hynny'n llwyr.

The right to borrow in order to invest has already been won in Scotland and Northern Ireland, and I am amazed that Labour did not do this when it had the power to do something about it in Westminster. That was the time to stand up for Wales. The Party of Wales has consistently argued for these powers, emphasising the rickety and piecemeal nature of the Welsh devolution settlement. The Party of Wales also proposed the creation of a not-for-dividend company, based on the Glas Cymru model, to borrow money on the bond market to finance public sector projects. We called it Build for Wales; the Government this afternoon has made great play of the fact that it has invented a new name for it. That is fine; if it makes the Government happy and if it thinks that it is a new animal, then it is fine by me. It should be a profit-making and not-for-dividend vehicle, and not the discredited PFI model, which was a Tory invention, of course, pursued vigorously by the Labour Government in London.

Mae'r hawl i fenthyg er mwyn buddsoddi eisoes wedi ei hennill yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac rwyf yn rhyfeddu na wnaeth Llafur rywbeth am hyn pan roedd ganddi'r pŵer i wneud hynny yn San Steffan. Dyna oedd yr amser i sefyll i fyny dros Gymru. Mae Plaid Cymru wedi dadlau'n gyson am y pwerau hyn, gan bwysleisio natur simsan a thameidiog setliad datganoli Cymru. Mae Plaid Cymru hefyd wedi cynnig creu cwmni di-ddifidend, yn seiliedig ar fodel Glas Cymru, i fenthyg arian ar y farchnad bond i ariannu prosiectau sector cyhoeddus. Fe'i galwom yn Adeiladu ar gyfer Cymru; mae'r Llywodraeth y prynhawn yma wedi rhoi pwys mawr ar y ffaith ei bod wedi dyfeisio enw newydd ar ei gyfer. Mae hynny'n iawn; os yw'n gwneud y Llywodraeth yn hapus ac os yw'n credu ei fod yn anifail newydd, mae hynny'n iawn gen i. Dylai fod yn gyfrwng gwneud elw ac di-ddifidend, ac nid y model PFI bondigrybwyll, a oedd yn ddyfais y Torïaid, wrth gwrs, ac a ddilynwyd yn frwd gan y Llywodraeth Lafur yn Llundain.

I will make two further points. Whether it is more borrowing powers or a new vehicle for raising money on the bond market, it is not a free lunch. It will cost and it will mean that revenue will have to be used in order to finance the borrowing. However, the benefits for Wales are clear in terms of job creation and improved infrastructure, be that of schools, housing or transport, and it will also improve the prospects of Welsh companies in terms of employment and skills training. In fact, this is a win-win situation and I am very happy that we have been able once again to emphasise the importance of this for the future of Wales and for the short-term and medium-term benefits to the economy.

Mae gennyf ddau bwynt arall. P’un a yw’n fwy o bwerau benthyca neu’n gyfrwng newydd i godi arian ar y farchnad bond, ni ddaw am ddim. Bydd yn costio a bydd yn golygu y bydd yn rhaid defnyddio refeniw er mwyn ariannu’r benthyciad. Fodd bynnag, mae’r manteision i Gymru yn glir o ran creu swyddi a gwell seilwaith, boed hynny o ran ysgolion, tai neu gludiant, a bydd hefyd yn gwella rhagolygon cwmnïau Cymru o ran cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau. Mewn gwirionedd, mae hon yn sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill, ac rwy’n hapus iawn ein bod, unwaith eto, wedi gallu pwysleisio pwysigrwydd hyn ar gyfer dyfodol Cymru, ac ar gyfer y manteision tymor byr a chanolig i’r economi.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud cynnydd ar Ardaloedd Menter, diwygio ardrethi busnes, strategaeth weithgynhyrchu a band eang ar gyfer busnesau fel mater o frys, er mwyn helpu i ysgogi’r economi.*

*Calls on the Welsh Government to make progress on Enterprise Zones, business rates reform, a manufacturing strategy and broadband for business as a matter of urgency, in order to help stimulate the economy.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd, fel ffordd o helpu i ysgogi’r economi.*

*Welcomes the establishment by the UK Government of a Green Investment bank, as a means to help stimulate the economy.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pa mor bwysig i Gymru yw uwchraddio’r seilwaith rheilffyrdd drwy drydaneiddio, yn ogystal â’r manteision yn sgîl hyn i’r economi, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i drydaneiddio prif reilffordd gogledd Cymru.*

*Notes the importance to Wales of upgrading rail infrastructure through electrification, and the benefits this will bring to the economy, and calls on the Welsh Government to work with the UK Government to electrify the North Wales mainline.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.

I thank the Conservative group for bringing forward this debate. Tackling Wales's economic problems is arguably the biggest challenge facing this Assembly and not one that can be addressed in weeks or months in any meaningful way. We all recognise that those problems are complex and of very long standing. It is my personal opinion that turning this around is more likely to be the work of a generation than that of a single Assembly term, which makes it more important than ever that we are able as an Assembly to work effectively together to make this work for Wales. I am as guilty as anyone—perhaps the Minister will think more so—of hoping to see immediate results from the action that the Government takes, but we have to learn to be realistic and accept that restructuring an economy that is as dangerously placed and as badly damaged as that of Wales is going to take a considerable amount of time.

Hoffwn ddiolch i grŵp y Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddadl hon. Gellid dadlau mae mynd i'r afael â phroblemau economaidd Cymru yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r Cynulliad hwn, ac nid yw'n un y gellir mynd i'r afael â hi yn yr wythnosau neu fisoedd nesaf mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Rydym i gyd yn cydnabod bod y problemau hynny yn gymhleth a'u bod wedi bodoli ers amser maith. Fy marn bersonol i yw bod newid hyn yn fwy tebygol o fod yn waith cenhedlaeth yn hytrach nag un tymor yn y Cynulliad, sy'n ei gwneud yn bwysicach nag erioed ein bod yn gallu cydweithio'n effeithiol fel Cynulliad i wneud i hyn weithio ar gyfer Cymru. Rwyf mor euog â neb—efallai y bydd y Gweinidog yn meddwl fy mod yn fwy euog—o obeithio gweld canlyniadau ar unwaith o'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd, ond mae'n rhaid i ni ddysgu bod yn realistig a derbyn bod ailstrwythuro economi mor fregus ac sydd wedi cael gymaint o ergyd ag un Cymru yn mynd i gymryd cryn dipyn o amser.

3.45 p.m.

However, I find it hard to be patient. Although I accept that the results of actions that we take today may take years to have an obvious impact, I have to point out that the results of the actions that we never take will never be apparent. That is just intolerable to me.

Er hynny, mae'n anodd gennyf fod yn amyneddgar. Er imi dderbyn y gall camau a gymerwn heddiw gymryd blynyddoedd i gael effaith amlwg, rhaid i mi nodi na welir byth effaith y camau nad ydym yn eu cymryd. Mae hynny'n annioddefol gennyf.

I have been extremely impressed, Minister, with some of the work commissioned by your department and by the Welsh Government on the economy. Brian Morgan's excellent business rates review, the microbusiness reports and the visionary city regions strategy have all offered us exciting opportunities and ways and means to transform the economy in Wales—some more so than others. We will need to be visionary, and we will need to bite the bullet on some difficult political questions. However, I have been disappointed to see those important pieces of work published and then, apparently, sit on a shelf. I fear that the Welsh Government's response to the appalling economic situation that we face has been characterised by hesitation and delay.

Mae peth o'r gwaith a gomisiynwyd gan eich adran a chan Lywodraeth Cymru ar yr economi wedi gwneud argraff dda arnaf, Weinidog. Mae adolygiad ardderchog Brian Morgan o ardrethi busnes, yr adroddiadau microfusnes a'r strategaeth weledigaethol ar ddinas-ranbarthau i gyd wedi cynnig cyfleoedd cyffrous ynghyd â'r ffyrdd o drawsnewid economi Cymru—rhai yn fwy na'i gilydd. Bydd rhaid wrth weledigaeth, a bydd angen gwneud y penderfyniadau caled ynghylch rhai cwestiynau gwleidyddol anodd. Sut bynnag, cefais siom o weld y gweithiau pwysig hynny'n cael eu cyhoeddi ac yna, mae'n debyg, eu gadael ar silff. Rwy'n ofni mai petruso ac oedi sy'n nodweddu ymateb Llywodraeth Cymru i'r sefyllfa economaidd ofnadwy sydd o'n blaen.

Wales's businesses are waiting, Minister, for you to act. Many smaller businesses are

Mae busnesau Cymru yn disgwyl i chi weithredu, Weinidog. Mae llawer o fusnesau

struggling to survive day by day. They cannot pay their business rates. They are going under and they are failing right now. They cannot understand why they have had to wait nearly six months since the Morgan report was published for a substantive response. I note that you will be bringing a statement to the Chamber shortly, and I welcome that, but we will have to wait even longer, perhaps, before action is taken. Those businesses do not understand what the delay has been.

llai yn brwydro i oroesi o'r naill ddiwrnod i'r llall. Ni allant dalu eu hardrethi busnes. Mae'r hwch yn mynd drwy'r siop; maent yn methu ar hyn o bryd. Ni allant ddeall pam y bu'n rhaid iddynt aros bron i chwe mis oddi ar gyhoeddi adroddiad Morgan cyn cael ymateb sylweddol. Nodaf y byddwch yn dod â datganiad i'r Siambr cyn hir, a chroesawaf hynny, ond bydd yn rhaid aros yn hwy, efallai, cyn gweld gweithredu. Nid yw'r busnesau hynny'n deall yr oedi hwn.

Our amendment 4 asks you to recognise the urgency of the situation and the need to act on the good advice that you have undoubtedly received and that you have commissioned. It also asks you to continue pushing forward with our enterprise zones, because, again, I fear that we are falling behind. Looking at our neighbours, the Bristol Temple Quarter Enterprise Zone has announced detailed plans for offices, shops, homes and a concert arena. A massive exhibition is now going on in Bristol for local residents to get involved and to have their say. Other enterprise zones have planning permissions already committed and investments already made. I fear that we are not in that position and that there is a danger that, while those places, particularly on our borders, push ahead, we may fall behind and miss the boat. A year into the establishment of the enterprise zones, I still have some concerns about a lack of clarity on the policy interventions that will be used in each of them. I would welcome the Minister providing us with more information about progress, not just today but regularly—if not week by week, then month by month. I would welcome updates on how we are getting on and on how we can help to push that forward.

Mae ein gwelliant 4 yn gofyn i chi gydnabod mai brys piau hi a bod angen gweithredu ar y cyngor da yr ydych, yn ddïau, wedi'i gael ac yr ydych wedi'i gomisiynu. Mae hefyd yn gofyn i chi gadw i fwrw ati gyda'n hardaloedd menter oherwydd, unwaith eto, mae arnaf ofn ein bod yn mynd ar ei hôl hi. O edrych ar ein cymdogion, mae'r Bristol Temple Quarter Enterprise Zone wedi cyhoeddi cynlluniau manwl ar gyfer swyddfeydd, siopau, cartrefi ac arena gyngherddau. Mae arddangosfa enfawr bellach ym Mryste i drigolion lleol gymryd rhan a chael dweud eu dweud. Mae gan ardaloedd menter eraill ganiatâd cynllunio eisoes wedi ei ymrwymo ac fe wnaed buddsoddiadau yn barod. Rwy'n ofni nad ydym yn y sefyllfa honno ac efallai wrth i'r lleoedd hynny fwrw ymlaen, yn enwedig y rhai ar ein ffiniau, mae perygl y syrthiwn ar ei hôl hi a cholli'r cyfle. Flwyddyn wedi sefydlu'r ardaloedd menter, mae gennyf bryderon o hyd ynghylch y diffyg eglurder yn yr ymyriadau polisi a gaiff eu defnyddio ym mhob un ohonynt. Byddwn yn falch o weld y Gweinidog yn rhoi mwy o wybodaeth i ni am gynnydd, nid heddiw yn unig, ond yn rheolaidd—os nad yn wythnosol, yna'n fisol. Byddwn yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'n mynd ac am sut y gallwn helpu i'w hyrwyddo.

In amendments 5 and 6, we welcome two major opportunities announced by the Westminster Government. I would ask the Welsh Government to build upon those opportunities. How can we use the green investment bank to stimulate projects in Wales? Can we put together a business case for electrifying railways in north Wales as well for the next control period? If we want to do that, we need to act fast. We will need to put that case now in order for it to be

Yng ngwelliannau 5 a 6, rydym yn croesawu dau gyfle mawr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth San Steffan. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru adeiladu ar y cyfleoedd hynny. Sut y gallwn ni ddefnyddio'r banc buddsoddi gwyrdd i ysgogi prosiectau yng Nghymru? A allwn ni lunio achos busnes dros drydanu'r rheilffyrdd yn y gogledd hefyd yn y cyfnod rheoli nesaf? Os ydym am wneud hynny, bydd rhaid i ni weithredu'n gyflym. Bydd angen i ni roi'r achos yn awr er

announced in four years' time.

mwyn gallu ei gyhoeddi ymhen pedair blynedd.

.

Turning to its amendment, Plaid Cymru will know very well of our fulsome support for the granting of additional borrowing powers for the Assembly. However, I am not convinced by the second half of its point today, which looks a little like Build4Wales, I must confess, to the untrained eye. On that basis, without further information, we would have to vote against it.

Gan droi at ei gwelliant, bydd Plaid Cymru yn gwybod yn dda am ein cefnogaeth egnïol dros roi pwerau benthyca ychwanegol i'r Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw ail hanner ei phwynt heddiw yn fy argyhoeddi; mae'n edrych ychydig fel Adeiladu i Gymru, rhaid cyfaddef, i'r anghyfarwydd. Ar y sail honno, heb ragor o wybodaeth, bydd yn rhaid i ni bleidleisio yn ei erbyn.

**Janet Finch-Saunders:** The Welsh economy, after 13 years of Labour management, is in a parlous state. On your watch, GDP per head in Wales has fallen to 79% of the EU average and remains lower than in any other part of the United Kingdom. The unemployment rate in Wales remains higher than the UK average, at 9%, with 132,000 people unemployed. The latest data on business confidence show that Wales has the lowest reading of any part of the United Kingdom, except for Northern Ireland.

**Janet Finch-Saunders:** Mae economi Cymru, ar ôl 13 mlynedd dan reolaeth Llafur, mewn cyflwr enbyd. Gyda chi wrth y llyw, mae cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yng Nghymru wedi gostwng i 79% o gyfartaledd yr UE ac mae'n aros yn is nag unrhyw ran araill o'r Deyrnas Unedig. Mae'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn uwch o hyd na chyfartaledd y DU, sef 9%, gyda 132,000 o bobl heb waith. Mae'r data diweddaraf am hyder busnes yn dangos bod gan Gymru'r darlleniad isaf yn y Deyrnas Unedig, ac eithrio Gogledd Iwerddon.

On the first point of the motion, the UK Government has secured Britain's future prosperity by tackling the deficit. In just two years, the deficit has been reduced by more than a quarter. A Conservative Secretary of State for Wales secured, and the UK coalition Government will deliver, electrification of the Great Western main line to Swansea as well as the network of Valleys lines by 2017. Making Britain a safe haven for investors and a better place to do business has led to the creation of 1 million private sector jobs since 2010.

O ran pwynt cyntaf y cynnig, mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau ffyniant Prydain yn y dyfodol drwy fynd i'r afael â'r diffyg ariannol. Mewn dwy flynedd yn unig, mae'r diffyg ariannol wedi cael ei leihau o fwy na chwarter. Ysgrifennydd Gwladol Cymru'r Ceidwadwyr sydd wedi sicrhau, a Llywodraeth glymblaid y DU a fydd yn cyflawni, trydaneiddio prif reilffordd y Great Western i Abertawe yn ogystal â rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd erbyn 2017. Mae gwneud Prydain yn hafan i fuddsoddwyr ac yn lle gwell i wneud busnes wedi arwain at greu 1 miliwn o swyddi yn y sector preifat er 2010.

To move on to the second point of the motion, while in power from 1997 to 2010 and from 1999 to the present day in Wales, Labour failed to electrify a single inch of railway track. Billions of pounds—£1.7 billion—during the last round alone—

Gan symud ymlaen i ail bwynt y cynnig, pan oeddent mewn grym rhwng 1997 a 2010, ac o 1999 hyd heddiw yng Nghymru, methodd Llafur â thrydaneiddio'r un fodfedd o'r rheilffordd. Mae biliynau o bunnoedd—£1.7 biliwn—yn ystod y rownd ddiwethaf yn unig—

**David Rees:** First, no electric line has been put in in Wales yet, so we will take that argument. Do you agree with the 2009 report of the Welsh Affairs Committee of the House

**David Rees:** Yn gyntaf, nid oes dim lein drydan wedi cael ei gosod yng Nghymru eto, felly fe dderbyniwn y ddadl honno. A ydych chi'n cytuno â'r adroddiad yn 2009 gan

of Commons, currently chaired by a member of your party, which said that it was a Labour initiative to put in place the electrification to Swansea? In fact, all that you have done is agree with and follow a Labour policy. It is there in black and white.

Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, a gadeirir gan aelod o'ch plaid chi ar hyn o bryd, a ddywedodd mai cynnig Llafur oedd trydaneiddio hyd at Abertawe? Yn wir, y cyfan yr ydych wedi ei wneud yw cytuno â pholisi Llafur a'i ddilyn. Mae yno ar ddu a gwyn.

**Janet Finch-Saunders:** What I do not agree with you on is whose fault it is that these cuts are necessary and whose fault it is that there is a deficit in the first place in the UK as a whole. It was your Government's fault.

**Janet Finch-Saunders:** Lle nad wyf yn cytuno â chi yw ar bwy y mae'r bai bod rhaid wrth y toriadau hyn ac ar bwy y mae'r bai bod diffyg ariannol yn y DU ar y cyfan yn y lle cyntaf. Ar eich Llywodraeth chi y mae'r bai.

Billions of pounds—£1.7 billion—during the last round alone of EU funding has been squandered in west Wales and the Valleys during lazy Labour's time in office. Instead of being lifted out of poverty, the situation in those areas has worsened, and they are now poorer than some parts of Slovakia, Slovenia and Bulgaria.

Yn y cylch diwethaf yn unig, aeth biliynau o bunnoedd o arian yr UE—£1.7 biliwn—yn afrad yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd tra oedd Llafur ddioglyd mewn grym. Yn lle cael eu codi allan o dlodi, mae'r sefyllfa yn yr ardaloedd hynny wedi gwaethygu, ac maent yn awr yn dlotach na rhannau o Slofacia, Slofenia a Bwlgaria.

As for spending—arguably, the Welsh Government's single most important duty—it is failing miserably. Of the £2 billion of grants distributed by the Welsh Government annually, the cross-party Public Accounts Committee said that

Lle bo gwariant yn y cwestiwn—gellir dadlau mai hwn yw dyletswydd bwysicaf Llywodraeth Cymru—mae'n methu'n druenus. Am y £2 biliwn mewn grantiau a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, dywed y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus trawsbleidiol fod gan

'the Welsh Government operated around 480 separate existing grant schemes in 2009-2010, which varied in size, value, complexity, delivery models and administrative costs'.

'Lywodraeth Cymru ryw 480 o gynlluniau grant ar wahân yn 2009-2010, a'r rheiny'n amrywio yn ôl eu maint, eu gwerth, eu cymhlethdod, eu modelau cyflawni a'u costau gweinyddol.'

It is clear that the Welsh Labour Government cannot competently manage the tools or the levers at its disposal, to the detriment of Welsh jobs, growth and prosperity.

Mae'n amlwg na all Llywodraeth Lafur Cymru drin yr offer sydd ganddi yn ddigonol, a hynny er anfantais i swyddi, twf a ffyniant yng Nghymru.

On the third point, the Welsh Government should make every effort to work with UK Government, and it is about time that you stop this negativity. David Jones, the new Secretary of State for Wales, has made it quite clear that in order to get Wales back to where it belongs and to get this country back on its feet, there has to be co-operation. I referred to petty politics yesterday, and that is all that I have seen since I entered the Chamber—the will not to work with the UK Government. Pulling Wales lower down the

Ar y trydydd pwynt, dylai Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i weithio gyda Llywodraeth y DU, ac mae'n hen bryd i chi roi'r gorau i fod mor negyddol. Mae David Jones, Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru, wedi ei gwneud yn glir bod rhaid wrth gydweithredu i sicrhau bod Cymru yn ôl i'w phriod le ac i gael y wlad yn ôl ar ei thraed. Cyfeiriais at chwarae gwleidydda ddoe, a dyna'r cyfan a welais ers imi ddod i'r Siambr—sef ewyllys i beidio â gweithio gyda Llywodraeth y DU. Mae tynnu Cymru yn is

food chain because of petty party politics is frankly disgraceful. You should be encouraged by the comments of the Secretary of State for Wales, David Jones, who has made his intentions clear, namely to focus on the economy. Will you? Instead of blaming Westminster cuts made necessary by the deluge of debt left by your Government, it is time for maturity and co-operation. Is that at all possible, we ask.

yn y drefn sydd ohoni oherwydd gwleidydda pleidiol dibwys yn warthus, a dweud y gwir. Dylai sylwadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Jones, fod wedi eich calonogi, gan ei fod wedi gwneud ei fwriadau yn glir, sef canolbwyntio ar yr economi. A wnewch chi? Yn lle beio y toriadau o San Steffan sy'n angenrheidiol oherwydd rhyferthwy'r ddyled a adawodd eich Llywodraeth, mae'n amser am aeddfedrwydd a chydweithredu. A yw hynny'n bosibl o gwbl, gofynnwn.

Today, I have offered a brief diagnosis of the problems that the Welsh economy faces: too little action on infrastructure, not enough ambition on the way forward and an appalling record of achievement. Our focus now must be on working together, complementing the sound macro-economic policies emanating from London so that we can reform the Welsh economy for it to deliver for all the people of Wales. No more lazy Labour; it is time for action, ambition and achievement. That is what you will get from these benches.

Heddiw, rwyf wedi cynnig diagnosis byr o'r problemau sy'n wynebu economi Cymru: gweithredu annigonol ar seilwaith, prinder uchelgais am y ffordd ymlaen a record gyflawni echrydus. Rhaid i'n ffocws yn awr fod ar weithio gyda'n gilydd, gan ategu'r polisïau macro-economaidd cadarn sy'n deillio o Lundain fel y cawn ddiwygio economi Cymru fel y bydd yn cyflawni i holl bobl Cymru. Dim rhagor o Lafur ddioglyd; mae'n hen bryd cael gweithredu, uchelgais a chyflawni. Dyna gewch chi o'r meinciau hyn.

**Julie Morgan:** Most of the contributions so far have been pretty gloomy. I know that we are in a difficult situation, but, in this situation, we should speak up for Wales, we should not put Wales down and we should celebrate what we have achieved as well as acknowledging the difficulties that we face. Therefore, I want to say a bit about some of the good news that is around, which I do not think has been covered yet.

**Julie Morgan:** Mae'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau hyd yn hyn wedi bod yn weddol ddiflas. Rwy'n gwybod ein bod mewn sefyllfa anodd, ond, yn y sefyllfa hon, dylem siarad dros Gymru, ni ddylem fychanu Cymru, a dylem ddathlu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn ogystal â chydnabod yr anawsterau sy'n ein hwynebu. Felly, hoffwn sôn ychydig am y newyddion da sydd ar gael, y tybiaf nad ydyw wedi cael sylw eto.

During First Minister's questions yesterday, I raised the issue of GE Healthcare's cell science laboratories, which are being opened in my constituency of Cardiff North. Those new laboratories are the result of a £3 million investment by the life sciences business of GE Healthcare to create a world-class centre of excellence in cell science in Cardiff. It will support the development of new, safer medicines and the rapidly emerging field of cell therapy, and be a highly specialised centre for the manufacture of cells for use by the international pharmaceutical industry. This is a first-class industry, it is doing well in Wales, it has a good relationship with the Welsh Government and it is important to remember that these sorts of companies exist and are thriving in Wales.

Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe, codais fater ynghylch labordai gwyddoniaeth celloedd GE Healthcare, sy'n cael eu hagor yn fy etholaeth i, Gogledd Caerdydd. Mae'r labordai newydd yn ganlyniad i £3 miliwn o fuddsoddiad gan y busnes gwyddorau bywyd GE Healthcare i greu canolfan ragoriaeth fyd-eang mewn gwyddoniaeth celloedd yng Nghaerdydd. Bydd yn cynorthwyo datblygu meddyginiaethau newydd a mwy diogel a maes therapi celloedd, sy'n datblygu'n gyflym. Bydd hefyd yn ganolfan arbenigol iawn ar gyfer gweithgynhyrchu celloedd at ddefnydd y diwydiant fferyllol rhyngwladol. Mae hwn yn ddiwydiant o'r radd flaenaf, ac mae'n gwneud yn dda yng Nghymru—mae ganddo berthynas dda â Llywodraeth Cymru ac mae'n bwysig cofio bod y mathau hyn o

gwmnïau yn bodoli ac yn ffynnu yng Nghymru.

**Antoinette Sandbach:** I am very grateful to you for giving way, Julie. Unfortunately, there is an opposite jobs flight out of Wales. Some 1,200 jobs are going to Avonmouth in Bristol. In north Wales, the Jeyes factory is moving to Norfolk, and some 600 IT jobs are going at Unilever. What do you think is responsible for the jobs flight out of Wales? They are not going elsewhere, into Europe, but to England.

**Antoinette Sandbach:** Rwy'n ddiolchgar i chi am ildio, Julie. Yn anffodus, mae ffrwd wrthgyferbyniol o swyddi yn gadael Cymru. Mae 1,200 o swyddi yn mynd i Avonmouth ym Mryste. Yn y gogledd, mae'r ffatri Jeyes yn symud i Norfolk, ac mae 600 o swyddi technoleg gwybodaeth yn mynd yn Unilever. Beth ydych chi'n credu sy'n gyfrifol am y swyddi sy'n diflannu o Gymru? Nid ydynt yn mynd i rywle arall, i Ewrop, ond i Loegr.

**Julie Morgan:** I am talking about the good news in Wales. Only today, as has already been mentioned, there has been the official opening of the Renishaw plant on the former Bosch site in the Vale of Glamorgan, the constituency of the Minister for Finance. When Bosch went, it was a matter of huge concern, as it was a big loss to Wales. However, it is absolutely tremendous that this renowned firm that operates UK wide—I think that it employs about 3,000 people in the UK—has come to Wales to develop this site. Let us remember these things. It is important that we talk up achievements in Wales, and it is up to the official opposition, whose Members have the inside track to the Government in Westminster, to do all that it can to ensure that we have the tools and the borrowing powers to be able to do these things. You have a responsibility for that.

**Julie Morgan:** Rwy'n sôn am y newyddion da yng Nghymru. Heddiw, fel y soniwyd eisoes, cafwyd agoriad swyddogol gwaith Renishaw ar hen safle Bosch ym Mro Morgannwg, sef etholaeth y Gweinidog Cyllid. Pan aeth Bosch, roedd yn destun pryder mawr, gan ei fod yn golled fawr i Gymru. Fodd bynnag, mae'n wych bod y cwmni enwog hwn sy'n gweithredu ledled y DU—credaf ei fod yn cyflogi tua 3,000 o bobl yn y DU—wedi dod i Gymru i ddatblygu'r safle hwn. Gadewch i ni gofio'r pethau hyn. Mae'n bwysig ein bod yn clodfori llwyddiannau yng Nghymru, a dylai'r wrthblaid swyddogol, y mae gan ei Haelodau lwybr uniongyrchol at y Llywodraeth yn San Steffan, wneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod gennym yr arfau a'r pwerau benthyca i allu gwneud y pethau hyn. Mae gennych gyfrifoldeb i wneud hynny.

There is absolutely no doubt that we need more development in Wales. We do not have a big enough private sector and, as Eluned Parrott mentioned in her speech, we have a long legacy that will take a long time to recover from. However, there is no doubt that Wales is a very good place in which to operate, particularly for high-tech industries, and we must do what we can to ensure that we attract more of these companies. There is no doubt that the Minister for business is doing just that with the things that she has put in place, ensuring that these companies thrive here. That is the first point that I wanted to make, about building Wales up and doing what we can to ensure that we get more industry here.

Nid oes amheuaeth bod angen mwy o ddatblygu yng Nghymru. Nid oes gennym sector preifat digon mawr, ac fel y crybwyllodd Eluned Parrott yn ei haraith, mae gennym etifeddiaeth faith y bydd yn cymryd amser hir i wella ohoni. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth bod Cymru yn lle da iawn i weithredu, yn enwedig i'r diwydiannau uwch-dechnoleg, a rhaid i ni wneud yr hyn y gallwn i sicrhau ein bod yn denu mwy o'r cwmnïau hyn. Nid oes amheuaeth bod y Gweinidog busnes yn gwneud hynny yn union yn y pethau y mae hi wedi ei roi ar waith, gan sicrhau bod y cwmnïau hyn yn ffynnu yma. Dyna'r pwynt cyntaf yr wyf am ei wneud, am godi Cymru a gwneud yr hyn y gallwn i sicrhau ein bod yn cael mwy o ddiwydiant yma.

The other point that I wanted to make was

Y pwynt arall yr oeddwn am ei wneud oedd

about transport. Clearly, transport is vital to the economy; we will be having a debate later today on rail transport. Nonetheless, we all welcome the plan to have a direct route to Heathrow from south Wales, which I think is vital to the economy of south Wales. That will not be much use, however, if there are plans to close down Heathrow and relocate to an island in the Thames estuary. When I was in the House of Commons, I voted for a third runway at Heathrow. I know that there are concerns on environmental grounds about that, but it is important to remember that a huge change in aircraft technology has been taking place, which means that noise pollution will be hugely reduced with much shorter ascents and descents for aeroplanes. I think that an airport in the Thames estuary would be disastrous for Wales. A third runway, with a railway link to south Wales, would also help Cardiff Airport. Businesses would be much more likely to come to south Wales if they had good transport links for international flights at Heathrow and if they could make much more use of short-haul flights at Rhoose.

am drafnidiaeth. Yn amlwg, mae trafnidiaeth yn hanfodol i'r economi; cawn ddadl yn ddiweddarach heddiw ar drafnidiaeth rheilffyrdd. Serch hynny, rydym i gyd yn croesawu'r cynllun i gael llwybr uniongyrchol i Heathrow o dde Cymru; credaf ei fod yn hanfodol i economi de Cymru. Ni fydd hynny'n llawer o ddefnydd, fodd bynnag, os oes cynlluniau i gau Heathrow a symud i ynys ym moryd y Tafwys. Pan oeddwn i yn Nhŷ'r Cyffredin, pleidleisiais dros drydedd redfa yn Heathrow. Gwn fod pryderon ar sail amgylcheddol am hynny, ond mae'n bwysig cofio bod newid mawr yn nhechnoleg awyrennau wedi bod, sy'n golygu y bydd llygredd sŵn yn llai o lawer gan y bydd pellteroedd esgyn a disgyn i awyrennau yn llawer byrrach. Credaf y byddai maes awyr ym moryd y Tafwys yn drychineb i Gymru. Byddai trydedd rhedfa gyda chyswllt rheilffordd i dde Cymru hefyd yn helpu Maes Awyr Caerdydd. Byddai busnesau yn llawer mwy tebygol o ddod i dde Cymru pe bai ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth da am deithiau awyr rhyngwladol yn Heathrow a phe gallent wneud llawer mwy o ddefnydd o deithiau awyr byr yn y Rhws.

It is important that the plans for rail electrification go ahead as swiftly as possible. I do hope that the fiasco of the West Coast franchise—which I think shows a Government that is not operating with any competence—does not in any way put electrification in doubt, because there is a great deal of concern about the way in which this has been handled. There will also be implications for the Great Western franchise.

Mae'n bwysig bod y cynlluniau i drydaneiddio'r rheilffyrdd yn mynd yn eu blaen cyn gynted ag y bo modd. Yr wyf yn gobeithio nad yw'r ffradach a welwyd ym masnachfraint West Coast—sy'n dangos i mi nad yw'r Llywodraeth yn gweithio gydag unrhyw gymhwysedd—yn codi ansicrwydd o ran trydaneiddio o gwbl, oherwydd mae llawer o bryder ynghylch y ffordd y mae wedi cael ei ei thrin. Bydd hefyd oblygiadau i fasnachfraint y Great Western.

**Mohammad Asghar:** At the signing of a small business-related Bill in 2010, President Barrack Obama said:

**Mohammad Asghar:** Wrth arwyddo Bil yn ymwneud â busnesau bach yn 2010, dywedodd yr Arlywydd Barrack Obama:

'Government…can't create jobs…but it can create the conditions for small businesses to hire more people'.

Ni all Llywodraeth greu swyddi, ond gall greu'r amodau i fusnesau bach gyflogi mwy o bobl.

The motion this afternoon regrets that the Welsh Government has failed to utilise the tools at its disposal to grow the Welsh economy. Small and medium-sized enterprises are the lifeblood of the Welsh economy and need our support. I wish to

Mae'r cynnig y prynhawn yma yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio'r dulliau sydd ganddi i dyfu economi Cymru. Mentrau bach a chanolig eu maint yw enaid economi Cymru ac mae arnynt angen ein cefnogaeth. Hoffwn dynnu

highlight some of the areas in which the Welsh Government has failed and what can be done to create the conditions for Welsh businesses to grow and to thrive.

sylw at rai o'r meysydd y mae Llywodraeth Cymru wedi methu a'r hyn y gellir ei wneud i greu'r amodau er mwyn i fusnesau Cymru dyfu a ffynnu.

4.00 p.m.

First, we need to boost business confidence in Wales. Research by the Federation of Small Businesses reveals that business confidence in Wales has fallen and is the lowest of any part of the United Kingdom except Northern Ireland. Businesses are suffering at the moment because of a lack of access to funding. This is a huge barrier to growth and is recognised by the Governments in Westminster and Cardiff alike.

Yn gyntaf, mae angen i ni roi hwb i hyder busnesau yng Nghymru. Mae ymchwil gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn dangos bod hyder busnes yng Nghymru wedi gostwng a'i fod yr isaf o unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig ac eithrio Gogledd Iwerddon. Mae busnesau yn dioddef ar hyn o bryd oherwydd diffyg mynediad at gyllid. Mae hynny'n rhwystro twf ac mae Llywodraethau San Steffan a Chaerdydd yn cydnabod hynny.

In Westminster, the Secretary of State for Business, Innovation and Skills, Vince Cable, has announced the first steps in creating a Government-funded bank to help small and medium-sized businesses. This single institution will address long-standing structural gaps in the supply of finance. The Welsh Government is trying to address the problem by providing SMEs and microbusinesses with loan funds through Finance Wales. However, so far, only £1 million of a possible £40 million funding stream has been invested, in just three businesses. The Federation of Small Businesses has expressed its concern that these funding streams are not being properly and adequately promoted in Wales. It is clear from the figures that it has a point. The Welsh Government must be more proactive in its marketing of the opportunities provided by Finance Wales.

Yn San Steffan, mae Vince Cable, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, wedi cyhoeddi'r camau cyntaf i greu banc a ariennir gan y Llywodraeth i helpu busnesau bach a chanolig eu maint. Bydd y sefydliad hwnnw'n mynd i'r afael â bylchau strwythurol hir-sefydlog yn y cyflenwad o gyllid. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem drwy ddarparu cronfeydd benthyca i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau drwy Cyllid Cymru. Fodd bynnag, hyd yn hyn, dim ond £1 miliwn o ffrwd ariannu posibl o £40 miliwn sydd wedi cael ei fuddsoddi, mewn tri busnes yn unig. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi mynegi pryder nad yw'r ffrydiau ariannu yn cael eu hyrwyddo'n briodol ac yn ddigonol yng Nghymru. Mae'n amlwg o'r ffigurau bod ganddo bwynt. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth farchnata'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan Cyllid Cymru.

Business rates remain one of the major costs faced by small businesses, and can make the difference between a company thriving or failing. Welsh Conservatives have maintained our long-standing belief that business rates should be abolished for all firms with a rateable value of under £12,000 a year, and tapered relief should be provided for those with a rateable value of up to £15,000 a year. This policy would remove a huge burden from small businesses in Wales and therefore boost confidence in the economy. It would help them to invest and

Ardrethi busnes yw un o brif gostau busnesau bach, a gall wneud y gwahaniaeth rhwng cwmni yn ffynnu neu yn methu. Cred y Ceidwadwyr Cymreig y dylid diddymu ardrethi busnes ar gyfer yr holl gwmnïau sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 y flwyddyn, a dylid rhoi rhyddhad ardrethi graddol i'r rhai sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000 y flwyddyn. Byddai'r polisi hwn yn cael gwared ar faich enfawr oddi ar fusnesau bach yng Nghymru, ac felly yn hybu hyder yn yr economi. Byddai'n eu helpu i fuddsoddi a thyfu, gan roi hwb mawr

grow, providing a much-needed boost to employment as well. I urge the Welsh Government to look at this again.

ei angen i gyflogaeth hefyd. Rwy’n annog Llywodraeth Cymru i edrych ar hyn eto.

We must also do more to boost inward investment in Wales. I know that the First Minister has travelled to China, India, America and to most of the growing economies of the world, but the inward investment that he has brought back has been negligible. Figures provided by UK Trade and Investment show that active foreign direct investment projects in Wales fell to 23% last year compared with 38% the previous year. The job the First Minister is doing is not working. The figure for Wales is below that for any region or devolved nation of the United Kingdom. It represents just 1.6% of the UK total, while Scotland attracts more than 11% of investment. The Minister for business has admitted that the Government has failed to get the Welsh brand right. Professor Brian Morgan, whose name has been mentioned in this Chamber for the last couple of days, has said that the abolition of the Welsh Development Agency

Rhaid i ni hefyd wneud mwy i hybu mewnfuddsoddi yng Nghymru. Gwn fod y Prif Weinidog wedi teithio i Tsieina, India, America ac i’r rhan fwyaf o’r economïau sy’n tyfu yn y byd, ond mae’r mewnfuddsoddiad o ganlyniad i hynny wedi bod yn ddibwys. Mae ffigurau a ddarparwyd gan Masnach a Buddsoddi’r DU yn dangos i brosiectau buddsoddi uniongyrchol tramor gweithredol yng Nghymru ostwng i 23% y llynedd, o’i gymharu â 38% y flwyddyn flaenorol. Nid yw’r hyn y mae’r Prif Weinidog yn ei wneud yn gweithio. Mae’r ffigur ar gyfer Cymru yn is nac ar gyfer unrhyw ranbarth neu wlad ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig. Mae’n cynrychioli 1.6% yn unig o gyfanswm y DU, tra bo’r Alban yn denu mwy nag 11% o’r buddsoddiad. Mae’r Gweinidog dros fusnes wedi cyfaddef bod y Llywodraeth wedi methu â chael y brand Cymreig yn iawn. Mae’r Athro Brian Morgan, y mae ei enw wedi cael ei grybwyll yn y Siambr hon dros y diwrnodau diwethaf, wedi dweud y bydd diddymu Awdurdod Datblygu Cymru

‘will probably go down in history as the worst policy decision made in Wales in living memory’.

yn debygol o gael ei gofio fel y penderfyniad polisi gwaethaf a wnaed yng Nghymru mewn cof.

I urge the Welsh Government to reconsider how best to restore such a recognisable brand to attract investment to Wales. Tourism—

Rwy’n annog Llywodraeth Cymru i ailystyried y ffordd orau i adfer brand adnabyddus o’r fath i ddenu buddsoddiad i Gymru. Twristiaeth—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Conclude now, please.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Dewch i ben yn awr, os gwelwch yn dda.

**Mohammad Asghar:** We have to build an airport like Hong Kong’s and Tokyo’s in the Bristol channel to compete with the world, otherwise our economy will never grow.

**Mohammad Asghar:** Mae’n rhaid i ni adeiladu maes awyr fel rhai Hong Kong a Tokyo ym Môr Hafren i gystadlu â’r byd, neu ni fydd ein heconomi yn tyfu byth.

**Ann Jones:** This motion gives us an opportunity to put some important facts on the record. The Westminster coalition has turned recovery into recession—a double-dip recession—and because of this, the deficit is going up, not down. Borrowing is rising, not falling. The Tory coalition Government is adding more to the national debt than ever

**Ann Jones:** Mae’r cynnig hwn yn rhoi cyfle i ni roi rhai ffeithiau pwysig ar goedd. Mae’r glymblaid yn San Steffan wedi troi adferiad yn ddirwasgiad—dirwasgiad dwbl—ac oherwydd hyn, mae’r diffyg yn cynyddu, nid lleihau. Mae benthyca yn cynyddu, nid yn lleihau. Mae Llywodraeth y glymblaid Dorïaidd yn ychwanegu mwy at y ddyled

Labour did, and it is adding to the national debt not to invest in infrastructure and jobs, but to pay for the mounting costs of the UK Government's failed economic plan. That is not success; that is failure. It is a failed Government and a failed economic policy that is out of touch with the country. It is hurting, but it is not working.

genedlaethol nag a wnaeth y Blaid Lafur erioed, ac mae'n ychwanegu at y ddyled genedlaethol drwy beidio â buddsoddi mewn seilwaith a swyddi, ond drwy dalu am gostau cynyddol cynllun economaidd ffaeledig Llywodraeth y DU. Nid llwyddiant yw hynny ond methiant. Mae'r Llywodraeth wedi methu ac mae'r polisi economaidd wedi methu ac mae allan o gysylltiad â'r wlad. Mae'n brifo, ond nid yw'n gweithio.

The first act of the Tory coalition was to axe the Future Jobs fund—a £1 billion programme developing value for money, creating decent jobs and giving 11,000 young people in Wales a vital first step into work. That is what we believed on these benches, but, for example, take what my constituent Mathew Dawe said:

Gweithred gyntaf y glymblaid Dorïaidd oedd cael gwared ar Gronfa Swyddi'r Dyfodol—rhaglen £1 biliwn sy'n datblygu gwerth am arian, sy'n creu swyddi da ac sy'n rhoi help llaw i 11,000 o bobl ifanc yng Nghymru i gael gwaith. Dyna beth yr ydym yn ei gredu ar y meinciau hyn, ond, er enghraifft, mae fy etholwr Mathew Dawe wedi dweud

'If I hadn't been given this opportunity, I would undoubtedly still be on JSA or in a job I had no interest in. There's no doubt in my mind that the value and importance of Future Jobs Fund has been drastically underrated.'

os na fyddai wedi cael y cyfle hwnnw y byddai'n sicr yn dal i dderbyn lwfans ceisio gwaith neu byddai mewn swydd nad oedd ganddo ddiddordeb ynddi. Does dim amheuaeth ganddo fod gwerth a phwysigrwydd Cronfa Swyddi'r Dyfodol wedi'u tanbrisio'n sylweddol.

I agree with him.

Rwy'n cytuno ag ef.

**Darren Millar:** Thank you for taking an intervention, Ann. Would you agree with me that, while we could all point to examples of success under the Future Jobs fund, which has turned around the lives of individuals like your constituent, for every one of those individuals, unfortunately, there were many who did not have a job at the end of the six-month period, and that is why, under your party's Government at Westminster, we saw record levels of individuals not in education, employment or training, which were still rising when you left office?

**Darren Millar:** Diolch am gymryd yr ymyriad, Ann. A fyddech yn cytuno â mi, er y gallai pob un ohonom gyfeirio at enghreifftiau o lwyddiant o dan y gronfa Swyddi'r Dyfodol, sydd wedi trawsnewid bywydau unigolion fel eich etholwr, ar gyfer pob un o'r unigolion hynny, yn anffodus, roedd llawer nad oedd ganddynt swydd ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis, a dyna pam, o dan Lywodraeth eich plaid chi yn San Steffan, y gwelsom y lefelau uchaf erioed o unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ac a oedd yn dal i gynyddu pan wnaethoch adael y Llywodraeth?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This is becoming a speech.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae hyn yn troi'n araith.

**Darren Millar:** Do you accept that there needed to be a change in that policy in order to drive economic growth?

**Darren Millar:** A ydych yn derbyn bod angen newid y polisi hwnnw er mwyn ysgogi twf economaidd?

**Ann Jones:** No, I do not agree with that. I believe that the Future Jobs fund policy was

**Ann Jones:** Na, nid wyf yn cytuno â hynny. Roeddwn o'r farn fod y polisi cronfa

working well. Young people had confidence in it and they did not see it as a scheme for six months as they were finding good, decent jobs at the end of it.

Swyddi'r Dyfodol yn gweithio'n dda. Roedd gan bobl ifanc hyder ynddo ac nid oeddent yn ei weld fel cynllun am chwe mis am eu bod yn dod o hyd i swyddi da ar y diwedd.

As the Tories pull the plug on schemes that tackle unemployment, we are lucky in Wales to have a Labour Government—one that says that unemployment is not a price worth paying. Over the last couple of years, employment in Wales has increased by more than 35,000. Wales now has the lowest level of economic inactivity since records began in 1992. Wales-based companies have increased their share of the public sector spend in Wales from 34% to 52%. That is as a result of the Welsh Labour Government's economic plan for jobs and growth.

Wrth i'r Torïaid dynnu'r plwg ar gynlluniau sy'n mynd i'r afael â diweithdra, rydym yn ffodus yng Nghymru i gael Llywodraeth Lafur—un sy'n dweud nad yw diweithdra yn bris gwerth ei dalu. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu mwy na 35,000. Bellach, mae gan Gymru'r lefel isaf o anweithgarwch economaidd ers i gofnodion ddechrau yn 1992. Mae cwmnïau yng Nghymru wedi cynyddu eu cyfran o'r gwariant sector cyhoeddus yng Nghymru o 34% i 52%. Mae hynny o ganlyniad i gynllun economaidd Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer swyddi a thwf.

In my constituency, where we see some of the most deprived areas in Wales, regeneration continues. I recently attended the launch of Open Doors, along with the Deputy Minister for Skills, which is an innovative scheme matching job seekers with local employers. By working together, the Welsh Labour Government, alongside the brilliant Rhyl City Strategy and its partners, are able to offer tailored support to job seekers who are looking for work and to local businesses that are looking to recruit. That is yet another example of how we, on these benches, are prepared to act and stand by people in these tough economic times. There are other examples: the £40 million Wales SME investment fund to provide loans for small businesses; Jobs Growth Wales to create 4,000 opportunities annually for 16 to 24-year-olds; the establishment of five enterprise zones operational across Wales, with a further two announced; and the Wales infrastructure investment plan, which sets out how more than £3.5 billion will be spent on capital projects, ranging from hospitals to schools to roads.

Yn fy etholaeth i, sy'n cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, mae adfywio'n parhau. Yn ddiweddar, bûm yn lansiad Drysau Agored, ynghyd â'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, sy'n gynllun arloesol sy'n cyfateb pobl sy'n ceisio am waith gyda chyflogwyr lleol. Drwy weithio gyda'i gilydd, mae Llywodraeth Lafur Cymru, ochr yn ochr â Strategaeth wych Dinas y Rhyl a'i phartneriaid, yn gallu cynnig cymorth wedi'i deilwra i bobl sy'n chwilio am waith ac i fusnesau lleol sy'n awyddus i recriwtio. Dyna enghraifft arall o sut rydym, ar y meinciau hyn, yn barod i weithredu ac i fod yn gefn i bobl yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Ceir enghreifftiau eraill: y gronfa buddsoddiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, sydd werth £40 miliwn, i ddarparu benthyciadau i fusnesau bach; Twf Swyddi Cymru i greu 4,000 o gyfleoedd bob blwyddyn i bobl rhwng 16 a 24 mlwydd oed; sefydlu pum ardal fenter weithredol ar draws Cymru, a chyhoeddi dau arall; a chynllun buddsoddiad seilwaith Cymru, sy'n nodi sut y bydd mwy na £3.5 biliwn yn cael ei wario ar brosiectau cyfalaf, yn amrywio o ysbytai ac ysgolion i ffyrdd.

All of this is in spite of the fact that Wales has had its worst settlement from a Tory-Lib Dem coalition since devolution began. The phrase 'We're all in this together' was coined by a Tory-led coalition that, in six months' time, will raise taxes for pensioners on the

Mae hyn i gyd er gwaethaf y ffaith i Gymru gael y setliad gwaethaf gan glymblaid y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol ers dechrau datganoli. Cafodd yr ymadrodd '*We're all in this together*' ei fathu gan glymblaid sy'n cael ei harwain gan y Torïaid

very same day that it will slash the top rate of tax for the very richest. That is a £3 billion tax cut, giving £40,000 a year to a millionaire. This is from a Tory Government that wants to pay a nurse in Rhyl less than a nurse in Reading and a Tory-led coalition that has promised to cut another £10 billion from the welfare bill by 2016-17, on top of the cuts of £18 billion that are already being implemented, which the leader of the Welsh Conservatives says will bring prosperity to Wales. It has been asked before: Cameron or Carwyn? The people of Wales—including the people of my constituency—and I know who we want to run our country.

a fydd, ymhen chwe mis, yn codi trethi i bensiynwyr ar yr un dydd y bydd yn torri'r gyfradd uchaf o dreth i'r mwyaf cyfoethog. Mae hynny'n doriad treth £3 biliwn sy'n rhoi £40,000 y flwyddyn i filiwnyddion. Mae hyn yn dod o Lywodraeth Dorïaidd sydd am dalu nyrs yn y Rhyl yn llai na nyrs yn Reading a chlymblaid a arweinir gan y Torïaid sydd wedi addo torri £10 biliwn arall o'r bil lles erbyn 2016-17, ar ben y toriadau o £18 biliwn sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith, y mae arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yn dweud y bydd yn dod â ffyniant i Gymru. Mae wedi cael ei ofyn o'r blaen: Cameron neu Carwyn? Mae pobl Cymru—gan gynnwys y bobl fy etholaethi —a minnau'n gwybod pwy rydym eisiau i redeg ein gwlad.

**Mark Isherwood:** The UK's Work Programme in Rhyl is helping over 700 people.

**Mark Isherwood:** Mae Rhaglen Waith y DU yn y Rhyl yn helpu dros 700 o bobl.

The world has changed and so must we. The west is slipping down international league tables, as emerging economies push ahead. The countries that make it will be those that step up to meet the big, long-term challenges. The Conservatives at a UK level are taking the bold action that is needed, fighting for Britain's future to ensure that we succeed in this changed and changing world, dealing with the debt crisis left by Labour, rebalancing the economy, backing the industries of the future and making Britain the place to start and grow a business.

Mae'r byd wedi newid ac felly rhaid i ninnau. Mae'r gorllewin yn llithro i lawr y tablau cynghrair rhyngwladol, wrth i economïau sy'n datblygu wthio ymlaen. Y gwledydd fydd yn gwneud orau fydd y rhai sy'n gallu wynebu'r heriau mawr a hirdymor. Mae'r Ceidwadwyr ar lefel y DU yn cymryd y camau beiddgar sydd eu hangen, yn ymladd ar gyfer dyfodol Prydain i sicrhau ein bod yn llwyddo yn y byd sydd wedi newid ac yn newid, yn delio â'r argyfwng dyled a adawyd gan Lafur, yn ail-gydbwyso'r economi, yn cefnogi diwydiannau'r dyfodol ac yn gwneud Prydain y lle i ddechrau a thyfu busnes.

The Institute for Fiscal Studies' research shows that if Labour was in power at a UK level, and if the UK coalition Government had not taken the tough decisions that it has, the UK's national debt would be £3,200 per person higher—buying votes today at the expense of our children tomorrow and generating cuts on a southern-European scale.

Mae ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dangos os byddai Llafur mewn grym ar lefel y DU, ac os na fyddai Llywodraeth glymblaid y DU wedi cymryd y penderfyniadau anodd a wnaeth, byddai dyled genedlaethol y DU £3,200 y pen yn uwch—prynu pleidleisiau heddiw ar draul ein plant yfory a chynhyrchu toriadau ar raddfa de Ewrop.

Gordon Brown's right-hand men, Eds Miliband and Balls, have been telling us for years that more borrowing and spending was required, as has commissar Carwyn and his lazy, ideological Welsh Government—forever blaming the UK Government for their own shocking failure. However, despite the budget deficit being lower than when the Eds

Mae dwy law dde Gordon Brown, Ed Miliband ac Ed Balls, wedi bod yn dweud wrthym ers blynyddoedd bod angen mwy o fenthyca a gwariant, fel y mae comisâr Carwyn a Llywodraeth ddiog ac ideolegol Cymru—yn beio Llywodraeth y DU am eu methiant brawychus eu hunain. Fodd bynnag, er gwaethaf bod y diffyg yn y gyllideb yn is

left office, they now inform us that because of the budget deficit, they cannot promise to reinstate spending. Ed Miliband's pathetic attempt to associate himself with Benjamin Disraeli's one nation conservatism is holed below the waterline by the experience of the one UK nation governed by Labour—Wales.

na phan adawodd y ddau Ed eu swyddi, maent yn awr yn dweud, oherwydd y diffyg yn y gyllideb, na allant addo i adfer gwariant. Mae ymgais truenus Ed Miliband i gysylltu ei hun â cheidwadaeth un genedl Benjamin Disraeli wedi'i ddistrywio gan brofiad yr unig genedl yn y Deyrnas Unedig sy'n cael ei llywodraethu gan Lafur—Cymru.

The Welsh Conservatives have repeatedly urged action to attract investment and create jobs. However, despite billions being spent on economic development in Wales, and the nation having received over £3 billion of European funding, which was supposed to close the gap, west Wales and the Valleys, including four north Wales counties, will be the only region in western Europe to qualify for the highest level of support in the next round of European funding.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi annog dro ar ôl tro gamau i ddenu buddsoddiad a chreu swyddi. Fodd bynnag, er gwaethaf gwario biliynau ar ddatblygu economaidd yng Nghymru, a'r genedl yn derbyn dros £3 biliwn o gyllid Ewropeaidd, a oedd fod i gau'r bwlch, gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys y pedair sir yng ngogledd Cymru, fydd yr unig ranbarth yng ngorllewin Ewrop i fod yn gymwys ar gyfer y lefel uchaf o gefnogaeth yn y rownd nesaf o gyllid Ewropeaidd.

Gross domestic product is used across Europe to measure economic performance. The GDP figures published in March by the EU revealed that Wales remained bottom of the 12 UK nations and regions, and had slipped even further behind. As we heard earlier, it is now even poorer than some of the poorest regions in Europe, including Slovakia and Slovenia. Small and medium-sized enterprises are the lifeblood of the Welsh economy. However, the Federation of Small Businesses has said that, for the third quarter of 2012, business confidence in Wales was lower than in any other part of the UK, except Northern Ireland.

Caiff cynnyrch mewnwladol crynswth ei ddefnyddio ar draws Ewrop i fesur perfformiad economaidd. Mae'r ffigurau CMC a gyhoeddwyd ym mis Mawrth gan yr UE yn dangos bod Cymru yn parhau i fod ar waelod y 12 cenedl a rhanbarth yn y DU, gan lithro ymhellach fyth ar ei hôl hi. Fel y clywsom yn gynharach, mae bellach yn dlotach na rhai o'r rhanbarthau tlotaf yn Ewrop, gan gynnwys Slofacia a Slofenia. Mentrau bach a chanolig eu maint yw asgwrn cefn economi Cymru. Fodd bynnag, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi dweud, ar gyfer y trydydd chwarter yn 2012, bod hyder busnesau yng Nghymru yn is nag mewn unrhyw ran arall o'r DU, ac eithrio Gogledd Iwerddon.

Although the UK is once again the top destination for inward investment in the European Union, Wales has slipped from the top destination to the bottom among the 12 UK nations and regions. Wales has the second-lowest rate of enterprise births out of the 12 UK countries and regions. The number of working-aged people not in employment in Wales stood at 626,000 when Labour left UK Government, but has been falling since. Over 1 million UK private sector jobs have been created since the UK election. In every single year of this UK Parliament—

Er mai'r DU unwaith eto yw'r prif gyrchfan ar gyfer mewnfuddsoddi yn yr Undeb Ewropeaidd, mae Cymru wedi llithro o'r fod yn brif gyrchfan i'r gwaelod ymysg 12 cenedl a rhanbarthau y DU. Cymru sydd â'r gyfradd isaf ond un o fentrau newydd allan o 12 gwlad a rhanbarth y DU. Roedd nifer y bobl o oed gweithio nad oeddent mewn cyflogaeth yng Nghymru yn 626,000 pan adawodd y Blaid Lafur Llywodraeth y DU, ond mae wedi bod yn gostwng ers hynny. Mae dros filiwn o swyddi sector preifat wedi'u creu yn y DU ers etholiad y DU. Ym mhob blwyddyn o'r Senedd hon yn y DU—

**David Rees:** Will you take an intervention?

**David Rees:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Mark Isherwood:** I will finish this point and then bring you in. In every single year of this UK Parliament, the rich will pay a greater share of UK tax revenues than in any one of the 13 years that Labour was in office.

**Mark Isherwood:** Rwyf am orffen y pwynt hwn, ac yna eich cynnwys. Ym mhob blwyddyn o’r Senedd hon yn y DU, bydd y cyfoethog yn talu cyfran fwy o refeniw treth yn y DU nag y gwnaethant yn unrhyw un o’r 13 mlynedd yr oedd Llafur mewn Llywodraeth.

**David Rees:** Thank you for taking the intervention. I keep hearing about the 1 million jobs that have been created in the private sector, but do you have the number for how many private and public sector jobs have been lost under the Tory Government?

**David Rees:** Diolch am dderbyn yr ymyriad. Rwy’n cadw i glywed am y miliwn o swyddi sydd wedi cael eu creu yn y sector preifat, ond a oes gennych y nifer ar gyfer faint o swyddi yn y sector preifat a’r sector cyhoeddus sydd wedi cael eu colli o dan y Llywodraeth Dorïaidd?

**Mark Isherwood:** The net figure in two years is greater than what Labour achieved in 10. You heard at the energy event last night why companies are not choosing to invest in Wales. The UK Government has done more to reform finance and banking than any Government before it. Its Work Programme, including that in Rhyl, is supporting job seekers in Wales to get off and keep off benefits. In addition to the disabled people in Wales that it supported into work through the Work Programme, Remploy helped 2,379 disabled people in Wales into work last year—the highest level in the UK. The UK Government recognises that real growth is based on a business-friendly economy and is therefore taking 2 million low-paid people out of tax, getting the banks lending, helping small businesses, boosting housing in England, investing in skills, and creating the most competitive business-tax regime in the developed world.

**Mark Isherwood:** Mae’r ffigur net mewn dwy flynedd yn fwy na’r hyn a gyflawnodd Llafur mewn 10. Clywsoch yn y digwyddiad ynni neithiwr pam nad yw cwmnïau yn dewis buddsoddi yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud mwy i ddiwygio cyllid a bancio nag unrhyw Lywodraeth flaenorol. Mae ei Rhaglen Waith, gan gynnwys yr un yn y Rhyl, yn cefnogi pobl sy’n ceisio am swyddi yng Nghymru i ddod oddi ar fudd-daliadau ac aros oddi arnynt. Yn ogystal â’r bobl anabl yng Nghymru a gefnogodd i gael gwaith drwy’r Rhaglen Waith, gwnaeth Remploy helpu 2,379 o bobl anabl yng Nghymru i mewn i waith y llynedd—y lefel uchaf yn y DU. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod twf gwirioneddol yn seiliedig ar economi sy’n gyfeillgar i fusnesau, ac felly mae’n cymryd 2 filiwn o bobl ar gyflogau isel allan o dreth, yn cael y banciau i fenthyca, yn helpu busnesau bach, yn rhoi hwb i dai yn Lloegr, yn buddsoddi mewn sgiliau, ac yn creu’r drefn ardrethi busnes mwyaf cystadleuol yn y byd datblygedig.

There is no easy way to rebuild our economy after a decade of debt, made even harder by the headwinds blowing in from the eurozone. However, there is only one way to build real prosperity and Wales is being left behind. In recognising that the Welsh Government has failed to utilise the tools at its disposal to grow the Welsh economy, we must encourage it to work constructively with the UK Government to deliver prosperity for the people of Wales.

Nid oes unrhyw ffordd hawdd i ailadeiladu ein heconomi ar ôl degawd o ddyled, a wnaed hyd yn oed yn fwy anodd gan y gwyntoedd cryfion sy’n chwythu o ardal yr ewro. Fodd bynnag, dim ond un ffordd sydd i adeiladu ffyniant go iawn, ac mae Cymru’n cael ei gadael ar ôl. Wrth gydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio’r dulliau sydd ar gael iddi i dyfu economi Cymru, mae’n rhaid i ni ei hannog i weithio’n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i

sicrhau ffyniant i bobl Cymru.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** Growth and sustainable jobs are at the heart of our programme for government. We have made it clear that our focus remains on supporting and boosting our economy and identifying every opportunity to help businesses in Wales. The main influences on the Welsh economy in the short to medium term are the prevailing conditions of the global economy, and the monetary and fiscal policy of the UK Government; hence, our second amendment. To put the debate into context, I will not quote Ann Jones's speech, but she did go into some of the wider economic issues.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Mae twf a swyddi cynaliadwy wrth wraidd ein rhaglen lywodraethu. Rydym wedi ei gwneud yn glir bod ein ffocws yn parhau i fod ar gefnogi a hybu ein heconomi a chanfod pob cyfle i helpu busnesau yng Nghymru. Y prif ddylanwadau ar economi Cymru yn y tymor byr i ganolig yw amodau cyffredinol yr economi fyd-eang a pholisi ariannol a chyllidol Llywodraeth y DU; dyna'r rheswm am ein hail welliant. I roi'r ddadl mewn cyd-destun, ni fyddaf yn dyfynnu araith Ann Jones, ond fe wnaeth sôn am rai o'r materion economaidd ehangach.

4.15 p.m.

Only yesterday, the International Monetary Fund assessed that the effect of the UK Government's policy of fiscal consolidation has been to reduce growth by much more than the UK Government has claimed. Taken in the round, the figures contained in the IMF forecast for the UK are exceptionally disappointing and confirm that the UK is probably engaged in the most severe peacetime recession in 100 years, at least in GDP terms. Since the UK's expected growth for 2012 is worse than that for France, Germany, and even Europe as a whole, it would be implausible for anybody in the UK Government to blame the eurozone crisis for the whole of this deficiency in economic growth. If the IMF is right on UK prospects for next year, unemployment will increase, and so the IMF forecast suggests a need for urgent action by the UK Government to promote growth. The IMF's new analysis of the impact of fiscal consolidation on growth supports the view that there is a strong case for going more slowly with spending cuts. That is what has emerged from the report of the International Monetary Fund—not from one of my favourite political philosophers, but from the IMF.

Dim ond ddoe, gwnaeth y Gronfa Ariannol Ryngwladol asesu bod effaith polisi atgyfnerthu cyllidol Llywodraeth y DU wedi lleihau twf gan lawer mwy nag yr oedd Llywodraeth y DU wedi honni. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r ffigurau a gynhwysir yn rhagolwg y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer y DU yn eithriadol o siomedig ac yn cadarnhau bod y DU yng nghanol y dirwasgiad mwyaf difrifol ar adeg o heddwch mewn 100 mlynedd, o ran CMC o leiaf. Am fod twf disgwyliedig y DU ar gyfer 2012 yn waeth nag ar gyfer Ffrainc, yr Almaen, a hyd yn oed Ewrop gyfan, byddai'n anghredadwy i unrhyw un yn Llywodraeth y DU roi'r bai ar yr argyfwng yn ardal yr ewro ar gyfer yr holl diffyg hwn mewn twf economaidd. Os yw'r Gronfa Ariannol Ryngwladol yn iawn ar ragolygon y DU ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd diweithdra'n cynyddu, ac felly mae rhagolwg y Gronfa Ariannol Ryngwladol yn awgrymu bod angen i Lywodraeth y DU weithredu ar frys i hybu twf. Mae dadansoddiad newydd y Gronfa Ariannol Ryngwladol o effaith cyfnerthu cyllidol ar dwf yn cefnogi'r farn bod achos cryf ar gyfer mynd yn fwy araf gyda thoriadau gwariant. Dyna beth sydd wedi dod i'r amlwg o adroddiad y Gronfa Ariannol Ryngwladol—nid gan un o fy hoff athronwyr gwleidyddol, ond y Gronfa Ariannol Ryngwladol.

**Antoinette Sandbach** *rose*—

**Antoinette Sandbach** *a gododd*—

**Edwina Hart:** I will not take an intervention at this stage.

**Edwina Hart:** Ni dderbyniaf ymyriad ar hyn o bryd.

The Welsh Government has taken significant steps to improve the position of businesses in Wales and the environment in which they operate. For example, we have introduced a number of new funds to improve our offering to business. We have had the Wales economic growth fund. To date, 118 projects have been approved under the scheme. We are expecting to create some 1,800 new jobs and safeguard 1,600 jobs. There has been a £40 million Wales SME fund, which is expected to support the creation of 4,000 jobs, a life sciences fund to make Wales an even more attractive location for life sciences, into which we have already put £25 million. There has been a £6 million microbusiness loan fund, which will provide the scope to support around 300 businesses. However, I accept that Mohammad Asghar has a point about publicity regarding these funds, and, as I indicated when I answered questions earlier, it is an issue that I will be taking up with officials. Other schemes have included the digital development fund, which supported businesses in the creative industries sector, and our high-potential starts project to encourage new high-growth business ventures.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau sylweddol i wella sefyllfa busnesau yng Nghymru a'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo. Er enghraifft, rydym wedi cyflwyno nifer o gronfeydd newydd i wella ein cynigion i fusnes. Rydym wedi cael y gronfa twf economaidd Cymru. Hyd yma, mae 118 o brosiectau wedi'u cymeradwyo o dan y cynllun. Rydym yn disgwyl creu tua 1,800 o swyddi newydd a diogelu 1,600 o swyddi. Cafwyd cronfa busnesau bach a chanolig Cymru gwerth £40 miliwn, a disgwylir iddi gefnogi creu 4,000 o swyddi, a chronfa gwyddorau bywyd i wneud Cymru yn lleoliad hyd yn oed yn fwy deniadol ar gyfer gwyddorau bywyd, sydd eisoes wedi cael £25 miliwn gennym. Cafwyd cronfa benthyciadau microfusnesau gwerth £6 miliwn, a fydd yn gallu cefnogi tua 300 o fusnesau. Fodd bynnag, rwy'n derbyn bod gan Mohammad Asghar bwynt am gyhoeddusrwydd ynghylch y cronfeydd hynny, ac, fel y dywedais wrth ateb cwestiynau yn gynharach, mae'n fater y byddaf yn ei godi gyda swyddogion. Mae cynlluniau eraill wedi cynnwys y gronfa datblygu digidol, sy'n cefnogi busnesau yn y sector diwydiannau creadigol, ac mae gennym brosiect i fusnesau newydd a chanddynt botensial mawr i annog mentrau busnes newydd sydd â thwf uchel.

Today, I am launching a new pilot SME growth fund, specifically designed to support Wales-based businesses in the energy and environment sector. This fund will initially run for two years and is anticipated will help to create more than 60 new jobs and safeguard around 40 jobs in the first 12 months. In addition to these specific initiatives to help business to gain access to finance, we have taken numerous other steps: a £50 million package to bring some of the world's top academics to Wales, and a £30 million economic stimulus package to provide more resources for young people in social housing. The project that we have done in Ely Mill has been innovative in how we have harnessed resources from the private sector. This can be used as a model again. There is the £30 million from Skills Growth Wales to create 3,000 jobs over the next three

Heddiw, rwy'n lansio cynllun peilot newydd ar gyfer cronfa twf busnesau bach a chanolig, a gynlluniwyd yn benodol i gefnogi busnesau yng Nghymru yn y sector ynni a'r amgylchedd. Bydd y gronfa hon yn rhedeg am ddwy flynedd i ddechrau a disgwylir y bydd yn helpu i greu mwy na 60 o swyddi newydd a diogelu tua 40 o swyddi yn ystod y 12 mis cyntaf. Yn ogystal â'r mentrau penodol hyn i helpu busnesau i gael mynediad at gyllid, rydym wedi cymryd camau niferus eraill: pecyn gwerth £50 miliwn i ddod â rhai o academyddion gorau'r byd i Gymru, a phecyn ysgogiad economaidd gwerth £30 miliwn i ddarparu mwy o adnoddau ar gyfer pobl ifanc mewn tai cymdeithasol. Bu ein prosiect ym Melin Trelái yn arloesol o ran sut rydym wedi harneisio adnoddau o'r sector preifat. Gellir defnyddio hynny fel model eto. Mae £30

years. There are the enterprise zones, which we are working on, and we have had the reports on business rates and city regions.

miliwn ar gael trwy Sgiliau Twf Cymru i greu 3,000 o swyddi dros y tair blynedd nesaf. Mae'r ardaloedd menter, yr ydym yn gweithio arnynt, ac rydym wedi cael yr adroddiadau ar ardrethi busnes a dinas-ranbarthau.

Turning to the amendments—and I have already indicated where we are going with them—amendment 1 has been called churlish, but I simply make the point that we are noting this. I am particularly keen to see what emerges from Vince Cable's excellent announcement of a bank, but we do need to see the detail on that. There is a commitment on the part of that department in the UK Government to work collectively with us and to support initiatives that help the business sector. We will be supporting amendment 3, moved by Alun Ffred Jones. As the Minister for finance has indicated, we are looking to a number of models for revenue financing infrastructure and this includes not-for-profit distribution models. We have some examples of models that we have looked at through the local government borrowing initiative and the Ely Mill development, which I have mentioned. There are also very innovative finance solutions being used in the waste programme. As far as we are concerned, this is the direction of travel for the issues that we are looking at.

I droi at y gwelliannau—ac rwyf eisoes wedi sôn am sut byddwn yn ymateb iddynt—mae gwelliant 1 wedi cael ei alw yn bigog, ond rwy'n gwneud pwynt syml ein bod am nodi hyn. Rwy'n arbennig o awyddus i weld beth a ddaw o gyhoeddiad rhagorol Vince Cable am y banc, ond mae angen i ni weld manylion hynny. Mae gan yr adran honno o Lywodraeth y DU ymrwymiad i weithio ar y cyd â ni ac i gefnogi mentrau sy'n helpu'r sector busnes. Byddwn yn cefnogi gwelliant 3, a gynigiwyd gan Alun Ffred Jones. Fel mae'r Gweinidog Cyllid wedi nodi, rydym yn edrych ar nifer o fodelau ar gyfer ariannu refeniw seilwaith ac mae hyn yn cynnwys modelau dosbarthu di-elw. Mae gennym rai enghreifftiau o fodelau yr ydym wedi edrych arnynt trwy'r fenter benthyca llywodraeth leol a datblygiad Melin Trelái, yr wyf wedi sôn amdanynt. Mae datrysiadau cyllid arloesol iawn hefyd yn cael eu defnyddio yn y rhaglen gwastraff. O'm rhan ni, dyma'r cyfeiriad yr ydym yn edrych ato ar gyfer y materion hyn.

We will be supporting the three amendments moved by Eluned Parrott on behalf of the Welsh Liberal Democrats. I am sorry that the spokesperson is disappointed that the reports have not yet come to fruition, but it is important that we take everyone with us, so that we look at the budgetary issues around them. The microbusiness report was implemented straight away, and there is a fund available. Therefore, you have the update on the enterprise zones and business rates.

Byddwn yn cefnogi'r tri gwelliant a gynigiwyd gan Eluned Parrott ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'n ddrwg gennyf fod y llefarydd yn siomedig nad oedd yr adroddiadau eto wedi dwyn ffrwyth, ond mae'n bwysig ein bod yn mynd â phawb gyda ni, er mwyn edrych ar y materion cyllidebol o'u cwmpas. Cafodd yr adroddiad microfusnesau ei weithredu ar unwaith, ac mae cronfa ar gael. Felly, mae gennych y wybodaeth ddiweddaraf am yr ardaloedd menter ac ardrethi busnes.

A Welsh manufacturing strategy is also up and running. I noted that, in his opening comments, Byron Davies remarked that it is important to look at an industrial strategy. We have always had an industrial strategy and a manufacturing strategy, because we implemented a sectoral approach in Government a long time ago under a previous Deputy First Minister, and that approach

Mae strategaeth gweithgynhyrchu Cymru hefyd wedi'i sefydlu ac ar waith. Nodais, yn ei sylwadau agoriadol, i Byron Davies ddweud ei bod yn bwysig edrych ar strategaeth ddiwydiannol. Rydym wastad wedi bod â strategaeth ddiwydiannol a strategaeth weithgynhyrchu, oherwydd i ni weithredu dull sector o weithio yn y Llywodraeth amser maith yn ôl o dan

dealt with some of those issues.

Ddirprwy Brif Weinidog blaenorol, a gwnaeth y dull hwnnw o weithio ddelio â rhai o'r materion hynny.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for allowing me to intervene, although I feel bad about jumping in at this point. You said that you have a manufacturing strategy, but I think that it might have passed many people by, because that was called for comprehensively by all parties in the third Assembly, but nothing came. What are you referring to when you say that you have a Welsh manufacturing strategy?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i chi am ganiatáu imi ymyrryd, er fy mod yn teimlo'n wael am neidio i mewn ar y pwynt hwn. Dywedoch fod gennych strategaeth weithgynhyrchu, ond credaf nad oes llawer yn ymwybodol ohoni, oherwydd galwyd am hynny ar y cyd gan yr holl bleidiau yn y trydydd Cynulliad, ond ni ddaeth dim. At beth ydych yn cyfeirio pan fyddwch yn dweud bod gennych strategaeth weithgynhyrchu yng Nghymru?

**Edwina Hart:** It was written by the Welsh manufacturing forum. That is the manufacturing strategy that has influenced all the activities of the sectors.

**Edwina Hart:** Cafodd ei hysgrifennu gan fforwm gweithgynhyrchu Cymru. Dyna'r strategaeth weithgynhyrchu sydd wedi dylanwadu ar holl weithgareddau'r sectorau.

The UK Government is currently awaiting approval from the European Commission for its framework broadband scheme, which includes the Wales programme. Once that is known, we will advise you.

Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer ei fframwaith cynllun band eang, sy'n cynnwys rhaglen Cymru. Pan fydd hwnnw'n hysbys, byddwn yn eich cynghori.

With regard to amendment 5, we are, in principle, supportive of the establishment of a green investment bank. There is a strong case for Government intervention in this area as a result of market failures, and I think that it is very important that we give it our support. We were obviously disappointed about our bid in respect of Cardiff, but I will not go over old ground.

O ran gwelliant 5, rydym, mewn egwyddor, yn cefnogi sefydlu banc buddsoddi gwyrdd. Mae achos cryf dros ymyrraeth gan y Llywodraeth yn y maes hwn o ganlyniad i fethiannau yn y farchnad, ac yr wyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ei chefnogi. Roeddem yn siomedig am ein cais yng Nghaerdydd, ond nid wyf am fynd dros hen dir.

On the last amendment submitted by the Liberal Democrats, the Minister for Local Government and Communities is seeking a meeting with the Secretary of State for Transport to discuss the issue of rail in north Wales. Therefore, I think that it is quite clear that we understand the points that you make with regard to that particular discussion.

Ar welliant olaf y Democratiaid Rhyddfrydol, mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth i drafod rheilffyrdd yng ngogledd Cymru. Felly, credaf ei bod yn gwbl glir ein bod yn deall y pwyntiau yr ydych yn eu gwneud o ran y drafodaeth benodol honno.

Therefore, as I have indicated, we are very supportive of those amendments. Much has been made of our not working with anyone, but we are working extremely well with UK Trade and Investment. We have taken action to support international trade and investment, we have established a team to lead on high-quality work, we have UKTI officials visiting

Felly, fel y dywedais, rydym yn gefnogol iawn i'r gwelliannau hynny. Mae llawer o sôn wedi bod nad ydym yn gweithio gydag unrhyw un, ond rydym yn gweithio'n hynod o dda gyda Masnach a Buddsoddi y DU. Rydym wedi cymryd camau i gefnogi masnach a buddsoddiad rhyngwladol, rydym wedi sefydlu tîm i arwain ar waith o ansawdd

Wales, and we have arrangements with UKTI for some of its officials to be based in Wales. We have an excellent relationship with the department. Lord Green came to the last council for economic renewal, as did Lord Heseltine, to talk about his report for the UK Government on competitiveness, which looks at England in particular. It is important that we work with the UK Government where we can. My colleagues have meetings with the UK Government. I will meet the new Secretary of State for Wales in the course of the next weeks and I already have a meeting with Baroness Randerson in the diary and hope to have a meeting with Stephen Crabb about the issues that are of mutual interest to us.

uchel, ac mae swyddogion Masnach a Buddsoddi y DU yn ymweld â Chymru, ac mae trefniadau i leoli rhai o swyddogion Masnach a Buddsoddi y DU yng Nghymru. Mae gennym berthynas ardderchog â'r adran. Daeth yr Arglwydd Green i'r cyngor diwethaf ar gyfer adnewyddu'r economi, fel y gwnaeth yr Arglwydd Heseltine, i siarad am ei adroddiad i Lywodraeth y DU ar gystadleurwydd, sy'n edrych ar Loegr yn arbennig. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio â Llywodraeth y DU lle y gallwn. Mae fy nghydweithwyr yn cael cyfarfodydd â Llywodraeth y DU. Byddaf yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru yn yr wythnosau nesaf ac mae eisoes gennyf gyfarfod gyda'r Farwnes Randerson yn fy nyddiadur ac rwy'n gobeithio cael cyfarfod â Stephen Crabb am y materion sydd o ddiddordeb cyffredin i ni.

Byron Davies made an important point about the opportunities for jobs that come from the electrification of the railway. A lot of work is already being done by officials across the departments and with industry to see how we can make the most of the opportunities that could provide. Therefore, in very real terms, it has been a very useful discussion about the economy, and I am sure that it is a subject that we will return to time and again.

Gwnaeth Byron Davies bwynt pwysig am y cyfleoedd swyddi sy'n dod o ganlyniad i drydaneiddio'r rheilffordd. Mae llawer o waith eisoes yn cael ei wneud gan swyddogion ar draws yr adrannau ac ar y cyd â diwydiant i weld sut y gallwn wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y gallai hynny eu darparu. Felly, mewn termau real, mae wedi bod yn drafodaeth ddefnyddiol iawn am yr economi, ac rwy'n siŵr ei fod yn bwnc y byddwn yn dychwelyd ato dro ar ôl tro.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to respond to this debate today. There have been many contributions from around the Chamber, but I will start with Julie Morgan's contribution, because she is quite right to identify the positives in Wales. There are many positives and there are examples to be celebrated, such as Airbus, the EADS operation in Newport, and GE, which you also touched on. You can drive anywhere in Wales and find examples of where people have moved into Wales and, while they may have indicated that they would stay for only a short period of time, they have ended up spending the rest of their lives here because they find it a great country in which to live and bring up their children, but their companies also bed down and are a success story. However, on the other side of the coin, regrettably, there are major challenges for businesses in Wales. The point about Bosch emphasised that. At one time,

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i ymateb i'r ddadl hon heddiw. Cafwyd nifer o gyfraniadau o amgylch y Siambr, ond rwyf am ddechrau gyda chyfraniad Julie Morgan, gan ei bod yn hollol iawn i nodi'r pethau cadarnhaol yng Nghymru. Mae llawer o bethau cadarnhaol a cheir enghreifftiau i'w dathlu, megis Airbus, gwaith EADS yng Nghasnewydd, a GE, yr ydych hefyd wedi sôn amdanynt. Gallwch yrru i unrhyw le yng Nghymru a dod o hyd i enghreifftiau lle mae pobl wedi symud i Gymru ac, er eu bod wedi dweud y byddent yn aros am gyfnod byr yn unig, maent wedi treulio gweddill eu bywydau yma ar ôl darganfod ei bod yn wlad wych i fyw ynddi ac i fagu plant, a hefyd bod eu cwmnïau wedi ymsefydlu ac wedi llwyddo. Fodd bynnag, ar ochr arall y geiniog, yn anffodus, mae heriau mawr i fusnesau yng Nghymru. Mae'r pwynt am Bosch yn pwysleisio hynny. Ar un adeg, roedd Bosch yn cyflogi 1,500 o bobl ar y

Bosch employed 1,500 people on the site in Miskin. While it is very welcome that, today, the new company, Renishaw, has opened its doors, it is talking about employing a couple of hundred at most on that site. We need a far more comprehensive package of inward investment proposals to attract businesses into Wales to make up for many of the other companies that have decamped, such as Sony and others that have downsized, such as Panasonic. Therefore, I join you in celebrating the success stories, but I think that we need to be realistic about the challenges that we face.

safle ym Meisgyn. Er bod y cwmni newydd, Renishaw, sy'n agor ei ddrysau heddiw, yn cael croeso, mae'n sôn am gyflogi ychydig gannoedd ar y mwyaf ar y safle hwnnw. Mae angen pecyn llawer mwy cynhwysfawr o gynigion mewnfuddsoddi i ddenu busnesau i Gymru i wneud iawn am y nifer o gwmnïau eraill sydd wedi gadael, megis Sony ac eraill sydd wedi lleihau eu presenoldeb, megis Panasonic. Felly, ymunaf â chi i ddathlu'r llwyddiannau, ond credaf fod angen i ni fod yn realistig ynghylch yr heriau sy'n ein hwynebu.

Earlier this week, I was in Birmingham, as were many Conservatives. Birmingham has its own enterprise zone, which is the most successful enterprise zone in the country, I might add. When you compare the actions that Birmingham, Bristol and any of the other English cities have taken, you see that we really are still in the changing room on the enterprise zone strategy, and not even on the track. As Eluned Parrott touched upon, in Bristol, for example, the plans are up and running. The developers are virtually digging in the ground to get the enterprise zone up and running there. That is a major competitor for any investment in south-east Wales. Many times, when I have spoken to businesses in south-east Wales, they have told me that the draw of the south-west of England is a massive concern to them. We see the flight of businesses to that area. My colleague, Byron Davies, in his questioning of the First Minister yesterday, and you today, Minister, touched on the level of support for indigenous businesses in Wales to grow and expand, as opposed to businesses that may be looking to relocate. That is a real issue and, sadly, we did not get a substantive answer. I appreciate that you said that you were going to write, so I look forward to seeing what you will do to address those concerns.

Yn gynharach yr wythnos hon, roeddwn yn Birmingham, fel yr oedd llawer o Geidwadwyr. Mae gan Birmingham ei hardal fenter ei hun, sef yr ardal fenter mwyaf llwyddiannus yn y wlad, dylwn ychwanegu. Pan fyddwch yn cymharu'r camau y mae Birmingham, Bryste ac unrhyw un o'r dinasoedd eraill yn Lloegr wedi'u cymryd, byddwch yn gweld ein bod mewn gwirionedd yn dal yn yr ystafelloedd newid o ran ein strategaeth ardal fenter, ac nid hyd yn oed ar y trac. Fel y dywedodd Eluned Parrott, ym Mryste, er enghraifft, mae'r cynlluniau ar waith. Mae'r datblygwyr yn cloddio yn y ddaear i sefydlu'r ardal fenter yno. Mae'n gystadleuydd o bwys i unrhyw fuddsoddiad yn ne-ddwyrain Cymru. Droeon, wrth i mi siarad â busnesau yn ne-ddwyrain Cymru, maent wedi dweud wrthyf fod atyniad de-orllewin Lloegr yn bryder mawr iddynt. Rydym yn gweld busnesau'n symud i'r ardal honno. Mae fy nghydweithiwr, Byron Davies, wrth holi'r Prif Weinidog ddoe, a chi heddiw, Weinidog, wedi sôn bod angen cymorth ar fusnesau cynhenid yng Nghymru i dyfu ac ehangu, ac nid busnesau sy'n meddwl am adleoli. Mae honno'n broblem go iawn ac, yn anffodus, ni chawsom ateb cynhwysfawr. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod wedi dweud eich bod yn mynd i ysgrifennu, felly edrychaf ymlaen at weld beth fyddwch yn ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

My colleague, Byron Davies, also touched on the very real need for a comprehensive engagement with the UK Government, because many of the levers for development and inward investment do not reside with the Welsh Government. It needs a joined-up

Mae fy nghydweithiwr, Byron Davies, hefyd wedi sôn am yr angen gwirioneddol am ymgysylltiad cyflawn gyda Llywodraeth y DU, oherwydd nad yw llawer o'r pwerau i ddatblygu a mewnfuddsoddi yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae angen dull

approach. The rail electrification scheme, for example, is a classic case: a joined-up team approach ultimately secured £2 billion-worth of investment into Wales, and that will improve the employment opportunities for two thirds of the people of Wales. That is a massive signal of confidence in Wales by the UK Government, and is unprecedented in its scale. Just look at what the development of the metro region will do: as I said, two thirds of the population of Wales will benefit from that investment. As our new Secretary of State has identified, he, too, now wants to work co-operatively with the Welsh Government to improve transport links around Wales, particularly in north Wales. My colleague, Janet Finch-Saunders, touched on how the new Secretary of State is very keen to explore what opportunities are available. I was pleased to hear from the Minister that she has meetings with the two junior Ministers and the Secretary of State scheduled in her diary already. Hopefully, this new co-operative mode will bring dividends to Wales.

cydgysylltiedig o weithio. Mae'r cynllun trydaneiddio'r rheilffyrdd, er enghraifft, yn achos clasurol: gwnaeth dull cydgysylltiedig o weithio mewn tîm sicrhau buddsoddiad gwerth £2 biliwn i Gymru, a fydd yn gwella cyfleoedd cyflogaeth i ddwy ran o dair o bobl Cymru. Mae hynny'n arwydd enfawr o hyder yng Nghymru gan Lywodraeth y DU, ac mae'n ddigynsail o ran ei faint. Ystyriwch beth fydd datblygiad y rhanbarth metro yn ei wneud: fel y dywedais, bydd dwy ran o dair o boblogaeth Cymru yn elwa o'r buddsoddiad hwnnw. Fel mae ein Hysgrifennydd Gwladol newydd wedi'i ddweud, mae ef yn awyddus i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i wella cysylltiadau trafnidiaeth o amgylch Cymru, yn enwedig yng ngogledd Cymru. Mae fy nghydweithiwr, Janet Finch-Saunders, wedi sôn am sut mae'r Ysgrifennydd Gwladol newydd yn awyddus iawn i archwilio pa gyfleoedd sydd ar gael. Rwy'n falch o glywed gan y Gweinidog bod ganddi gyfarfodydd gyda'r ddau is-Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol eisoes wedi'u trefnu yn ei dyddiadur. Gobeithio y bydd y dull cydweithredol newydd hyn o weithio yn dod â difidendau i Gymru.

We had an exercise in UK Government-bashing from Ann Jones. First of all, she went on about the reduction of the 50p tax down to 45p. I appreciate that the Member is not in her seat, but I think that the points that she made need to be challenged. Under the Labour Government, when it went out in 2010, the level of that tax was 40p in the pound, as opposed to 45p in the pound in April. Therefore, you were taxing less than the coalition Government will be taxing in April. What you have to do is strike the balance between what will encourage an entrepreneurial spirit and the retention of capital by people who are prepared to take the risk with the need of the state to raise tax revenue to provide for public services. It is called entrepreneurism and it is about not having envy but saying to someone 'Go on, take a punt on it.' Nine times out of 10, when that works, it creates jobs, believe it or not.

Cawsom ymarfer lladd ar Lywodraeth y DU gan Ann Jones. Yn gyntaf, aeth ymlaen am y gostyngiad o 50c i 45c yn y dreth. Rwy'n gwerthfawrogi nad yw'r Aelod yn ei sedd, ond credaf fod angen herio ei phwyntiau. O dan y Llywodraeth Lafur, pan aeth allan yn 2010, lefel y dreth honno oedd 40c yn y bunt, yn hytrach na 45c yn y bunt fel y bydd ym mis Ebrill. Felly, roeddech yn trethu llai nag y bydd Llywodraeth y glymblaid yn trethu ym mis Ebrill. Mae'n rhaid i chi daro cydbwysedd rhwng yr hyn a fydd yn annog ysbryd entrepreneuraidd a chadw cyfalaf y bobl sy'n barod i gymryd y risg ac angen y wladwriaeth i godi refeniw treth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Fe'i gelwir yn entrepreneuriaeth ac mae'n ymwneud â pheidio â bod yn genfigennus, ond dweud wrth rywun 'Ewch amdani, mentrwch.' Naw gwaith allan o 10, pan fydd hynny'n gweithio, mae'n creu swyddi, credwch neu beidio.

We also heard about regional pay and a nurse being paid less in north Wales than in the rest of the UK. It was a very emotive example to use. My party has indicated that it does not

Rydym hefyd wedi clywed am dâl rhanbarthol a nyrs yn cael ei thalu llai yng ngogledd Cymru nag yng ngweddill y DU. Roedd yn enghraifft hynod o emosiynol i'w

support regional pay. The Labour Party introduced regional pay in Wales in 2008 for workers in the justice system. That is a fact, and you can look back to the Secretary of State at the time, Paul Murphy, who talked about that. You can also refer to the examples used by Liam Byrne's in the House of Commons, when he was talking about welfare and benefits and regional pay if a Labour Government were in power in the UK. Therefore, it is looking both ways from the Labour Party here. If you want to use examples, you need to start speaking to your colleagues in London to ensure that you take a joined-up approach. On the economic and investment front, Ed Miliband might have stood on the stage in Manchester last week and talked for an hour and five minutes, but he did not offer one solution or example of a coherent economic strategy coming from your party. He talked about 'One nation', but actually the politics of envy that the Labour Party practises would divide our nation. What we need to do is instil more aspiration in people, so that we can achieve.

defnyddio. Mae fy mhlaid wedi nodi nad yw'n cefnogi tâl rhanbarthol. Gwnaeth y Blaid Lafur gyflwyno tâl rhanbarthol yng Nghymru yn 2008 ar gyfer gweithwyr yn y system gyfiawnder. Mae hynny'n ffaith, a gallwch edrych yn ôl at yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, Paul Murphy, a siaradodd am hynny. Gallwch hefyd gyfeirio at enghreifftiau Liam Byrne yn Nhŷ'r Cyffredin, pan oedd yn siarad am les a budd-daliadau a thâl rhanbarthol os byddai Llywodraeth Lafur mewn grym yn y DU. Felly, mae'n edrych i'r ddau gyfeiriad o'r Blaid Lafur yma. Os ydych am ddefnyddio enghreifftiau, mae angen i chi ddechrau siarad â'ch cydweithwyr yn Llundain i sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig. O ran yr economi a buddsoddi, efallai fod Ed Miliband wedi sefyll ar y llwyfan ym Manceinion yr wythnos diwethaf a siarad am awr a phum munud, ond ni chynigiodd yr un ateb nac enghraifft o strategaeth economaidd resymegol gan eich plaid. Soniodd am un genedl, ond byddai gwleidyddiaeth genfigennus y Blaid Lafur yn rhannu ein cenedl. Mae angen inni feithrin mwy o ddyhead mewn pobl, er mwyn inni allu cyflawni.

As Mark Isherwood and Oscar, Mohammad Asghar, touched on, the real point is that, in the past, people have not been allowed to have the opportunities. As Mohammad Asghar mentioned, Barack Obama, speaking only a couple of weeks ago, discussed the roles of Government and the private sector. I thought that that was a good example to use. However, I have to be careful, because the other day, I found out that I am related to the Republican challenger, so, I suppose that that is a bit of an issue. [*Laughter*.] I thought that that would create much hilarity. I look forward to going to the White House shortly.

Fel y dywedodd Mark Isherwood ac Oscar, Mohammad Asghar, y pwynt gwirioneddol yw, yn y gorffennol, nad yw pobl wedi gallu cael cyfleoedd. Fel y dywedodd Mohammad Asghar, trafododd Barack Obama, wrth siarad rai wythnosau yn ôl, am rôl y Llywodraeth a'r sector preifat. Roeddwn i'n meddwl bod hynny'n enghraifft dda i'w defnyddio. Fodd bynnag, rhaid i mi fod yn ofalus, oherwydd y diwrnod o'r blaen, cefais wybod fy mod yn perthyn i'r Gweriniaethwr sy'n ei wrthwynebu, felly, gallai hynny fod yn dipyn o broblem. [*Chwerthin*.] Roeddwn i'n meddwl y byddai hynny'n creu llawer o ddigrifwch. Edrychaf ymlaen at fynd i'r Tŷ Gwyn yn fuan.

4.30 p.m.

In respect of Alun Ffred Jones's example of what Plaid Cymru would seek to do about bonds and borrowing, we agree with the borrowing argument; you will not find us disagreeing with that. Further to the question that I put to the Minister for Finance today,

O ran enghraifft Alun Ffred Jones o'r hyn y byddai Plaid Cymru yn ceisio ei wneud ynghylch bondiau a benthyca, rydym yn cytuno â'r ddadl fenthyca; ni fyddwch yn ein clywed yn anghytuno â hynny. Yn dilyn y cwestiwn a ofynnais i'r Gweinidog Cyllid

borrowing can be a useful tool, but you also need a mechanism to service that borrowing and repay it. Ultimately, you talk about bonds but using UK credentials to borrow those bonds, which is quite interesting coming from a separatist party because, ultimately, if you went on your own credentials to borrow, you would find that you would be paying exorbitant interest rates and they would not be of any value to Wales. Therefore, we are agreed on one point, but ultimately you need a joined-up UK approach to make sure that Wales actually prospers. The separatists always fail to identify a coherent economic argument as to how they would develop a separate Welsh economy detached from the rest of the United Kingdom.

heddiw, gall benthyca fod yn arf defnyddiol, ond mae angen mecanwaith i wasanaethu'r benthyciad hwnnw a'i ad-dalu. Yn y pen draw, rydych yn siarad am fondiau ond yn defnyddio cymwysterau'r DU i fenthyg y bondiau hynny, sy'n eithaf diddorol yn dod o blaid ymwahanol oherwydd, yn y pen draw, os fyddech yn mynd ar eich cymwysterau eich hun i fenthyg, byddech yn gweld y byddech yn talu cyfraddau llog afresymol ac na fyddent o unrhyw werth i Gymru. Felly, rydym yn cytuno ar un pwynt, ond yn y pen draw bydd angen dull cydgysylltiedig ledled y DU i wneud yn siŵr bod Cymru'n ffynnu yn wirioneddol. Mae'r ymwahanwyr bob amser yn methu â nodi dadl economaidd gydlynol o ran sut y byddent yn datblygu economi Gymreig sydd ar wahân i weddill y Deyrnas Unedig.

Today, we have before us a clear motion that seeks to build better co-operation, and to identify some of the levers that the Welsh Government has not been using to make a better economic offering to companies looking to locate in Wales. That was shown, again, by the comments of Mark Isherwood on the inward investment figures, given that we were once one of the most attractive places for inward investment. Regrettably, figures published not by the Conservatives or by the UK Government, but by the European Commission, now indicate that we are the least attractive part of the United Kingdom, despite the United Kingdom now being the most attractive part of Europe for inward investment. That is quite a damning indictment. Therefore, it is incumbent on the Government to build on the co-operation that this motion seems to put down today, and to now act on many of the initiatives that the Minister touched upon. She talked about the city regions initiative, enterprise zones and business rates. All of these are welcome initiatives, but we now need clear decisions from the Minister on starting to implement those policies and that environment so that business can start to do better.

Heddiw, mae cynnig clir ger ein bron sy'n ceisio meithrin gwell cydweithrediad, a nodi rhai o'r dulliau nad yw Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i wneud cynnig economaidd gwell i gwmnïau sy'n edrych i symud i Gymru. Dangoswyd hynny, unwaith eto, gan sylwadau Mark Isherwood ar y ffigurau mewnfuddsoddi, o ystyried mai ni oedd, ar un adeg, un o'r mannau mwyaf deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi. Yn anffodus, mae ffigurau a gyhoeddwyd nid gan y Ceidwadwyr neu gan Lywodraeth y DU, ond gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn dangos mai ni, bellach, yw'r rhan leiaf deniadol o'r Deyrnas Unedig, er gwaethaf y ffaith mai'r Deyrnas Unedig erbyn hyn yw'r rhan fwyaf deniadol o Ewrop ar gyfer mewnfuddsoddi. Mae honno'n feirniadaeth eithaf damniol. Felly, mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i adeiladu ar y cydweithrediad y mae'r cynnig hwn yn ei nodi heddiw, ac i weithredu ar nifer o'r mentrau y soniodd y Gweinidog amdanynt. Siaradodd am y fenter dinas-ranbarthau, ardaloedd menter ac ardrethi busnes. Mae pob un o'r rhain yn fentrau i'w croesawu, ond yn awr mae angen penderfyniadau clir gan y Gweinidog ar ddechrau gweithredu'r polisïau hynny, a'r amgylchedd hwnnw, fel y gall busnes ddechrau gwneud yn well.

On business rates, as Mohammad Asghar touched upon, it has been a long-standing Conservative policy to make sure that businesses with a rateable value of up to

O ran ardrethi busnes, fel y dywedodd Mohammad Asghar, mae wedi bod yn bolisi hirsefydlog gan y Ceidwadwyr i wneud yn siŵr na ddylai busnesau sydd â gwerth

£12,500 enjoy no business rates at all, with a taper up to £15,000. That would be a fundamental way of keeping capital on companies' balance sheets so that they could invest in their businesses and maintain jobs in the locality. That is a simple way that the Welsh Government could make a massive difference, but we are not getting these decisions. I heard exactly what you said, Minister, about taking 'everyone along with you', but sometimes you cannot take everyone along and you have to just go with your gut feeling, be the Minister, face up to it and make those decisions. I know that, historically, you have been a good Minister at doing that, but we are now in the boat and we need to get that boat sailing. We need to make sure that unemployment levels, which are falling in other parts of the United Kingdom, start to fall substantially here in Wales, and ensure that we can enjoy and point to record levels of low interest rates and falling inflation. That is a recipe that shows that we are getting the economic conditions right in London, but here, we need decisions taken in the best interests of the economy in Wales. I commend this motion to the Assembly this afternoon.

ardrethol o hyd at £12,500 dalu dim ardrethi busnes o gwbl, gyda thapr hyd at £15,000. Byddai hynny'n ffordd sylfaenol o gadw cyfalaf ar fantolenni cwmnïau er mwyn iddynt fuddsoddi yn eu busnesau a chadw swyddi yn yr ardal. Mae hynny'n ffordd syml y gallai Llywodraeth Cymru wneud gwahaniaeth enfawr, ond nid ydym yn cael y penderfyniadau hyn. Clywais yn union beth a ddywedasoch, Weinidog, am gymryd pawb gyda chi, ond weithiau ni allwch gymryd bawb gyda chi a rhaid i chi weithredu'n reddfol, bod yn Weinidog, wynebu hynny a gwneud y penderfyniadau. Rwy'n gwybod, yn hanesyddol, yr ydych wedi bod yn Weinidog da am wneud hynny, ond rydym yn awr yn y cwch ac mae angen dechrau hwylio'r cwch hwnnw. Mae angen inni sicrhau bod lefelau diweithdra, sy'n disgyn mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yn dechrau disgyn yn sylweddol yma yng Nghymru, ac mae angen sicrhau y gallwn fwynhau lefelau cyfradd llog isaf erioed a chwyddiant sy'n gostwng, a chyfeirio at y pethau hyn. Mae hynny'n rysáit sy'n dangos ein bod yn cael yr amodau economaidd yn gywir yn Llundain, ond yma, mae angen penderfyniadau a wneir er lles yr economi yng Nghymru. Cymeradwyaf y cynnig hwn i'r Cynulliad y prynhawn yma.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I will defer voting on this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod; felly, byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Rheilffyrdd
### Railways

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 3, 7, 8 a 9 yn enw William Graham, gwelliannau 4, 6, 10 ac 11 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 5 yn enw Jane Hutt. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.23(iii), nid wyf wedi dethol gwelliant 2 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliannau 4, 5 a 6 yn cael eu dad-

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 3, 7, 8 and 9 in the name of William Graham, amendments 4, 6, 10 and 11 in the name of Aled Roberts, and amendment 5 in the name of Jane Hutt. In accordance with Standing Order No. 12.23(iii), I have not selected amendment 2 in the name of Aled Roberts. If amendment 3

ddethol. Os derbynnir gwelliant 4, bydd gwelliant 5 yn cael ei ddad-ddethol.

is agreed, amendments 4, 5 and 6 will be deselected. If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected.

*Cynnig NDM5059 Jocelyn Davies*

*Motion NDM5059 Jocelyn Davies*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi pwysigrwydd masnachfraint Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin i wasanaethau rheilffyrdd yng ngogledd Cymru ac yn cydnabod blerwch Llywodraeth y DU wrth ddelio â masnachfraint Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin yn ddiweddar.*

*1. Notes the importance of the West Coast Main Line (WCML) franchise to rail services in north Wales and recognises the UK Government's incompetence in dealing with the recent WCML franchise.*

*2. Yn nodi bod gan Lywodraeth y DU swyddogaeth gydlofnodi o hyd ym masnachfraint Cymru a'r Gororau.*

*2. Notes that the UK Government retains a joint-signatory role in the Wales and Borders franchise.*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*3. Calls on the Welsh Government to:*

*a) ceisio cyfrifoldeb llawn dros adnewyddu masnachfraint Cymru a'r Gororau;*

*a) seek full responsibility for the Wales and Borders franchise renewal;*

*b) ceisio datganoli'r gyllideb a'r pwerau dros y seilwaith rheilffyrdd; ac*

*b) seek devolution of rail infrastructure powers and budget; and*

*c) sicrhau bod model di-elw yn cael ei greu ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau.*

*c) ensure the creation of a not-for-profit model for the Wales and Borders franchise.*

**Leanne Wood:** I move the motion.

**Leanne Wood:** Cynigiaf y cynnig.

This is a timely motion about the state of the franchising system on our railways. Last week, the franchise process for the West Coast main line was scrapped after serious errors in the process were uncovered. Also, with less fanfare, the renewal of the franchise on the Great Western main line was suspended. These make up two of the three franchises that serve the railways in Wales. I have no intention of scapegoating the civil servants involved in this, who were more than likely severely under-resourced while doing their jobs, but I do want to re-examine the very principles of the franchising and privatisation system and how they apply to Wales. We are not here today to criticise the train companies. Instead, we will be focusing on the arrangements themselves and on how future decisions will be made.

Mae'r cynnig hwn yn un amserol am gyflwr system fasnachfraint ein rheilffyrdd. Yr wythnos diwethaf, cafodd y broses fasnachfraint ar gyfer prif reilffordd Arfordir y Gorllewin ei dileu ar ôl i wallau difrifol yn y broses gael eu datgelu. Hefyd, gan ddenu llai o sylw, cafodd y broses o adnewyddu'r fasnachfraint ar gyfer prif reilffordd Great Western ei hatal. Mae'r rhain yn cynrychioli dwy o'r tair masnachfraint sy'n gwasanaethu'r rheilffyrdd yng Nghymru. Nid oes gennyf unrhyw fwriad o greu bwch dihangol o'r gweision sifil sy'n gysylltiedig â hyn, a oedd yn fwy na thebyg yn dioddef diffyg adnoddau difrifol wrth wneud eu gwaith, ond rwy'n awyddus i ail-edrych ar union egwyddorion y system fasnachfraint a phreifateiddio a sut y maent yn gymwys i Gymru. Nid ydym yma heddiw i feirniadu'r cwmnïau trên. Yn hytrach na hynny, byddwn yn canolbwyntio ar y trefniadau eu hunain ac ar sut y bydd y penderfyniadau hyn yn cael

eu gwneud yn y dyfodol.

Plaid Cymru—The Party of Wales has consistently opposed the privatisation of the railway network. We believe that major infrastructure should operate for the wider benefit of our economy and communities, and that money which could be spent on improving these services should not be diverted into the pockets of shareholders who take minimal investment risks.

Mae Plaid Cymru wedi gwrthwynebu'n gyson preifateiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd. Rydym yn credu y dylai seilwaith ar raddfa fawr weithredu er lles ehangach ein heconomi a'n cymunedau, ac na ddylai arian y gellid ei wario ar wella'r gwasanaethau hyn gael ei ddargyfeirio i bocedi cyfranddalwyr sy'n cymryd risgiau minimol o ran buddsoddi.

I have already mentioned the West Coast main line and the Great Western main line franchises. The third franchise that services Wales is the Wales and borders franchise, currently operated by Arriva Trains Wales until 2018, with a five-year franchise review due next year. The franchise was awarded in 2003 on a no-growth basis, meaning that considerable extra funding for service improvements has had to come from Welsh Government public service budgets. In 2006, the UK Government gave the Welsh Government joint control of the franchise, along with a budget transfer. Since then, successive Welsh Governments have topped up that transfer with their own funds in a bid to try to expand services, improve reliability and deliver train services to areas of Wales that were previously marginalised. However, in effect, Welsh commuters have suffered a decade of overcrowding. That has been a particular problem for tourist trains west of Swansea and in the north of our country.

Rwyf eisoes wedi crybwyll masnachfreintiau prif reilffordd Arfordir y Gorllewin a phrif linell Great Western. Y drydedd fasnachfraint sy'n gwasanaethu Cymru yw masnachfraint Cymru a'r Gororau, a weithredir ar hyn o bryd gan Arriva Trains Cymru tan 2018, gydag adolygiad masnachfraint ar ôl pum mlynedd yn digwydd y flwyddyn nesaf. Dyfarnwyd y fasnachfraint yn 2003 ar sail di-dwf, sy'n golygu bod yn rhaid i gryn dipyn o arian ychwanegol ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth ddod o gyllideb gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Yn 2006, rhoddodd Llywodraeth y DU reolaeth ar y cyd dros y fasnachfraint i Lywodraeth Cymru, ynghyd â throsglwyddo'r gyllideb. Ers hynny, mae Llywodraethau olynol yng Nghymru wedi ychwanegu at y trosglwyddiad hwnnw gyda'u harian eu hunain mewn ymgais i geisio ehangu gwasanaethau, gwella dibynadwyedd a darparu gwasanaethau trên i rannau o Gymru a oedd yn flaenorol ar y cyrion. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae cymudwyr Cymru wedi dioddef degawd o orlenwi. Mae honno wedi bod yn broblem arbennig ar gyfer trenau twristiaeth i'r gorllewin o Abertawe ac yng ngogledd ein gwlad.

So, where do we go from here? Our National Assembly seems to have a majority in favour of putting the Wales and borders franchise into the hands of a not-for-dividend company. Such a model could take many forms, and Professor Stuart Cole recently set out many of these options in an article in *Agenda* magazine. A not-for-dividend model could be a publicly owned company, a co-operative or an independent company limited by guarantee, along the lines of Network Rail or Glas Cymru. Our most important aim is that the Welsh Government ensures that a model based on the reinvestment of profit is

Felly, i ble'r awn oddi yma? Mae ein Cynulliad Cenedlaethol yn ymddangos i fod â mwyafrif o blaid rhoi masnachfraint Cymru a'r Gororau yn nwylo cwmni di-ddifidend. Gallai model o'r fath fod ar sawl ffurf, ac yn ddiweddar amlinellodd yr Athro Stuart Cole lawer o'r opsiynau hyn mewn erthygl yng nghylchgrawn *Agenda*. Gallai model di-ddifidend fod yn gwmni sy'n eiddo cyhoeddus, yn gwmni cydweithredol neu'n gwmni annibynnol sy'n gyfyngedig trwy warant, yn yr un modd â Network Rail neu Glas Cymru. Ein nod pwysicaf yw bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau mai model

what finally happens.

sy'n seiliedig ar ail-fuddsoddi sy'n digwydd yn y pen draw.

The Welsh Government said in its election manifesto that it would examine the feasibility of running the Wales and borders rail franchise on a not-for-dividend basis, that is, not for distributable profit. I would imagine that this election pledge will form the basis of its response to this debate. However, it would also be good to hear from the Government about the progress being made on its other election manifesto pledges, particularly on a review of rail infrastructure in Wales.

Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei maniffesto etholiad y byddai'n edrych ar y posibilrwydd o redeg masnachfraint Cymru a'r Gororau ar sail di-ddifidend; hynny yw, heb fod ar gyfer elw dosbarthadwy. Byddwn yn dychmygu y bydd yr addewid etholiad hwn yn sail i'w hymateb i'r ddadl hon. Fodd bynnag, byddai hefyd yn dda clywed gan y Llywodraeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar ei haddewidion maniffesto etholiad eraill, yn enwedig ar adolygu seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

With part 2 of the Silk commission on the horizon, the Party of Wales would like to see the powers and budget for railway infrastructure being devolved to Wales, as they are to Scotland.

Gyda rhan 2 o'r comisiwn Silk ar y gorwel, hoffai Plaid Cymru weld y pwerau a'r gyllideb ar gyfer seilwaith rheilffyrdd yn cael eu datganoli i Gymru, yn yr un modd ag y maent wedi'u datganoli i'r Alban.

While welcoming recent infrastructure developments such as the electrification from London to Swansea and the Valley lines, this does not make up for the fact that such developments took place around most of England and even from London to Glasgow around 40 years ago. Wales has been left behind on the platform at the whim of successive UK Governments. In the north, for example, we have long called for the electrification of the North Coast main line from Holyhead to Chester, which is estimated at costing between £220 million and £300 million, and which was positively evaluated as far back as 1977. Unfortunately, this was not included in the recent high-level output specification for 2014 to 2019. We hope that the new UK Secretary of State for Transport can be persuaded on this matter, while accepting that it would be easier if it was a Welsh Minister making the decision in the first place, as happens in Scotland. However, even if we remain under the present constraints, a Party of Wales Government will argue the case for our fair share of investment.

Er ein bod yn croesawu datblygiadau seilwaith diweddar megis trydaneiddio'r rheilffordd o Lundain i Abertawe a rheilffordd y Cymoedd, nid yw hyn yn gwneud iawn am y ffaith bod datblygiadau o'r fath wedi digwydd ledled y rhan fwyaf o Loegr a hyd yn oed o Lundain i Glasgow tua 40 mlynedd yn ôl. Mae Cymru wedi cael ei gadael ar ei hôl ar y platfform ar fympwy Llywodraethau olynol y DU. Yn y gogledd, er enghraifft, rydym wedi galw ers amser am drydaneiddio prif reilffordd Arfordir y Gogledd o Gaergybi i Gaer, a amcangyfrifir y byddai'n costio rhwng £220 miliwn a £300 miliwn, ac a gafodd ei werthuso'n gadarnhaol mor bell yn ôl â 1977. Yn anffodus, nid oedd hyn wedi'i gynnwys yn y fanyleb allbwn lefel uchel ddiweddar o 2014 i 2019. Rydym yn gobeithio y gellir perswadio Ysgrifennydd Gwladol newydd y DU dros Drafnidiaeth ynghylch y mater hwn, gan dderbyn y byddai'n haws pe bai un o Weinidogion Cymru yn gwneud y penderfyniad hwn yn y lle cyntaf, fel sy'n digwydd yn yr Alban. Fodd bynnag, hyd yn oed os ydym yn parhau o dan y cyfyngiadau presennol, byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn gwneud yr achos o blaid cael ein cyfran deg o fuddsoddiad.

A further point to remember is that the UK Government still has a hand in our Wales and borders rail franchise. The day-to-day

Pwynt pellach i'w gofio yw bod Llywodraeth y DU yn parhau i fod â rhan yn ein masnachfraint reilffordd Cymru a'r Gororau.

operation of the franchise is devolved, but renewing the franchise will require a joint signature between the Welsh and UK Governments. Two franchises originate in England and include Wales, and we believe that the UK Government controlling these with proper consultation with the Welsh Government, of course, is acceptable. However, in the case of the Wales and borders franchise, which mainly covers Wales, the reverse should equally apply, and the Welsh Government should be solely in control. Under such an understanding, the UK Government should agree to co-operate and to respect the democratic decision of this Assembly when it comes to signing off franchising arrangements. As a Welsh Government, the Party of Wales would also fully consult the UK Government throughout the process.

Mae'r gwaith o weithredu'r fasnachfraint o ddydd i ddydd wedi'i ddatganoli, ond bydd adnewyddu'r fasnachfraint yn gofyn am lofnod ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae dwy fasnachfraint yn deillio o Loegr ac yn cynnwys Cymru, a chredwn ei bod yn dderbyniol bod Llywodraeth y DU yn rheoli'r rhain gydag ymgynghori go iawn â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn achos masnachfraint Cymru a'r gororau, sy'n bennaf yn cynnwys Cymru, dylai'r gwrthwyneb fod yn wir, a dylai Llywodraeth Cymru yn unig fod yn rheoli'r fasnachfraint. O dan y fath ddealltwriaeth, dylai Llywodraeth y DU gytuno i gydweithredu a pharchu penderfyniad democrataidd y Cynulliad hwn pan ddaw i lofnodi trefniadau masnachfraint. Fel Llywodraeth Cymru, byddai Plaid Cymru hefyd yn ymgynghori'n llawn â Llywodraeth y DU drwy gydol y broses.

Today's motion covers a wide range of important railway topics: our concerns about the impact on Wales of the flawed franchise bidding process, Plaid Cymru's belief in a not-for-dividend railway network in Wales and our belief that the responsibility for franchising and the budget for capital expenditure on Welsh railways should lie with Wales, with appropriate additional allocation of Welsh block grant funds. Self-government gives us a chance to break new ground and to reject the failures of privatisation and fragmentation. Devolution, if grasped to its full extent, will allow us to put our rail services in the hands of the people of Wales, where they belong.

Mae'r cynnig heddiw yn ymdrin ag ystod eang o bynciau pwysig mewn perthynas â'r rheilffyrdd: ein pryderon am yr effaith ar Gymru o'r broses ddiffygiol o ran ymgeisio ar gyfer masnachfraint, cred Plaid Cymru mewn rhwydwaith rheilffyrdd di-ddifidend yng Nghymru a'n cred y dylai'r cyfrifoldeb dros fasnachfraint a'r gyllideb ar gyfer gwariant cyfalaf ar reilffyrdd Cymru orwedd gyda Chymru, gyda dyraniad priodol ychwanegol o gyllid o grant bloc Cymru. Mae hunanlywodraeth yn rhoi cyfle inni dorri tir newydd ac i wrthod methiannau preifateiddio a darnio. Bydd datganoli, os ydym yn manteisio arno i'r eithaf, yn ein galluogi i roi ein gwasanaethau rheilffordd yn nwylo pobl Cymru, lle maent yn perthyn.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'Cymru'.*

*In point 1, delete all after 'Wales'.*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Dileu pwynt 3.*

*Delete point 3.*

*Gwelliant 7—William Graham*

*Amendment 7—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu ymroddiad Llywodraeth y DU i Gymru drwy ei hymrwymiad i drydaneiddio*

*Welcomes the UK Government's dedication to Wales through its commitment to*

*Prif Lein y Great Western i Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd Cymoedd y De.*

*electrifying the Great Western Main Line to Swansea and electrifying the South Wales valley lines.*

*Gwelliant 8—William Graham*

*Amendment 8—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pa mor bwysig yw bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi i wneud y mwyaf o fanteision trydaneiddio'r rheilffyrdd.*

*Notes the importance of the Welsh Government utilising the tools at its disposal to seize the benefits of rail electrification.*

*Gwelliant 9—William Graham*

*Amendment 9—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd o drydaneiddio'r rheilffyrdd yng ngogledd Cymru yn y dyfodol.*

*Calls on the Welsh Government to engage with the UK Government about potential future electrification of rail lines in north Wales.*

**Byron Davies:** I move amendments 1, 3, 7, 8 and 9 in the name of William Graham.

**Byron Davies:** Cynigiaf welliannau 1, 3, 7, 8 a 9 yn enw William Graham.

I welcome the opportunity to contribute to this debate and to put the record straight on many items from a Welsh Conservative perspective. The tone of this debate and the free use of the word 'incompetence' were perhaps to be expected of an opportunist protest party such as Plaid. I am sure that we all remember its successful bout in Government on the coattails of Welsh Labour. Plaid's leader at the time was completely in control of his brief as the Minister for the Economy and Transport—so in control that transport projects overspent massively and taxpayers' money was wasted on almost all major works across Wales. Frankly, I would suggest that that is a more appropriate cause for the use of the word 'incompetence'.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon ac i gywiro unrhyw gamargraff ynghylch nifer o eitemau o safbwynt y Ceidwadwyr Cymreig. Mae tôn y ddadl hon a'r defnydd rhydd o'r gair 'blerwch' o bosibl i'w disgwyl o blaid brotest fanteisgar fel Plaid Cymru. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cofio ei chyfnod llwyddiannus mewn Llywodraeth ar gefn Llafur Cymru. Roedd gan arweinydd y blaid ar y pryd reolaeth gadarn o'i friff fel y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth—rheolaeth mor gadarn nes bod prosiectau trafnidiaeth wedi gorwario'n enfawr ac arian trethdalwyr wedi'i wastraffu ar bron yr holl weithfeydd mawr ledled Cymru. I ddweud y gwir, byddwn yn awgrymu bod hwnnw'n achos mwy priodol ar gyfer defnyddio'r gair 'blerwch'.

**Lord Elis-Thomas:** Will the Member give way?

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** A wnaiff yr Aelod ildio?

**Byron Davies:** No, I have a lot to say. In fact, in Government, the party's flagship policy was to introduce an airline from Cardiff to Anglesey, which does no more than serve the political classes—[*Interruption*.] The previous Government

**Byron Davies:** Na, mae gen i lawer i'w ddweud. Yn wir, mewn Llywodraeth, prif bolisi'r blaid oedd cyflwyno cyswllt awyr o Gaerdydd i Ynys Môn, sy'n gwneud dim mwy na gwasanaethu'r dosbarth gwleidyddol—[*Torri ar draws*.] Y

then, if you like—

Llywodraeth flaenorol, os mynnwch, oedd—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I remind Members that comments from a sedentary position will not be recorded, and they should not be answered.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rwy'n atgoffa Aelodau na fydd sylwadau gan Aelodau o'u seddi yn cael eu cofnodi, ac ni ddylent gael eu hateb.

**Lord Elis-Thomas:** On a point of order—

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Ar bwynt o drefn—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. No, there is no point of order. I will take a point of order at the end of the debate if you still wish to press this.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Na, nid oes unrhyw bwynt o drefn. Byddaf yn cymryd pwynt o drefn ar ddiwedd y ddadl os ydych yn dal yn awyddus i bwyso'r mater.

**Byron Davies:** Amendments 1 and 3 speak for themselves. Through millions of pounds of investment in the railways in Wales, the UK Government has proven that it has the Welsh economy and the Welsh people at heart. The Conservative-led UK Government, through electrification, as highlighted in amendments 7 and 8, is investing in Wales's future. Rather than endlessly debating and whining about further powers in this Chamber, this Government should embrace that investment and maximise the potential. Amendment 9 puts squarely in sight the next target for all parties in this Chamber to achieve. We must engage with the UK Government and push the potential future electrification of rail lines in north Wales. We are currently a country of two halves and the Welsh nationalists should be more concerned with building a connected nation, as the Welsh Conservatives are, than squabbling about the West Coast main line franchise and asking for more powers.

**Byron Davies:** Mae gwelliannau 1 a 3 yn siarad drostynt eu hunain. Trwy filiynau o bunnoedd o fuddsoddiad yn y rheilffyrdd yng Nghymru, mae Llywodraeth y DU wedi profi bod economi Cymru a phobl Cymru yn greiddiol iddi. Mae Llywodraeth y DU o dan arweiniad y Ceidwadwyr, drwy drydaneiddio, fel yr amlygwyd yng ngwelliannau 7 ac 8, yn buddsoddi yn nyfodol Cymru. Yn hytrach na dadlau a swnian yn ddiddiwedd am bwerau pellach yn y Siambr hon, dylai'r Llywodraeth hon gofleidio'r buddsoddiad hwnnw a gwneud y gorau o'r potensial. Mae gwelliant 9 yn canolbwyntio ar y targed nesaf i'r holl bleidiau yn y Siambr hon ei gyflawni. Mae'n rhaid inni ymgysylltu â Llywodraeth y DU a gwthio trydaneiddio posibl rheilffyrdd yng ngogledd Cymru yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, rydym yn wlad o ddau hanner a dylai'r cenedlaetholwyr Cymreig ymwneud yn fwy ag adeiladu cenedl gysylltiedig, fel y mae'r Ceidwadwyr Cymreig am ei wneud, na ffraeo am fasnachfraint prif reilffordd Arfordir y Gorllewin a gofyn am fwy o bwerau.

With the Wales and borders franchise opening up soon, we have great potential to secure future investment in our railways and rolling stock. I am extremely concerned about any attempt to create a public sector-run rail service or, indeed, a not-for-profit organisation and about how much capital it would be able to realise. I would welcome further discussion and exploration, but I could not support any motion that talked about ensuring a not-for-profit model. It is far too prescriptive and there is not enough research, detail or viable modelling on that option, I am afraid.

Gyda masnachfraint Cymru a'r gororau yn agor cyn bo hir, mae gennym botensial mawr i sicrhau buddsoddiad yn nyfodol ein rheilffyrdd a'n cerbydau tren. Rwy'n bryderus iawn am unrhyw ymgais i greu gwasanaeth rheilffordd sy'n cael ei redeg gan y sector cyhoeddus neu, yn wir, gan sefydliad di-elw ac am faint o gyfalaf y byddai'n gallu ei ryddhau. Byddwn yn croesawu trafodaeth ac archwilio pellach, ond ni allwn gefnogi unrhyw gynnig sy'n sôn am sicrhau model di-elw. Mae'n llawer rhy rhagnodol ac nid oes digon o ymchwil, manylion neu fodelu hyfyw o ran y dewis hwnnw, mae arnaf ofn.

In a nutshell, the Welsh Conservatives will support all the amendments tabled. Unless amendment 1 is carried, we will vote against the motion. We must get on with the job of connecting Wales through a public transport network that is fit for the twenty-first century and not become bogged down with focusing on additional powers. Let us change the tune: we need partnership for the future of Wales and the ultimate success of its transport system.

Yn gryno, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r holl welliannau a gyflwynwyd. Oni bai bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig. Rhaid inni fwrw ymlaen â'r gwaith o gysylltu Cymru drwy rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a pheidio â boddi drwy ganolbwyntio ar bwerau ychwanegol. Gadewch i ni newid y dôn: mae angen partneriaeth arnom ar gyfer dyfodol Cymru a llwyddiant eithaf ei system drafnidiaeth.

4.45 p.m.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Dileu 3c) a rhoi yn ei le 'archwilio'r holl ddewisiadau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau gan gynnwys model busnes di-elw posibl'.*

*Delete 3c) and replace with 'explore all the options for the Wales and Borders franchise including a potential not-for-profit business model'.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3):*

*Add new sub point at end of point 3):*

*Yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod prif reilffordd gogledd Cymru yn cael ei thrydaneiddio erbyn diwedd Cyfnod Rheoli 6.*

*work with the UK Government to secure electrification of the North Wales mainline by the end of Control Period 6.*

*Gwelliant 10—Aled Roberts*

*Amendment 10—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at the end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r broses dendro i sicrhau buddsoddiad yn ansawdd cerbydau a'r seilwaith.*

*Calls on the Welsh government to investigate using the tender process to secure investment in the quality of rolling stock and infrastructure.*

*Gwelliant 11—Aled Roberts*

*Amendment 11—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at the end of the motion:*

*Yn credu bod Prif Lein Arfordir y Gorllewin a'r Lein HS2 newydd yn hanfodol ar gyfer gwella gwasanaethau i ranbarth gogledd Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gwasanaethau i ogledd Cymru yn cael eu hatgyfnerthu yn y dyfodol.*

*Believes the West Coast Main Line and the new HS2 Line are vital in improving services to the North Wales region and calls on the Welsh Government to work with the UK Government to ensure that services to North Wales are strengthened in the future.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 4, 6, 10 and 11 in the name of Aled Roberts.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 4, 6, 10 ac 11 yn enw Aled Roberts.

I thank Plaid Cymru for bringing this debate forward today. We have debated the importance of the rail infrastructure on many occasions in the Chamber, but with regard to the passengers' experience, it is the train operating companies that are more obviously at the coal face in delivering services. Therefore, I welcome this opportunity to debate this part of the rail industry.

Diolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Rydym wedi trafod pwysigrwydd y seilwaith rheilffyrdd ar sawl achlysur yn y Siambr, ond o safbwynt profiad y teithwyr, y cwmnïau trenau sy'n fwy amlwg yn ei chanol hi wrth ddarparu gwasanaethau. Felly, croesawaf y cyfle hwn i drafod y rhan hon o'r diwydiant rheilffyrdd.

The piecemeal carve-up of the UK's railway industry is not what I would have chosen either, but that is what we have, and that is what we have to work with. It has left us with a complex series of interrelationships between infrastructure and operations, between different operators using common facilities, and between devolved nations and Westminster. For that reason, devolving all rail services operating in Wales is not an easy and clean-cut option—that and the fact that the Wales and borders services mentioned in the motion today spend as much time in England as they do in Wales, serving Hereford, Shrewsbury and Crewe. While it is absolutely right that the Welsh Government has a significant role in developing that franchise—and I would welcome the Minister's comments on the nature of that role and on how he sees that developing as the franchise is agreed—it is also right that the Government that represents the English residents served by that line also has a voice and a role to play.

Nid yw rhaniad tameidiog diwydiant rheilffyrdd y DU yn rhywbeth y byddwn wedi'i ddewis ychwaith, ond dyna'r hyn sydd gennym, a dyna'r hyn y mae'n rhaid inni weithio gydag ef. Mae wedi ein gadael â chyfres gymhleth o gydberthynas rhwng seilwaith a gweithrediadau, rhwng gwahanol weithredwyr yn defnyddio cyfleusterau cyffredin, a rhwng gwledydd datganoledig a San Steffan. Am y rheswm hwnnw, nid yw datganoli'r holl wasanaethau rheilffordd sy'n gweithredu yng Nghymru yn opsiwn hawdd a syml—hynny a'r ffaith bod gwasanaethau Cymru a'r gororau y sonnir amdanynt yn y cynnig heddiw yn treulio'r un faint o amser yn Lloegr ag y maent yng Nghymru, gan wasanaethu Henffordd, yr Amwythig a Crewe. Er ei bod yn hollol iawn fod gan Lywodraeth Cymru rôl sylweddol o ran datblygu'r fasnachfraint honno—a byddwn yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ar natur y rhan honno a sut y mae'n gweld hynny'n datblygu wrth ddod i gytundeb ar y fasnachfraint—mae hefyd yn iawn bod y Llywodraeth sy'n cynrychioli trigolion Lloegr sy'n cael eu gwasanaethau gan y rheilffordd honno hefyd â llais a rhan i'w chwarae.

I would not say that the relationship between the Welsh Government and Westminster should not be reviewed, but I am not convinced that the franchise should be entirely devolved. I am also not convinced that full devolution of rail infrastructure, powers and budgets is necessarily in the best interests of Wales. Could a Barnett consequential have delivered electrification? Even if it could, what would the point be if it did not connect to an electrified line on the other side of the border? You will know that I am a committed supporter of devolution, but

Ni fyddwn yn dweud na ddylid adolygu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a San Steffan, ond nid wyf yn argyhoeddedig y dylid datganoli'r fasnachfraint yn llwyr. Nid wyf yn argyhoeddedig ychwaith bod datganoli seilwaith pwerau a chyllidebau rheilffyrdd yn llawn o anghenraid er budd gorau Cymru. A allai swm canlyniadol Barnett fod wedi cyflawni trydaneiddio? Hyd yn oed os y gallai fod wedi, beth fyddai'r pwynt os na fydd yn cysylltu â rheilffordd wedi'i thrydaneiddio ochr arall y ffin? Byddwch yn gwybod fy mod yn gefnogwr

I would not want to see Wales's constitutional position decided piece by piece, like so many slices of salami. These are issues that I would like to see discussed in the round, perhaps through the Silk commission or by other means, but not on a one-by-one basis like this.

brwd dros ddatganoli, ond ni fyddwn am weld sefyllfa gyfansoddiadol Cymru yn cael ei phenderfynu fesul darn, fel sleisys o salami. Mae'r rhain yn faterion yr hoffwn eu gweld yn cael eu trafod yn eu cyfanrwydd, efallai drwy gomisiwn Silk neu drwy ddulliau eraill, ond nid ar sail un fesul un fel hyn.

With regard to our amendment 4, I would welcome the emergence of more not-for-profit companies in our transport services, but I would not wish to exclude the possibility that a for-profit company could do a good job and be in the best interest of passengers. While there is an apparent logic to the idea that a not-for-profit company would, by its very nature, invest more in services because it does not pay shareholders, in practice, that may not work out to be the case. If a for-profit company were able to deliver a more efficient, effective and attractive service to passengers, half the profits of a for-profit company investing in services could work out be more valuable in cash terms than all of the profits of a less efficient not-for-profit model. We also have to recognise that the barriers to entry into the transport market are extremely high. Where would a new not-for-profit company get the money to lease trains? Where would they get their specialist staff? These are difficult issues; there is a reason why new entrants to the transport industry are very rare. I emphasise that I am not against the idea in principle, and I would welcome the opportunity to develop not-for-profit models in this industry, but, in my view, it is the passengers' experience and value for taxpayers' money that must take precedence. It is pragmatism over idealism, I am afraid. We should keep our options open. That is why I have put forward amendment 4, or would alternatively support the Government's amendment in this instance.

O ran ein gwelliant 4, byddwn yn croesawu dyfodiad mwy o gwmnïau di-elw yn ein gwasanaethau trafnidiaeth, ond ni fyddwn am gau allan y posibilrwydd y gallai cwmni er-elw wneud gwaith da a bod o fudd gorau i deithwyr. Er bod rhesymeg amlwg i'r syniad y byddai cwmni di-elw, yn ôl ei natur, yn buddsoddi mwy mewn gwasanaethau gan nad yw'n talu cyfranddalwyr, yn ymarferol, efallai nad dyna fydd yr achos. Pe gallai cwmni er-elw ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon, effeithiol a deniadol i deithwyr, gallai hanner elw cwmni er-elw sy'n buddsoddi mewn gwasanaethau fod yn fwy gwerthfawr yn nhermau arian parod na holl elw model di-elw llai effeithiol. Rhaid inni hefyd gydnabod bod y rhwystrau i gyrraedd y farchnad drafnidiaeth yn uchel iawn. Ble fyddai cwmni di-elw newydd yn cael yr arian i brydlesu trenau? Ble y byddent yn cael eu staff arbenigol? Mae'r rhain yn faterion anodd; mae rheswm pam bod newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant trafnidiaeth yn brin iawn. Rwy'n pwysleisio nad wyf yn erbyn y syniad mewn egwyddor, a byddwn yn croesawu'r cyfle i ddatblygu modelau di-elw yn y diwydiant hwn, ond, yn fy marn i, mae'n rhaid i brofiad teithwyr a gwerth am arian trethdalwyr gael blaenoriaeth. Mae'n fater o bragmatiaeth dros ddelfrydiaeth, mae arnaf ofn. Dylem gadw ein dewisiadau yn agored. Dyna pam yr wyf wedi cyflwyno gwelliant 4, neu byddaf fel arall yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth yn yr achos hwn.

I will not pretend that the current franchise arrangements are perfect; clearly, they are not. It is vital for Welsh passengers that the Welsh Government has a strong involvement in all of the franchises that affect Welsh passengers, including those that serve Wales and England. In opening this debate, the leader of Plaid Cymru regretted the fragmentation of the rail industry, and I agree—I regret it very much—but I do not

Nid wyf am esgus bod y trefniadau masnachfraint presennol yn berffaith; yn amlwg, nid ydynt yn berffaith. Mae'n hanfodol i deithwyr Cymru bod gan Lywodraeth Cymru ran gref ym mhob masnachfraint sy'n effeithio ar deithwyr Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr. Wrth agor y ddadl hon, roedd arweinydd Plaid Cymru yn gresynu at natur ddarniog y diwydiant

think that you will fix it by fragmenting it further.

rheilffyrdd, ac rwy'n cytuno—rwy'n gresynu ato yn fawr iawn—ond nid wyf yn credu y byddwch yn ei drwsio drwy ei rannu ymhellach.

*Gwelliant 5—Jane Hutt*

*Amendment 5—Jane Hutt*

*Yn is-bwynt 3c), dileu 'sicrhau bod model di-elw yn cael ei greu' a rhoi yn ei le 'archwilio'r posibilrwydd o greu model di-elw'.*

*In sub-point 3c), delete 'ensure' and replace with 'explore'.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move amendment 5 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf welliant 5 yn enw Jane Hutt.

**Llyr Huws Gruffydd:** This debate takes place, as we have already heard, against a backdrop of serious concerns about the West Coast franchise and it is, therefore, timely. However, you will be aware that Plaid Cymru has supported a not-for-dividend model for Welsh rail services since before the latest controversy broke out, and we note that the Welsh Government has said that it is interested in listening to our case.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae'r ddadl hon yn digwydd, fel rydym wedi clywed eisoes, yn erbyn cefndir o bryderon difrifol ynghylch masnachfraint Arfordir y Gorllewin ac felly, mae'n amserol. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol bod Plaid Cymru wedi cefnogi model di-ddifidend ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru ers cyn iddo ddod yn bwnc dadleuol, a nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi dweud bod ganddi ddiddordeb mewn gwrando ar ein hachos.

From the outset, regardless of some of the deluded comments from elsewhere in the Chamber, we have to be clear that we are not critical of any of the companies involved in rail under the current privatised system. When we held the transport portfolio previously, we worked closely with Arriva Trains Wales and others. However, we have a problem with the franchising arrangements. The Arriva franchise was poorly awarded in 2003, which led to a decade of overcrowding. It meant that the Welsh Government was expected to find money from public service budgets to top up the existing subsidy—about £30 million a year on top of what was transferred in the block grant when franchise management was devolved in 2006.

O'r cychwyn cyntaf, er gwaethaf rhai o'r sylwadau camarweiniol gan eraill yn y Siambr, mae'n rhaid inni fod yn glir nad ydym yn feirniadol o unrhyw un o'r cwmnïau sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd o dan y system bresennol sydd wedi'i phreifateiddio. Pan oeddem ni'n gyfrifol am y portffolio trafnidiaeth yn flaenorol, roeddem yn gweithio'n agos gyda Threnau Arriva Cymru ac eraill. Fodd bynnag, mae gennym broblem gyda'r trefniadau masnachfraint. Cafodd masnachfraint Arriva ei dyfarnu'n wael yn 2003, a arweiniodd at ddegawd o orlenwi. Rodd yn golygu bod disgwyl i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i arian o gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus i ychwanegu at y cymhorthdal presennol—tua £30 miliwn y flwyddyn ar ben yr hyn a drosglwyddwyd yn y grant bloc pan gafodd y fasnachfraint ei datganoli yn 2006.

The Wales and borders franchise has been generating profits on the back of the subsidies that are in place, and Plaid Cymru strongly believes that any such future profits should be reinvested in services in order to get the best value for money for the taxpayer.

Mae masnachfraint Cymru a'r gororau wedi creu elw ar gefn y cymorthdaliadau sydd ar waith, ac mae Plaid Cymru yn credu'n gryf y dylai unrhyw elw o'r fath yn y dyfodol gael ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau er mwyn cael y gwerth gorau am arian i'r trethdalwr.

As a rough guide, we know that, in recent years, the Welsh franchise has generated £13 million per year in dividends for shareholders. This is a revenue stream that could fund five new daily services, if we used the current average costs. Without these profits being reinvested, there could be pressure on services at some point due to Welsh Government budgets being cut.

Fel canllaw bras, rydym yn gwybod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bod masnachfraint Cymru wedi cynhyrchu £13 miliwn y flwyddyn mewn difidendau i gyfranddalwyr. Dyma lif refeniw a allai ariannu pum gwasanaeth dyddiol newydd, os oeddem yn defnyddio'r costau cyfartalog presennol. Heb ailfuddsoddi'r elw hwn, gallai fod pwysau ar wasanaethau o ganlyniad i dorri cyllidebau Llywodraeth Cymru.

Commenting on the strength of a not-for-dividend model, Professor Stuart Cole has said that

Wrth sôn am gryfder model di-ddifidend, dywedodd yr Athro Stuart Cole

'it has the potential to keep the profits that are made on the business, and any other surpluses within Wales and within the railway franchise'.

mae ganddo'r potensial i gadw'r elw a wneir ar y busnes, ac unrhyw wargedion eraill yng Nghymru ac o fewn y fasnachfraint rheilffyrdd.

He went on to say that

Yna dywedodd

'the particular problem we had with the Welsh franchise was that it was designed for a low level of demand, and that low level of demand has not, in fact, continued—it has grown substantially. The Welsh government had to acquire more trains, through Arriva, and all that builds up the cost.'

y broblem benodol a gawsom gyda masnachfraint Cymru oedd ei bod wedi'i chynllunio ar gyfer lefel isel o alw, ac nid yw'r lefel isel honno o alw, mewn gwirionedd, wedi parhau—mae wedi tyfu'n sylweddol. Roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gael mwy o drenau, drwy Arriva, ac mae hynny i gyd yn ychwanegu at y gost.

As Leanne Wood said in her opening remarks, a not-for-dividend model could encompass several forms. Network Rail and Glas Cymru have been mentioned as examples of independent companies that have a strategic policy role in providing a service where private competition is inappropriate. We have also heard mention of a co-operative being formed, and officials should look into this, as it would be likely to have strong public support in Wales. The prospect of public ownership also needs to be explored. We know that an emergency provision exists for rail franchises to be brought under public ownership if and when market failure occurs—

Fel y dywedodd Leanne Wood yn ei sylwadau agoriadol, gallai model di-ddifidend gwmpasu sawl ffurf. Cyfeiriwyd at Network Rail a Glas Cymru fel enghreifftiau o gwmnïau annibynnol sydd â rôl polisi strategol wrth ddarparu gwasanaeth lle mae cystadleuaeth breifat yn amhriodol. Rydym hefyd wedi clywed sôn am ffurfio cwmni cydweithredol, a dylai swyddogion edrych i mewn i hyn, gan y byddai'n debygol o gael cefnogaeth gref gan y cyhoedd yng Nghymru. Mae hefyd angen archwilio'r posibilrwydd o berchnogaeth gyhoeddus. Rydym yn gwybod bod darpariaeth frys yn bodoli er mwyn dwyn masnachfreintiau rheilffyrdd o dan berchnogaeth gyhoeddus os a phan y bydd methiant yn y farchnad yn digwydd—

**Mark Isherwood:** Will you give way?

**Mark Isherwood:** A wnewch chi ildio?

**Llyr Huws Gruffydd:** No, I am sorry; I need to carry on.

**Llyr Huws Gruffydd:** Na, mae'n flin gennyf; mae angen i mi barhau.

In Byron Davies's rather discombobulated contribution, he derided a lack of research—'discombobulated' is a word that I have always wanted to use in the Chamber, so I thank him for that opportunity. [*Laughter*.] Maybe he should do some research of his own, because there is already public ownership of the East Coast mainline, where a new arm's-length Government-owned company called Directly Operated Railways was established in 2009 as a result of National Express breaking its contractual obligations. Directly Operated Railways has performed strongly and all of its profits have been reinvested in the East Coast network. It has kept all of the staff from National Express and has, in fact, created 80 additional full-time jobs from some of its profits. It is still generating a profit, notwithstanding the subsidy from which all train operating companies, public or private, benefit. Directly Operated Railways has delivered the highest customer satisfaction rating of the East Coast franchise since records began, and it has also restored the express London to Edinburgh service, which runs four trains every day. Here we have an example of public ownership that is good enough to link up two of western Europe's most dynamic capital cities. All things considered, Directly Operated Railways seems to be a well-managed and well-run company—nothing like the old models of British Rail, by the way. This is a model that should be explored in Wales, along with the other possible options that have been mentioned.

Yng nghyfraniad eithaf dryslyd Byron Davies, mae'n gwatwar diffyg gwaith ymchwil—y gair yw 'discombobulated' yn Saesneg, sy'n air yr wyf bob amser wedi eisiau ei ddefnyddio yn y Siambr, felly diolch iddo am y cyfle hwnnw. [*Chwerthin*.] Efallai y dylai wneud rhywfaint o waith ymchwil ei hun, oherwydd mae rheilffordd yr East Coast eisoes o dan berchenogaeth gyhoeddus, lle cafodd cwmni newydd hyd braich sy'n eiddo i Lywodraeth o'r enw Directly Operated Railways ei sefydlu yn 2009 o ganlyniad i National Express yn torri ei rwymedigaethau cytundebol. Mae Directly Operated Railways wedi perfformio'n gryf ac mae ei holl elw wedi cael ei ailfuddsoddi yn rhwydwaith yr East Coast. Mae wedi cadw ei holl staff o National Express ac, yn wir, mae wedi creu 80 o swyddi ychwanegol llawn amser yn sgîl ei elw. Mae'n dal i gynhyrchu elw, er gwaetha'r cymhorthdal y mae pob cwmni trên, cyhoeddus neu breifat, yn cael budd ohono. Mae Directly Operated Railways bob amser wedi sicrhau cyfraddau uchaf o ran bodlonrwydd cwsmeriaid ym masnachfraint yr East Coast ers i gofnodion ddechrau, ac mae hefyd wedi adfer gwasanaeth cyflym Llundain i Gaeredin, sy'n rhedeg pedair trên bob dydd. Yma mae gennym enghraifft o berchnogaeth gyhoeddus sy'n ddigon da i gysylltu dwy o brifddinasoedd mwyaf deinamig gorllewin Ewrop. O ystyried popeth, ymddengys bod Directly Operated Railways yn gwmni sy'n cael ei reoli a'i redeg yn dda—dim byd tebyg i hen fodelau British Rail, gyda llaw. Dyma fodel y dylid archwilio iddo ymhellach yng Nghymru, ynghyd â'r opsiynau posibl eraill sydd wedi cael eu crybwyll.

Above all, Plaid Cymru wants the not-for-dividend aspect of future services to be ensured through this motion, and we hope that this can be reaffirmed today.

Yn anad dim, mae Plaid Cymru am i'r agwedd ddi-ddifidend ar wasanaethau yn y dyfodol gael ei sicrhau drwy'r cynnig hwn, ac rydym yn gobeithio y gellir ailddatgan hyn heddiw.

**Vaughan Gething:** I welcome the opportunity to speak today, especially as we had the third cross-party rail group meeting this morning. Since our second meeting in June, we have had the welcome decision to electrify the south Wales Valleys lines and to reinstate the plan to electrify the main line to Swansea. I want to recognise the role that MPs, stakeholders outside this place and

**Vaughan Gething:** Croesawaf y cyfle i siarad heddiw, yn enwedig oherwydd y cawsom drydydd cyfarfod y grŵp rheilffyrdd trawsbleidiol y bore yma. Ers ein hail gyfarfod ym mis Mehefin, rydym wedi cael y penderfyniad a groesewir i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd ac adfer y cynllun i drydaneiddio'r brif reilffordd i Abertawe. Rwyf am gydnabod y rôl y mae Aelodau

Members across the Chamber played in lobbying for that decision, as well as the leadership of the Minister for transport, Carl Sargeant, in putting together a successful business case.

Seneddol, rhanddeiliaid y tu allan i'r lle hwn ac Aelodau ar draws y Siambr wedi'i chwarae yn lobïo dros y penderfyniad hwnnw, yn ogystal ag arweiniad y Gweinidog trafnidiaeth, Carl Sargeant, wrth lunio achos busnes llwyddiannus.

Members know of my own interest in transport generally and in the next Wales and borders franchise in particular. I have previously raised the prospect of a business model for the next franchise that would be not for dividend, much like the Glas Cymru model. That is hardly surprising, given that I am a Labour and Co-operative Assembly Member, and it is of course a pledge from the Welsh Labour manifesto for the 2011 elections. I welcome Plaid's support for that aim, but I understand why the Minister cannot commit himself to one business form over another, given his duty not to prejudge the shape of the next franchise. I believe that it is for other Members, including Labour and Co-operative Members, to continue to make the case for that business model and to add to the debate with proposals for how a not-for-dividend franchise could operate.

Mae Aelodau yn gwybod am fy niddordeb mewn trafnidiaeth yn gyffredinol ac ym masnachfraint nesaf Cymru a'r gororau yn benodol. Rwyf wedi sôn yn flaenorol am y posibilrwydd o fodel busnes ar gyfer y fasnachfraint nesaf na fyddai'n rhoi difidend, yn debyg iawn i fodel Glas Cymru. Prin fod hynny'n syndod, o ystyried fy mod yn Aelod Cynulliad Llafur a'r Blaid Gydweithredol, ac wrth gwrs, mae'n addewid ym maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiadau 2011. Croesawaf gefnogaeth Plaid Cymru i'r nod hwnnw, ond rwy'n deall pam na all y Gweinidog ymrwymo i un ffurf busnes dros un arall, o ystyried ei ddyletswydd i beidio â rhagfarnu'r fasnachfraint nesaf. Rwy'n credu mai cyfrifoldeb yr Aelodau eraill, gan gynnwys Aelodau Llafur a'r Blaid Gydweithredol, yw parhau i wneud yr achos dros y model busnes hwnnw ac i ychwanegu at y ddadl gyda chynigion ar gyfer sut y gallai masnachfraint ddi-ddifidend weithredu.

I recognise some of the comments made in the Chamber today and at other times about not simply having idea about the business model itself, but being able to deliver it. I am already working with the Co-operative Party and with stakeholders in the rail industry to produce a further report to take the debate forward, to turn that good idea on paper into something credible that can involve people in the rail industry with the credibility to make it work in practice. I hope to have more to say on that in some detail before the end of this year.

Rwy'n cydnabod rhai o'r sylwadau a wnaed yn y Siambr heddiw ac ar adegau eraill ynghylch nid yn unig cael syniad am y model busnes ei hun, ond ynghylch y gallu i'w gyflawni. Rwyf eisoes yn gweithio gyda'r Blaid Gydweithredol a rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd i lunio adroddiad pellach i fwrw'r ddadl yn ei blaen, i droi'r syniad da hwnnw ar bapur yn rhywbeth credadwy a all gynnwys pobl yn y diwydiant rheilffyrdd gyda'r hygrededd i wneud iddo weithio yn ymarferol. Rwy'n gobeithio cael dweud mwy am hynny yn fanwl cyn diwedd eleni.

We have seen the Welsh Government use its powers in the past to fund specific rail infrastructure investments. Two obvious examples are the Vale of Glamorgan line—a new line that opened in 2005—and the reopening of the Ebbw Vale line in 2007. However, we know that rail infrastructure investment is not a devolved matter. Welsh Labour has been clear for a number of years that the Welsh Government should have a

Rydym wedi gweld Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau yn y gorffennol i ariannu buddsoddiadau seilwaith rheilffyrdd penodol. Dwy enghraifft amlwg yw rheilffordd Bro Morgannwg—rheilffordd newydd a agorwyd yn 2005—ac ailagor rheilffordd Glynebwy yn 2007. Fodd bynnag, gwyddom nad yw buddsoddiad seilwaith rheilffyrdd yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mae Llafur Cymru wedi bod yn glir ers nifer

greater say in rail decisions that affect Wales. Certainly, I would like to see us become the lead decision-making body on the Wales and borders franchise, but I am very clear that full funding must go with any further devolution.

o flynyddoedd y dylai Llywodraeth Cymru gael mwy o lais mewn penderfyniadau rheilffordd sy'n effeithio ar Gymru. Yn sicr, hoffwn ein gweld yn dod yn brif gorff gwneud penderfyniadau ar fasnachfraint Cymru a'r gororau, ond rwy'n glir iawn bod rhaid i gyllid llawn fynd law yn llaw ag unrhyw ddatganoli pellach.

Welsh Labour has also been very clear that we want Network Rail to be much more accountable to the Welsh Government for its work in Wales. I would be interested to hear from the Minister later in the debate whether there has been a shift in attitude or emphasis from the new Secretary of State for Transport on future options for the Wales and borders franchise. Regardless of party, we should all recognise that sweeping out yet another team of transport Ministers at Westminster is not good for the rail industry or for the travelling public. We need greater certainty, a sense of vision and a clear sense of direction—the farce around the West Coast main line certainly does not help that.

Mae Llafur Cymru hefyd wedi bod yn glir iawn ein bod am i Network Rail fod yn llawer mwy atebol i Lywodraeth Cymru am ei waith yng Nghymru. Byddai gennyf ddiddordeb clywed gan y Gweinidog yn ddiweddarach yn y ddadl a fu newid mewn agwedd neu bwyslais gan yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Drafnidiaeth ar opsiynau yn y dyfodol ar gyfer masnachfraint Cymru a'r gororau. Beth bynnag fo'ch plaid, dylai pob un ohonom gydnabod nad yw cael gwared ar dîm arall o Weinidogion trafnidiaeth yn San Steffan yn dda i'r diwydiant rheilffyrdd neu'r cyhoedd sy'n teithio. Mae angen mwy o sicrwydd arnom, ymdeimlad o weledigaeth ac ymdeimlad clir o gyfeiriad—yn sicr nid yw'r ffars sy'n gysylltiedig â rheilffordd Arfordir y Gorllewin o gymorth yn hynny o beth.

The structure of rail decision making and the business model cannot be our only concerns. We need a much greater focus in the next franchise on the passengers. We need a franchise agreement that cries 'improvement' for the passenger, and not something that is simply a standstill franchise. We should not be left in a position where capacity and comfort issues on trains are left unaddressed for the duration of a franchise, without an inclination on the part of the operator to address those concerns or the muscle for the Government to require action to be taken. We all know, from our postbags and from experience, of the shockingly poor quality of some of the rolling stock serving our communities at present.

Nid y strwythur gwneud penderfyniadau ar reilffyrdd a'r model busnes yw ein hunig bryderon. Mae angen inni ganolbwyntio llawer mwy ar y teithiwyr yn y fasnachfraint nesaf. Mae angen cytundeb masnachfraint arnom sy'n gallw am 'welliant' i deithwyr, ac nid rhywbeth sy'n fasnachfraint sy'n aros yn ei hunfan. Ni ddylem gael ein gadael mewn sefyllfa lle na ymdrinnir â materion capasiti a chyfforddusrwydd ar drenau dros gyfnod masnachfraint, heb awydd ar ran y gweithredwr i fynd i'r afael â'r pryderon hynny neu roi'r grym i'r Llywodraeth sicrhau bod camau yn cael eu cymryd. Rydym i gyd yn gwybod, o'n bagiau post a'n profiad, o'r ansawdd arswydus o wael rhai o'r cerbydau trên sy'n gwasanaethu ein cymunedau ar hyn o bryd.

We should also ensure that, in our continuing debate over the next franchise, we talk seriously about waiting facilities for passengers. We know that they are not always accessible, and they are certainly not always comfortable, especially given our climate.

Dylem hefyd sicrhau, yn ein dadl barhaus ar y fasnachfraint nesaf, ein bod yn siarad o ddifrif am gyfleusterau aros i deithwyr. Rydym yn gwybod nad ydynt bob amser yn hygyrch, ac yn sicr nid ydynt yn gyfforddus, yn enwedig o ystyried ein hinsawdd.

We certainly need to make sure that the next franchise operator is an enabler of integrated transport, and that especially includes the bus network. That is a concern in all parts of Wales, and it has been brought into much sharper focus with the debate on city regions. We know that city regions cannot be as successful as they should be if we get the transport side wrong.

Yn sicr mae angen inni wneud yn siŵr bod gweithredwr nesaf y fasnachfraint yn alluogwr trafnidiaeth integredig, a bod hynny yn arbennig yn cynnwys y rhwydwaith bysiau. Mae hynny'n peri pryder ym mhob rhan o Gymru, ac mae wedi cael ffocws llawer cliriach gyda'r ddadl ar ddinas-ranbarthau. Rydym yn gwybod na all dinas-ranbarthau fod mor llwyddiannus ag y dylent os bydd yr ochr cludiant yn anghywir.

I expect that we will agree on a form of words today, but over the coming months, we will need to do much more to help to shape the next franchise to serve our interests. That will require us to speak not only to people in the Government here in Wales, but also to colleagues in Westminster. I certainly want to see a franchise that reinvests an operating profit in a network that generally serves the interests of business and the travelling public.

Rwy'n disgwyl y byddwn yn cytuno ar ffurf o eiriad heddiw, ond dros y misoedd nesaf, bydd angen inni wneud llawer mwy i helpu i lunio'r fasnachfraint nesaf i wasanaethu ein buddiannau. Mae hynny'n gofyn i ni siarad nid yn unig â phobl yn y Llywodraeth yma yng Nghymru, ond hefyd â chydweithwyr yn San Steffan. Rwy'n sicr fy mod am weld masnachfraint sy'n ailfuddsoddi elw gweithredol mewn rhwydwaith sy'n gyffredinol yn gwasanaethu buddiannau busnes a'r cyhoedd sy'n teithio.

5.00 p.m.

**Alun Ffred Jones:** Rwyf am siarad am bwynt 3b) o'r cynnig. Hwn yw'r rhan y mae'r Torïaid am ei dileu, sy'n dangos cyn lleied o uchelgais sydd ganddynt o blaid Cymru ac o ran y rheilffyrdd yng Nghymru. Byddai datganoli'r rhwydwaith rheilffyrdd—y cledrau, y gorsafoedd, y signalau ac yn y blaen—yn rhoi dau beth i ni: rheolaeth dros ddatblygiad ein rhwydwaith, a mwy o fuddsoddiad. Pe baem ni ond yn derbyn cyllid ar sail y fformiwla Barnett, byddai'n cynyddu'r buddsoddiad yng Nghymru yn sylweddol. Ar hyn o bryd, hyd y gallwn ei weld o'r ffigurau diweddaraf, roedd gwariant Network Rail yn 2009-10 tua £200 miliwn yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad yn yr Alban yn £650 miliwn ar gyfartaledd bob blwyddyn—tair gwaith lefel y buddsoddiad yng Nghymru i wlad sydd â phoblogaidd o ddwywaith gymaint.

**Alun Ffred Jones:** I will speak to point 3b) of the motion. That is the part that the Tories want to delete, which shows how little ambition they have for Wales and the railways in Wales. Devolving the railway network—the tracks, stations, signals and so on—would give us two things: control over the development of our network, and greater investment. If we were to receive only funding on the basis of the Barnett formula, it would increase investment in Wales substantially. At the moment, from what we can see from the latest figures, Network Rail's expenditure in 2009-10 was about £200 million in Wales. Investment in Scotland is £650 million, on average, every year—three times the level of investment in Wales, for a country that has a population that is twice the size.

Roeddwn yn gwrando yn ofalus ar sylwadau Vaughan Gething, ac rwy'n eu croesawu yn fawr iawn. Cafodd rhwydwaith yr Alban ei ddatganoli ym 2006, ac mae adran yr Alban o Network Rail yn atebol i Weinidogion yr Alban bellach, trwy asiantaeth hyd-braich, Transport Scotland. Wrth ddatganoli'r

I listened carefully to the comments made by Vaughan Gething, and I welcome them very much. The network in Scotland was devolved in 2006, and the Scottish wing of Network Rail is now answerable to Scottish Ministers, through an arm's-length body, Transport Scotland. In devolving the responsibility, the

cyfrifoldeb, datganolwyd y gyllideb—mae'n debyg yn ôl fformiwla Barnett. Mae'r ffigurau'n ddiddorol iawn ac yn dangos yr hyn sy'n bosibl.

budget was devolved—in all likelihood according to the Barnett formula. These figures are very interesting and show what is possible.

Soniodd Eluned Parrott bod angen mwy o wybodaeth. Dyma'r wybodaeth am Network Rail yn yr Alban: rhwng 2014 a 2019, yn ystod y pum mlynedd hynny, bydd Llywodraeth yr Alban—sy'n topio i fyny'r gwariant hwn, wrth gwrs—yn buddsoddi £3.3 biliwn yn rhwydwaith rheilffyrdd y wlad. Gyda llaw, y ffigur ar gyfer Lloegr a Chymru yn y cyfnod hwnnw, yn fras, yw £9.5 biliwn. Hynny yw, mae'r Alban yn gwario tua chwarter holl wariant y Deyrnas Unedig drwy help Llywodraeth yr Alban. Dyna'r hyn y dylem fod yn anelu ato yma yng Nghymru. Nid oes dwywaith bod y dystiolaeth yn glir: bod Cymru wedi ei thangyllido o ran buddsoddiad yn y rheilffyrdd ers blynyddoedd.

Eluned Parrot mentioned the need for more information. This is the information on Network Rail in Scotland: between 2014 and 2019, during those five years, the Scottish Government, which tops up this expenditure of course, will invest £3.3 billion in the railway network in that country. By the way, the figure for England and Wales during that period will be in the order of £9.5 billion. That is, Scotland is spending a quarter of the whole expenditure in the UK, with the help of the Scottish Government. That is what we should be aiming at here in Wales. There is no doubt that the evidence is clear: Wales has been underfunded in terms of investment in its railways for years.

Rydym yn gyfrifol am ddatblygu'r economi a thrafnidiaeth, ond heb yr hawl i wneud penderfyniadau ar y rhwydwaith rheilffyrdd. Nid yw'n gwneud dim synnwyr o gwbl. Yn wir, tan yn ddiweddar iawn, nid oedd gennym yr hawl hyd yn oed i gael gwybod faint oedd yn cael ei wario ar ein rheilffyrdd yng Nghymru. Os nad oes gennych chi'r wybodaeth sylfaenol honno, yn amlwg iawn, nid oes gennych chi ffordd o gynllunio ar gyfer y dyfodol na chreu system integredig o drafnidiaeth. Dyna'r hyn rydym yn chwilio amdano yn y pen draw yng Nghymru ac, wrth gwrs, i wella'r cysylltiadau amlwg rhwng y gorllewin a'r de, a rhwng y gogledd a'r de a'r de a'r gogledd. Mae honno'n thema y bydd Dafydd Elis-Thomas, rwy'n siŵr, yn barod iawn i ymhelaethu arni ryw dro yn y dyfodol. Ar ddatganoli—

We are responsible for developing the economy and transport, but we do not have the right to make decisions on the railway network. It does not make any sense at all. Indeed, until very recently, we did not even have the right to know how much was spent on our railways here in Wales. If we do not have that basic information, it is very clear that we have no way of planning for the future or creating an integrated system of transport. That is what we are looking for, ultimately, in Wales and, of course, to improve the obvious links between west and south, north and south, and south and north. That is a theme that I am sure Dafydd Elis-Thomas will be very willing to expand on at some point in future. On devolution—

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Ar y pwynt hwnnw, rwy'n ddiolchgar iawn i Alun Ffred Jones. Cyfeiriodd Byron Davies, ar yr ochr arall, yn ei araith ysgubol wrth agor y ddadl bod yr holl wariant ar reilffyrdd o dan arweiniad disglair ein Gweinidog trafnidiaeth, y cyn Ddirprwy Brif Weinidog, yn wastraff arian. A fyddai Mr Alun Ffred Jones yn cytuno bod y buddsoddiad, yn enwedig hwnnw yn nyffryn Dyfi, er mwyn mynd yn gynt o Bwllheli i Gaerdydd, yn syniad da iawn?

**Lord Elis-Thomas:** On that point, I am extremely grateful to Alun Ffred Jones. However, Byron Davies, on the other side of the Chamber, made a sweeping statement in opening the debate that all expenditure on railways under the excellent leadership of our Minister for transport, the former Deputy First Minister, was a waste of money. Would Mr Alun Ffred Jones agree that the investment, particularly in the Dyfi valley, allowing quicker travel from Pwllheli to Cardiff, was excellent?

**Alun Ffred Jones:** Mae nifer o gynlluniau a luniwyd yn y cyfnod hwnnw, a rhai cynlluniau sydd ar y gweill ar hyn o bryd dan y Gweinidog presennol, yn mynd i gryfhau'r rhwydwaith hwnnw a'n galluogi i deithio yn gynt ac yn fwy diogel ar hyd a lled Cymru, ond mae ffordd bell i fynd, o ran croesawu'r datblygiadau hynny. O ddatganoli Network Rail a'r gyllideb, gallem ddefnyddio'r hawliau benthyg a ddaw—gobeithio, yn ôl y trafodaethau y prynhawn yma—i gynyddu'r gyllideb ac i gael cynllun tymor hir i uwchraddio'r rhwydwaith yma yng Nghymru. Mae camau cadarnhaol wedi'u cymryd gan Network Rail ei hun; mae strwythur rheolaeth yn ei le yn barod. Mae'r sgerbwd yn ei le, a'r hyn sydd ar ôl yw penderfyniad ac ymrwymiad gwleidyddol gan bawb yma heddiw. Cefnogwch y cynnig, os gwelwch yn dda.

**Alun Ffred Jones:** A number of schemes formed at that time, and some schemes in the pipeline under the current Minister, will strengthen that network and allow us to travel more quickly and safely across Wales, but there is a long way to go, in terms of welcoming these developments. In devolving Network Rail and the budget, we could use the borrowing rights that will come—hopefully, from discussions this afternoon—to increase the budget and to have a long-term scheme to upgrade the network here in Wales. Positive steps have been taken by Network Rail itself; a management structure is already in place. The skeleton is in place, and what is left is a political decision and commitment by everyone here today. Please support the motion.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I thank Members for the interesting contributions that they have made during the Plaid Cymru debate today. I am pleased that those contributions looked at shaping future opportunities for the franchise in Wales. I preface my remarks with the statement that I would not want to predetermine any judgment that I or any ministerial colleague may have to make in the awarding of the rail franchise in 2018. I say that with great knowledge of what happened last week in terms of the West Coast main line and the key rail links to Wales. As we are all aware, the Department for Transport identified errors in the way that the inflation in passenger numbers was taken into account during its review, which led to the cancellation of the procurement programme.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch i'r Aelodau am y cyfraniadau diddorol a wnaed ganddynt yn ystod dadl Plaid Cymru heddiw. Yr wyf yn falch bod y cyfraniadau hynny yn edrych ar lunio cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer y fasnachfraint yng Nghymru. Hoffwn ragflaenu fy sylwadau gyda'r datganiad na fyddwn yn dymuno rhag-gyflyru unrhyw ddyfarniad y bydd yn rhaid i mi neu unrhyw gydweithiwr gweinidogol ei wneud wrth ddyfarnu'r fasnachfraint rheilffyrdd yn 2018. Yr wyf yn dweud hynny gan fod gennyf wybodaeth drylwyr am yr hyn a ddigwyddodd yr wythnos diwethaf o ran prif reilffordd Arfordir y Gorllewin ac am y cysylltiadau rheilffordd allweddol i Gymru. Fel yr ydym i gyd yn gwybod, nododd yr Adran Drafnidiaeth wallau yn y ffordd yr oedd chwyddiant yn nifer y teithwyr yn cael ei ystyried yn ystod ei adolygiad, ac arweiniodd hyn at ganslo'r rhaglen gaffael.

The Secretary of State for Transport has commissioned two independent reviews to be undertaken: the first into what went wrong with the West Coast competition and the lessons to be learned, and the second into the wider Department for Transport rail franchise programme—both of which were overseen by leading figures. It is important that these reviews identify what went wrong and how Government can manage the process better,

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi comisiynu dau adolygiad annibynnol i gael eu cynnal: y cyntaf i'r hyn aeth o'i le gyda'r gystadleuaeth ar gyfer Arfordir y Gorllewin a'r gwersi i'w dysgu, a'r ail i raglen ehangach masnachfraint rheilffyrdd yr Adran Drafnidiaeth—y ddau ohonynt i'w goruchwylio gan unigolion blaenllaw. Mae'n bwysig bod yr adolygiadau

so that the public can have confidence that the system works to deliver value for money and so that the rail industry can be confident that its bids will be treated fairly.

hyn yn nodi beth aeth o'i le a sut y gall y Llywodraeth reoli'r broses yn well, fel y gall y cyhoedd fod yn hyderus bod y system yn gweithio i ddarparu gwerth am arian ac fel y gall y diwydiant rheilffyrdd fod yn hyderus y bydd ei gynigion yn cael eu trin yn deg.

Currently, as Members are aware, the Welsh Government is a joint signatory with the Secretary of State for Transport on the current Wales and borders rail franchise. The new franchise is due to be in place by 2018, by which time we should have a significant proportion of our rail network electrified. We must have a clear plan as to whether further investment in modernising our railway will be needed. Members will also be aware, from our debates and my updates on the business case for electrification, that the key rail decision-making powers lie with the UK Government. As we begin the detailed work in advance of 2018, and as a result of our manifesto commitment, we will be examining the case for additional powers to enable Wales to shape the future of rail here.

Ar hyn o bryd, fel y gŵyr yr Aelodau, mae Llywodraeth Cymru yn llofnodwr ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd presennol Cymru a'r gororau. Mae'r fasnachfraint newydd i fod wedi'i sefydlu erbyn 2018, ac erbyn hynny dylai fod cyfran sylweddol o'n rhwydwaith rheilffyrdd wedi'i thrydaneiddio. Mae'n rhaid i ni gael cynllun clir ynghylch a fydd angen buddsoddiad ychwanegol ar gyfer moderneiddio ein rheilffyrdd. Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol, o'n dadleuon a fy niweddariadau ar yr achos busnes dros drydaneiddio, bod y pwerau allweddol i wneud penderfyniadau ar y rheilffyrdd yn gorwedd gyda Llywodraeth y DU. Wrth i ni ddechrau ar y gwaith manwl ar gyfer 2018, ac o ganlyniad i'n hymrwymiad yn ein maniffesto, byddwn yn edrych ar yr achos dros bwerau ychwanegol i alluogi Cymru i lunio dyfodol y rheilffyrdd yma.

**Simon Thomas:** I am grateful to the Minister for giving way. Could he confirm my understanding of his party's manifesto commitment, which is that they cannot and you cannot achieve that, if you do not have some form of further devolution of powers over rail?

**Simon Thomas:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. A wnaiff gadarnhau fy nealltwriaeth o ymrwymiad maniffesto ei blaid, sef na allant hwy ac ni allwch chithau gyflawni hynny, os na chewch chi ryw fath o ddatganoli pellach o bwerau dros y rheilffyrdd?

**Carl Sargeant:** For us to fully determine the shape of a new franchise, there would have to be some changes. However, if you allow me to continue, I might be able to give you some more information with regard to that.

**Carl Sargeant:** Er mwyn i ni benderfynu'n llawn ar ffurf y fasnachfraint newydd, byddai'n rhaid cael rhai newidiadau. Fodd bynnag, os gwnewch chi ganiatáu i mi fynd ymlaen, efallai y byddaf yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi ynglŷn â hynny.

We need to consider the options for the change carefully. The way that the legal and funding structures that underpin the railways have developed means that the relationships are very complex, and funding arrangements and significant issues of risk apportionment are all part of that. I want to ensure that we have transparency on the true funding costs, the risks and the obligations, so that we can make those informed decisions better on what

Mae angen i ni ystyried y dewisiadau ar gyfer y newid yn ofalus. Mae'r ffordd y mae'r strwythurau cyfreithiol ac ariannol sy'n sail i'r rheilffyrdd wedi datblygu yn golygu bod y berthynas yn gymhleth iawn, ac mae trefniadau ariannu a materion pwysig yn ymwneud â dosrannu risg, i gyd yn rhan o hynny. Mae arnaf eisiau sicrhau ein bod yn cael tryloywder ar y gwir gostau ariannu, y risgiau a'r rhwymedigaethau, fel y gallwn

is best for passengers in Wales and for the railway in Wales. If we are to have a railway that meets the needs of the people of Wales, then, first, we must be clear about what we want to do with it. We know that it serves many different purposes across Wales and we need to make sure that there is adequate provision in place to meet all the demands. We want to make sure that the system meets the needs of users across Wales, while also supporting our society and the economy.

wneud y penderfyniadau gwybodus hynny yn well o ran yr hyn sydd orau i deithwyr yng Nghymru ac i'r rheilffordd yng Nghymru. Os ydym am gael rheilffordd sy'n diwallu anghenion pobl Cymru, yna, yn gyntaf, rhaid i ni fod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym yn dymuno ei wneud â hi. Rydym yn gwybod ei bod yn diwallu nifer o wahanol ddibenion ar draws Cymru, ac mae angen i ni wneud yn siŵr bod darpariaeth ddigonol ar waith i fodloni'r holl ofynion. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod y system yn diwallu anghenion defnyddwyr ledled Cymru, ac ar yr un pryd, yn cefnogi ein cymdeithas a'r economi.

On Monday, 1 October, I began my call for evidence on the future of rail in Wales by bringing together rail industry leaders and experts in a forum where they could share their expertise and where the Government could listen. I have been clear, in line with the Welsh Labour manifesto commitment, that we are exploring the feasibility of not-for-dividend rail franchising. I am also examining the franchising process to see whether there is anything about the process itself that has resulted in alternative methods and modes of franchise, whether it is not-for-dividend or the co-operative model.

Ddydd Llun, 1 Hydref, dechreuais fy ngalwad am dystiolaeth ar ddyfodol y rheilffyrdd yng Nghymru trwy ddwyn ynghyd arweinwyr ac arbenigwyr y diwydiant rheilffyrdd mewn fforwm lle y gallent rannu eu harbenigedd a lle y gallai'r Llywodraeth wrando. Rwyf wedi bod yn glir, yn unol ag ymrwymiad maniffesto Llafur Cymru, ein bod yn archwilio ymarferoldeb masnachfraint rheilffyrdd di-ddifidend. Rwyf hefyd yn edrych ar y broses masnachfraint i weld a oes unrhyw beth yn ymwneud â'r broses ei hun sydd wedi arwain at ddulliau amgen o fasnachfraint, pa un a yw'n fodel di-ddifidend neu'r model cydweithredol.

Any future approach will be informed by learning from these reviews and the UK has commissioned the West Coast review after the fiasco.

Bydd unrhyw ymdriniaeth yn y dyfodol yn cael ei llywio drwy ddysgu o'r adolygiadau hyn ac mae'r DU wedi comisiynu adolygiad o Arfordir y Gorllewin ar ôl y llanast.

**Mark Isherwood:** I should declare that my previous career was in a not-for-profit organisation. Even if an exemption could be obtained to allow the Welsh Government to exempt the Wales and borders rail franchise from the usual rail franchise process, what impact is EU law likely to have, given that, as I understand it, EU law still requires franchise contracts to be advertised and to go out to some form of limited tender?

**Mark Isherwood:** Dylwn ddatgan bod fy ngyrfa flaenorol mewn sefydliad nid-er-elw. Hyd yn oed pe gellid cael esemptiad i alluogi Llywodraeth Cymru i eithrio masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r gororau o'r broses masnachfraint rheilffyrdd arferol, pa effaith y mae cyfraith yr UE yn debygol o'i chael, o gofio, os wyf wedi deall yn iawn, bod cyfraith yr UE yn parhau i fynnu bod cytundebau masnachfraint i gael eu hysbysebu a'u rhoi allan i ryw fath o dendr cyfyngedig?

**Carl Sargeant:** The whole process, as I have been explaining, is extremely complex. I have made our position as a Government clear regarding all the opportunities, whether they are not-for-dividend or otherwise,

**Carl Sargeant:** Mae'r broses gyfan, fel yr wyf wedi bod yn egluro, yn hynod o gymhleth. Rwyf wedi gwneud ein safbwynt fel Llywodraeth yn glir ynghylch yr holl gyfleoedd, pa un a ydynt yn ddi-ddifidend

without ruling out anything in between, on the basis that we will have to make a decision on that process at a later time. I have many points in common with Plaid Cymru's views on the decision-making process and where it lies, but this is a complex issue and we have to work through it before 2018. I understand that your view of public ownership and the potential of that is very different to what other people in the Chamber may be thinking.

neu beidio, heb ddiystyru unrhyw beth yn y canol, ar y sail y bydd rhaid i ni wneud penderfyniad ar y broses honno yn ddiweddarach. Mae gen i lawer o bwyntiau yn gyffredin â barn Plaid Cymru ar y broses o wneud penderfyniadau a phwy sy'n gyfrifol am hynny, ond mae hwn yn fater cymhleth ac mae'n rhaid gweithio i'w ddatrys cyn 2018. Rwyf yn deall bod eich barn ar berchnogaeth gyhoeddus a photensial hynny yn wahanol iawn i'r hyn y gallai pobl eraill yn y Siambr fod yn ei feddwl.

On Network Rail, I want to continue to improve our relationship with it. I welcomed the establishment of the Network Rail route manager in November 2011, and I have met with the managing director of the Wales route on many occasions. I believe that that relationship is being built successfully. However, I will have more discussions with the Secretary of State for Transport very soon about what that might lead to. We need to build new opportunities for Wales and explore all types of franchising that, as Eluned Parrott made reference to, are good for the consumer—the people who use it. However, the franchise also needs to be good for the people who work in the industry and I am keen to understand that better.

Ar Network Rail, rwyf eisiau parhau i wella ein perthynas ag ef. Croesewais sefydlu rheolwr llwybr Network Rail ym mis Tachwedd 2011, ac rwyf wedi cwrdd â rheolwr gyfarwyddwr llwybr Cymru ar sawl achlysur. Credaf fod y berthynas yn cael ei hadeiladu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, byddaf yn cael mwy o drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn fuan iawn am yr hyn y gallai hynny arwain ato. Mae angen i ni adeiladu cyfleoedd newydd ar gyfer Cymru ac archwilio pob math o fasnachfreintio sydd, fel y cyfeiriodd Eluned Parrott ato, yn dda ar gyfer y defnyddwyr—y bobl sy'n ei defnyddio. Fodd bynnag, mae angen i'r fasnachfraint fod yn dda hefyd ar gyfer y bobl sy'n gweithio yn y diwydiant ac rwyf yn awyddus i ddeall hynny'n well.

On the broader issue of rail infrastructure, there are significant opportunities ahead if we consider franchising, electrification, the securing of new rolling stock, the redefining of the Welsh Government's role in deciding on provision, and how all that comes together. We are planning for the next railway control period and I have made it clear that we must also focus on the case for investing in north Wales, particularly on electrification. I have already written to the new Secretary of State for Transport on this issue.

O ran y mater ehangach o seilwaith rheilffyrdd, mae cyfleoedd arwyddocaol o'n blaenau os ydym yn ystyried masnachfreintio, trydaneiddio, sicrhau cerbydau rheilffordd newydd, ailddiffinio rôl Llywodraeth Cymru wrth benderfynu ar y ddarpariaeth, a sut mae hyn i gyd yn dod at ei gilydd. Rydym yn cynllunio ar gyfer y cyfnod rheoli rheilffordd nesaf ac rwyf wedi ei gwneud yn glir bod yn rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar yr achos dros fuddsoddi yng ngogledd Cymru, yn enwedig ar drydaneiddio. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Drafnidiaeth ar y mater hwn.

There are many challenges, which I referred to earlier. The majority of the decision-making and funding-stream processes sit within the responsibility of the UK Government. That is covered by the

Mae llawer o heriau, fel y cyfeiriais atynt yn gynharach, yn ein hwynebu. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau a'r prosesau ffrwd-arian yn dod o dan gyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Mae hynny'n cael ei gwmpasu gan y

procurement process, which must be fair and comply with the requirements of European law. However, I am keen to explore new opportunities for Wales—done in the right way. Discussions with the Secretary of State for Transport will be critical in that process.

broses gaffael, ac mae'n rhaid i hynny fod yn deg a chydymffurfio â gofynion cyfraith Ewropeaidd. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i archwilio cyfleoedd newydd i Gymru—a gwneud hynny yn y ffordd gywir. Bydd trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn hollbwysig yn y broses honno.

Over the coming months, there will be opportunities to contribute to the development of a position on our rail future in Wales. I hope that today's positive contributions from Members mean that they will support me in the process of developing a future rail service for Wales that is supported by the industry, consumers and the people who work closely with the rail industry in Wales.

Dros y misoedd nesaf, bydd cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu safbwynt ar ddyfodol ein rheilffyrdd yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio y bydd y cyfraniadau cadarnhaol gan Aelodau heddiw yn golygu y byddant yn fy nghefnogi yn y broses o ddatblygu gwasanaeth rheilffyrdd ar gyfer y dyfodol i Gymru sy'n cael ei gefnogi gan y diwydiant, y defnyddwyr, a'r bobl sy'n gweithio'n agos gyda'r diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru.

**Simon Thomas:** I thank everyone who has taken part in the debate today. I want to address some of the speakers and speak to some of the amendments. Before I do that, let me put on record our view as a party on why we brought this debate forward and why we are talking about these issues today. The failure of the break up and privatisation, and the vertical break up in particular, of the UK railway system has led to a series of disastrous pieces of decision making and marketing and a disastrous provision of services.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw. Rwyf eisiau annerch rhai o'r siaradwyr a rhoi sylw i rai o'r gwelliannau. Cyn i mi wneud hynny, gadewch i mi nodi ar goedd ein barn fel plaid ar pam y daethom â'r ddadl hon gerbron, a pham yr ydym yn sôn am y materion hyn heddiw. Mae methiant y datgymalu a phreifateiddio, yn enwedig y datgymalu fertigol, o system reilffyrdd y DU wedi arwain at gyfres o benderfyniadau a threfniadau marchnata trychinebus a darpariaeth drychinebus o wasanaethau.

When we talk about issues around the current situation on the West Coast main line, we need to bear in mind the background. Railtrack failed because it was not delivering for the public good. It was a private model that could not deliver for public good. It had to be taken over by Network Rail, as a non-dividend-making body. The East Coast main line, as Llyr Huws Gruffydd mentioned, has failed and has had to be taken over by directly operated railways. We want to ensure that, in Wales, we prepare for the future now. As Llyr and Ffred have set out, the present franchise system, although operating, is based on no growth. It has not delivered for Wales and has not enabled us to grow our railways, except by using non-railway money from our Barnett consequentials to invest in railways. Also, it has allowed £13 million a year to be sucked out and paid to

Wrth i ni sôn am faterion yn ymwneud â'r sefyllfa bresennol ar brif reilffordd Arfordir y Gorllewin, mae angen i ni gadw'r cefndir mewn cof. Methodd Railtrack am nad oedd yn cyflawni er lles y cyhoedd. Yr oedd yn fodel preifat na allai gyflawni er lles y cyhoedd. Roedd yn rhaid iddo gael ei gymryd drosodd gan Network Rail, fel corff di-ddifidend. Mae prif reilffordd Arfordir y Dwyrain, fel y crybwyllodd Llyr Huws Gruffydd, wedi methu ac wedi gorfod cael ei chymryd drosodd gan Directly Operated Railways. Rydym eisiau sicrhau ein bod, yng Nghymru, yn paratoi nawr ar gyfer y dyfodol. Fel mae Llyr a Ffred wedi nodi, mae'r system fasnachfraint bresennol, er ei bod yn gweithredu, yn seiliedig ar ddim twf. Nid yw wedi cyflawni dros Gymru ac nid yw wedi ein galluogi i dyfu ein rheilffyrdd, ac eithrio drwy ddefnyddio arian nad yw ar gyfer y

shareholders, wherever they may be outside Wales, and not directly reinvested.

rheilffyrdd o'n symiau canlyniadol Barnett i fuddsoddi mewn rheilffyrdd. Hefyd, mae wedi caniatáu i £13 miliwn y flwyddyn gael ei sugno allan a'i dalu i gyfranddalwyr, lle bynnag y bônt y tu allan i Gymru, ac nid cael ei ail-fuddsoddi yn uniongyrchol.

5.15 p.m.

We are not wedded to any particular vehicle for how we might take this forward in Wales, but we want it to be a non-dividend model so that the money made in Wales from the growth in our railways—and we certainly want to see that in sustainable development terms, with sustainable transport solutions—is reinvested back into the railways in Wales. It is as simple as that. That is the red line in the sand for Plaid Cymru. I am disappointed that, although some people are interested in this idea, they are not as interested as we are in reinvesting money back in Wales. That is what we want to see.

Nid ydym yn gaeth i unrhyw ddull penodol ar hyn o bryd ar gyfer sut y gallem fwrw ymlaen â hyn yng Nghymru, ond yr ydym am iddo fod yn fodel di-ddifidend fel bod yr arian a wneir o dwf yn ein rheilffyrdd yng Nghymru—ac rydym yn sicr eisiau gweld hynny yn nhermau datblygu cynaliadwy, gydag atebion trafnidiaeth cynaliadwy—yn cael ei ail-fuddsoddi yn y rheilffyrdd yng Nghymru. Mae mor syml â hynny. Dyna'r llinell goch yn y tywod i Blaid Cymru. Rwyf yn siomedig, er bod rhai pobl â diddordeb yn y syniad hwn, nad oes ganddynt gymaint o ddiddordeb â ni mewn ail-fuddsoddi arian yn ôl yng Nghymru. Dyna beth yr ydym ni am ei weld.

Turning to the amendments, the amendment from the Conservatives, lamentably backed up by the Liberal Democrats—although it has been ruled out of order, thank goodness—seeks to delete part of point 1 of the motion, because they cannot agree that this is incompetence. Well, what did the Daily Torygraph—I mean *The Daily Telegraph*, describe this decision-making process as just today? 'Incompetence' on a 'dizzying scale'. What did a Conservative MP say about this Government? He said that there was incompetence at the highest levels of Government. That Conservative MP was one David Davies, who might be known to the people opposite. It is true that he was talking about the major issue of gay marriage and not the piddling issue of the west coast main line and of £40 million to £100 million of public money being wasted. Nevertheless, he recognised that this Government in Westminster has incompetence at the highest levels. Whether it is pleb-gate or west-coast-main-line-gate, there is incompetence and a failure to deliver.

Gan droi at y gwelliannau, mae'r gwelliant gan y Ceidwadwyr, gyda chefnogaeth druenus gan y Democratiaid Rhyddfrydol—er ei fod wedi cael ei ddyfarnu'n annerbyniol, diolch byth—yn ceisio dileu rhan o bwynt 1 y cynnig, oherwydd na allant gytuno bod hyn yn aflerwch. Wel, sut y disgrifiodd Y Daily Torygraph—y *Daily Telegraph* dwi'n feddwl, y broses gwneud penderfyniadau hon heddiw ddiwethaf? Aflerwch ar raddfa syfrdanol. Beth ddywedodd AS Ceidwadol am y Llywodraeth hon? Dywedodd fod aflerwch ar y lefelau uchaf yn y Llywodraeth. David Davies oedd yr AS Ceidwadol hwnnw, a allai fod yn hysbys i'r bobl gyferbyn. Mae'n wir mai am y mater pwysig o briodas hoyw yr oedd yn sôn ac nid am fater pitw prif reilffordd arfordir y gorllewin nac am £40 miliwn i £100 miliwn o arian cyhoeddus yn cael ei wastraffu. Serch hynny, roedd yn cydnabod bod y Llywodraeth hon yn San Steffan yn dangos aflerwch ar y lefelau uchaf. Pa un a yw'n pleb-gate neu'n brif-reilffordd-arfordir-y-gorllewin-gate mae'n dangos aflerwch a methiant i gyflawni.

I did not understand Byron Davies's argument at all. He talked of wanting a

Nid oeddwn yn deall dadl Byron Davies o gwbl. Soniodd am fod eisiau cenedl

connected nation, yet talked against the investment that Ieuan Wyn Jones made to the road infrastructure in the last Government. He talked against linking up the nation with an airline, but getting from one end of the nation to the other in a reasonable period of time would be the minimum that any nation in the western world would expect. He talked against public sector rail services and said that he was against them. Yet, as Llyr Huws Gruffydd pointed out, the east coast main line is run by Directly Operated Railways. What is more, it is likely that Directly Operated Railways will have to take over the west coast main line because of the legal situation. There will be a statement coming out in the next week. It is likely that, after 6 December, we will have directly operated public sector rail services on the west coast main line, directly because of the failure of a Tory Government to do the franchise properly. The Tory Government is undermining its own private sector ideas. What he set out was so beyond belief that we cannot say any more about it.

gysylltiedig, ond eto siaradodd yn erbyn y buddsoddiad a wnaeth Ieuan Wyn Jones i'r seilwaith ffyrdd yn y Llywodraeth ddiwethaf. Siaradodd yn erbyn cysylltu'r genedl gyda chwmni hedfan, ond gallu mynd o un pen i'r wlad i'r llall mewn cyfnod rhesymol o amser yw'r lleiaf y byddai unrhyw wlad yn y byd gorllewinol yn ei ddisgwyl. Siaradodd yn erbyn gwasanaethau rheilffyrdd y sector cyhoeddus gan ddweud ei fod yn eu gwrthwynebu. Er hynny, fel y nodwyd gan Llyr Huws Gruffydd, mae prif reilffordd arfordir y dwyrain yn cael ei rhedeg gan Directly Operated Railways. Hefyd, mae'n debygol y bydd yn rhaid i Directly Operated Railways gymryd prif reilffordd arfordir y gorllewin drosodd hefyd oherwydd y sefyllfa gyfreithiol. Bydd datganiad yn dod allan yn ystod yr wythnos nesaf. Mae'n debygol y bydd gennym, ar ôl 6 Rhagfyr, wasanaethau rheilffyrdd sector cyhoeddus yn cael eu rhedeg yn uniongyrchol ar brif reilffordd arfordir y gorllewin, a hynny yn uniongyrchol oherwydd methiant Llywodraeth Doriaidd i ymdrin â'r fasnachfraint yn gywir. Mae'r Llywodraeth Doriaidd yn tanseilio ei syniadau sector preifat eu hunan. Y mae'r hyn y mae wedi'i nodi mor anhygoel fel na allwn ddweud unrhyw beth mwy amdano.

As regards the other amendments from the Conservatives, they want to take away further devolution. As I confirmed with the Minister, it is essential that we get that further devolution, even to meet his own, perhaps less ambitious—I would not like to say—aspirations. However, even to meet his own ambitions, we want that infrastructure, and so I cannot agree with that Conservative amendment.

O ran gwelliannau eraill gan y Ceidwadwyr, maent yn awyddus i beidio â chael datganoli pellach. Fel y cadarnheais gyda'r Gweinidog, mae'n hanfodol ein bod yn cael y datganoli pellach hwnnw, petai ond i fodloni ei ddyheadau, efallai llai uchelgeisiol—hoffwn i ddim dweud—ei hun. Fodd bynnag, hyd yn oed dim ond i fodloni ei uchelgais ef, rydym eisiau'r seilwaith hwnnw, ac felly ni allaf gytuno â gwelliant y Ceidwadwyr.

Turning to the Liberal Democrats' amendments, and Eluned Parrott's contribution to the debate, I find it unacceptable that she thought that this was fragmenting things further. We are trying to stop the fragmentation. The fragmentation set in train by the initial privatisation of the railway service and particularly the political horizontal split has led to the situation in which we are now. We want to stop this happening. We can do it in Wales. With the right tools and the devolution, we can do that,

Gan droi at welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, a chyfraniad Eluned Parrott i'r ddadl, rwyf yn credu ei bod yn annerbyniol iddi hi feddwl bod yn darnio pethau ymhellach. Ceisio atal y darnio yr ydym ni. Mae'r darnio a achoswyd gan y preifateiddio cychwynnol o'r gwasanaeth rheilffordd ac yn enwedig y rhaniad gwleidyddol llorweddol wedi arwain at y sefyllfa yr ydym ynddi erbyn hyn. Rydym yn awyddus i atal hyn rhag digwydd. Gallwn wneud hynny yng Nghymru. Gyda'r dulliau cywir a'r datganoli,

and we can work the franchise properly. It works alright in Scotland. I am sure that many of us have travelled to Scotland by train, and we did not have to change trains when we went over the border or anything like that. It is an integrated network that we have in the United Kingdom, which will continue after the referendum 'yes' vote in Scotland in two years' time and will continue in Wales when we get our own devolved situation here. Eluned was at least open to the idea of a non-profit distributing, non-dividend making vehicle, and I hope that the Liberal Democrats, as they see the evidence of the failure of the present system, will strengthen their support for our policies.

gallwn wneud hynny, a gallwn weithredu'r fasnachfraint yn gywir. Mae'n gweithio'n iawn yn yr Alban. Rwyf yn siŵr bod llawer ohonom wedi teithio i'r Alban ar y trên, ac nid oedd rhaid i ni newid trenau pan aethom dros y ffin nac unrhyw beth felly. Rhwydwaith integredig sydd gennym yn y Deyrnas Unedig, a fydd yn parhau ar ôl y bleidlais 'ie' yn refferendwm yr Alban ymhen dwy flynedd a bydd yn parhau yng Nghymru pan fyddwn yn cael ein sefyllfa ddatganoledig ein hunain yma. Roedd Eluned o leiaf yn agored i'r syniad o ddull dosrannu di-elw, di-ddifidend, a gobeithiaf y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol, wrth iddynt weld y dystiolaeth o fethiant y system bresennol, yn cryfhau eu cefnogaeth i'n polisïau.

**Eluned Parrott:** I note the failures of a couple of the profit-making companies. Would you say that Arriva Trains Wales, which has one of the best punctuality and reliability records in British railways, is also a failure?

**Eluned Parrott:** Nodaf fethiannau un neu ddau o'r cwmnïau er elw. A fyddech chi'n dweud bod Trenau Arriva Cymru, sydd ymhlith y gorau o ran prydlondeb a dibynadwyedd o ystyried rheilffyrdd Prydain, hefyd yn fethiant?

**Simon Thomas:** Not at all. We have not said anything about the companies in this motion. This is about Government decision making and the principles for the future. I travel with Arriva Trains Wales very often between Aberystwyth and Cardiff. I just wish that it was a swifter journey that did not involve a change outside Wales, that is all.

**Simon Thomas:** Ddim o gwbl. Nid ydym wedi dweud unrhyw beth am y cwmnïau yn y cynnig hwn. Mae hyn yn ymwneud â'r penderfyniadau a wneir gan y Llywodraeth a'r egwyddorion ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn teithio gyda Threnau Arriva Cymru yn aml iawn rhwng Aberystwyth a Chaerdydd. Yr unig beth a hoffwn fyddai taith fyrrach a pheidio â gorfod newid trenau y tu allan i Gymru, dyna i gyd.

Turning to the rest of the contributions, I was pleased that Vaughan Gething could give us support in principle, at least. I join him in hoping that we can work on many more ideas here. We are not wedded to a particular model, but a co-operative model certainly has its attractions, because it would mean that workers are a part of the success of the railways as well. That is certainly something that we should strive for whichever model we agree with. Alun Ffred Jones set out very clearly how it had worked in Scotland and that it had unlocked further and higher investment. That is the important thing here. We want to keep investment in Wales and unlock further investment. That is why we fight for Wales and stand up for Wales in bringing forward this motion today.

Gan droi at weddill y cyfraniadau, rwyf yn falch bod Vaughan Gething yn gallu rhoi cefnogaeth mewn egwyddor, o leiaf. Ymunaf ag ef mewn gobeithio y gallwn weithio ar lawer mwy o syniadau yma. Nid ydym yn gaeth i fodel arbennig, ond mae'r model cydweithredol yn sicr yn atyniadol, gan y byddai'n golygu bod gweithwyr hefyd yn rhan o lwyddiant y rheilffyrdd. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth y dylem ymdrechu i'w gyflawni pa bynnag fodel yr ydym yn cytuno ag ef. Fe nododd Alun Ffred Jones yn glir iawn sut yr oedd hyn wedi gweithio yn yr Alban a'i fod wedi datgloi buddsoddiad ychwanegol buddsoddiad mwy. Dyna'r peth pwysig yma. Rydym yn awyddus i gadw'r buddsoddiad yng Nghymru a datgloi buddsoddiad ychwanegol. Dyna pam yr

ydym yn brwydro dros Gymru ac yn sefyll dros Gymru wrth gyflwyno'r cynnig hwn heddiw.

Llyr made some extremely pertinent points, some of which I have already mentioned. Perhaps the most important to remember here is that this is public money, going to a railway that is operating in Wales and serving the people of Wales. We need to ensure that we generate public good out of that public money, and that means that the profits should be recycled in Wales.

Gwnaeth Llyr rai pwyntiau hynod berthnasol, rhai ohonynt yr wyf wedi eu crybwyll eisoes. Efallai mai'r un mwyaf pwysig i'w gofio yma yw mai arian cyhoeddus yw hwn, yn mynd i reilffordd sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn gwasanaethu pobl Cymru. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn creu daioni i'r cyhoedd o'r arian cyhoeddus hwnnw, ac mae hynny'n golygu y dylai'r elw gael ei ailgylchu yng Nghymru.

I thank the Minister for his contribution. I welcome the fact that he is opening up this further discussion on how we can go forward with the railways in Wales. I welcome his commitment to seeking further devolution. However, we hear a lot about exploring, examining, looking into and investigating by this Government. It is time to ensure that we get a non-profit distributing, non-dividend making vehicle for our railways in Wales. However, I look forward to working with him to achieve that aim.

Diolch i'r Gweinidog am ei gyfraniad. Croesawaf y ffaith ei fod yn agor y drafodaeth bellach hon ar sut y gallwn symud ymlaen â'r rheilffyrdd yng Nghymru. Rwyf yn croesawu ei ymrwymiad i geisio datganoli pellach. Fodd bynnag, rydym yn clywed llawer am archwilio, edrych i mewn i bethau, ac ymchwilio gan y Llywodraeth hon. Mae'n amser i sicrhau ein bod yn cael dull nad yw'n dosrannu elw, di-ddifidend ar gyfer ein rheilffyrdd yng Nghymru. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at weithio gydag ef i gyflawni'r nod hwnnw.

**The Deputy Presiding Officer:** I make it clear that amendment 2 was not out of order. It was deselected because, in effect, it repeated amendment 1. Had amendment 1 not been tabled, amendment 2 would have been selected.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf yn ei gwneud yn glir nad oedd gwelliant 2 yn annerbyniol Fe'i dad-ddewisiwyd oherwydd ei fod, mewn gwirionedd, yn ailadrodd gwelliant 1. Pe na byddai gwelliant 1 wedi ei gyflwyno, byddai gwelliant 2 wedi ei ddewis.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion be agreed without amendment. Is there objection? I see that there is. Therefore, I will postpone voting on this item until voting time.

Voting time now follows, but before I proceed with the first set of votes**,** are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not, so we will proceed to voting time.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr, ond cyn i mi fwrw ymlaen â'r gyfres gyntaf o bleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes, felly awn ymlaen i'r cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5058: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 31.*
*Motion NDM5058: For 19, Abstain 0, Against 31.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5058: O blaid 26, Ymatal 8, Yn erbyn 17.*
*Amendment 1 to NDM5058: For 26, Abstain 8, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5058: O blaid 26, Ymatal 8, Yn erbyn 17.*
*Amendment 2 to NDM5058: For 26, Abstain 8, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Simon

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5058: O blaid 34, Ymatal 12, Yn erbyn 5.*
*Amendment 3 to NDM5058: For 34, Abstain 12, Against 5.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM5058: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM5058: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM5058: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 5 to NDM5058: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM5058: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 6 to NDM5058: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton

Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM5058 fel y'i diwygiwyd:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i ysgogi'r economi, uwchraddio'r seilwaith a chreu swyddi yng Nghymru.*

*2. Yn annog Llywodraeth Cymru i weithio'n*

*Motion NDM5058 as amended:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Notes steps taken by the UK Government to stimulate the economy, upgrade infrastructure and create jobs in Wales.*

*2. Encourages the Welsh Government to*

*adeiladol gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ffyniant i bobl Cymru.*

*work constructively with the UK Government to deliver prosperity for the people of Wales.*

*3. Yn annog Llywodraeth Cymru i geisio pwerau benthyca gwirioneddol ac i greu cwmni hyd braich, nad yw'n talu difidend, i ariannu prosiectau cyfalaf newydd.*

*3. Encourages the Welsh Government to seek meaningful borrowing powers and to create a non-dividend-paying arm's length company to fund new capital projects.*

4. *Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud cynnydd ar Ardaloedd Menter, diwygio ardrethi busnes, strategaeth weithgynhyrchu a band eang ar gyfer busnesau fel mater o frys, er mwyn helpu i ysgogi'r economi.*

*4. Calls on the Welsh Government to make progress on Enterprise Zones, business rates reform, a manufacturing strategy and broadband for business as a matter of urgency, in order to help stimulate the economy.*

*5. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd, fel ffordd o helpu i ysgogi'r economi.*

*5. Welcomes the establishment by the UK Government of a Green Investment bank, as a means to help stimulate the economy.*

*6. Yn nodi pa mor bwysig i Gymru yw uwchraddio'r seilwaith rheilffyrdd drwy drydaneiddio, yn ogystal â'r manteision yn sgîl hyn i'r economi, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i drydaneiddio prif reilffordd gogledd Cymru.*

*6. Notes the importance to Wales of upgrading rail infrastructure through electrification, and the benefits this will bring to the economy, and calls on the Welsh Government to work with the UK Government to electrify the North Wales mainline.*

*Cynnig NDM5058 fel y'i diwygiwyd: O blaid 39, Ymatal 12, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM5058 as amended: For 39, Abstain 12, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned

Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Millar, Darren
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y cynnig NDM5058 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5058 as amended agreed.*

*Cynnig NDM5059: O blaid 8, Ymatal 0, Yn erbyn 43.*
*Motion NDM5059: For 8, Abstain 0, Against 43.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Jenkins, Bethan
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Rees, David
Thomas, Gwenda
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jones, Ann
Jones, Carwyn

Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5059: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 34.*
*Amendment 1 to NDM5059: For 17, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.*
*Amendment 2 was deselected.*

*Gwelliant 3 i NDM5059: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 39.*
*Amendment 3 to NDM5059: For 12, Abstain 0, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Millar, Darren
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 NDM5059: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*
*Amendment 4 NDM5059: For 43, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Davies, Byron
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams,

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 5 ei ddad-ddethol.*
*Amendment 5 was deselected.*

*Gwelliant 6 i NDM5059: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 6 to NDM5059: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William

Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 7 i NDM5059: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 34.*
*Amendment 7 to NDM5059: For 17, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie

Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 8 i NDM5059: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 8 to NDM5059: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth

Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 9 i NDM5059: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 9 to NDM5059: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 10 i NDM5059: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 10 to NDM5059: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

*Gwelliant 11 i NDM5059: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 11 to NDM5059: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM5059 fel y'i diwygiwyd:*

*Motion NDM5059 as amended:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi pwysigrwydd masnachfraint Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin i wasanaethau rheilffyrdd yng ngogledd Cymru ac yn cydnabod blerwch Llywodraeth y DU wrth ddelio â masnachfraint Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin yn ddiweddar.*

*2. Yn nodi bod gan Lywodraeth y DU swyddogaeth gydlofnodi o hyd ym masnachfraint Cymru a'r Gororau.*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*a) ceisio cyfrifoldeb llawn dros adnewyddu masnachfraint Cymru a'r Gororau;*

*b) ceisio datganoli'r gyllideb a'r pwerau dros y seilwaith rheilffyrdd; ac*

*c) archwilio'r holl ddewisiadau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau gan gynnwys model busnes di-elw posibl.*

*ch) yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod prif reilffordd gogledd Cymru yn cael ei thrydaneiddio erbyn diwedd Cyfnod Rheoli 6.*

*4. Yn nodi pa mor bwysig yw bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi i wneud y mwyaf o fanteision trydaneiddio'r rheilffyrdd.*

*5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd o drydaneiddio'r rheilffyrdd yng ngogledd Cymru yn y dyfodol.*

*6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r broses dendro i sicrhau buddsoddiad yn ansawdd cerbydau a'r seilwaith.*

*7. Yn credu bod Prif Lein Arfordir y Gorllewin a'r Lein HS2 newydd yn hanfodol ar gyfer gwella gwasanaethau i ranbarth gogledd Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gwasanaethau i ogledd Cymru yn cael eu hatgyfnerthu yn y dyfodol.*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Notes the importance of the West Coast Main Line (WCML) franchise to rail services in north Wales and recognises the UK Government's incompetence in dealing with the recent WCML franchise.*

*2. Notes that the UK Government retains a joint-signatory role in the Wales and Borders franchise.*

*3. Calls on the Welsh Government to:*

*a) seek full responsibility for the Wales and Borders franchise renewal;*

*b) seek devolution of rail infrastructure powers and budget; and*

*c) explore all the options for the Wales and Borders franchise including a potential not-for-profit business model.*

*d) work with the UK Government to secure electrification of the North Wales mainline by the end of Control Period 6.*

*4. Notes the importance of the Welsh Government utilising the tools at its disposal to seize the benefits of rail electrification.*

*5. Calls on the Welsh Government to engage with the UK Government about potential future electrification of rail lines in north Wales.*

*6. Calls on the Welsh government to investigate using the tender process to secure investment in the quality of rolling stock and infrastructure.*

*7. Believes the West Coast Main Line and the new HS2 Line are vital in improving services to the North Wales region and calls on the Welsh Government to work with the UK Government to ensure that services to North Wales are strengthened in the future.*

*Cynnig NDM5059 fel y'i diwygiwyd: O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 5.*

*Motion NDM5059 as amended: For 46, Abstain 0, Against 5.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM5059 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5059 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

5.30 p.m.

# Dadl Fer
# Short Debate

## Yr Achos dros Gadw'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru
## The Case for Retaining the Agricultural Wages Board in Wales

**Mick Antoniw:** I am very grateful for the opportunity that this debate provides to present the case in support of retaining the Agricultural Wages Board in Wales. The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, and Members, will have seen the detailed report that I have prepared, which sets outs the full case. Therefore, I will only focus on some of the key principles and basic facts to allow other Members to contribute to this important debate, namely Rebecca Evans, William Powell, Antoinette Sandbach, Vaughan Gething, Joyce Watson and Llyr Huws Gruffydd.

**Mick Antoniw:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle y mae'r ddadl hon yn ei roi i gyflwyno'r achos o blaid cadw'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru. Bydd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, a'r Aelodau, wedi gweld yr adroddiad manwl a baratowyd gennyf, sy'n mynegi'r achos yn llawn. Felly, byddaf yn canolbwyntio'n unig ar rai o'r egwyddorion a ffeithiau allweddol sylfaenol i ganiatáu i Aelodau eraill gyfrannu at y ddadl bwysig hon, sef Rebecca Evans, William Powell, Antoinette Sandbach, Vaughan Gething, Joyce Watson a Llyr Huws Gruffydd.

In the next week or so, the UK Government will take the final decision on the final steps to abolish the Agricultural Wages Board. Scotland has already chosen to retain it, as has the Northern Ireland Assembly. I regret that there is nothing that we can do to help the English agricultural workers, other than to hope that the UK coalition Government will see sense and not be the only nation to pull out of the Agricultural Wages Board arrangements. However, I strongly believe that this Assembly can retain an Agricultural Wages Board in some form to carry on the function of collective regulation of minimum terms and conditions for almost 14,000 Welsh farm workers, and for the benefit of the agricultural industry in Wales.

Yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf, bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y camau terfynol i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Mae'r Alban eisoes wedi dewis ei gadw, fel mae Cynulliad Gogledd Iwerddon. Rwyf yn gresynu nad oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i helpu gweithwyr amaethyddol Lloegr, ar wahân i obeithio y bydd Llywodraeth glymblaid y DU yn gweld synnwyr ac na fyddant yr unig genedl i dynnu allan o drefniadau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Fodd bynnag, credaf yn gryf y gall y Cynulliad hwn gadw Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar ryw ffurf i barhau â'r swyddogaeth o reoleiddio ar y cyd delerau ac amodau sylfaenol ar gyfer bron i 14,000 o weithwyr fferm yng Nghymru, ac er budd y diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

The AWB has existed since 1948, and it not only regulates wages but sets minimum standards for certain terms and conditions, such as overtime, night premium, on-call allowances, accommodation deductions, sick pay, and, most importantly, training and skills. In effect, the board sets a minimum living wage and terms and conditions for agricultural workers and for rural communities, where we have already acknowledged that poverty is a significant issue. It also prevents a race to the bottom by

Mae'r bwrdd wedi bodoli ers 1948, ac nid yn unig y mae'n rheoleiddio cyflogau, ond yn gosod safonau gofynnol ar gyfer telerau ac amodau penodol, fel goramser, premiwm nos, lwfansau ar-alwad, didyniadau llety, tâl salwch, ac, yn bwysicaf oll, hyfforddiant a sgiliau. Mewn gwirionedd, mae'r bwrdd yn gosod isafswm cyflog byw a thelerau ac amodau ar gyfer gweithwyr amaethyddol ac i gymunedau gwledig, lle'r ydym eisoes wedi cydnabod bod tlodi yn fater o bwys. Mae hefyd yn atal ras i'r gwaelod gan gyflogwyr,

employers, which is what would happen if it was replaced by the national minimum wage, as seems to be intended. It is perhaps natural that the agricultural workers section of Unite the Union wants to retain the protection offered by the AWB. After all, the forerunner of the agricultural section, the Agricultural and Allied Workers Union—known at the time as 'the aggies'—was instrumental in setting up the AWB in 1948.

a dyna beth fyddai'n digwydd pe bai'n cael ei ddisodli gan yr isafswm cyflog cenedlaethol, fel yr ymddengys sydd wedi'i fwriadu. Mae'n naturiol efallai bod yr adran gweithwyr amaethyddol o Unite the Union eisiau cadw'r diogelwch a gynigir gan y bwrdd. Wedi'r cyfan, roedd rhagflaenydd yr adran amaethyddol, Undeb y Gweithwyr Amaethyddol a Pherthynol—oedd yn hysbys ar y pryd fel 'yr aggies'—yn allweddol wrth sefydlu'r bwrdd ym 1948.

I also rely on the support of Wales Young Farmers Clubs, one of the largest youth organisations in Wales, which represents the future of agriculture in Wales. As it has stated, one of the most important things about the AWB is its provision of housing, holiday and sickness terms and conditions. Without the board, pay and conditions would be hit, and cuts in wages would deter young people from entering the industry. It goes on to say that many young workers are being exploited by farmers because they are unaware that provisions exist to protect them.

Rwyf hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, un o'r mudiadau ieuenctid mwyaf yng Nghymru, sy'n cynrychioli dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Fel y mae wedi'i ddatgan, un o'r pethau pwysicaf am y bwrdd yw ei ddarpariaeth o ran tai, telerau ac amodau gwyliau a salwch. Heb y bwrdd, byddai cyflogau ac amodau yn cael eu taro, a byddai toriadau mewn cyflogau yn atal pobl ifanc rhag dod i mewn i'r diwydiant. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod llawer o weithwyr ifanc yn cael eu hecsbloetio gan ffermwyr gan nad ydynt yn ymwybodol bod darpariaethau'n bodoli i'w gwarchod.

The Farmers Union of Wales also opposes the abolition of the AWB. At this lunchtime's press conference and briefing, the union spoke very strongly in support of the board's retention. It says that the majority of its members still consider the Agricultural Wages Board to be the most effective body to determine pay and conditions of service that reflect the unique requirements of the agricultural industry in Wales. The FUW went on to say that because many farms in Wales are run with relatively few staff, the AWB is considered to be an important means of avoiding potential conflict and lengthy negotiations with individual staff. Therefore, is it not ironic that the UK Government wants to abolish the AWB in the name of deregulation, but will actually increase the burden on many farmers?

Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn gwrthwynebu diddymu'r bwrdd. Yng nghynhadledd a briffio'r wasg amser cinio heddiw, siaradodd yr undeb yn gryf iawn o blaid cadw'r bwrdd. Mae'n dweud bod y rhan fwyaf o'i aelodau yn dal i ystyried y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i fod y corff mwyaf effeithiol i bennu tâl ac amodau gwasanaeth sy'n adlewyrchu gofynion unigryw'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Aeth Undeb Amaethwyr Cymru ymlaen i ddweud, oherwydd bod llawer o ffermydd yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan gymharol ychydig o staff, mae'r bwrdd yn cael ei ystyried i fod yn ffordd bwysig o osgoi gwrthdaro posibl a thrafodaethau hir gyda staff unigol. Felly, onid yw'n eironig bod Llywodraeth y DU am ddiddymu'r bwrdd yn enw dadreoleiddio, ond mewn gwirionedd byddant yn cynyddu'r baich ar lawer o ffermwyr?

I believe that it is possible to retain a wages board or the functions of the AWB in some form in Wales at minimal cost. Let us not forget that the cost last year of running the

Rwy'n credu ei bod yn bosibl i gadw bwrdd cyflogau neu swyddogaethau'r bwrdd ar ryw ffurf yng Nghymru ar gost isel. Gadewch inni beidio ag anghofio mai cost y llynedd o redeg

entire Agriculture Wages Board in England and Wales was £57,000. In Northern Ireland, it was £30,000. It also provides a very considerable benefit to farm workers, farmers and the agricultural sector as a whole. Therefore, we have an opportunity in Wales to do something different, not for the sake of difference but because, as I strongly believe, it is the right thing to do in Wales for the agricultural sector and for agricultural workers themselves.

y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol cyfan yng Nghymru a Lloegr oedd £57,000. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd yn £30,000. Mae hefyd yn rhoi budd sylweddol iawn i weithwyr fferm, ffermwyr a'r sector amaethyddol yn ei gyfanrwydd. Felly, mae gennym gyfle yng Nghymru i wneud rhywbeth gwahanol, nid er mwyn bod yn wahanol, ond oherwydd, fel yr wyf yn credu'n gryf, mai dyma'r peth iawn i'w wneud yng Nghymru ar gyfer y sector amaethyddol ac ar gyfer gweithwyr amaethyddol eu hunain.

**Rebecca Evans:** I am grateful to Mick Antoniw for bringing forward this important debate today. I understand that the Deputy Minister will be meeting David Heath, the UK farming Minister, to discuss the Agricultural Wages Board next week. I really hope that David Heath will stick to his view of 2000, when he signed an early day motion calling on the UK Government to retain the Agricultural Wages Board because its abolition would:

**Rebecca Evans:** Yr wyf yn ddiolchgar i Mick Antoniw am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw. Deallaf y bydd y Dirprwy Weinidog yn cwrdd â David Heath, Gweinidog Ffermio'r DU, i drafod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yr wythnos nesaf. Rwy'n gobeithio y bydd David Heath yn cadw at ei farn o 2000, pan lofnododd gynnig-cynnar-yn-y-dydd yn galw ar Lywodraeth y DU i gadw'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol oherwydd byddai ei ddiddymu yn:

'impoverish the rural working class, exacerbating social deprivation and the undesirable indicators associated with social exclusion'.

tlodi'r dosbarth gweithiol gwledig, gan waethygu amddifadedd cymdeithasol a'r dangosyddion annymunol sy'n gysylltiedig ag allgau cymdeithasol.

Since his appointment, the new Secretary of State for Wales, David Jones, has spoken of his concern about the declining number of people working the land and the fact that employment can be hard to come by in rural areas. He said that there have been school closures in his constituency as a result of people leaving rural Wales to look for work and has spoken out about the damage that has been done to the Welsh language and the Welsh culture as a result. The abolition of the Agricultural Wages Board can only threaten rural Wales further, so I take this opportunity to challenge the Secretary of State for Wales to fight the corner of Welsh agricultural workers in Westminster by opposing the abolition and seeking to ensure that agricultural work pays.

Ers ei benodiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Gymru, David Jones, wedi siarad am ei bryder am y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gweithio ar y tir a'r ffaith y gall cyflogaeth fod yn anodd ei gael mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd y bu cau ysgolion yn ei etholaeth o ganlyniad i bobl yn gadael cefn gwlad Cymru i chwilio am waith ac mae wedi mynegi'i farn am y difrod sydd wedi cael ei wneud i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig o ganlyniad. Bydd diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn bygwth Cymru wledig ymhellach, felly hoffwn fanteisio ar y cyfle i herio Ysgrifennydd Gwladol Cymru i frwydro o blaid gweithwyr amaethyddol Cymru yn San Steffan gan wrthwynebu'r diddymu a cheisio sicrhau bod gwaith amaethyddol yn talu.

**William Powell:** I would like to thank Mick Antoniw very much for bringing forward this important debate today. The farming

**William Powell:** Hoffwn ddiolch i Mick Antoniw yn fawr iawn am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw. Mae'r diwydiant

industry, as we all know, plays a critical role in the fabric of Welsh life. Over the past 60 years, the AWB has provided the farming industry with a strong set of guiding principles when it comes to pay structures and employee benefits, as Mick has outlined. While acknowledging that such arrangements cannot always be exempt from reform—and we know what is coming up the track very shortly—I think it is worth our exploring the possibility that this area should be subject to the devolution settlement enjoyed in Northern Ireland and Scotland. That may well be work for the Silk commission, and we are open to taking that issue further forward. However, the AWB has done sterling work, and that is reflected in the comments that have been made today. I look forward to the contribution of other Members.

ffermio, fel y gwyddom oll, yn chwarae rhan hanfodol yng ngwead bywyd Cymru. Dros y 60 mlynedd diwethaf, mae'r bwrdd wedi darparu cyfres gadarn o egwyddorion arweiniol i'r diwydiant ffermio o ran strwythurau cyflog a buddiannau gweithwyr, fel y mae Mick wedi ei amlinellu. Tra'n cydnabod na ellir eithrio trefniadau o'r fath rhag eu diwygio bob amser—ac rydym yn gwybod beth sy'n dod tuag atom yn fuan iawn—credaf ei bod yn werth inni archwilio'r posibilrwydd y dylai'r maes hwn fod yn ddarostyngedig i'r setliad datganoli a geir yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Efallai'n wir mai gwaith i gomisiwn Silk yw hynny, ac rydym yn agored i ystyried y mater hwnnw ymhellach. Fodd bynnag, mae'r bwrdd wedi gwneud gwaith rhagorol, ac adlewyrchir hynny yn y sylwadau sydd wedi'u gwneud heddiw. Edrychaf ymlaen at gyfraniad Aelodau eraill.

**Antoinette Sandbach:** I, too, thank Mick Antoniw for giving me the time to speak in this debate. However, I am concerned that the report is an example of scaremongering. Agricultural workers are very much valued by their employers, and this scaremongering is perhaps typical of Welsh Labour, which shows that it is not prepared to trust farmers. It may well be that, if the board is removed in England, highly skilled and experienced farmworkers will be attracted over the border by much higher rates of pay. There is an opportunity to take away unnecessary obstacles from small business employers that is not being taken. It would appear that it is an attempt to introduce regional pay for an element of the private sector in Wales. Labour professes not to want to apply regional pay to the public sector, but, somehow, that is acceptable for agricultural workers. There are claims that unscrupulous farmers will indulge in a race to the bottom. That is not based on any evidence. There may well be a case for review at a later date—

**Antoinette Sandbach:** Rwyf i, hefyd, yn diolch i Mick Antoniw am roi'r amser i mi i siarad yn y ddadl hon. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu bod yr adroddiad yn enghraifft o godi bwganod. Mae gweithwyr amaethyddol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn gan eu cyflogwyr, ac mae'r codi bwganod hwn efallai yn nodweddiadol o Lafur Cymru, sy'n dangos nad yw'n barod i ymddiried mewn ffermwyr. Mae'n bosibl, os bydd y bwrdd yn cael ei ddileu yn Lloegr, y bydd gweithwyr fferm medrus a phrofiadol yn cael eu denu dros y ffin gan gyfraddau llawer uwch o gyflog. Mae cyfle i gael gwared ar rwystrau diangen i gyflogwyr busnesau bach nad yw'n cael ei gymryd. Byddai'n ymddangos i fod yn ymgais i gyflwyno tâl rhanbarthol ar gyfer elfen o'r sector preifat yng Nghymru. Mae Llafur yn honni nad ydynt yn dymuno gweithredu tâl rhanbarthol yn y sector cyhoeddus, ond, rywsut, mae hynny'n dderbyniol ar gyfer gweithwyr amaethyddol. Mae honiadau y bydd ffermwyr diegwyddor yn cymryd rhan mewn ras i'r gwaelod. Nid yw hynny wedi'i seilio ar unrhyw dystiolaeth. Efallai'n wir y bydd achos ar gyfer adolygiad yn ddiweddarach—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You are now well over your minute.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rydych wedi siarad yn llawer hirach na'ch munud.

**Antoinette Sandbach:** —but this is not

**Antoinette Sandbach: —**ond nid yw hyn yn

based on the evidence.

**Vaughan Gething:** I welcome the opportunity to speak briefly on this, particularly as I am a former seasonal worker who received a wage for fruit picking as a result of the Agricultural Wages Board in England. The board has provided real protection and minimum standards—not maximum standards, but minimum standards—for agricultural workers. As you say, it is cheap to run and maintain, providing real certainty for workers and employers. That is why there is a broad coalition in favour of maintaining something like the AWB here in Wales. I also welcome the fact that the Welsh Government helped to guarantee that English workers receive a pay rise this October. Because of our position here in Wales, the Tories and the Lib Dems could not abolish the wages board across the rest of the UK. I would encourage the Deputy Minister to reject the arguments of Antoinette Sandbach and make all possible efforts to see whether we can maintain or retain something like the AWB in Wales.

**Joyce Watson:** I thank Mick Antoniw for all the work that he has done. I was in the same room as he was earlier today with the Farmers Union of Wales and others—people who own farms, who depend on farms, and who live and work on farms for their bread and butter. That is what we are coming to here. It was them, not us, who were saying that without the Agricultural Wages Board, they were worried about who would speak up for them and who would represent them at arbitration. They were afraid of getting into a situation where, without that arbitration, employer and employee would be pitted against each other while expecting them to work side by side the very next day, thus breaking down the very fabric of trust that we have heard about and not allowing those relationships to continue. The other important point is that they insisted that, without that protection, they would go to the minimum wage, thus removing from the local economy all the additional money that now exists, thus having an even greater impact on those communities that depend on farm workers spending their money there.

seiliedig ar y dystiolaeth.

**Vaughan Gething:** Croesawaf y cyfle i siarad yn fyr ar hyn, yn enwedig gan fy mod yn gyn weithiwr tymhorol a dderbyniodd gyflog am gasglu ffrwythau o ganlyniad i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn Lloegr. Mae'r bwrdd wedi darparu diogelwch go iawn a safonau gofynnol—nid uchafswm safonau, ond safonau gofynnol—ar gyfer gweithwyr amaethyddol. Fel y dywedwch, mae'n rhad i'w redeg a'i gynnal, gan ddarparu sicrwydd go iawn i weithwyr a chyflogwyr. Dyna pam y mae cynghrair eang o blaid cynnal rhywbeth fel y bwrdd hwn yng Nghymru. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau bod gweithwyr Lloegr yn derbyn codiad cyflog ym mis Hydref. Oherwydd ein sefyllfa yma yng Nghymru, ni allai'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol ddiddymu'r bwrdd cyflogau ar draws gweddill y DU. Byddwn yn annog y Dirprwy Weinidog i wrthod dadleuon Antoinette Sandbach a gwneud pob ymdrech bosibl i weld a allwn gynnal neu gadw rhywbeth fel y bwrdd yng Nghymru.

**Joyce Watson:** Diolch i Mick Antoniw am yr holl waith y mae wedi'i wneud. Roeddwn i yn yr un ystafell ag ef yn gynharach heddiw gydag Undeb Amaethwyr Cymru ac eraill—pobl sy'n berchen ar ffermydd, sy'n dibynnu ar ffermydd, ac sy'n byw ac yn gweithio ar ffermydd am eu bara menyn. At hynny'r ydym yn dod yma. Nhw, dim ni, oedd yn dweud eu bod, heb y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, yn poeni am bwy fyddai'n siarad ar eu rhan ac a fyddai'n eu cynrychioli mewn cyflafareddiad. Maent yn ofni mynd i mewn i sefyllfa lle, heb y cyflafareddiad hwnnw, byddai cyflogwr a'r gweithiwr yn cystadlu yn erbyn ei gilydd tra'n disgwyl iddynt weithio ochr yn ochr y diwrnod canlynol, gan ddistrywio holl sylfaen yr ymddiriedaeth yr ydym wedi clywed amdani a pheidio â gadael i'r berthynas honno barhau. Y pwynt pwysig arall yw eu bod yn mynnu, heb y diogelwch hwnnw, y byddent yn mynd i'r isafswm cyflog, gan gael gwared â'r holl arian ychwanegol sydd bellach yn bodoli o'r economi leol, a thrwy hynny gael effaith fwy hyd yn oed ar y cymunedau hynny sy'n dibynnu ar weld gweithwyr fferm

yn gwario eu harian yno.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rwy'n adnabod dwsinau o bobl ifanc sydd am ddatblygu gyrfa yn y sector amaethyddol nad ydynt o deuluoedd fferm ond sy'n sicr yn awyddus i gyrraedd y pwynt o fod yn berchnogion tir neu fferm eu hunain yn y dyfodol. Mae'r rheini yn cymryd cysur mawr o'r ffaith, drwy weithio yn y sector ar hyn o bryd, fod safonau, telerau, amodau a chyflogau yn cael eu hamddiffyn gan y bwrdd. Credaf y byddai gwneud i ffwrdd â'r bwrdd yn ychwanegu rhwystr arall i nifer o bobl ifanc, fel yr ydym wedi'i glywed yn barod gan gynrychiolwyr ffermwyr ifanc yn y dystiolaeth sydd wedi'i rhoi gerbron. Bydd yn creu rhwystr ychwanegol i'r rheini ac, o ganlyniad, credaf y dylem amddiffyn y bwrdd.

**Llyr Huws Gruffydd:** I know dozens of young people who are not from farming families but who want to develop a career in the agricultural sector and are eager to reach the point of owning land or owning their own farm in the future. These young people take comfort from the fact that, in working in the sector at present, standards, terms, conditions and wages are protected by the AWB. I would have thought that doing away with the board would create another barrier for many young people, as we have heard from young farmers' representatives in evidence submitted. It would create an additional barrier for those young people and, as a result, I believe that the board should be protected.

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** Like others this afternoon, I would like to express my gratitude to Mick Antoniw for bringing forward this subject for debate this afternoon, and thank him for the work that he has done in producing the report published today and in campaigning on this important matter. Other Members who have contributed to the debate this afternoon have made good and fair points, which I hope I will address in summing up.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Fel eraill y prynhawn yma, hoffwn fynegi fy niolch i Mick Antoniw am ddod â'r pwnc gerbron i'w drafod y prynhawn yma, a diolch iddo am y gwaith y mae wedi ei wneud wrth gynhyrchu'r adroddiad a gyhoeddwyd heddiw ac mewn ymgyrchu ar y mater pwysig hwn. Mae Aelodau eraill sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon y prynhawn yma wedi gwneud pwyntiau da a theg, yr wyf yn gobeithio y byddaf yn rhoi sylw iddynt wrth grynhoi.

Antoinette, all of us, on all sides of the Chamber, are glad to see you back here, and we pass on our best wishes to you and your family. However, with regard to the way in which you contributed this afternoon, I invite you—I do not say this very often—to look over your party leader's speech this morning. When the Prime Minister said that Conservative methods are not just good for the strong and successful, but are the best way to help the poor, the weak and the vulnerable, perhaps that would better reflect the Welsh Government's position than the position taken by the Welsh Conservatives this afternoon. I invite Conservative Members to reflect on the position that has been outlined this afternoon.

Antoinette, mae pob un ohonom, ar bob ochr i'r Siambr, yn falch eich gweld yn ôl yma, ac rydym yn anfon ein dymuniadau gorau i chi a'ch teulu. Fodd bynnag, o ran y ffordd y gwnaethoch gyfrannu'r prynhawn yma, yr wyf yn eich gwahodd—dydw i ddim yn dweud hyn yn aml iawn—i edrych dros araith arweinydd eich plaid y bore yma. Pan ddywedodd y Prif Weinidog nad i'r cryf a'r llwyddiannus yn unig y mae dulliau Ceidwadol yn dda, ond mai dyma'r ffordd orau i helpu'r tlawd, y gwan a'r diamddiffyn, efallai y byddai hynny'n adlewyrchu safbwynt Llywodraeth Cymru yn well na'r safbwynt a gymerwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig y prynhawn yma. Rwyf yn gwahodd Aelodau Ceidwadol i fyfyrio ar y sefyllfa a amlinellwyd y prynhawn yma.

In doing that, I extend to my good and old friend, Bill Powell, an invitation to join the consensus here this afternoon. The Welsh Liberal party has had, for more than a century, a great tradition of fighting for the rural working classes and people working on farms. I know that you believe and uphold that tradition strongly, Bill, therefore I hope that you hold to that tradition and history during this debate, and that you, too, will join the consensus across the Chamber that the Agricultural Wages Board, while being far from a historical relic, provides real protection to some of the most vulnerable workers in our society today. I know that you will personally support those people as individuals and as constituents, and I hope that you will join the consensus to support them on this issue as well.

Wrth wneud hynny, rwyf yn ymestyn gwahoddiad i fy ffrind da a hen, Bill Powell, i ymuno â'r consensws yma y prynhawn yma. Mae plaid Ryddfrydol Cymru, am fwy na chanrif, wedi cael traddodiad gwych o ymladd dros y dosbarth gweithiol gwledig a phobl sy'n gweithio ar ffermydd. Rwyf yn gwybod eich bod yn credu ac yn cynnal y traddodiad cryf, Bill, felly rwyf yn gobeithio y byddwch yn dal at y traddodiad a'r hanes yn ystod y ddadl hon, a'ch bod chi, hefyd, yn ymuno â'r consensws ar draws y Siambr bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, tra ei fod yn bell o fod yn grair hanesyddol, yn darparu amddiffyniad gwirioneddol i rai o'r gweithwyr mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas heddiw. Rwy'n gwybod y byddwch yn bersonol yn cefnogi'r bobl hynny fel unigolion ac fel etholwyr, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn ymuno â'r consensws i'w cefnogi ar y mater hwn yn ogystal.

5.45 p.m.

Members will know from the work that I have done on the 'Working Smarter' agenda that I am no supporter of unnecessary bureaucracy and regulations. In August last year, I asked Gareth Williams, my independent adviser, to consider and to report back to me on whether the regulatory framework that governs agriculture in Wales was measured and appropriate. The outcome of this review, the 'Working Smarter' report, was published on 31 January this year. I am fully committed to driving forward the recommendations of that report and I have asked Gareth to return to work and to review how I have conducted and implemented his recommendations. I hope that he will be starting work on that process in the next few weeks.

Bydd Aelodau'n gwybod o'r gwaith yr wyf wedi'i wneud ar 'Hwyluso'r Drefn' nad wyf yn gefnogwr biwrocratiaeth a rheoliadau diangen. Ym mis Awst y llynedd, gofynnais i Gareth Williams, fy ymgynghorydd annibynnol, ystyried ac adrodd yn ôl i mi ar a yw'r fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu amaethyddiaeth yng Nghymru yn cael ei fesur ac yn briodol. Cyhoeddwyd canlyniad yr adolygiad hwn, yr adroddiad 'Hwyluso'r Drefn', ar 31 Ionawr eleni. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i yrru ymlaen â'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw, ac rwyf wedi gofyn i Gareth ddychwelyd i weithio ac adolygu sut rwyf wedi cynnal a gweithredu ei argymhellion. Rwyf yn gobeithio y bydd yn dechrau gweithio ar y broses honno yn ystod yr wythnosau nesaf.

The latest Government figures suggest that around 13,500 agricultural workers could be affected by the removal of the AWB in Wales. These include some of the most vulnerable and poorly paid workers in Wales. Furthermore, these workers often work long or unsociable hours, in difficult conditions. I understand and value the comprehensive protection that the AWB provides for workers, not only safeguarding the level of their wages, but also protecting their working

Mae ffigurau diweddaraf y Llywodraeth yn awgrymu y gallai tua 13,500 o weithwyr amaethyddol gael eu heffeithio drwy gael gwared ar y bwrdd yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys rhai o'r gweithwyr mwyaf agored i niwed ac sy'n cael y cyflogau isaf yng Nghymru. Ar ben hynny, mae'r gweithwyr yn aml yn gweithio oriau hir neu anghymdeithasol, mewn amodau anodd. Rwyf yn deall ac yn gwerthfawrogi'r diogelwch cynhwysfawr y mae'r bwrdd yn ei

conditions, such as overtime, holiday and sick pay and training requirements. In particular, the AWB sets out appropriate pay scales above the national minimum wage and provides the basic framework from which disputes can be resolved.

ddarparu i'r gweithwyr, nid yn unig drwy ddiogelu lefel eu cyflogau, ond hefyd amddiffyn eu hamodau gweithio, fel goramser, cyflog gwyliau a salwch a gofynion hyfforddi. Yn benodol, mae'r bwrdd yn nodi graddfeydd cyflog priodol uwchben yr isafswm cyflog cenedlaethol ac yn darparu'r fframwaith sylfaenol ar gyfer datrys anghydfodau.

I recognise the point that was made from the Conservative benches earlier, but the point that has been made to me time and again by farmers across the whole of Wales is that they are glad to have the AWB in existence, because it creates a framework by which they do not have to deal with these matters themselves. The point that was made by my good friend earlier is absolutely clear, namely that in the rush to reduce bureaucracy, what the Conservative and Liberal Government in London is doing is creating additional burdens and bureaucracy for individual farming families.

Rwy'n cydnabod y pwynt a wnaed o feinciau'r Ceidwadwyr yn gynharach, ond y pwynt a wnaed i mi dro ar ôl tro gan ffermwyr ar draws Cymru gyfan yw eu bod yn falch o gael y bwrdd yn bodoli, oherwydd ei fod yn creu fframwaith lle nad oes rhaid iddynt ymdrin â'r materion hyn eu hunain. Mae'r pwynt a wnaed gan fy ffrind da yn gynharach yn gwbl glir, sef beth mae'r Llywodraeth Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain yn ei wneud, yn y rhuthr i leihau biwrocratiaeth, yw creu beichiau a biwrocratiaeth ychwanegol ar gyfer teuluoedd ffermio unigol.

**Antoinette Sandbach:** The NFU, which represents a wide variety of farmers, including young farmers, says that the AWB does not foster good relations between employer and employee, but that, instead, it is a source of friction and that the normal pattern is for employer and employee to become disgruntled because of the settlement. It also raises the fact that farming sectors are becoming highly specialised at the moment, often with different systems, whether it is expertise in genetically modified crops or specialist types of farming systems—

**Antoinette Sandbach:** Dywed Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o ffermwyr, gan gynnwys ffermwyr ifanc, nad yw'r bwrdd yn meithrin perthynas dda rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr, ond, yn hytrach, mae'n ffynhonnell drwgdeimlad a'r patrwm arferol yw i gyflogwr a gweithiwr fod yn anfodlon oherwydd y setliad. Mae hefyd yn codi'r ffaith bod y sectorau ffermio yn dod yn arbenigol iawn ar hyn o bryd, yn aml gyda systemau gwahanol, boed yn arbenigedd mewn cnydau a addaswyd yn enetig neu fathau arbenigol o systemau ffermio—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You cannot make another speech, Antoinette. You have made your point.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni allwch wneud araith arall, Antoinette. Rydych wedi gwneud eich pwynt.

**Antoinette Sandbach:** The Agricultural Wages Board limits—

**Antoinette Sandbach:** Mae'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn cyfyngu ar—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This is a short debate; we do not usually have these difficulties with Members. [*Laughter*.] I hope that it will not continue.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Dadl fer yw hon, nid ydym fel arfer yn cael yr anawsterau hyn gydag Aelodau. [Chwerthin.] Rwy'n gobeithio na fydd yn parhau.

**Alun Davies:** I was attempting to be generous, but my hand was taken off me.

**Alun Davies:** Roeddwn yn ceisio bod yn hael, ond roedd rhai yn rhy awyddus i

fanteisio ar fy haelioni.

Let me say to Antoinette that no farmer anywhere in Wales has approached me and told me that they support the abolition of the AWB. No-one, anywhere or at any time has done so, formally or in informal conversations. At no time has it been raised with me as a significant issue for Welsh agriculture by any organisation; in fact, quite the reverse. I spoke with young farmers at their annual general meeting on Saturday in the Millennium Stadium in Cardiff. The subject was raised there, and I was asked to give them a guarantee that I would continue to fight for the AWB for exactly the reasons that have already been given this afternoon. I gave them that undertaking on Saturday, and I give that undertaking to the Chamber this afternoon. The Farmers Union of Wales and Unite have demonstrated, and Mick Antoniw's report brings this out clearly, that the AWB remains an important tool for setting fair pay rates and working conditions in Wales.

Gadewch i mi ddweud wrth Antoinette nad oes unrhyw ffermwr yn unrhyw le yng Nghymru wedi cysylltu â mi a dweud wrthyf eu bod yn cefnogi diddymu'r bwrdd. Nid oes unrhyw un, yn unrhyw le, neu ar unrhyw adeg wedi gwneud hynny, yn ffurfiol neu mewn sgyrsiau anffurfiol. Nid yw ar unrhyw adeg wedi cael ei godi gyda mi fel mater arwyddocaol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru gan unrhyw sefydliad; i'r gwrthwyneb yn hollol mewn gwirionedd. Siaradais gyda ffermwyr ifanc yn eu cyfarfod cyffredinol blynyddol ddydd Sadwrn yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Codwyd y pwnc yno, a gofynnwyd i mi roi sicrwydd y byddwn yn parhau i ymladd dros y bwrdd am yr union resymau sydd eisoes wedi eu cyflwyno y prynhawn yma. Rhoddais yr addewid honno ddydd Sadwrn, a rhoddaf yr addewid honno i'r Siambr y prynhawn yma. Mae Undeb Amaethwyr Cymru ac Unite wedi dangos, ac mae adroddiad Mick Antoniw yn dangos hyn yn glir, bod y bwrdd yn parhau i fod yn offeryn pwysig ar gyfer gosod cyfraddau cyflog teg ac amodau gwaith yng Nghymru.

When I came to office last year, I was asked by the UK Government for my consent to the abolition of the board under the provisions of the Public Bodies Act 2011. I expressed at that time my determined wish to retain the functions of the AWB in Wales. By far the simplest way to ensure that this could happen would have been for the UK Government to make a provision under a Public Bodies Act Order both to abolish the board in relation to England and to enable a separate board to be set up in Wales.

Pan gychwynnais ar fy swydd y llynedd, gofynnwyd imi gan Lywodraeth y DU am fy nghaniatâd i ddiddymu'r bwrdd o dan ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mynegais ar y pryd fy nymuniad penderfynol i gadw swyddogaethau'r bwrdd yng Nghymru. Y ffordd symlaf o ddigon i sicrhau y gallai hyn ddigwydd fyddai i Lywodraeth y DU wneud darpariaeth o dan Orchymyn Deddf Cyrff Cyhoeddus i ddiddymu'r bwrdd mewn perthynas â Lloegr ac i alluogi sefydlu bwrdd ar wahân yng Nghymru.

With that in mind, I made an official request to DEFRA for the functions of the AWB to be transferred to Welsh Ministers under the proposed Order to abolish the board under the Public Bodies Act. I was very disappointed that this reasonable and practical request was turned down by Caroline Spelman, the then Secretary of State. In making her decision, she argued that AWB functions are employment-related functions that did not, in her opinion, amount to a devolved matter.

Gyda hynny mewn golwg, rwyf yn gwneud cais swyddogol i DEFRA i swyddogaethau'r bwrdd gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan y Gorchymyn arfaethedig i gael gwared ar y bwrdd o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus. Roeddwn yn siomedig iawn bod y cais rhesymol ac ymarferol hwn wedi ei wrthod gan Caroline Spelman, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd. Wrth wneud ei phenderfyniad, dadleuodd bod swyddogaethau'r bwrdd yn swyddogaethau cysylltiedig â chyflogaeth, ac nad oeddent, yn

ei barn hi, yn fater datganoledig.

The Welsh Government's considered opinion is that the remit of the AWB falls squarely under the subject heading of agriculture in Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 and that it is, therefore, a matter that is entirely within the legislative competence of the Assembly. That is why I reject Bill Powell's suggestion that this is a matter that should be considered by the Silk commission or any other commission. This is already within the legislative competence of this place, and this is where decisions on its future should be taken. It is the Welsh Government's opinion, therefore, that the UK Government requires the consent of the National Assembly to abolish the board under the Public Bodies Act.

Barn ystyriol Llywodraeth Cymru yw bod cylch gwaith y bwrdd yn dod yn llwyr dan y pennawd pwnc amaethyddiaeth yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'i fod, felly, yn fater sy'n gyfan gwbl o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Dyna pam rwyf yn gwrthod awgrym Bill Powell bod hwn yn fater y dylid ei ystyried gan gomisiwn Silk neu unrhyw gomisiwn arall. Mae hyn eisoes o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y lle hwn, a dyma le dylai penderfyniadau ar ei ddyfodol gael eu gwneud. Barn Llywodraeth Cymru, felly, yw bod gofyn i Lywodraeth y DU gael cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol i ddiddymu'r bwrdd o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus.

This difference of opinion between the UK and the Welsh Governments has slowed down the UK Government's progress towards the abolition of the AWB. I have been involved in extensive face-to-face negotiations and correspondence with DEFRA and Wales Office Ministers on this issue. Unfortunately, these discussions have yielded no firm solutions to move this process forward. I will now try to work with the new Ministers in these departments following the recent reshuffle of the UK Cabinet. I am very keen to resolve the issue in a way that enables both Governments to proceed with their different policy agendas in an amicable and businesslike manner.

Mae'r gwahaniaeth barn rhwng y DU a Llywodraethau Cymru wedi arafu cynnydd Llywodraeth y DU tuag at ddiddymu'r bwrdd. Rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau helaeth wyneb-yn-wyneb a gohebiaeth gyda DEFRA a Gweinidogion Swyddfa Cymru ar y mater hwn. Yn anffodus, nid yw'r trafodaethau hyn wedi esgor ar unrhyw atebion pendant i symud y broses ymlaen. Byddaf yn awr yn ceisio gweithio gyda'r Gweinidogion newydd yn yr adrannau hyn yn dilyn yr ad-drefnu diweddar ar Gabinet y DU. Rwyf yn awyddus i ddatrys y mater mewn ffordd sy'n galluogi'r ddwy Lywodraeth i fynd ymlaen â'u hagendâu polisi gwahanol mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

I am hopeful that we will be able to find a workable and agreeable solution that will ensure that the working conditions of agricultural workers in Wales will remain protected. I am to meet David Heath, the Minister of State for Agriculture and Food, on 15 October, and the AWB will be a key agenda item. This will be the sixth UK Minister that I have met in the past 18 months to discuss this issue. It is clear that the UK Government does not have a clear idea of where it is going or what it wants to achieve. I would appeal to the current Ministers and their departments to work together with the Welsh Government to ensure that we have a positive outcome on

Rwyf yn obeithiol y byddwn yn gallu canfod ateb ymarferol a dymunol a fydd yn sicrhau y bydd amodau gwaith gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn dal i gael eu diogelu. Rwyf i gwrdd â David Heath, y Gweinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth a Bwyd, ar 15 Hydref, a bydd y bwrdd yn eitem allweddol ar yr agenda. Hwn fydd y chweched Gweinidog y DU yr wyf wedi cwrdd ag ef yn ystod y 18 mis diwethaf i drafod y mater hwn. Mae'n amlwg nad oes gan Lywodraeth y DU syniad clir i ble y mae'n mynd neu beth y mae am ei gyflawni. Byddwn yn apelio ar Weinidogion presennol a'u hadrannau i weithio gyda'i gilydd gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cael canlyniad

this matter.

cadarnhaol ar y mater hwn.

Even if our continued negotiations with the UK Government fail to result in an amicable agreement, I want to make it absolutely clear this afternoon that the Welsh Government will continue to explore all available options to ensure that the functions of the Agricultural Wages Board are maintained in Wales.

Hyd yn oed os yw ein trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU yn methu ag arwain at gytundeb cyfeillgar, rwyf am ei gwneud yn gwbl glir y prynhawn yma y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymchwilio i'r holl opsiynau sydd ar gael i sicrhau bod swyddogaethau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn cael eu cynnal yng Nghymru.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.52 p.m.*
*The meeting ended at 5.52 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)

Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)